

Bundle Annual General Meeting Welsh 24 September 2020

9.30am Trwy WebEx

- 1 Agenda
 Agenda AGM 24.9.20 v2.0 Cymraeg.docx
- 2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20 - Gill Harris
 A20.2a Annual Report & Accounts 2020_Cymraeg.pdf
 A20.2b Annual Report Acting CEO presentation v1.0.ppt
- 3 Datganiad Ansawdd Blynyddol - Debra Hickman
 A20.2.1a Annual Quality Statement 2019-20 V1.0 Cymraeg.pdf
 A20.2.1b AQS presentation.ppt
- 4 Cyfrifon Cyllid Blynyddol - Sue Hill
 A20.2.2 Financial presentation.pptx

Agenda

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Dyddiad 24/09/2020
Amser 09:30 - 10:30
Lleoliad Rhithwir drwy Webex
Cadeirydd Mark Polin

- 1 A20.1 Croeso a Chyflwyniad - Mark Polin**
- 2 A20.2 Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2019/20 - Gill Harris**
Cyflwyniad
 - 2.1 A20.2.1 Datganiad Ansawdd Blynnyddol - Debra Hickman**
Cyflwyniad
 - 2.2 A20.2.2 Cyfrifon Cyllid Blynnyddol - Sue Hill**
Cyflwyniad
- 3 A20.3 Diweddariad Mesurau Arbennig - Gill Harris**
- 4 A20.4 Edrych ymlaen - Gill Harris**
- 5 A20.5 Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**
- 6 A20.6 Sylwadau Terfynol - Mark Polin**

V2.0



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2019/20



Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhan o adroddiadau cyhoeddus blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n disgrifio ein darpariaeth gwasanaeth, perfformiad ariannol ac amgylcheddol am y flwyddyn ac yn disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn cael ei ddarparu fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn ffurfio rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac yn darparu adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, sydd wedi ei gyhoeddi ar wahân, yn rhoi gwybodaeth am ansawdd y gofal ar draws ein gwasanaethau ac yn darlunio'r gwelliannau a'r datblygiadau rydym wedi eu cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i wella ansawdd y gofal rydym yn ei ddarparu.

Gallwch lawr lwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd ar <https://bipbc.qig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/>

neu maent ar gael ar gais i Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanellwy, Llanellwy, LL17 0JG, ar y ffôn ar 01248 384776 neu drwy e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk.

RHAN UN - ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg	6
Datganiad y Prif Weithredwr	6
Ein diben a gweithgareddau.....	8
Fframwaith Cynllunio	10
Materion allweddol a risgiau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion	11
Dadansoddiad Perfformiad.....	12
Crynodeb	12
Aros yn iach	14
Imiwneiddio	14
Brechiadau'r Ffliw	15
Rhoi'r gorau i ysmegu	15
Gofal diogel.....	16
Atal heintiau	17
Rhagnodi gwrthficrobaidd.....	18
Digwyddiadau difrifol i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru	19
Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd.....	19
Gofal gydag urddas.....	20
Triniaethau a ohiriwyd ar fyr rybudd	20
Ymatebion i Bryderon	21
Gofal effeithiol.....	22
Oedi wrth drosglwyddo gofal	22
Marwoldeb	23
Gofal prydlon.....	24
Gofal Prydlon	25
Cyfeirio at Driniaeth (RTT).....	25
Yr Adran Achosion Brys.....	27
Diagnosteg.....	29
Diagnosis a thriniaeth canser	29
Gofal strôc.....	31
Asesiadau ac ymyriadau iechyd meddwl.....	32
Gofal unigol.....	34
Cynlluniau Triniaeth Gofal (CTP).....	34
Staff ac adnoddau	35
Ein cynhyrchaeth	35
Ein staff.....	35
Ein gweithgarwch.....	37
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	38
Mabwysiadu'r Pum Ffordd o Weithio	39
Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	40
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9).....	41
Adroddiad Cynladwyedd	42
Gwaith mewn Partneriaeth	43
ISO14001:2015 System Rheoli Amgylcheddol.....	44
Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol.....	45
Hyfforddiant Amgylcheddol a Gwastraff	46
Rheoli gwastraff	46
Ynni a rheoli carbon	47
Cludiant.....	48
Caffael cynladwy.....	49
Adeiladu cynladwy	49
Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol	50
Crynodeb perfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau gwasanaeth	51
Tueddiadau Gwariant Tymor Hir	56
Datganiad Ansawdd Blynyddol.....	57

RHAN DAU - ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	58
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	58
Y Bwrdd	58
Pwyllgor Archwilio	58
Datganiadau o fuddiant y cyfarwyddwyr	59
Diogelwch data	59
Cydymffurfio â gofynion dyrannu costau	59
Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y BILI	60
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y cyfrifon	61
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	61
Adroddiad Tâl.....	62
Polisiâu ar gyfer tâl staff ac uwch reolwyr	62
Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	62
Perthnasau tâl.....	63
Pecynnau ymadael a thaliadau diswyddo	63
Cyflog uwch reolwyr a datganiadau pensiwn a chyfanswm tâl un ffigwr.....	65
Adroddiad Staff.....	84
Ymgysylltiadau ac ymgynghoriaethau heb fod ar y gyflogres	85
Cydraddoldeb a hawliau dynol	86
Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	87
Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru	88
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Senedd Cymru.....	91

RHAN TRI - CYFRIFON BLYNYDDOL

Rhagair	1A
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	2A
Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill.....	2A
Datganiad o Safle Ariannol	3A
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.....	4A
Datganiad o Lifau Arian	6A
Nodiadau i'r Cyfrifon	7A

YCHWANEGIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1 Cyflwyniad.....	1B
2 Cwmpas Cyfrifoldeb	2B
3 Gwybodaeth Gefndir	4B
4 Mesurau Arbennig	4B
5 Gwasanaeth Cynghorol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) / Ockenden	5B
6 Sefyllfa Ariannol	6B
7 Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig (IMTP) - Cynllun Gweithredol Tair Blynedd.....	6B
8 Bod yn Barod am Argyfwng.....	8B
9 Gweithio mewn Partneriaeth.....	9B
10 Swyddogaeth y Bwrdd	9B
11 Cyfansoddiad y Bwrdd	11B
12 Effeithiolrwydd a Safonau'r Bwrdd	11B
13 Datblygiad y Bwrdd	11B

14 Trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau	12B
<i>Pwyllgor Archwilio</i>	<i>15B</i>
<i>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.....</i>	<i>16B</i>
<i>Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl.....</i>	<i>17B</i>
<i>Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.....</i>	<i>18B</i>
<i>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</i>	<i>19B</i>
<i>Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth</i>	<i>20B</i>
<i>Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth.....</i>	<i>21B</i>
<i>Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth</i>	<i>22B</i>
<i>Grwpiau Cyngorl</i>	<i>23B</i>
<i>Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid</i>	<i>23B</i>
<i>Fforwm Partneriaeth Leol</i>	<i>24B</i>
<i>Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.....</i>	<i>25B</i>
<i>Pwyllgorau Cenedlaethol</i>	<i>26B</i>
15 Pwrpas y System Rheoli Mewnol.....	26B
16 Y gallu i Ymdrin â Risg	27B
17 Y Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol.....	29B
18 Prif Risgiau	31B
19 Risgiau Allweddol	31B
20 Y Fframwaith Rheoli.....	32B
21 Rheolau Sefydlog	32B
22 Archwilio Allanol	34B
23 Cod Llywodraethu Corfforaethol	34B
24 Trefniadau Ansawdd a Llywodraethu	35B
25 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.....	36B
<i>Ymgysylltu â Staff</i>	<i>39B</i>
26 Safonau Iechyd a Gofal Cymru: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	40B
27 Safonau Iechyd a Gofal (HCS): Fframwaith Diwygiedig.....	40B
28 Strategaeth Gwella Ansawdd (QIS).....	41B
29 Elfennau Eraill o'r Fframwaith Rheoli.....	42B
<i>Cydraddoldeb a Hawliau Dynol</i>	<i>42B</i>
<i>Cynllun Pensiwn</i>	<i>43B</i>
<i>Dilysu Ôl Daliadau</i>	<i>43B</i>
<i>Cynlluniau Darparu Lleihau Carbon.....</i>	<i>43B</i>
<i>System Reoli Amgylcheddol (EMS) ISO14001 BIPBC.....</i>	<i>44B</i>
<i>Rheoli Gwastraff</i>	<i>45B</i>
<i>Gwasanaeth Lleol Gwrth Dwyll.....</i>	<i>46B</i>
<i>Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHCs) a Chyfarwyddiadau Gweinidogion</i>	<i>46B</i>
30 Data	47B
<i>Diogelwch Data.....</i>	<i>47B</i>
<i>Ansawdd Data.....</i>	<i>49B</i>
31 Adolygu Effeithiolrwydd	50B
32 Archwilio Mewnol.....	51B
<i>Yr hyn sy'n Sail i'r Farn.....</i>	<i>52B</i>
<i>Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Rheoleiddio.....</i>	<i>53B</i>
<i>Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd</i>	<i>53B</i>
<i>Llywodraethu a Rheoli Ariannol.....</i>	<i>53B</i>
<i>Ansawdd a Diogelwch.....</i>	<i>54B</i>
<i>Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch.....</i>	<i>55B</i>
<i>Gwasanaeth Gweithredol a Rheoli Swyddogaethol</i>	<i>55B</i>
<i>Rheoli Gweithlu.....</i>	<i>55B</i>
<i>Rheoli Cyfalaf ac Ystadau</i>	<i>56B</i>
33 Archwilio Allanol	57B
34 Casgliad	58B
Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2019/20.....	60B
Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng nghyfarfodydd y bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2019/20.....	67B
Cofnodion y Bwrdd Iechyd a'r Phwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2019/20	69B
Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHCs)	70B
Rheoli Risg Yn Ystod Achosion Covid-19.....	77B

Trosolwg

Datganiad y Prif Weithredwr

Pan ymunais â'r Bwrdd Iechyd fel Prif Weithredwr dros dro ym mis Chwefror 2020, roedd hi'n anodd dychmygu sut byddai pethau'n datblygu dros yr ychydig fisoedd i ddod. Mae'r pandemig coronafirws byd eang wedi achosi newid mawr ac aflonyddwch yn y ffordd rydym yn byw ein bywydau, ac mae'r effaith ar y GIG wedi bod yn eang a difrifol.

Mae'r gwaith a wnaed gan gydweithwyr ar draws y sefydliad wrth ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, na welwyd ei fath o'r blaen, wedi creu argraff fawr arnaf. Mae'r egni a'r ymroddiad wrth baratoi ar gyfer y niferoedd o achosion a ddisgwyliwyd a'r gwaith diflino dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn amlwg yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y Bwrdd. Dymunaf achub ar y cyfle hwn i nodi fy nioch personol i bawb sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd a gyda ni.



Bu newidiadau a gwelliannau arwyddocaol yn ystod 2019/20, ond roedd hi'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau mewn amryw feysydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan Fesurau Arbennig, ond mae cynnydd wedi'i wneud yn yr holl feysydd a arweiniodd at eu gosod yn wreiddiol, ac mae nifer o agweddau wedi cael eu diddymu fel materion o bryder.

Ni fu'n bosibl i'r Bwrdd Iechyd symud i sefyllfa mantoli ariannol, gan ddiweddu'r flwyddyn gyda throswariant o £38.7miliwn, hefyd, ni wnaeth perfformiad amserau aros wella.

Yn rhannol, roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn galwadau brys a roddwyd ar y Bwrdd Iechyd. Yn y naw mis cyntaf o'r flwyddyn, fe wnaethom dderbyn oddeutu 2,400 mwy o gleifion brys na'r un amser yn ystod y flwyddyn flaenorol (cynnydd o 3.3%), a gwelwyd dros 5,300 yn fwy yn mynychu ein hadrannau achosion brys (cynnydd o 3%).

Er bod y sefydliad wedi parhau i weithio ar fesurau i ymateb i'r pwysau hyn, bu effaith ar ein gallu i ddod â chleifion i mewn ar gyfer llawdriniaethau a gynlluniwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn, gwelwyd nifer fawr o gleifion yn aros am gyfnodau hirach na thargedau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn her sy'n ailddigwydd i'r Bwrdd, ac mae'r pandemig Covid wedi cynyddu hyn yn arwyddocaol.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fethu darparu Cynllun Integredig Cyfnod Canolig (IMTP) a fyddai'n ei alluogi i gyflawni ar ei dargedau perfformiad wrth fodloni ei oblygiadau ariannol. O ganlyniad, fe wnaethom dorri ein dwy ddyletswydd ariannol i fantoli ein hincwm a gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, a gosod Cynllun Integredig Tymor Canolig tair blynedd dreigl a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Ond, mae'n bwysig cydnabod y meysydd y cyflawnwyd gwelliannau, neu mae perfformiad cryf wedi cael ei gynnal.

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cofnodion gorau yng Nghymru am warchod ei breswylwyr drwy amrywiol raglenni imiwneiddio mae'n eu hyrwyddo a'u gweithredu, a pharhaodd hyn drwy'r flwyddyn.

Rydym hefyd ymysg y perfformwyr gorau yng Nghymru o ran yr amser bydd cleifion sydd wedi cael diagnosis canser yn dechrau eu triniaeth.

Rydym wedi cyflawni lleihad cynaliadwy yn nifer y cleifion a ryddhawyd o'r ysbyty heb oediad, sydd wedi'n helpu i reoli'r cynnydd mewn cleifion oedd angen derbyniad brys.

Hefyd, bu gwelliannau o ran sut byddwn yn ymateb i bethau sy'n mynd yn groes i sut dylen nhw. Mae ein perfformiad o ran adrodd ac ymateb i ddigwyddiadau anffafriol wedi mynd o fod y gwaethaf yng Nghymru i'r gorau yng Nghymru, ac rydym wedi cyflawni gwelliant arwyddocaol yn y cyflymder byddwn yn ymateb i gwynion. Rydym hefyd wedi lleihau nifer y digwyddiadau 'na ddylent byth ddigwydd' yn ystod y flwyddyn.

Fel y soniais eisoes, newidiodd y sefyllfa oedd yn wynebu'r Bwrdd Iechyd yn fawr iawn yn niwedd mis Chwefror, a drwy gydol mis Mawrth wrth i'r wlad wynebu bygythiad y pandemig coronafirws. Fe wnaethom ddechrau paratoi fel ein bod yn barod i wynebu ymchwydd yn y derbyniadau brys a'r galw am gyfleusterau gofal dwys. Ar yr un pryd, bu raid i ni gynllunio sut i barhau i ddarparu gofal brys a hanfodol i gleifion gyda chyflyrau iechyd eraill difrifol mewn modd diogel.

Roedd yr ymateb a ddaeth yn sgil hyn yn arddangos brwdfrydedd, ymroddiad ac arloesedd y staff ar draws y Bwrdd Iechyd wrth iddynt weithredu newidiadau radical i sut rydym yn gweithredu'n gwasanaethau.

Ad-drefnwyd ysbytai i greu mwy o gapasiti ar wardiau a gofal dwys ac i ddarparu cyfleusterau ar wahân i gleifion gyda Covid-19 a hebdo. I gefnogi ymbellhau cymdeithasol, cafwyd symudiad enfawr i ymgynghoriadau ffôn a rhithiol ar lein, a chynnydd arwyddocaol mewn gweithio o bell ac o gartref. Dechreuasom ddatblygu tri ysbyty maes 'enfys' gyda sefydliadau partner allweddol, a all ddarparu capasiti gwelyau brys ychwanegol, os byddai eu hangen.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, gwyddom nawr bod gogledd Cymru wedi profi cynnydd arafach mewn niferoedd achosion na rhannau eraill y DU a, hyd yn hyn, maer ein paratodau wedi golygu ein bod wedi gallu rheoli niferoedd y cleifion sydd wedi dod ar ofyn ein gwasanaethau.

Yn drist iawn, fe wnaethom golli dau aelod o staff rheng flaen i Covid-19. Mae'n rhaid i mi roi teyrnged i Andy Treble, aelod o'r tîm theatr llawdriniaethau yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a Rizal "Zaldy" Manalo, Nyrs Staff yn Ysbyty Glan Clwyd.

Rwy'n dymuno cloi fy natganiad drwy gynnig gair o ddiolch i staff ar draws y Bwrdd Iechyd am eu hymdrechion drwy gydol y flwyddyn, ond yn enwedig dros y misoedd diwethaf. Bu'r cyfnod hwn yn eithriadol i'r GIG, a gofynnodd, a derbyniodd ymateb anhygoel gan gydweithwyr, a gwerthfawrogaf hyn yn fawr iawn.

Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro

Ein diben a gweithgareddau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles ar gyfer poblogaeth o dros 670,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys rhwystro salwch yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd ardderchog.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymuned ac iechyd meddwl yn ogystal ag ysbytai llym. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 103 o Feddygfeydd a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.

Yn 2019/20 roedd gan y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.62 biliwn ar gyfer 2019/20 a gweithlu o oddeutu 18,240 (15,745 o staff sy'n gweithio ar sail gyfwerth ag amser llawn).

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais penodol ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig, sy'n darparu gofal ardderchog wedi'i roi mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, a sefydliadau sector statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn diwylliant dysg sy'n gyfoethog mewn ymchwil.

Ein Hamcanion Lles

Yn ystod 2019/20, parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio tuag at yr amcanion lles a sefydlwyd yn 2018 ac a nodir isod:

- Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd;
- Targedu ein hadnoddau ar unigolion sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau;
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i gyflawni eu lles eu hunain;
- Gwella diogelwch ac ansawdd bob gwasanaeth;
- Parchu unigolion a'u hurddas;
- Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau.

Cafodd yr amcanion hyn, a osodwyd yn dilyn cael adborth gan ein poblogaeth ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, eu cynnwys yn ein rhagolwg tair blynedd a chynllun blynyddol drafft ar gyfer 2019/20. Yn anfoddus, nid oedd yn bosibl cwblhau'r cynllun blynyddol yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol, yn rhannol oherwydd y tarfu a achoswyd gan yr ymateb angenrheidiol i'r pandemig COVID-19, a arweiniodd at oedi'r broses gynllunio. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ymateb i'r pandemig ac i gydbwyso rheoli cleifion COVID-19 a darparu gwasanaethau hanfodol eraill wrth gadw at reolau ymbellhau cymdeithasol a'r angen i amddiffyn ein staff a chleifion.

Rydym yn parhau i weithio tuag at wella sut ydym yn gweithio at yr egwyddor datblygiad cynaliadwy yn ein busnes bob dydd, er mwyn bodloni ysbryd a bwriad y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau i'r Bwrdd Iechyd gyda'r cyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru i gyfrannu tuag at gyflawni saith nod lles cenedlaethol, i ehangu ein rhagolygon ac i feddwl yn hir dymor o ran gwneud hynny.



Tymor Hir

Mae'r Ddeddf yn dynodi pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddorion datblygiad cynaliadwy sy'n tanategu'r Ddeddf. Fel yn y paragraff uchod, rydym wedi defnyddio'r eiconau 'pum ffordd o weithio' (fel y nodwyd ar dudalen 38 yr adroddiad hwn) i ddynodi enghreifftiau o ble mae'r rhain yn cael eu dangos yn ein gwaith.

2018/19 oedd y drydedd flwyddyn yn ail gyfnod ein Strategaeth Gwella Ansawdd, sy'n rhedeg o 2017 i 2020, ac sy'n adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud dros y tair blynedd ddiwethaf, o 2014 i 2017. Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu drwy ymgysylltu'n estynedig â chleifion, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn gosod pum nod penodol i'r sefydliad:



Ymglymiad

- I gael dim marwolaethau y gellir eu hosgoi;
- sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel drwy barhau i chwilio am gyfleoedd ble gallai niwed ddigwydd i gleifion a'u lleihau;
- I fod yn effeithiol drwy gyflawni'r lefel uchaf o ddibynadwyedd ar gyfer gofal clinigol;
- I ofalu a darparu'r hyn sydd o fwyaf o bwys, gan weithio mewn partneriaeth â chleifion, gofalmwr a theuluoedd i fodloni eu holl anghenion a gwella eu hiechyd yn weithredol;
- ddarparu gofal arloesol ac integredig yn agosach at y cartref, sy'n cefnogi ac yn gwella iechyd, lles a byw'n annibynnol.

Yn ogystal â gwella iechyd a chyflawni gwasanaethau gofal a chlinigol, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft, o ran materion megis hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygiad cynaliadwy a'r Gymraeg.

I gyflawni ein hamcanion, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio. Mae'r cyrff yn cynnwys:



Cydweithio

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Y Cyngorau Gwirfoddol Cymuned;
- Byrddau Gwasanaeth Partneriaeth / Byrddau Arweinyddiaeth Rhanbarthol;
- Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth.

Fframwaith Cynllunio

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Byrddau Iechyd baratoi a chyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd (IMTP) i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer 2019/20, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu llunio IMTP cymeradwy a fyddai'n sicrhau cydbwysedd ariannol. Felly gwnaethom weithio'n unol â chynllun tair blynedd amlinellol ar gyfer 2019-2022 a ddatblygwyd ac a gytunwyd arno yn y flwyddyn flaenorol (ac sydd wedi ei adnewyddu ar gyfer ail flwyddyn y cyfnod hwn) a Chynllun Gweithredu Blynyddol. Drafftwyd y cynllun gweithredu ar gyfer 2019/20 i gefnogi darparu gofynion mesurau arbennig Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau cynllunio GIG Cymru a blaenoriaethau a ddynodwyd yn lleol. Er bod y cynllun wedi parhau fel drafft gan nad oedd y Bwrdd yn gallu cwblhau'r gwaith arno, trwy gydol y flwyddyn, gwnaed cynnydd ar lawer o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer gwella yn y cynllun, yn cynnwys:

- Datblygu ymhellach y gefnogaeth ar gyfer ffordd o fyw iach yn cynnwys mwy o gyfleoedd i roi'r gorau i ysmegu, darparu ymgyrch Mi Fedraf yn hyrwyddo lles meddyliol a gwaith partneriaeth i wella canlyniadau yn y 1000 diwrnod cyntaf;



Tymor Hir

- Cefnogi datblygiad mwy o glystyrau, yn cynnwys datblygu cynlluniau clwstwr ffurfiol i ymdrin ag anghenion lleol;
- Sefydlu'r tîm hunaniaeth rhyw Gogledd Cymru;

- Gweithio mewn partneriaeth i roi strategaeth Anableddau Dysgu'r Bwrdd Partneriaethau Lleol ar waith a datblygu'r strategaeth dementia;



Cydweithio

- Datblygu rhaglenni cronfa trawsnewid y Bwrdd Partneriaethau Lleol ar gyfer gwasanaethau cymuned integredig a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, anghenion iechyd meddwl a phobl ag anableddau dysgu;



Cydweithio

- Drwy gronfeydd trawsnewid, sefydlu'r Hwb Ymchwil, Arloesedd a Gwella ar y cyd, drwy'r Bwrdd Partneriaethau Lleol;
- Cwblhau datblygiad ein canolfan fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Datblygu'r rhaglen gofal llygaid ymhellach, y llwybr cancer unigol ac achosion busnes llwybrau orthopaedeg a strôc;
- Sefydlu ymateb rheoli a gwasanaeth cadarn i'r pandemig Covid-19 gan weithio gyda phartneriaid yng Ngogledd Cymru.

Mae gwaith yn parhau i lunio IMTP sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chynaliadwyedd a chydbwysedd ariannol.

Materion allweddol a risgiau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion

Mae gan y Bwrdd Iechyd broffil risg heriol oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymunedol hyd at ofal ysbyty llym yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl ac uned diogelwch canolog. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnig gwasanaethau gofal iechyd carchar yn HMP Berwyn, Wrecsam. Yn ogystal â hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd ddosbarthiad daearyddol eang, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth sylweddol o wasanaethau o Loegr. Hefyd, mae'n gallu ymdrin â brig mewn galw oherwydd bod Gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau o ddewis i lawer iawn.

Cynhaliodd y Grŵp Rheoli Risg newydd, a sefydlwyd yn gynnar yn 2019 i oruchwylio gweithredu'r Strategaeth Rheoli Risg wedi'i diweddarau, ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2019, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr. Trosglwyddodd y cyfrifoldeb arweiniol dros risg a sicrwydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr ym mis Medi 2019.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu naw prif risg o ran cyflawni ei nodau corfforaethol:

- Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion
- Methiant i gynnal cynladwyedd ariannol
- Methiant i reoli perfformiad gweithredol
- Methiant i gynnal gweithlu ymgysylltiedig ac effeithiol
- Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol
- Methiant i gyflawni buddion y partneriaethau strategol
- Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach
- Methiant i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd
- Methiant i fewnosod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau llywodraethu.

Mae pob maes risg a nodir ar y Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd (CRAF) yn gysylltiedig ag un o'r prif feysydd risg hyn. Mae manylion y rheoliadau cyfredol a'r gweithrediadau pellach sy'n cael eu cymryd ar gyfer pob risg a nodwyd wedi'u manylu o fewn CRAF y Bwrdd Iechyd ac ar gael yn gyhoeddus ar wefan BIPBC.

Arweiniodd y bygythiadau'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 at ddynodi risgiau sylweddol pellach i'r Bwrdd Iechyd tuag at ddiwedd 2019/20 ac i'r flwyddyn ganlynol. Caiff yr ymagwedd a gymerwyd at reoli'r risgiau hyn eu disgrifio yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol sydd ynghlwm â'r adroddiad hwn (Adrannau 15 i 17).

Cafodd drwy risg benodol yn ymwneud â'r pandemig eu dwysau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod 2019/20:

- CRR27– Risg i iechyd a diogelwch cyhoeddus yn codi o COVID-19 a galw'n uwch na gallu sefydliadol.
- CRR28 – Risg o haint o COVID-19 i staff a chleifion o ganlyniad i gyflenwad, ansawdd neu ddefnydd annigonol o PPE.

Manylir ar y meysydd risg penodol yn ymwneud â Mesurau Arbennig yn adran 19 y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Crynodeb

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur ar draws saith parth neu faes allweddol, sy'n cyd-fynd â Safonau Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru a Fframweithiau Cenedlaethol Perfformiad.

Mae'r dangosfwrdd cryno isod yn dangos ein perfformiad ar draws yr ystod o ddangosyddion y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Rydym wedi dangos gwelliant cyffredinol mewn perthynas â helpu pobl i aros yn iach ac o ran cynnig gofal urddasol. Fodd bynnag, mae ein perfformiad wedi dirywio mewn perthynas â chynnig gofal prydlon ac unigol ac o'i fesur yn erbyn dangosyddion gofal diogel ac effeithiol.

Bob mis, rydym yn rhoi nodiadau briffio manwl i'n Bwrdd ar ein perfformiad, gan amlinellu'r camau allweddol i'w cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael, beth yw canlyniadau'r camau hynny a'r amserlen o ran pa bryd yr ydym yn disgwyl i berfformiad gyflawni'r targed yn gyson.

Mae'r angen i gynllunio ar gyfer pandemig Covid-19 ac i ymateb iddo wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a'r gymdeithas gyfan. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig, sydd wedi arwain at nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig ac i ddod drosto yn parhau, i'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach, trwy gydol 2020/21 a thu hwnt. Bydd Fframwaith Llywodraethu'r sefydliad yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Arweiniodd pandemig Covid-19 at nifer o heriau i'r sefydliad sydd wedi cael eu cynrychioli yn y datgeliadau canlynol o fewn prosesau adrodd ar berfformiad a'r cerdyn sgorio.

Yn unol â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, mae data perfformiad cyflawn ar gyfer y sefydliad wedi'i gyflwyno ar gyfer tri chwarter cyntaf 2019/20 yn unig. Roedd y pandemig a rhoi'r gorau dros dro i fonitro perfformiad ganol mis Mawrth wedi effeithio ar y chwarter arall (Ionawr 2020 hyd at Fawrth 2020). Mae tueddiadau perfformiad wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio'r cyfnod rhwng Ebrill 2019 hyd at Ragfyr 2019. Dim ond y mesurau hynny sydd â tharged diamod misol / chwarterol ar gyfer Rhagfyr 2019 neu chwarter 3 2019/20 sydd wedi'u cynnwys yn y golofn 'Targedau a gyflawnwyd' ar y cerdyn sgorio.

Mae'r sefydliad wedi darparu gwybodaeth leol am reoli a naratif ar y ddarpariaeth a chyflawniadau trwy gydol chwarter olaf 2019/20 yn absenoldeb data perfformiad swyddogol.

Uchafbwynt y Mis – Ebrill 2019

Mae Theatr Hybrid newydd Ysbyty Glan Clwyd, sy'n cefnogi darpariaeth y model gofal newydd ar gyfer cleifion fasgwlaidd ar draws Gogledd Cymru, wedi agor ym mis Ebrill.

Roedd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd wrth law i agor y theatr a'r ward fasgwlaidd ddynodedig, ar ôl buddsoddiad o dros £2.2 miliwn. Mae Ysbyty Glan Clwyd yn awr yn cynnal rota brys meddygon ymgynghorol fasgwlaidd 24 awr y diwrnod, 7 niwrnod yr wythnos, ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Gymdeithas Fasgwlaidd.

Mae'r gwaith yn parhau o ran ail ddatblygu Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych yn Y Rhyl, a chyfleuster iechyd meddwl cleifion mewnol, sef Uned Ablett.



	Perfformiad Gwell	Perfformiad Cyson	Dirywiad mewn Perfformiad	Crynodeb o'r Perfformiad	Targed wedi'i gyflawni*
AROS YN IACH - Mae gan bobl yng Nghymru ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol	3 mesur	0 mesur	2 mesur		1 mesur
GOFAL DIOGEL - Mae pobl yng Nghymru wedi eu hamddiffyn rhag niwed ac yn cael eu cefnogi i amddiffyn eu hunain rhag niwed	3 mesur	0 mesur	12 mesur		1 mesur
GOFAL GYDAG URDDAS - Mae pobl yng Nghymru yn cael eu trin â pharch ac urddas ac yn trin eraill yr un fath	1 mesur	0 mesur	1 mesur		
GOFAL EFFEITHIOL - Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a chefnogaeth iawn mor lleol â phosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiant	1 mesur	0 mesur	7 mesur		
GOFAL PRYDLON - Mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad prydlon at wasanaethau'n seiliedig ar angen clinigol ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal	6 mesur	1 mesur	19 mesur		3 mesur
GOFAL UNIGOL - Mae pobl yng Nghymru yn cael eu trin fel unigolion, gyda'u hanghenion a chyfrifoldebau eu hunain	1 mesur	0 mesur	4 mesur		2 mesur
EIN STAFF AC ADNODDAU - Gall pobl yng Nghymru ddod o hyd i wybodaeth am sut y darperir adnoddau i'r GIG ac yn eu defnyddio'n ofalus	3 mesur	0 mesur	2 mesur		1 mesur
CRYNODEB	18 mesur	1 mesur	47 mesur		8 mesur

*Yn ymwneud â'r mesurau hynny gyda tharged misol/chwarterol diamed ar gyfer Rhagfyr 2019 / Chwarter 3 2019/20

Sylwer – mae'r cerdyn sgorio hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2019

Uchafbwynt y Mis – Mai 2019

Unodd y Bwrdd Iechyd â sefydliadau iechyd eraill ar draws y byd i ymrwymo â'r Her Nightingale i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys.

Dros y 12 mis cyn pen-blwydd Florence Nightingale yn 200 oed yn 2020, bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu gwell mynediad at gefnogaeth arwain ac arloesi ar gyfer nyrsys a bydwagedd cymwys a myfyrwyr, yn ogystal â chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb rhyw a chysylltiadau agosach â phartneriaid nyrsio rhyngwladol.

Yn hwyrach yn y flwyddyn, cafodd staff Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn Ysbyty Maelor Wrecsam eu henwi fel Tîm y Flwyddyn y 'Nursing Times' am eu gwaith i leihau ataliaeth ar gleifion.



Aros yn iach

Mae'r maes hwn o'n perfformiad yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i amddiffyn iechyd a lles unigolion a'i wella ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Atal

Rydym eisiau grymuso ein dinasyddion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac i sicrhau bod gofalwyr unigolion nad ydynt yn gallu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cefnogi.

Tymor Hir

Mae gennym dargedau yn y maes hwn i wella iechyd y boblogaeth. Mae'r targedau hyn dros rychwant oes ein poblogaeth, o sicrhau bod plant yn cael dechrau iach mewn bywyd i sicrhau bod cleifion sydd â chyflyrau cronig yn cael eu cefnogi'n dda i fyw yn y gymuned.

Dangosyddion Perfformiad Aros yn iach		Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
% o ferched beichiog a roddodd y gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd (erbyn wythnos 36-38 o'u beichiogrwydd)		2019	13.70%		↑
% o blant a dderbyniodd:	3 dos o'r brechiad '6 mewn 1'	Chwarter 3 2019/20	96.60%		↑
	2 dos o'r brechiad MMR erbyn 5 oed	Chwarter 3 2019/20	93.70%		↓
Cyfradd safonedig oedran Ewropeaidd o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol ar gyfer unigolion sy'n byw yng Nghymru		Chwarter 3 2019/20	447.1		↑
% o blant 10 niwrnod oed a gafodd fynediad at gydran ymwelydd iechyd 10-14 diwrnod o'r Rhaglen Plant Iach Cymru		Chwarter 2 2019/20	92.90%		↓

Yn y saith tabl perfformiad parth hyn, mae'r cod lliw RAG (coch, amber, gwyrdd) yn dangos a yw perfformiad wedi gwella (gwyrdd), dirywio (coch) neu aros yr un fath (amber). Mae'r saeth yn y golofn ochr dde yn nodi'r tuedd dros gyfnod yr adroddiad. Amodir y cyfnodau adrodd yn y tablau hyn gan Lywodraeth Cymru.

Imiwneiddio

Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i annog pobl i ddiogelu nhw eu hunain a'u teuluoedd. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym wedi rhagori'n gyson ar y gyfradd darged o 95 y cant o ran imiwneiddio plant gyda brechlyn '6 yn 1', gan felly sicrhau bod ein plant yn cael eu diogelu rhag heintiau difftheria, tetanws, y pas, Hib, polio a hepatitis B. Erbyn diwedd Mawrth 2020, derbyniodd 96.7 y cant o'n plant y brechlyn hwn, y Bwrdd Iechyd oedd ymhlith y tri â'r perfformiad gorau yng Nghymru o ran y mesur hwn.

Atal

Er na wnaethom gyflawni'r gyfradd darged o 95 y cant o ran darparu'r brechlyn MMR, gyda 94.8 y cant ar ddiwedd Mawrth 2020, ni yw'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran canran y plant yr ydym yn eu brechu rhag MMR.

Brechiadau'r Ffliw

Mae amddiffyn pobl rhag y risg o gael y fflw yn brif elfen mewn helpu'r GIG i leihau'r galw am ofal brys dros y gaeaf. Mae nifer y bobl sy'n gymwys i gael eu brechu ac sy'n cael brechiadau wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn yn achos y grwpiau sydd o dan 65 oed (i fyny dros 3,000) a throsodd (i fyny dros 3,300).



Atal

Mae lefel gynyddol y brechiadau a roddir yn dangos y gwaith caled y mae ein staff wedi'i wneud i hybu'r angen am frechiadau. Mae Gogledd Cymru yn parhau â'r gyfradd uchaf o bobl sy'n cael eu brechu yng Nghymru ar 71.4% i rai dros 65 oed a 46.9% i rai dan 65 oed. Mae hyn yn gynydd i'r grŵp oedran dros 65 oed. Roedd cynnydd yn nifer y bobl dan 65 oed oedd yn gymwys i gael eu brechu y llynedd a chynyddodd y nifer yn y grŵp hwn a gafodd eu brechu. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl oedd yn gymwys, ni chyflawnwyd y gyfradd %. Mae hyn yn dangos bod angen i ni barhau â'n hymdrechion i annog pobl i'w hamddiffyn eu hunain.

Gogledd Cymru oedd yr ardal orau yng Nghymru o ran nifer y merched beichiog a gafodd y brechiad fflw, sef 86.4%.

Rhoi'r gorau i ysmegu

Mae staff yng Ngwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu'r Bwrdd Iechyd wedi trin 3.08% o'r boblogaeth sy'n ysmegu sy'n dangos yr ail berfformiad gorau yng Nghymru, ond cydnabyddir nad yw hyn yn cyflawni'r targed 5%.

O'r rhai a gafodd eu trin gan y gwasanaethau, cafodd 38.46% eu dilysu fel rhai a oedd wedi rhoi'r gorau i ysmegu. Er bod hwn yn welliant ers y llynedd, mae'n parhau i fod yn is na'r targed 40% ac mae ei wella'n parhau'n flaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (2020 hyd at 2022).

Uchafbwynt y Mis – Mehefin 2019



Lleihaodd therapyddion galwedigaethol yn Ysbyty Glan Clwyd hyd arhosiad cleifion 50% fel rhan o gynllun peilot.

Mae'r prosiect "Cartref yn Gyntaf", sy'n helpu cleifion i ddychwelyd adref o'r ysbyty unwaith maent wedi gorffen eu triniaeth feddygol i gleifion mewnol, wedi helpu bron i naw o bob deg claf mewnol yn yr ysbyty i adennill yr hyder a'r nerth i ddychwelyd adref yn ddiogel.

Cafodd y cynllun dan arweiniad Therapyddion Galwedigaethol ei gyflwyno ar bob ward yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin mewn ymdrech i helpu cleifion i gadw eu hannibyniaeth, lleihau'r risg o golli ffitrwydd a gwella eu hiechyd meddwl.

Gofal diogel


Mae ein Strategaeth Gwella Ansawdd yn mesur diogelwch ein gwasanaethau ac yn cynnwys sut rydym yn lleihau risg a gwneud y mwyafrwyd o ddiogelwch. Mae'r Strategaeth yn cynnwys meysydd adrodd: atal briwiau pwysedd a niwed i'r meinwe, atal codymau, atal heintiau a'u rheoli, maeth a hydradiad, rheoli meddyginiaethau, diogelu plant ac oedolion sydd mewn risg a chwynion.

Dangosir y mesurau ym mharth Gofal Diogel fframwaith Llywodraeth Cymru yn y tabl isod.

Dangosyddion Perfformiad Gofal Diogel	Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
Nifer y derbyniadau i'r ysbyty gydag unrhyw sôn am hunan niwed bwriadol i blant a phobl ifanc (10-24 oed) fesul 1,000 o'r boblogaeth	2019	5.35		↓
Symiau cyfartalog dyddiod o Opioidau fesul 1,000 o gleifion	Chwarter 3 2019/20	4,820.51		↓
Nifer y cleifion dros 65 oed a ragnodwyd ar gyffuriau gwrthseicotig	Chwarter 3 2019/20	2,292		↓
Cyfanswm yr Eitemau Gwrthfacteraidd fesul 1,000 STAR-PUs	Chwarter 3 2019/20	304.79		↓
Eitemau Fluroquinolone, cephalosporin a co-amoxiclav fel % o gyfanswm yr eitemau a ddosbarthwyd yn y gymuned	Chwarter 3 2019/20	12.55%		↑
Graddfa gronns o achosion e.Coli fesul 100,000 o'r boblogaeth	Rhag 2019	84.81		↓
Graddfa gronns o achosion Staphylococcus aureus fesul 100,000 o'r boblogaeth	Rhag 2019	28.97		↓
Graddfa gronns o achosion C.Difficile fesul 100,000 o'r boblogaeth	Rhag 2019	28.01		↓
Nifer gronns o achosion o bacteraemia a gadarnhawyd mewn labordy: Klebsiella sp	Rhag 2019	107		↓
Nifer gronns o achosion o bacteraemia a gadarnhawyd mewn labordy: Aeruginosa	Rhag 2019	31		↓
% y cleifion mewnol a gafodd y pecyn gofal awr gyntaf 'Sepsis Six' cyn pen awr o sgrinio positif	Rhag 2019	100%		↓
% y cleifion Adran Achosion Brys a gafodd y pecyn gofal awr gyntaf 'Sepsis Six' cyn pen awr o sgrinio positif*	Rhag 2019	48.10%		↓
Nifer y Rhybuddion Datrysiaid Diogelwch Cleifion Cymru na gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	Chwarter 3 2019/20	1		↑
O'r Digwyddiadau Difrifol sydd i fod i gael sicrwydd cyn pen y mis, y % a gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	Rhag 2019	81.30%		↑
Nifer y Digwyddiadau newydd na Ddylent Byth Ddigwydd	Rhag 2019	5		↓

*Ar gyfer y pecyn Sepsis Six mewn cleifion mewnol, fe wnaethom gyflawni 100% ar gyfer 11 o'r 12 mis yn 2019/20 (Tachwedd 2019 = 98.44%)

Rydym yn parhau i weithio i amddiffyn ein cleifion rhag risg heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI). Canolbwyntiodd y Rhaglen Flynyddol Atal Heintiau ar leihau cyfraddau heintio ar gyfer heintiau allweddol a lleihau niwed oherwydd ymwrthedd gwrthficrobaidd a heintiau y gellid eu hosgoi.



Gwelir cynnydd mewn organebau gram-negyddol/aml-ymwrthiannol (sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â heintiau'r llwybr wrinol) a MSSA (sy'n gysylltiedig yn gyffredinol â'r croen) ledled y DU, ac nid yw'r un o'r Byrddau Iechyd yng Nghymru ar y trywydd cywir i gyflawni trywyddion 2019/20 ar gyfer heintiau gram-negyddol neu MSSA.

Nid yw'r mwyafrif o heintiau (71%) sydd wedi'u canfod yn y Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â gofal iechyd nac wedi'u cael yn yr ysbyty, ond roedd 54% o gleifion â haint adroddadwy wedi bod yn yr ysbyty dros y chwe mis blaenorol felly mae'n bosibl y gellir ei briodoli i hyn. Mae dadansoddiadau 'at wraidd y mater' yn awgrymu, ar gyfartaledd, na ellid fod wedi atal 78% o'r heintiau hyn.

Cymeradwyodd y Grŵp Strategol Atal Heintiau raglen waith ar gyfer 2019/20 a oedd â'r nod o wneud y canlynol:

- Canoli ymdrech y timau Atal a Rheoli Heintiau ar gyflwyno adnodd arbenigol a medrus, gan sicrhau bod gwasanaethau'r rheng flaen yn cymryd perchnogaeth o ran atal heintiau lleol o ddydd i ddydd;
- Helpu i gydnabod ein hachosion neilltuol a risgiau trawsheintio posibl cyn iddynt godi;
- Cynorthwyo cleifion i aros gartref, rheoli eu triniaeth ac atal derbyn i'r ysbyty'n ddiangen;
- Lleihau rhagnodi gwrthfotig diangen a chymorth cysylltiedig;
- Rhoi offeryn asesu ar sail tystiolaeth ar waith i gynorthwyo tynnu cathetrau wrinol lle bo'n bosibl gan mai dyna brif achos heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAIs);
- Gwella craffu a dysgu, gan adolygu achosion o HCAIs dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Ym mis Tachwedd 2019, cafodd ymarfer glanhau sborleiddiol ei gynnal ar draws cyfleusterau'r Bwrdd Iechyd a chafodd ymagwedd "egwyddorion sylfaenol" tuag at lanhau ei rhoi ar waith. Cafodd yr ymagwedd hon ei hategu gan ymgyrch Gofal Diogel Glân, gyda phwyslais ar dacluso a dyfeisiau, a roddwyd ar waith yn ystod Chwarter 3 (Hydref hyd at Ragfyr 2019).

Mae tua 75% o heintiau *Clostridiwm difficile* yn gysylltiedig yn uniongyrchol â defnydd o wrthfotigau, ac rydym yn cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod gwrthfotigau'n cael eu defnyddio dim ond pan fo angen mewn ysbytai a chan feddygon teulu.

Mae defnyddio gwrthfotigau'n gynnwys hefyd yn helpu i leihau'r cyflymder feithrin ymwrthedd i driniaethau gwrthficrobaidd ac rydym yn gweithio i leihau nifer y presgripsiynau ar gyfer tri chyffwrdd gwrthficrobaidd: Quinolone, Co-amoxiclav, Clinamycin a Cephalosporin (wedi'u mesur fel cyfradd gyfunol o fis Mawrth 2018). Gwnaethom gyflawni gostyngiadau un ar ôl y llall o ran y gyfradd hon dros dri chwarter cyntaf 2019/20 a'r gyfradd rhagnodi gyfunol oedd 12.55% ar gyfer y Chwarter a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, o'i gymharu â 12.68% ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019.

Dan arweiniad y Fferylllydd Gwrthficrobaidd Ymgynghorol, mae'r tîm fferylliaeth wrthficrobaidd yn cynnig cyngor a chymorth mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai, gan ymchwilio i batrymau rhagnodi a nodi ymhle y gellir lleihau cyfraddau rhagnodi'n briodol.

Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ymwrthedd Gwrthficrobaidd yng Nghymru 2008 – 2017) wedi dangos bod cryn ymwrthedd i wrthfotigau allweddol yng Ngogledd Cymru. Mae stiwardiaeth wrthficrobaidd mewn amgylcheddau cymunedol yn hollbwysig i leihau amllder organebau aml-ymwrthol, yn enwedig heintiau E coli/gram-negyddol sydd ar gynydd. O ystyried na ellid fod wedi atal 78% o'r heintiau yn gyffredinol, a bod 71% yn codi yn y gymuned, gyda gwell gwybodaeth am ble mae'r heintiau'n codi ac na ellir eu hatal, roeddem yn gallu canolbwyntio ein gwaith gwella ansawdd ar ble y gallwn gael yr effaith fwyaf.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gynnal cyfres o ddigwyddiadau addysgol, cyfathrebu a chyfarfodydd cyswllt. Eu bwriad oedd rhoi cymorth ar gyfer cymryd camau prydlon i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran arfer atal a rheoli heintiau neu broblemau mewn perthynas â'r amgylchedd glanhau a gofal.

Mae ein swyddogaethau gofal iechyd parhaus, ymataliaeth a gwella ansawdd yn bwriadu rhoi menter treial heb gathetr (TWOC) ar waith er mwyn annog tynnu cathetrau wrinol, a dyfeisiau eraill. Y nod yw lleihau'r risg uwch o heintio sy'n codi o adael y dyfeisiau hyn yn eu lle yn hirach na'r angen.

Uchafbwynt y Mis – Gorffennaf 2019

Ym mis Gorffennaf, daeth cydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru ynghyd i rannu syniadau a dysgu mewn cynhadledd gofal cymunedol yn Llandudno. Mynychodd mwy na 300 o staff y Bwrdd Iechyd, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector gynhadledd gyntaf y Tîm Adnoddau Cymuned yn Venue Cymru. Roedd y gynhadledd yn arddangos gwaith y Timau Adnoddau Cymuned, lle bydd staff iechyd a chymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig gwasanaethau gofal y tu allan i ysbytai.



Un o'n blaenoriaethau yw cynnig gwasanaethau gofal gwell yn nes at gartrefi pobl. Trwy annog gweithio'n well rhwng gofal iechyd, gofal cymdeithasol a grwpiau cymunedol a gwirfoddol, gallwn wneud mwy i atal pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty am driniaeth gan wella sut maent yn derbyn gofal yn eu cartrefi a'u cymuned eu hunain.

Digwyddiadau difrifol i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru

Pan fydd digwyddiadau negyddol difrifol yn digwydd, mae'n bwysig ein bod yn ymchwilio iddynt yn drylwyr, ein bod yn dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto a gwella diogelwch cleifion.

Rydym yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau difrifol ac yn anelu at ddangos, o fewn amserlen y cytunwyd arni ein bod wedi cymryd mesurau priodol i leihau'r risgiau y bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd eto.

Mae hwn yn faes lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei berfformiad yn sylweddol yn y naw mis o fis Ebrill i Ragfyr 2019, o'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2018 i'r gorau ym mis Rhagfyr 2019 ar 84%. Mae hwn yn fater y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd o ddifrif ac mae gwaith yn parhau i wella ymhellach y dysgu o ddigwyddiadau er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau i'n cleifion.

Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd

Mae digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn ddigwyddiadau negyddol difrifol y dylai ein systemau a phrosesau sicrhau nad ydynt byth yn gallu digwydd ac rydym wedi ymrwmo i gyflawni hyn. Rydym wedi lleihau nifer y Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd a chafodd pedwar eu hadrodd yn y naw mis o fis Ebrill i Ragfyr 2019, o'i gymharu ag wyth yn yr un cyfnod yn 2018/19.

Mae'r holl ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'n gweithredwyr clinigol cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad, ac yn cael eu hymchwilio'n llawn o dan y fframwaith digwyddiadau difrifol. Mae'r broses hon yn cynnwys y claf, y teulu a'r gofalmwyr trwy'r cyfan. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr a'i gynnal gan yr Uwch Reolwyr Ymchwilio gyda chefnogaeth gan Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau cadarn yn cael eu cynnal, bod yr holl wersi perthnasol yn cael eu dysgu a'u rhannu ar draws y sefydliad a bod pob cam angenrheidiol yn cael eu cymryd i atal y digwyddiad rhag digwydd eto.

Yn anffodus, cafodd digwyddiad arall ei adrodd ym mis Mawrth 2020 gan ddod â chyfanswm y nifer ar gyfer y 12 mis yn 2019/20 i bump, o'i gymharu ag wyth yn 2018/19.

Uchafbwynt y Mis – Awst 2019



Derbyniodd ein menter ar sut yr ydym yn darparu llawdriniaeth orthopedig sylw gan y wasg eleni gyda hanes triniaethau'r cyntaf o'r fath yng Nghymru ar gyfer gosod pen-glin a chlun newydd ar yr un diwrnod yn cael ei ddarlledu ar y BBC.

Mae ymdrechion Mr Balasundaram Ramesh sy'n llawfeddyg yn Ysbyty Glan Clwyd, a Mr Ibrahim Malek sy'n llawfeddyg yn Ysbyty Maelor Wrecsam, yn helpu i newid y ffordd mae triniaethau orthopaedeg yn cael eu darparu yng Ngogledd Cymru..

Gofal gydag urddas

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael profiad o ofal iechyd lle caiff pawb ei drin gyda pharch, urddas, trugaredd a charedigrwydd ac sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol ac yn mynd i'r afael â nhw.



Ymglymiad

Dangosyddion Perfformiad Gofal gydag Urddas	Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
Nifer y triniaethau a gafodd eu gohirio ar y diwrnod neu'r diwrnod cynt oherwydd rhesymau penodol heb fod yn glinigol (Cyfnod treigl 12 mis)	9 mis i Ragfyr 2019	1,689		↓
% y pryderon a gafodd ateb terfynol (Rh 24) neu ateb dros dro (Rh 26) cyn pen 30 diwrnod o dderbyn y pryder	Chwarter 3 2019/20	63.20%		↑

Triniaethau a ohiriwyd ar fyr rybudd

Rydym yn gweithio'n galed iawn i beidio â gohirio llawfeddygaeth cleifion a'n nod yw nad yw hyn byth yn digwydd, heblaw pan mae'n ofynnol gwneud hynny am resymau clinigol. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd hyn yn digwydd, weithiau oherwydd yr angen i drin neu dderbyn cleifion sydd angen gofal brys.

Yn y naw mis o fis Ebrill i Ragfyr 2019, gwnaeth y Bwrdd Iechyd dros 35,650 o driniaethau wedi'u trefnu ar sail achosion dydd neu gleifion mewnol. Yn yr un cyfnod, bu'n rhaid i ni ohirio tua 1,689 o driniaethau un ai ar ddiwrnod y llawfeddygaeth, neu'r diwrnod cynt, am resymau nad oeddent yn rhesymau clinigol. Roeddem y trydydd Bwrdd Iechyd gorau yng Nghymru o ran y mesur hwn.

Mae'r gwaith a wnaed yn 2018/19 i leihau gohiriadau triniaeth nad oeddent yn ohiriadau clinigol wedi parhau yn 2019/20 yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd y theatr drwy leihau dechrau'n hwyr yn y theatr, gwella amseroedd delio â chleifion yn y theatr a rheoli rhestr llawdriniaethau yn fwy effeithiol.

Mae'r Grŵp Trawsnewid Llwybr Cleifion Llawfeddygol yn parhau i oruchwylio gostyngiad mewn gohiriadau theatr ar fyr rybudd. Mae gan ein tri phrif ysbyty daflwybr gwella y cytunwyd arno ac mae'n cael ei fonitro'n wythnosol, gan gytuno ar gamau gweithredu mewn cyfarfodydd cynllunio theatr leol yn wythnosol, sy'n cael eu cadeirio gan reolwyr y theatr. Mae pob gohiriad nad yw'n ohiriad clinigol yn cael ei ddilysu a'i drafod gyda mewnbwn gan y staff meddygol, nyrsio, theatr a staff gweithredol. Mae triniaethau sydd wedi'u gohirio'n cael eu rhannu i rai y gellir eu hosgoi a rhai na ellir eu hosgoi. Ble dynodir gohiriadau y gellir eu hosgoi, mae camau'n cael eu cymryd i leihau'r risg y bydd yn digwydd eto yn y dyfodol.

Ymatebion i Bryderon

Er nad ydym wedi cyflawni'r gyfradd darged genedlaethol hyd yma, bu gwelliant parhaus yn nifer y pryderon sydd wedi derbyn ymateb terfynol neu dros dro yn y 28 diwrnod penodol; gwnaethom gyflawni hyn ar gyfer 63.2% o achosion yn Chwarter 3, 2019/20, o gymharu â 33.6% ar gyfer Chwarter 1, 2019/20.

Dechreuodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Phrofiad Cleifion newydd yn ei swydd ym mis Medi 2019 a lansiodd ymarfer craffu helaeth a thrylwyr o'r holl bryderon hwyr gan arwain at leihad parhaus yn nifer yr ymatebion hwyr. Yn ogystal, mae'r holl brosesau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu, ac, yn 2020/21, caiff ymagwedd symlach a llyfnach ei rhoi ar waith gan felly leihau oedi i ymatebion.

Yn 2020/21, caiff System Pryderon Cymru Gyfan ei rhoi ar waith, gan arwain at gofnodi symlach, gwell a mwy hygyrch o ran cofnodi ymchwiliadau, dysgu a hwyluso adrodd i Lywodraeth Cymru.

Uchafbwynt y Mis – Medi 2019

Cafodd prosiect i gefnogi pobl sy'n dychwelyd i'w cartref yn dilyn gofal yn Ysbyty Alltwen ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr yn y 'Nursing Times' ym mis Medi.

Mae'r prosiect Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n barod i adael yr ysbyty ond efallai'n disgwyl am becyn gofal, yn eu cartref eu hunain. Ers i'r fenter gychwyn yn 2018, mae wedi arbed 576 o ddyddiau gwely gan arbed oddeutu £182,000 i'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r tîm o bum Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd wedi'u lleoli ar Ward Morfa yn Ysbyty Alltwen ac maent yn ymgymryd â rôl ddeuol, sy'n cynnwys eu dyletswyddau ward a hefyd mynd i'r afael â galwadau o'r gymuned i gefnogi cleifion yn eu cartrefi eu hunain.



Gofal effeithiol

Mae'r dangosyddion hyn yn dangos sut mae ein gofal, ein triniaeth a'n penderfyniadau'n adlewyrchu arfer gorau wedi'i seilio ar dystiolaeth. Maent hefyd yn adlewyrchu sut mae ein gwasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus trwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau ei fod yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.


Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein gofal gan ddefnyddio nifer o fesurau gan gynnwys dangosyddion cenedlaethol, yn ogystal â dangosyddion mwy lleol. Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn delio â marwoldeb, ymchwil a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwn er mwyn gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, rydym hefyd yn adrodd ar nifer y cleifion nad ydynt wedi gallu cael eu rhyddhau o'r ysbyty unwaith y byddant yn glinigol iach i wneud hynny, sy'n ddangosydd o ba mor effeithiol y mae'r system iechyd a gofal cyffredinol yn gweithio.

Dangosyddion Perfformiad Gofal Effeithiol	Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal heb fod yn lechyd Meddwl yn y Bwrdd lechyd (DToC)	Rhagfyr 2019	75		↓
Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal lechyd Meddwl yn y Bwrdd lechyd (DToC)	Rhagfyr 2019	20		↓
Rhaid i'r holl feddyginiaethau newydd fod ar gael ddim hwyrach na 2 fis ar ôl gwerthusiadau NICE ac AWMMSG	Chwarter 3 2019/20	99.10%		↓
% o adolygiadau marwolaeth cyffredinol (IMRs) a wnaed o fewn 28 diwrnod o farwolaeth	Rhagfyr 2019	92.80%		↓
% cyfradd marwolaeth craidd (<75 oed)	9 mis i Rhagfyr 19	0.78%		↓
% cydymffurfiaeth o gwblhau lefel 1 IG (Cymru) elfen hyfforddiant y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	Rhagfyr 2019	80.70%		↓
% o gyfnodau codio clinigol o fewn un mis wedi dyddiad gorffen y cyfnod	Rhagfyr 2019	94.90%		↓
% o godio clinigol a gyrhaeddwyd yn gywir yn rhaglen archwilio cywirdeb codio clinigol cenedlaethol NWIS	2018/19	93.00%		↑


Oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i fod yn broblem i'r Bwrdd lechyd gan ei fod yn cyfrannu at y pwysau cyffredinol ar ein hysbytai llym yn ogystal â'r economi iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Mae'r Bwrdd lechyd yn canolbwyntio ar welliannau drwy waith partneriaeth rhwng partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector. Rydym yn ymdrechu am welliannau pellach i gefnogi anghenion cleifion yn yr amgylchedd mwyaf cynaliadwy felly'n galluogi gwell mynediad i'r cleifion hynny sydd angen cael eu derbyn i'r ysbyty.



Dros y flwyddyn rydym wedi parhau i gyflawni gostyngiad cyson yn nifer y cleifion sy'n cael profiad o oedi wrth ryddhau o fewn ein gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn fwy anodd yn ein gwasanaethau iechyd meddwl, ble mae nifer yr achosion o oedi wrth ryddhau wedi cynyddu er eu bod yn is na niferoedd 2018/19.



Rydym wedi craffu a symleiddio'r broses lleoli a rhyddhau yn barhaus ac wedi bod yn gweithio gyda gofal iechyd parhaus a chydweithwyr yr awdurdod lleol i ymdrin ag oediadau. Mae'r gwelliannau a gyflawnwyd yn 2019/20 wedi parhau i 2020/21 gyda chyflwyniad llwybrau rhyddhau i asesu yn ystod y cyfnod Covid-19 a dadnsoddiad mwy manwl o'r broses o addasrwydd meddygol i ryddhau.



Marwoldeb

Mae'r ffigwr Marwoldeb Craidd Cleifion o dan 75 mlwydd oed, yn seiliedig ar nifer y marwolaethau mewn cyfnod penodol wedi'i rannu i'r cyfanswm o dderbyniadau cleifion ar gyfer y cyfnod hwnnw (cleifion o dan 75 mlwydd oed). Ar gyfer y flwyddyn 2018/19 bu i ni nodi cyfradd o 0.77%, tra ar gyfer yr un cyfnod yn 2019/20 rydym wedi gweld cynnydd bychan i 0.78%.

Mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gweithio gyda'n ysbytai llym, cymuned ac iechyd meddwl i ddefnyddio'r broses adolygu marwolaeth Cymru gyfan i edrych ar y ffordd rydym yn adolygu gofal y cleifion sy'n marw. Maent hefyd yn gweithio gyda Gwelliant Cymru, ar sail Cymru gyfan, i wella'r adolygiadau ymhellach a gwneud y gwelliannau sydd eu hangen, a ddynodwyd gan yr adolygiadau.

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd gynnal Adolygiad Marwoldeb Cyffredinol cyn pen 28 diwrnod o farwolaeth. Mae perfformiad yn erbyn y mesur hwn wedi gwella o 87.8% a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2018 i 92.8% a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r gyfradd targed o 95% drwy 2020/21 a thu hwnt.

Gofal prydlon

Ein nod yw sicrhau bod pob agwedd ar ofal yn cael ei rhoi'n brydlon gan sicrhau bod pobl yn derbyn triniaeth a gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gyda'r staff cywir. Wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu, rydym yn wynebu heriau gwirioneddol o ran cynnal lefelau mynediad uchel i'n cleifion.

Dangosyddion Perfformiad Gofal Prydlon		Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
% y practisau meddygon teulu sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 17:00 a 18:30 bum niwrnod yr wythnos		2019	60.60%		↓
% y cleifion OOH/111 a flaenoriaethwyd fel Blaenoriaeth Un i'r Derbynnydd (P1CH) a ddechreuodd asesiad cyn pen 1 awr o'r alwad yn cael ei hateb		Rhagfyr 2019	91.1%		↓
% y cleifion OOH/111 a flaenoriaethwyd fel Blaenoriaeth Un Wyneb yn Wyneb (P1F2F) a welwyd cyn pen 1 awr o'r asesiad		Rhagfyr 2019	50.0%		↓
% y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth (RTT)		Rhagfyr 2019	76.90%		↓
Nifer y methiannau 36 wythnos RTT (yr holl drigolion)		Rhagfyr 2019	12,041		↓
Nifer y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am ddiagnosteg benodol		Rhagfyr 2019	2,502		↑
Nifer y cleifion sy'n aros dros 14 wythnos am therapi penodol		Rhagfyr 2019	9		↓
Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol claf allanol		Rhagfyr 2019	204,295		↓
Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad dilynol claf allanol sydd ag oedi o dros 100%		Rhagfyr 2019	57,187		↓
% y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol		Rhagfyr 2019	25.20%		↓
% y plant/pobl ifanc sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau asesiad niwroddatblygiadol ADHD neu ASD		Rhagfyr 2019	25.80%		↓
% y gydymffurfiaeth â mesurau gwella ansawdd strôc	Derbyn yn uniongyrchol i Uned Lem Strôc cyn pen 4 awr	Rhagfyr 2019	48.00%		↓
	Mynediad at Therapi Iaith a Lleferydd	Rhagfyr 2019	57.70%		↓
	Aseswyd gan Feddyg Ymgynghorol Strôc cyn pen 24 awr	Rhagfyr 2019	74.30%		↓
% yr ymatebion galwadau coch i ambiwlansys o fewn wyth munud		Rhagfyr 2019	59.90%		↓
Nifer y trosglwyddiadau sy'n cymryd dros awr		Rhagfyr 2019	1,113		↓
% y cleifion newydd nad ydynt yn treulio mwy na phedair awr yn yr Adran Achosion Brys		Rhagfyr 2019	62.70%		↓
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy yn yr Adran Achosion Brys		Rhagfyr 2019	2,340		↓
% sydd newydd gael diagnosis o ganser, nid drwy'r llwybr brys, sydd wedi dechrau triniaeth benodol cyn pen 31 diwrnod o'r diagnosis		Rhagfyr 2019	98.00%		↓
% sydd newydd gael diagnosis o ganser, drwy'r llwybr brys, sydd wedi dechrau triniaeth benodol cyn pen 62 diwrnod o'r cyfeiriad		Rhagfyr 2019	83.30%		↑
% y cleifion a ddechreuodd driniaeth benodol at ganser cyn pen 62 diwrnod o bwynt yr amheuaeth		Rhagfyr 2019	77.50%		↓
% y goroesiad o fewn 30 diwrnod o dderbyniad brys ar gyfer torri clun		Rhagfyr 2019	88.40%		↑
% yr asesiadau gan y LPMHSS a ddechreuwyd o fewn 28 diwrnod yn dilyn dyddiad y cyfeiriad		Rhagfyr 2019	69.80%		↑
% o ymyriadau gan y LPMHSS a wnaed cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad yr asesiad		Rhagfyr 2019	74.50%		↑
% y cleifion cymwys a gafodd y cyswllt cyntaf ag IMHA cyn pen 5 diwrnod gwaith i'w cais		Chwarter 3 2019/20	100%		→
% y cleifion offthalmoleg risg uchel (R1) sy'n aros o fewn, neu ddim mwy na 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed am apwyntiad claf allanol		Rhagfyr 2019	63.50%		↑

Gofal Prydlon

Yn ystod 2019/20 fe wnaethon ddechrau dull system gyfan ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, gan sicrhau darparu cynllun y gaeaf, gyda phwyslais ar fynychu cyn-ysbyty ac osgoi derbyniadau. Ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, fe wnaethom ddatblygu'r system SiCat, wedi'i chysylltu â chanolfan reoli'r ambiwlans, i roi cyngor meddygol a dewis amgen i fynychu neu dderbyn i'r ysbyty. Datblygodd y Bwrdd Iechyd dimau adnoddau cymunedol gyda'r nod o gadw cleifion yn eu cartrefi eu hunain ac i helpu cleifion ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn. Ar y cyd â'r mentrau hyn, gweithiodd ein timau ar wella llif cleifion yn yr ysbyty, yn cynnwys datblygu gwasanaethau asesu a gofal dydd ar safleoedd llym a gwell cynllunio i ryddhau.


Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai oedd yn mynd i'r Adrannau Achosion Brys, gan ddod yn ôl bron i lefelau arferol erbyn diwedd Chwarter 1 2020/21.

Cyfeirio at Driniaeth (RTT)


Mae Cyfeirio at Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd claf yn aros ar ôl cael ei gyfeirio gan ei Feddyg Teulu nes dechrau ar ei driniaeth weithredol yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys treulio amser yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig, sganiau, gwasanaethau therapi neu dderbyniadau o ran cleifion mewnol neu achosion dydd. Y ddau darged i Gymru yw bod 95% o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos ac na fydd cleifion yn aros dim mwy na 36 wythnos.

Er bod cyfeiriadau ar gyfer gofal wedi'i gynllunio wedi lleihau ers dechrau pandemig Covid-19, mae hyd arosiadau wedi cynyddu gan fod llawdriniaeth nad yw'n hanfodol, clinigau a gwasanaethau diagnostig wedi'u gohirio yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig. Mae ffyrdd eraill o adolygu cleifion wedi'u cyflwyno; ond mae cyflymder cyflwyno, yn agos iawn i ddiwedd y flwyddyn, yn golygu nad yw pob un o'n systemau adrodd wedi'u haddasu i gipio'r ffyrdd newydd o weithio hyn mewn pryd i gael eu haddasu yn nata perfformiad yr adroddiad hwn.

Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019, roedd 76.74 y cant o gleifion wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos. Erbyn diwedd mis Mawrth 2020, roedd 76.41 y cant wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos am driniaeth.



Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2019, roedd 12,378 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth; ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd y nifer oedd yn aros dros 36 wythnos yn 11,798.



Cafodd canslo llawdriniaethau nad yw'n hanfodol a chlinigau o 16 Mawrth 2020 a cholli gweithgarwch ychwanegol y disgwyliwyd ei gynnal yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn effaith wael ar y sefyllfa Cyfeirio at Driniaeth (RTT) ddiwedd blwyddyn, er ei fod yn well na'r misoedd blaenorol. Fodd bynnag, gwnaethom gyflawni sefyllfa ddiwedd blwyddyn yn unol â pherfformiad disgwylidig, gan ddangos bod y camau a gymerwyd yn y chwarter olaf yn dechrau newid y nifer gynyddol o arosiadau sy'n hwy na 36 wythnos. Serch hynny, mae'r sefyllfa ddiwedd blwyddyn 5,456 yn uwch na diwedd Mawrth 2019.

Yr arbenigedd sy'n parhau gyda'r nifer uchaf o gleifion yn wynebu arhosiad estynedig yw orthopaedeg, ble mae'r galw am driniaethau llawfeddygol yn llawer uwch na'n capasiti i gynnal llawdriniaethau.

Yn 2019/20, cytunodd y Bwrdd ar gynllun strategol wedi'i ddiweddarau, sy'n cyfuno mesurau iechyd cyhoeddus i ddangos y twf yn y galw ac ehangiad dewisiadau triniaeth nad ydynt yn feddygol fel ffisiotherapi a rheoli poen lle mae hyn yn ddewis mwy priodol i gleifion, ynghyd â dynodi buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen i sefydlu'r capasiti llawfeddygol sydd ei angen i gyd-fynd ag anghenion cleifion yng Ngogledd Cymru. Cafodd rheolwr rhwydwaith orthopaedig ac arweinydd clinigol a therapi orthopaedig eu penodi yn ystod 2019/20 i sefydlu llwybrau safonol o ofal orthopaedig effeithiol ledled Gogledd Cymru.

Uchafbwynt y Mis – Hydref 2019

Dros y 12 mis diwethaf, mae ein gwasanaethau iechyd meddwl wedi gweithio ar wella ansawdd a diogelwch gofal ar ein wardiau cleifion mewnol, ac wedi sefydlu dulliau newydd i gefnogi pobl mewn argyfwng.



Rydym wedi cyflwyno'r Canolfannau Gofal Heb ei Drefnu MI FEDRAF yn ein tri phrif ysbyty, sydd wedi cefnogi mwy na 3,000 o bobl yn ystod argyfwng yn 2019. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd cynlluniau i gyflwyno rhwydwaith o Hybiau Cymuned MI FEDRAF a chefnogaeth meddygfeydd teulu a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gael y cymorth iechyd meddwl cynnar maent ei angen yn agos at eu cartref. Unwaith bydd wedi'i sefydlu'n iawn, rydym yn disgwyl y bydd mwy o bobl yn derbyn y gefnogaeth gynnar y mae ei hangen arnynt yn y gymuned, gan arwain at leihau amseroedd aros a gwella canlyniadau i bobl sydd angen cefnogaeth arbenigol ein gwasanaethau iechyd meddwl.


Yn rhannol o ganlyniad i leihau lefelau presenoldeb yn ein hadrannau achosion brys (ED) ac unedau mân anafiadau (MIU), ac ailgynllunio pwyntiau mynediad system i fynd i'r afael â Covid-19, dangosodd y dangosyddion gofal heb ei drefnu symudiad positif ar ddiwedd Mawrth 2020, ac roedd 75.84 y cant o gleifion yn cael eu trin o fewn pedair awr yn ein hadrannau ED a MIU. Yn ogystal, gwnaeth nifer y cleifion sydd wedi bod yn aros yn hwy na 12 awr yn ein Hadrannau Achosion Brys (ED) haneru i 932 ym mis Mawrth 2020 o gymharu â 1,832 ym mis Chwefror 2020. Cafodd nifer y trosglwyddiadau trwy ambiwlans a gymerodd dros awr ei haneru hefyd o 660 ym mis Chwefror 2020 i 320 ym mis Mawrth 2020.

Fodd bynnag, cyn i'r pandemig ymddangos, roedd staff yn ein Hadrannau Achosion Brys (ED) yn gweithio'n galed i ymateb i'r galw cynyddol amdanynt. Mae hyn wedi'i achosi gan dros 5,000 yn fwy o achosion yn yr adran yn ystod y naw mis o Ebrill hyd at Ragfyr 2019, o gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19, a chymhlethdod cynyddol y cleifion sy'n dod i mewn, fel y dengys y cynnydd o dros 2,300 yn nifer y derbyniadau brys ar ein wardiau, o gymharu â'r un cyfnod yn 2018/19. Mae effaith y rhain yn waeth oherwydd pwysau yn y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, sy'n achosi oedi o ran y gallu i dderbyn cleifion i wardiau.


Arweiniodd y galw cynyddol hwn at ddirywiad i berfformiad amseroedd aros yn ein hadrannau achosion brys yn ystod y flwyddyn cyn dechrau pandemig Covid-19.

Rydym yn monitro ein sefyllfa yn erbyn yr amser aros safonol o bedair awr bob dydd trwy adroddiad i'r Prif Swyddog Gweithredol fel bod modd i ni reoli a gwella ein perfformiad mewn ffordd weithredol.

Ni wnaeth y gwelliant i gyfran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr yn ein Hadran Achosion Brys (ED) a'n Hunedau Mân Anafiadau (MIU) a welwyd ar ddiwedd 2018/19 ar 71.9% barhau hyd at 2019/20, ac roedd y ffigur hwn wedi gostwng i 66.32% ar ddiwedd Rhagfyr 2019.




Yn yr un modd, nid yw'r lleihad yn nifer y cleifion sy'n treulio mwy na deuddeg awr yn ein hadrannau brys a gyflawnwyd yn gynharach yn y flwyddyn wedi parhau tan hanner olaf 2019/20, gyda 2,272 yn aros 12 awr neu fwy ym mis Rhagfyr 2019 o gymharu â 1,552 ym mis Rhagfyr 2018.



Am y tro cyntaf erioed, ym mis Rhagfyr 2019, cafwyd mwy na 10,000 o achosion a ddosbarthwyd fel rhai Mawr yn ein Hadrannau Achosion Brys ar draws y Bwrdd Iechyd mewn un mis. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnydd o 32% yn nifer y cleifion oedd yn cael eu derbyn o'n hunedau. Dengys yr arwyddion bod cleifion sy'n dod i'n hadrannau achosion brys yn waelach na'r cyfnodau a fu a fwy o angen gofal ysbyty.

Gwelsom hefyd ostyngiad o ran perfformiad yn nhermau nifer y cleifion a oedd yn gweld oedi wrth drosglwyddo rhwng ambiwlansys y tu allan i'n hysbytai: ym mis Rhagfyr 2019, gwnaeth 1,114 o gleifion brofi oedi wrth drosglwyddo rhwng ambiwlansys o dros un awr o gymharu â 446 ym mis Rhagfyr 2018.




Trwy gydol 2019/20, rydym wedi parhau i wneud newidiadau i ymateb i'r galw cynyddol am ein gwasanaethau brys. Ymhlith y rhain oedd:

- Agor uned feddygol lem ac ardal asesu yn Ysbyty Maelor Wrecsam;
- Defnyddio Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau gymaint â phosibl ar gyfer cleifion sydd angen ymyrraeth gan feddygon teulu ar gyfer eu symptomau ac nid gwasanaethau ar lefel yr Adran Achosion Brys, o reidrwydd;
- Mae cynyddu presenoldeb uwch glinigwyr yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau, a mewngymorth arbenigol gwell yn ein hadrannau achosion brys, wedi caniatáu asesiadau meddygol cyflymach a llif cyflymach o gleifion trwy'r Adran Achosion Brys;
- Mae'r cyfarfodydd Diogelwch a gyflwynwyd yn ystod 2017/18 wedi'u gwella gyda mwy o bwyslais ar asesu risgiau a gwella llif cleifion;
- Ar ôl treial llwyddiannus yn Ardal y Canol o ymgorffori meddyg teulu i'r Adran Achosion Brys ar bwynt brysbennu pan fo'r galw'n uwch, rydym bellach yn datblygu sesiynau Ymarferwyr Cyffredinol draw yn y Gorllewin.
- Mae newidiadau wedi'u gwneud i restrau dyletswyddau'r Radd Ganol er mwyn gwella darpariaeth pan fo galw brig gyda'r nos
- Rydym yn parhau i weithio gydag ystod o gydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi'n well cleifion sy'n mynd i'r Adrannau Achosion Brys yn aml ar gyfer yr un problemau er mwyn rhoi cymorth amgen sy'n fwy priodol iddynt;
- Wedi dechrau ymgyrch recriwtio i wella capasiti yn ein hadrannau achosion brys
- Rydym wedi cryfhau a symleiddio'r llwybr paediatrig er mwyn sicrhau bod plant yn cael cyn lleied o oedi â phosibl ac os bydd angen, eu cyfeirio at yr Uned Asesu Plant cyn gynted â phosibl gan felly leihau eu harhosiad yn yr adran achosion brys.
- Pwyslais ar leihau nifer y cleifion nad oedd angen eu derbyn i'r ward ond a oedd yn yr adran yn hwy na 12 awr



Diagnosteg

Y targed yw peidio â chael unrhyw glaf yn aros mwy nag 8 wythnos am ystod o driniaethau diagnostig, yn cynnwys pelydrau-x a sganiau, endosgopiau, profion ffisiolegol ac asesiadau niwrolegol. Yn anffodus, arhosodd nifer y cleifion a oedd yn gorfod aros 8 wythnos neu fwy am brawf diagnostig yn uchel trwy gydol 2019/20 gyda 2,502 ym mis Rhagfyr 2019 o'i chymharu â 1,486 ym mis Rhagfyr 2018.




Tan fis Rhagfyr 2019 roedd y prif bryderon yn parhau i fod gyda'n gwasanaethau Endosgopi, gan gyfrifo am 1,871 o'r cleifion a oedd wedi gorfod aros mwy na 8 wythnos am brawf diagnostig, o'i chymharu â 1,146 ym mis Rhagfyr 2018.

Rhoddir blaenoriaeth i'r cleifion mwyaf brys ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol ar gyfer endosgopi. O ganlyniad, bu i'r perfformiad yn y gwasanaethau endosgopi wella'n sylweddol yn ystod y chwarter olaf, gyda'r nifer o doriadau yn gostwng i 440 ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, yn ystod y chwarter hwn roedd cynnydd yn nifer y toriadau 8 wythnos ar gyfer radioleg a diagnosteg niwrolegol a chardioleg, gan arwain at sefyllfa ddiwedd flwyddyn gyffredinol o 216 yn llai o gleifion yn aros am fwy na 8 wythnos am brofion diagnostig.

Mae gohirio triniaethau endosgopi rheolaidd ar ddechrau cyfnod y pandemig i leihau'r risgiau i gleifion a staff yn golygu na fydd y gwelliannau a gafwyd yn y maes hwn yn cael eu cynnal i'r flwyddyn nesaf.

Diagnosis a thriniaeth cancer


Ar gyfer mis Rhagfyr 2019, dechreuodd 98.0% o gleifion nad oeddent wedi cael eu cyfeirio i ddechrau fel cleifion ag amheuaeth brys o ganser, ond a gafodd ddiagnosis o ganser yn ddiweddarach, eu triniaeth actif o fewn 31 diwrnod o'r diagnosis. Mae hyn yn unol â'r targed cenedlaethol ar gyfer darparu triniaeth i'r grŵp hwn o gleifion.



Mae'r grŵp hwn o gleifion yn parhau y nifer fwyaf o gleifion sy'n cael diagnosis a thriniaeth at ganser yng Ngogledd Cymru. Erbyn mis Rhagfyr 2019 roeddem wedi trin 1,747 o gleifion, a gafodd eu cyfeirio fel hyn, am ganser, a oedd yn 365 yn llai na'r ffigwr yn 2018/19. Bu i'r Bwrdd Iechyd fodloni neu ragori ar y gyfradd targed o 98% ar gyfer 7 o'r 9 mis hyd at fis Rhagfyr 2019.

Cyflawnwyd y targed o 31 diwrnod drwy gydol Chwarter 4 hefyd, gan orffen y flwyddyn ar 98.3% ar gyfer mis Mawrth 2020.

Yn y 9 mis o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2019, roedd nifer y cleifion a gafodd eu cyfeirio ac yna eu trin ar y llwybr amheuaeth o ganser brys yn uwch nag yn 2018/19, sef 1,366 o'i gymharu â 1,290. Mae'r cynnydd yn y galw yn un o'r rhesymau pam na wnaethom gyflawni'r targed o 85% ar gyfer dechrau triniaeth cyn pen 62 diwrnod o'r cyfeiriad. Fodd bynnag, ni yw'r trydydd Bwrdd Iechyd gorau yng Nghymru o ran perfformiad yn erbyn y mesur hwn, ar 83.3%.



Cynhelir cyfarfodydd uwch gyfeirio wythnosol a bob yn ail wythnos ym mhob ysbyty gyda phob tîm arbenigedd i leihau oedi. Mae rheolwyr yn cael nodyn briffio canser wythnosol yn amlinellu'r perfformiad presennol a rhagolwg o berfformiad i wneud y mwyaf o gyfleodd i wella perfformiad.

Mae effaith Covid-19 ar argaeledd diagnosteg, fel y disgrifiwyd yn yr adran cynt, wedi cyfrannu at ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn y targed llwybr 62 diwrnod tuag at ddiwedd Chwarter 4, gan gyflawni 79.40% ym mis Mawrth 2020.

Ers dechrau'r pandemig rydym hefyd wedi sylwi bod lleihad wedi bod yn nifer y cyfeiriadau brys ar gyfer cleifion sydd ag amheuaeth o ganser. Mae pryderon bod cleifion wedi bod yn oedi cyn cael sylw meddygol am gyflyrau a all fod yn ddifrifol, ac mae cyfathrebu ychwanegol a chyhoedduswyd wedi'i roi i annog cleifion sydd â symptomau i barhau i fynd at eu Meddyg Teulu.

Uchafbwynt y Mis – Tachwedd 2019

Dathlodd Gwobrau Cyrhaeddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lwyddiant anhygoel staff y GIG ar draws Gogledd Cymru. Dyma restr o rai o'n prif enillwyr:



- **Gwobr yr Iaith Gymraeg** - Susan Warner, CMATS, Ysbyty Glan Clwyd
- **Gwobr Hyrwyddo Cydraddoldeb** - Jackie Williams, Ymwelydd Iechyd Arbenigol, Wrecsam
- **Tîm y Flwyddyn** - Tîm Critigol Gofal Profedigaeth a Dilyniant, Ysbyty Maelor Wrecsam
- **Gwobr Gwella Profiad Cleifion** - Tîm Diabetes yr Ardal Ganolog
- **Gwobr Cyfraniad Gwirfoddol Eithriadol** - Tîm Gwirfoddolwyr Awdioleg
- **Gwobr Rhagoriaeth mewn Arweinyddiaeth** - Janet Ellis, Gofal Cychwynnol Ardal y Dwyrain
- **Gwobr Gweithio mewn Partneriaeth** - Carol Davies-Owen, Therapi Lleferydd ac Iaith, Bodfan, Ysbyty Eryri
- **Gwobr Ffyrdd Newydd o Weithio** - Y Prosiect Gweithiwr Cefnogi Gofal Iechyd, Ysbyty Alltwen
- **Athro Clinigol y Flwyddyn** - Holly Stokes, Fferylliaeth, Ysbyty Maelor Wrecsam
- **Gwobr Jilly Wilcox-Jones** - Jill Timmins, Cyfarwyddwr Rhaglen Ailddatblygu Ablett
- **Seren Betsi'r Flwyddyn** - Leisa Jones, Nyrs Gofal Critigol, Uned Gofal Dwys Ysbyty Gwynedd



Gofal strôc

Ni wnaeth y gwelliannau mewn perfformiad yn erbyn y mesurau Gofal Strôc a gafwyd yn hanner cyntaf 2019/20 barhau i fisoedd y gaeaf mewn perthynas â nifer y cleifion a gafodd eu derbyn i uned arbenigol o fewn pedair awr a'r nifer a gafodd eu gweld gan feddyg ymgynghorol arbenigol o fewn y 24 awr gyntaf o gael eu derbyn. Yn rhannol mae hyn wedi bod oherwydd bod pwysau gofal brys wedi cael effaith ar argaeledd y gwelyau strôc. Fodd bynnag, mae'r perfformiad blynyddol yn well na 2018/19 ar gyfer y ddau fesur.

Mewn ymateb, cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth gyda staff sy'n gweithio yn ein Hadrannau Achosion Brys i dynnu sylw at yr angen i gyfeirio at y Tîm Strôc yn gynnar. Mae cynnig i neilltuo nifer priodol o welyau sydd i'w defnyddio gan gleifion Strôc yn unig yn cael ei ystyried.



Bu i'r gyfran o gleifion ag amheuaeth o strôc a gafodd eu derbyn i Uned Strôc Lem o fewn 4 awr ddisgyn ychydig i 45.81% ym mis Mawrth 2020 o'i chymharu â 46.10% ym mis Chwefror a 49.50% ym mis Ionawr 2020.

Fodd bynnag roedd gwelliant sylweddol yn nifer y cleifion a gafodd eu gweld gan feddyg ymgynghorol arbenigol o fewn 24 awr, a gododd i 80.80%.

Uchafbwynt y Mis – Rhagfyr 2019

Agorwyd Adran Achosion Brys newydd Ysbyty Gwynedd yn swyddogol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r prosiect gwerth £13.89m, a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi trawsnewid yr adran dros y ddwy flynedd diwethaf, sy'n gweld oddeutu 54,000 o bobl y flwyddyn.



Mae cynllun newydd yr Adran Achosion Brys yn elwa ar ardal glinigol newydd sy'n cynnwys Uned Arsylwi Adran Achosion Brys (EDOU) sy'n ardal ar gyfer cleifion sydd angen cael eu harsylwi am lai na 24 awr ac nad oes angen gwely arnynt mewn man arall yn yr ysbyty; Ardal Asesu 'Addas i Eistedd' sy'n lleoliad pwrpasol i gleifion sy'n aros am ganlyniadau profion a phroffion gwaed; yn ogystal ag ardal ar gyfer y Tîm Adnoddau Cymuned (Ffisiotherapydd, Nyrs Rhyddhau o'r Ysbyty, Therapydd Galwedigaethol a Gweithiwr Cymdeithasol i helpu i ryddhau cleifion), Gwrfoddolwyr MI FEDRAF a'r Groes Goch Brydeinig.



Asesiadau ac ymyriadau iechyd meddwl

Ym mis Mawrth 2020, nid yw'r pandemig Covid-19 i'w weld wedi cael effaith ar y perfformiad yn erbyn y Mesurau Iechyd Meddwl ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc (CAMHS), lle mae'r gwelliannau a welwyd ym mis Chwefror 2020 wedi parhau i fis Mawrth 2020.


Y targed cenedlaethol yw bod 80% o gleifion sy'n oedolion yn cael asesiad gan ein gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl gofal cychwynnol (LPMHSS) cyn pen 28 diwrnod o gael eu cyfeirio.

Syrthiodd y perfformiad dros fisoedd cyntaf y flwyddyn, ond yn dilyn hynny bu gwelliant parhaus ac roedd y perfformiad diwedd blwyddyn yn gryf ar 80.5% a 83.1% ar gyfer mis Chwefror a Mawrth 2020.

Er i'r perfformiad ostwng yng nghanol y flwyddyn ar gyfer y gyfran o'r cleifion a oedd yn dechrau triniaeth o fewn 28 diwrnod, roedd wedi gwella eto erbyn mis Rhagfyr 2019 ar 74.3%. Ar ôl gostwng ym mis Ionawr 2020, llwyddodd y perfformiad i wella eto ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2020 ar 76.2% a 76.3%, yn y drefn honno.




Yn niwedd 2018/19 roedd yr Uwch Adran Iechyd Meddwl wedi'i gefeillio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddysgu o'u dull at drawsnewid gwasanaeth. O'r cydweithrediad hwn, rydym wedi amlinellu cynllun ar gyfer 2020/21 lle byddwn yn gweithio drwy drawsnewidiad gwasanaeth cyflawn gan ddefnyddio'r dull Gwella Ansawdd. Yn ystod 2019/20, fe wnaethom gyflwyno'r ymgyrch Mi fedraf (I Can), gyda'r nod o arbed mil awr o amser cleifion y dydd drwy fil o straeon o newid ar draws ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar rwydwaith cefnogaeth gwirfoddolwyr ar gyfer ein cleifion Iechyd Meddwl. Bydd hyn ynghyd â rheolaeth weithredol well yn y gwasanaeth, yn cefnogi mwy o welliannau mewn perfformiad a dylai ein caniatáu i fodloni'r raddfa targed mewn ffordd fwy cyson a chynaliadwy.




Cydweithio

Yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc hefyd, mae gwelliannau wedi bod hefyd, ac ers mis Gorffennaf 2019 mae ein perfformiad wedi bod o flaen ein taflwybr a gynnlluniwyd yn gyson. Rydym wedi rhagori ar y gyfradd targed cenedlaethol ar gyfer cynnal asesiadau o fewn 28 diwrnod ar gyfer 5 o'r 9 mis hys at fis Rhagfyr 2019. Er na wnaethom fodloni'r raddfa darged ym mis Rhagfyr 2019 pan fu i ni brofi ychydig o ostyngiad mewn perfformiad, ar 70.70% roedd ein perfformiad drwy'r flwyddyn yn amlwg yn well nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2018/19. Roedd mwy o welliannau yn ystod Chwarter 4, gyda'r perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn cyrraedd 77.80%



Mae gwelliannau sylweddol wedi bod o ran cyfran y cleifion a ddechreuodd ymyriad therapiwtig o fewn 28 diwrnod o gael eu cyfeirio hefyd, gan fodloni graddfa gyfartalog o 73.4%, o'i chymharu â 42.6% yn 2018/19. Er bod hwn yn is na'r raddfa darged o 80%, bodlonwyd y lefel hwn ar gyfer mis Gorffennaf 2019, ac rydym yn bwriadu cyflwyno mwy o welliannau ar gyfer amseroedd mynediad ac ansawdd Gwasanaethau CAMHS ar gyfer plant a phobl ifanc Gogledd Cymru.



Uchafbwynt y Mis – Ionawr 2020

Diolchodd cwpwl o Sir y Fflint i staff y Bwrdd Iechyd wedi i Wasanaeth Cardiaidd Wrecsam a Sir y Fflint eu helpu i golli 10 stôn rhyngddynt.

Cafodd Andrew Bibby ddiagnosis o fethiant y galon ar ôl ymgwmpo yn ei gartref yn 2016 a chafodd driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, ac yn nes ymlaen yn Ysbyty'r Galon a'r Frest yn Lerpwl. Cafodd ei gyfeirio at y Gwasanaeth Adsefydlu Cardiaidd, sy'n cefnogi pobl sydd wedi cael digwyddiad cardiaidd megis trawiad ar y galon, stent, rhydweli coronaidd neu fethiant y galon a dechreuodd raglen 12 wythnos sy'n cynnwys cyngor ar ymarfer a diet. Ymunodd gwraig Andrew, sef Carole ag ef yn y sesiynau campfa ym Mhafiliwn Jade Jones, y Fflint.



Gofal unigol

Rydym am i'n gwasanaethu cael eu llunio gan y bobl a wasanaethwn ac i fodloni eu hanghenion er mwyn dangos ein bod yn dysgu o adborth ac yn gweithredu arno.



Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn darparu cymorth priodol i'r rheiny sy'n fwy bregus neu i'r rheiny a all ei gweld yn anoddach cael mynediad at wasanaethau.

Dangosyddion Perfformiad Gofal Unigol	Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth iechyd meddwl C.A.L.L fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	Chwarter 3 2019/20	187.9		↓
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth Dementia Cymru fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd (dros 40 oed)	Chwarter 3 2019/20	8.2		↓
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth DAN 24/7 fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	Chwarter 3 2019/20	42.2		↓
% o drigolion y BILI sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (o bob oedran) i gael Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) dilys wedi'i gwblhau ddiwedd pob mis	Rhagfyr 2019	92.4%		↑
% o drigolion y BILI a gafodd eu hasesu o dan y Mesur Iechyd Meddwl yr anfonwyd eu hadroddiad asesu canlyniadau atynt o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl eu hasesiad	Rhagfyr 2019	100.0%		↓

Cynlluniau Triniaeth Gofal (CTP)

Er mwyn gwella cyd-drefniant rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i ofalu am bobl y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arnynt, mae'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a thriniaeth gael ei lunio ar gyfer pob unigolyn. Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2019 rydym wedi sicrhau'n gyson bod o leiaf 90% o ddefnyddwyr y gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn derbyn Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) cyflawn ar ddiwedd pob mis. Parhaodd y perfformiad hwn drwy gydol Chwarter 4 2019/20.

Heblaw am fis Hydref 2019, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i fodloni ei gyfradd targed o 100% yn gyson o ran sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn copi o'u hasesiad o fewn 10 diwrnod gwaith.

Staff ac adnoddau

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod digon o staff ar gael sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir er mwyn bodloni anghenion ein cleifion. Mae ein mesurau perfformiad hefyd yn sicrhau bod ein staff yn cael gwerthusiad blynyddol a chynllun datblygu personol; eu bod wedi'u recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwysedig ac yn gymwys i wneud eu gwaith.

Mae ein dangosyddion perfformiad lleol eraill yn y maes hwn yn mesur ein cynhyrchiant yn y theatr ac effeithlonrwydd cleifion allanol yn ogystal â'n dulliau rheoli ariannol o ran staff asiantaethau a locwm.

Ein Dangosyddion Perfformiad Staff ac Adnoddau	Cyfnod	Gwerth	RAG	Tuedd
% absenoldeb staff oherwydd salwch	9 mis at Rhagfyr 2019	5.27%		↓
% y gydymffurfiaeth ar gyfer bob gallu Lefel 1 a gwblhawyd yn y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd	Rhagfyr 2019	83.10%		↓
% o gyfrif pennau sydd wedi cael PADR / Gwerthusiad Meddygol yn y 12 mis diwethaf	Rhagfyr 2019	75.40%		↑
% cleifion deintyddol sy'n oedolion ym mhoblogaeth y BI sy'n ail fynychu gofal cychwynnol deintyddol y GIG rhwng 6 a 9 mis	Chwarter 3 2019/20	35.10%		↑
% o welyau gofal critigol a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo gofal (diffiniad ICNARC)	Chwarter 3 2019/20	13.20%		↑

Ein cynhyrchaeth

Yn y naw mis o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2019 roedd cynnydd o bron i 20,000 o bobl yn dod am apwyntiad dilynol i gleifion allanol o'i chymharu â'r un cyfnod yn 2018/19. Bu i ni gynnal dros 3,500 yn fwy o endosgopiâu nag yn yr un cyfnod yn 2018/19. Roedd dros 5,300 yn fwy o bobl yn dod i'n hadrannau achosion brys rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019, o'i chymharu â'r un cyfnod yn 2018/19. Roedd y cynnydd fesul blwyddyn yn nifer y derbyniadau brys hefyd yn parhau gyda dros 2,350 yn fwy o dderbyniadau brys yn y naw mis rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 o'i chymharu â'r un cyfnod yn 2018/19.

Mae'r ffigyrau hyn yn helpu i ddarlunio'r cynnydd yn y galw y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wynebu, gan ymdrechu i gyflawni'r arbedion sydd eu hangen i fodloni ein hymrwymadau ariannol. Roedd y cynnydd hwn yn y galw yn parhau i Chwarter olaf 2019/20 ond bu i ddechrau'r pandemig Covid-19 a'r mesurau a gymerwyd i atal ei ledaeniad yng nghanol mis Mawrth 2020 achosi gostyngiad cyflym a sylweddol mewn derbyniadau brys a dewisol ar draws pob gwasanaeth.

Ein staff


Gall darparu gofal iechyd fod yn feichus yn gorfforol ac yn emosiynol a chynyddodd cyfradd absenoldebau salwch ein staff dros y naw mis rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 gyda chyfradd yr absenoldebau ym mis Rhagfyr 2019 yn 5.27%. Yn anffodus trwy gydol Chwarter 4, cynyddodd y gyfradd salwch i 5.68% ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y gyfradd darged o 4.5%.

Er mai hwn yw'r drydedd gyfradd isaf ymysg sefydliadau GIG Cymru, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio arno, ar gyfer lles uniongyrchol ein gweithwyr a hefyd yn nhermau ein gallu i ddarparu gwasanaethau i'n cleifion a'n poblogaeth a'r gost o orfod cyflenwi dros absenoldebau.




Atal

Mae'r gwelliant a gafwyd yn 2018/19 o ran nifer y staff a gafodd adolygiad gwerthuso a datblygiad (PADR) wedi parhau yn 2019/20. Roedd cynnydd cyson fesul mis yn y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2019 lle'r oedd y ffigwr yn 75.4%, y gyfradd uchaf yng Nghymru, o'i chymharu â 67.10% ar ddiwedd y llynedd. Rydym yn parhau â'r cynlluniau gweithredu a roddwyd ar waith yn 2018/19 i sicrhau bod cyfradd y PADRs yn parhau i wella drwy gydol 2020/21.



Yn 2019/20 bu i ni wella o ran cyfran y staff a oedd yn cynnal eu hyfforddiant gorfodol; bu i ni fodloni'r raddfa darged o 85% ar gyfer y rhan fwyaf o'r misoedd a gorffen y cyfnod adrodd ym mis Rhagfyr 2019 ar 83.1%. Oherwydd hyn, ni oedd y Bwrdd Iechyd a oedd yn perfformio orau yng Nghymru o ran y mesur hwn.



Er i'r perfformiad ostwng o dan y gyfradd darged o 85% ar 84.72% ym mis Mawrth 2020, byddwn yn parhau gyda'n gwelliannau a gynlluniwyd i sicrhau ein bod yn cynnal perfformiad yn gyson ar y lefel hwn neu drosto yn 2020/21 a'r tu hwnt.

Uchafbwynt y Mis – Chwefror 2020

Mae staff ar Ward Hydref, rhan o Uned Seiciatrig Heddfan yn Wrecsam sy'n cefnogi oedolion hŷn â phroblemau iechyd meddwl, wedi ennill Achrediad Aur y Bwrdd Iechyd am ddarparu gofal o'r safon uchaf. Aseswyd y ward 13 gwely yn erbyn ystod o fesurau ansawdd cenedlaethol, a chanmolodd arweinwyr nyrsio y safonau gofal rhagorol a ddarperir gan staff amlddisgyblaethol y tîm.

Wedi'i lansio ym mis Tachwedd 2018, mae'r rhaglen achredu wardiau yn asesu wardiau ac unedau ar draws y rhanbarth, ac mae'r achrediad Aur yn cydnabod rhagoriaeth gyson ar draws pob agwedd ar ofal.

Ein gweithgarwch

Caiff tua 90% o weithgarwch y GIG ei gyflawni gan bractisau Meddygon Teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd ac optegwyr lleol.

Yn y 9 mis o 1 Ebrill 2019 i 31 Rhagfyr 2019 a gyda'r adnoddau a gawsom gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom gwblhau dros 30,000 yn fwy o asesiadau, profion neu driniaethau na'r un cyfnod y llynedd ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn yr ysbytai a gynhelir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, fel y'i nodir yn y tabl isod. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau a ddarperir mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn GIG Lloegr ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Math o Glaf	9 mis i 31 Rhagfyr 2018	9 mis i 31 Rhagfyr 2019	Newid	
			nifer	canran
Cleifion Mewnol Achosion Brys	72,663	75,036	2,373	3.27%
Achosion Dydd Dewisol	24,813	24,062	-751	-3.03%
Cleifion Mewnol Dewisol	12,385	11,591	-794	-6.41%
Endosgopïau	11,694	15,541	3,847	32.90%
Mân Driniaethau Cleifion Allanol	1,810	1,575	-235	-12.98%
Cleifion Dydd Rheolaidd	36,426	36,267	-159	-0.44%
Babanod Iach	4,041	3,716	-325	-8.04%
Cleifion Allanol Newydd	202,513	204,196	1,683	0.83%
Adolygu Cleifion Allanol	387,908	407,447	19,539	5.04%
Asesiad Cyn-llawdriniaeth	24,143	23,987	-156	-0.65%
Derbyniadau newydd i Adrannau Achosion Brys	175,934	181,243	5,309	3.02%
Ymweliadau Adolygu ag Adrannau Achosion Brys	4,910	4,852	-58	-1.18%
Cyfanswm	959,240	989,513	30,273	3.16%

Uchafbwynt y Mis – Mawrth 2020

Daeth y flwyddyn i ben wrth i ni ddatblygu a gweithredu cynlluniau brys i ymateb i'r pandemig Covid-19. Tynnodd staff o'r Bwrdd Iechyd cyfan at ei gilydd i ddarparu newidiadau cyflym ac eang i'r ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau, yn cynnwys


- Sefydlu mannau ar wahân yn ein hysbytai ar gyfer Covid a heb fod yn Covid
- Ehangu ein capasiti gwelyau a chreu cyfleusterau gofal dwys newydd dros dro
- Gweithio gyda phartneriaid i greu tri ysbyty maes yn barod am ymchwydd yn nifer y cleifion sydd angen gofal ysbyty
- Ehangu'r defnydd o glinigau rhith a gweithio o bell
- Adleoli staff i rolau newydd i gefnogi'r galw sy'n newid ar y sefydliad




Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn rhoi cyfle i ni feddwl yn wahanol ac i roi pwyslais newydd ar wella lles cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i ni feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, ceisio atal problemau yn ogystal â chymryd ymagwedd mwy cydgysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod ar les, ac mae angen i ni wneud y mwyaf o'n cyfranogiad i bob un o'r saith:



Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi disgrifio'r broses o weithio tuag at y gofynion hyn fel taith - gan ddechrau gyda mabwysiadu newidiadau bach a symud ymlaen i wneud newidiadau mwy.



Fel rhan o'r daith hon, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, osod amcanion lles sydd wedi'u dylunio i hwyluso hyn a'u cyhoeddi; a mabwysiadu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy. Dylid mewnosod datblygiad cynaliadwy o fewn prosesau corfforaethol presennol, ac ni ddylid ei drin fel ymarfer ar wahân i osod amcanion sy'n arwain y camau gweithredu a phenderfyniadau'r sefydliad.

O ran datblygu ein strategaeth tymor hir ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd (*Byw'n Iach, Aros yn Iach* - a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018), rhoddodd miloedd o bobl eu hamser, eu barn a'u hadborth i helpu i gynllunio'r strategaeth gyda'n gilydd, a hefyd i roi eu barn ar ein hamcanion lles. O ganlyniad, bu i ni adfywio amcanion y Bwrdd Iechyd fel sydd wedi'u gosod isod:

- Gwella lles ac iechyd corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Targedu ein hadnoddau ar unigolion sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau
- Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i gyflawni eu lles eu hunain
- Gwella diogelwch ac ansawdd bob gwasanaeth
- Parchu unigolion a'u hurddas
- Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau

Wrth gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn

- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, trawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil
- Cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori

Mae'r amcanion lles wedi cael eu nodi'n glir ym mhroses llywodraethu'r Bwrdd; mae'n rhaid i bob adroddiad i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau ddynodi'r cyfraniadau i'r amcanion perthnasol. Rhaid i bob menter yn awr ddynodi sut mae'n cyfrannu at amcanion lles a hefyd sut maent wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio.

Mabwysiadu'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dynodi pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor Datblygiad Cynaliadwy:



Cydwethio



Tymor Hir



Atal



Ymglymiad



Integreiddiad

Yn ystod 2018-19 fe wnaethom barhau i adeiladu ar y defnydd o'r pum ffordd o weithio ym mhopeth a wnawn.

Aeth gwaith pellach ymlaen gyda phartneriaid drwy'r byrddau partneriaethau ffurfiol - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) yng Ngogledd Cymru: Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu yn erbyn y blaenoriaethau a ddynodwyd.

Mae PSB **Gwynedd ac Ynys Môn** wedi cadarnhau dau amcan lles mawr:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llwyddiannus yn y tymor hir
- Trigolion sy'n iach ac annibynnol gydag ansawdd bywyd da



Tymor Hir

Mae gan bob un nifer o themâu cefnogol sy'n cael eu datblygu gan bartneriaid.

Yng **Nghonwy a Sir Ddinbych**, dynododd y PSB dri maes blaenoriaeth mawr:

- Cefnogi lles meddyliol da i bob oed
- Cefnogi grymuso cymunedau
- Cefnogi gwytnwch amgylcheddol



Atal

Ar gyfer eu cynllun lles, gosododd PSB **Sir y Fflint** bum maes blaenoriaeth:

- Diogelwch cymunedol
- Economi a sgiliau
- Yr amgylchedd
- Cymunedau gwydn
- Byw'n iach ac yn annibynnol



Ymglymiad

Gosodwyd 15 amcan gan PSB **Wrecsam** yn adlewyrchu anghenion a ddynodwyd yn lleol:

- Mae gan bawb gyfleoedd i ddysgu a datblygu drwy eu bywydau
- Mae plant a phobl ifanc yn cael dechrau iach i'w bywydau
- Gall pobl fyw'n iach, yn hapus ac yn annibynnol yn eu henaint
- Mae gan bobl iechyd meddwl positif
- Gall pobl wneud dewisiadau iach
- Mae ein tref yn fywiog a chroesawgar
- Mae cyfleoedd cyflogaeth da yn Wrecsam
- Mae ystod o bethau i wneud yn eich amser hamdden
- Mae'r economi mewn ardaloedd gwledig yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu ffynnu
- Mae gan bawb fynediad at gartrefi priodol, o ansawdd da drwy gydol eu bywydau
- Gall pobl deithio'n hawdd o amgylch y sir a thu hwnt
- Mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Mae twristiaeth yn cefnogi'r economi leol
- Mae'r fwrdeistref sirol yn lle diogel i fod ynddi
- Mae ein cymunedau'n barod am y dyfodol



Integration

Rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a gellir cael mwy o fanylion ar wefan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

- **Gwynedd ac Ynys Môn:** <https://www.llesiantgwyneddmon.org/cy/>
- **Conwy a Sir Ddinbych:** <https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/>
- **Sir y Fflint:** <https://www.sirfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Flintshire-Public-Services-Board.aspx>
- **Wrecsam:** <https://www.bgcwrecsam.org/>

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y Bwrdd Iechyd adeiladu ar gydweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i ddatblygu'r Prosiect Carbon ar gyfer BIPBC. Mae newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd yn flaenoriaethau cyson i'r Byrddau a thrwy gydweithio, gallwn symud ymlaen ymhellach gyda datgarboneiddio. Mae'r Bwrdd yn cynnal asesiad o ôl troed carbon ein hadeiladau, cludiant a thir ac asedau gweithredol. Yna byddwn yn ceisio newid ymddygiad a phenderfyniadau i gefnogi datgarboneiddio a chadarnhau ystod o brosiectau carbon positif ar gyfer BIPBC. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn gyda'n partneriaid.



Tymor Hir

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) yn cael ei sefydlu dan y Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddod ag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a phartneriaid eraill i ddatblygu gofal a chefnogaeth i unigolion a'u gofalmwyr.



Cydweithio

O dan y cynllun cenedlaethol tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae rôl y RPB wedi cael ei bwysleisio unwaith eto ac rydym wedi bod yn gweithio tuag at sicrhau ein bod yn rhannu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau. Yn ystod y flwyddyn, galluogodd ein dyraniad o'r Cyllid Trawsnewid gan Lywodraeth Cymru i ni barhau i weithredu ein rhaglenni trawsnewid yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Cymuned
- Iechyd Meddwl
- Anableddau Dysgu
- Plant a Phobl Ifanc

Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn gyson â'n hamcanion lles a bydd yn ein galluogi ni i barhau â'n cyfraniad at y rhain mewn partneriaeth.

Yn ystod y flwyddyn, gyda phartneriaid RPB, fe wnaethom ddatblygu strategaeth ar y cyd i bobl ag anabledd dysgu, strategaeth ar y cyd i gefnogi pobl sy'n byw â dementia, a chymeradwywyd y Strategaeth Gofalmwyr ar y cyd. Fe wnaethom hefyd sefydlu Grŵp Cydweithredol Gogledd Cymru ar gyfer Colli Clyw, gan weithio gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector.

Y Bwrdd Iechyd yw'r Bwrdd Iechyd Lleol mwyaf yng Nghymru, sy'n gwasanaethu bron i draean ehangdir y wlad. Caiff ein gwasanaethau eu cynnig o amrywiaeth o leoliadau gan amrywio rhwng ysbytai cyffredinol dosbarth a chlinigau cymunedol ac ymweliadau â chartrefi gan glinigwyr. Wrth gynnig y gwasanaethau hyn, mae gennym effaith amgylcheddol y mae'n rhaid ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi goblygiadau ariannol ac amylcheddol sylweddol.



Tymor Hir

Mae ein portffolio eiddo'n cynnwys tri phrif ysbyty cyffredinol llym, 17 o ysbytai cymunedol, 95 o glinigau cymunedol a 9 cyfleuster iechyd meddwl cleifion mewnol, ynghyd ag ystod o adeiladau ategol eraill, sy'n rhoi cyfanswm portffolio o dros 130 o eiddo.

Er bod y galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fodloni heriau sydd ynghlwm wrth leihau carbon, lleihau gwastraff a diogelu cynhyrchion ac adnoddau o ffynonellau cynaliadwy lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod ein heffaith amgylcheddol yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, rydym yn cynnal System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, sydd â'r bwriad i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygu cynladwy;
- Cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion eraill;
- Atal llygredd;
- Amddiffyn yr amgylchedd;
- Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd;
- Diwylliant o welliant parhaus.

Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chyflawni drwy'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i'r holl randdeiliaid perthnasol;
- Nodi pob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau i wasanaeth a deddfwriaeth newydd;
- Sefydlu amcanion a thargedau a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol;
- Archwiliadau allanol a mewnol rheolaidd;
- Adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol yn rheolaidd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol;
- Gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull sector cyhoeddus cyson at reolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu dynodi a'u rhoi ar waith.

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur gan ddefnyddio amrywiol offer a thrwy ein cysylltiad â nifer o gyrff partneriaeth:

- BS EN ISO 14001 2015 System Reoli Amgylcheddol;
- Adrodd Blynyddol Ymroddiad Lleihau Carbon;
- System Fonitro Perfformiad Ynni a Chyfleusterau Blynyddol;
- Fforwm Amgylcheddol Ystadau Iechyd Cymru;
- Gwasanaethau Cyfleusterau - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Systemau monitro deunydd gwasanaethau mewnol, amser real;
- Asesiad BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) o gynlluniau cyfalaf mawr.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei wneud yn unol â safonau arfer gorau presennol a bod gwelliannau parhaus yn cael eu hymgorffori i ddiwylliant y sefydliad.

Caiff y data a ddefnyddir i lunio'r adroddiadau hyn ei ddilysu gan ddarparwyr archwilio mewnol ac allanol gan gynnwys BM TRADA (corff archwilio ac ardystio allanol achrededig gan UKAS) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ennill Safon Blatinwm Safon Iechyd Corfforaethol Cymru Iach ar Waith, a bu ein defnydd o dechnoleg gynladwy, caffael moesegol a chynladwy a gwaith ar gludiant sy'n gyfrifol ar lefel amgylcheddol yn rhan o'r hyn a gyflwynwyd.

Gwaith mewn Partneriaeth

Caiff y Bwrdd Iechyd ei gynrychioli ar y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB) yng Ngogledd Cymru, y mae pob un o'r rhain yn gweithio ar faterion amgylcheddol a chynladwydd:



- **PSB Gwynedd a Môn:** yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i leddfu effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ein cymunedau;
- **PSB Conwy a Sir Ddinbych:** gan ganolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd a chymau i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr ac i liniaru ac addasu i effeithiau lleol cynhesu byd-eang, megis lefel y môr yn codi a digwyddiadau tywydd eithriadol, gan gynnwys llifogydd; gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwytnwch amgylcheddol yn ein cymunedau a leihau ôl troed carbon ac ecolegol - mae Addewid Gwyrdd Cymuned PSC Conwy a Sir Ddinbych yn darparu awgrymiadau ac arweiniad i gymunedau a sefydliadau ar sut allan nhw wneud gwahaniaeth;
- **PSB Sir y Fflint:** datblygu cyfleoedd mynediad gwell at seilwaith gwrrdd, amddiffyn yr amgylchedd a thynnu sylw ato, gwella amddiffynfeydd llifogydd a leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- **PSB Wrecsam:** yn ymrwymedig i ganolbwyntio ar faterion cyffredinol tlodi, cydraddoldeb, y Gymraeg a newid yn yr hinsawdd: bydd grwpiau rhaglen a phartneriaid yn gyfrifol am ymgorffori newid yn yr hinsawdd i'w gwaith.

ISO14001:2015 System Rheoli Amgylcheddol

Mae safon ISO14001:2015 o ran systemau rheoli amgylcheddol wedi'i hymgorffori erbyn hyn yn y Bwrdd Iechyd trwyddo draw ar ôl cyflawni ardystiad ISO ym mis Ebrill 2018. Cyflwynwyd y safon newydd er mwyn gwneud y Bwrdd Iechyd a'i staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddio, ac mae'n caniatáu i'r risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n fwy effeithiol.

Mae gan y Swyddogion yr Amgylchedd ardystiad y Sefydliad Ansawdd Siartredig a Chofrestr Ryngwladol yr Archwilywyr Ardystiedig, sy'n eu galluogi i weithredu fel Archwilywyr Arweiniol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol wedi mynd ati i roi fersiwn 2015 y safon ar waith trwy amlygu:

- Y newidiadau allweddol y mae angen i ddarparwyr gwasanaeth eu gwneud;
- Ymrwymiad a chyfraniad uwch reolwyr yn yr EMS;
- Cydymffurfiaeth â Pholisi Amgylcheddol;
- Anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb;
- Materion allanol a mewnol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol;
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'w gwasanaeth/adran;
- Perfformiad, gwerthuso a monitro.

Mae ISO14001:2015 yn cynnig fframwaith i amddiffyn yr amgylchedd ac i ymateb i amodau cyfnewidiol yr amgylchedd, ochr yn ochr ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001:2015 yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni canlyniadau bwriadedig ei EMS, sy'n cynnig gwerth i'r amgylchedd, y Bwrdd Iechyd ei hun a phartïon sydd â diddordeb. Yn unol â Pholisi Amgylcheddol y Bwrdd Iechyd, mae canlyniadau bwriadedig yr EMS yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol;
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth;
- Cyflawni amcanion amgylcheddol.

Mae asesiadau wedi dangos bod conglfeini'r system - canfod prosesau corfforaethol a safle penodol sy'n cael effaith amgylcheddol (yr Agweddau a'r Effeithiau Amgylcheddol) a rhaglen o amcanion a thargedau amgylcheddol a bennwyd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol i liniaru'r effeithiau hyn - ar waith. Mae'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar y trywydd cywir ac mae'n cael ei chynnal yn effeithiol; mae'r broses o fethiant i gydymffurfio'n effeithiol ac mae'n gweithio'n effeithlon. Mae un mân achos o fethiant i gydymffurfio'n dal i fod heb dderbyn sylw ers yr asesiad blaenorol, sy'n ymwneud â pheidio â sicrhau bod yr holl bartïon sy'n gweithio ar ran y Bwrdd Iechyd yn gwbl ymwybodol o'r polisi, yr agweddau a'r effeithiau amgylcheddol. Mewn ymateb i hynny, caiff hyfforddiant amgylcheddol ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant gorfodol ac mae pecyn e-ddysgu pwrpasol wedi'i ddatblygu i gyflawni hyn.

Yn ystod y flwyddyn, mae deg safle'r Bwrdd Iechyd wedi cael eu harchwilio yn erbyn y safon ISO14001:2015. Codwyd diffyg cydymffurfiaeth fawr a bach yn erbyn cymhwysedd, archwiliadau, hyfforddiant, asesiadau risg cofnodion, nodiadau trosglwyddo ac offer tân, ac mae rhaglen o waith wedi'i rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol

Mae'r Rhaglen Amcanion Amgylcheddol wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer y tair blynedd nesaf 2019-2022. Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ein helpu i ddangos gwelliant parhaus a bodloni gofynion System Rheoli Amgylcheddol BIPBC.

- Lleihau ein cyfraniad at newid yn yr hinsawdd drwy gyflwyno mentrau effeithlonrwydd ynni ar safleoedd Gwasanaethau Caffael NWSSP a gweithio gyda'n cyflenwyr i wella effeithlonrwydd ynni yng ngwneuthuriad a pherfformiad parhaus nwyddau a gwasanaethau.
- Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a dylanwadu ar gadwyn gyflenwi i leihau gwastraff sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi
- Gweithredu a chaffael mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar gynhaliaeth a rheolaeth effeithiol adnoddau naturiol.
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Sefydliad a'r cyflenwr yn cael eu cynnal yn deg ac yn foesegol.
- Sicrhau bod cytundebau'n ychwanegu'r gwerth mwyaf bosibl i breswylwyr Cymru drwy gyfrannu at y gymuned leol o ran addysg, adfywiad ac ymgysylltiad â'r gymuned.
- Cofleidio'r siarter 'Drysau Agoriadol' i sicrhau bod SME (mentrau bach a chanolig) yng Nghymru yn cael y cyfle gorau i gystadlu am ein busnes.
- Lleihau allyriadau CO₂ drwy uwchraddio boeleri, deunydd rheoli ac adeiladu yn unol â Tharged gorfodol Llywodraeth Cymru o ostyngiad o 3% flwyddyn bob blwyddyn.
- Codi Ymwybyddiaeth am Ynni drwy roi pecyn e-ddysgu gorfodol ar waith.
- Archwilio cynhwysyddion bwyd sy'n fwy cyfeillgar yn amgylcheddol, eu treialu a'u cyflwyno, gan arwain at wahardd defnyddio cynhwysyddion polystyren / plastig yn yr adran arlwy.
- Darparu gwybodaeth a phynciau amgylcheddol a gwastraff allweddol drwy roi pecyn e-ddysgu gorfodol ar waith.
- Dynodi meysydd bioamrywiaeth a'u creu i ategu targedau Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Amgylcheddol (Cymru).
- Lleihau gwastraff plastig yn y Bwrdd Iechyd.
- Cynnal amgylchedd gwaith diogel trwy sicrhau bod crynodiad ffibr yn yr awyr yn cael ei gadw ar lefel dderbyniol (cynnal cofrestr asbestos cyfoes, cynnal ail archwiliadau cyfnodol o'r ystâd asbestos, cael gwared ar asbestos risg uchel a chynnal arferion a hyfforddiant gweithio diogel)
- Monitro allyriadau CO₂ sy'n gysylltiedig â chludiant
- Adolygu cynlluniau teithio a'u diweddarau.
- Lleihau'r risg o lygredd olew drwy uwchraddio tanciau a byndiau drwy reolaethau a gweithdrefnau lleol; archwilio byndiau allanol a rhoi argymhellion gofynnol ar waith.
- Amddiffyn staff a chleifion rhag Radon, gan gynnal lefelau sy'n is na 300Bq/m² ar gyfer gweithleoedd a 200Bq/m³ mewn preswylfeydd staff.
- Cael gwared ar y risg o deneuo'r osôn a nwyon tŷ gwydr niweidiol eraill drwy dynnu/amnewid rhewydd R404a.
- Lleihau defnydd papur ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cael gwared â pheiriannau ffacs yn raddol i leihau defnydd papur ac inc.

Hyfforddiant Amgylcheddol a Gwastraff

Mae safon ISO 14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant a galluoedd unrhyw unigolion sy'n gallu cael effaith ar y System Rheoli Amgylcheddol.

Mae pecyn e-hyfforddiant Cymru Gyfan ar gyfer rheoli amgylcheddol a gwastraff, sydd wedi'i fabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd i greu pecyn hyfforddiant pwrpasol wedi cael ei lwytho ar y platfform e-ddysgu yn barod i fod yn rhan orfodol o hyfforddiant staff. Unwaith y bydd yn fyw, bydd hyn yn gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth staff am faterion amgylcheddol, cefnogi ein gwaith i wella rheolaeth gwastraff a sicrhau ein bod yn bodloni gofynion Safon System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001.

Rheoli gwastraff

Ym mis Medi 2019 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddogfennau ymgynghori ar gynigion am ddeddfwriaeth i annog ailgylchu a chael gwared ar wastraff yn briodol o adeiladau annomestig. Bydd y ddeddfwriaeth yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr adeiladau annomestig gyflwyno rhai deunyddiau ailgylchadwy i'w casglu ar wahân
- Gwahardd rhai deunyddiau ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân rhag eu llosgi a'u hanfon i safleoedd tirlenwi
- Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o adeiladau busnes
- Sicrhau bod cosbau sifil ar gael am droseddau cysylltiedig.

Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2019.

Dyfarnodd y Bwrdd Iechyd gytundeb newydd ar gyfer gwaredu ac ailgylchu Gwastraff Trydanol ac Offer Electronig (WEEE) a ddechreuodd ym mis Chwefror 2020. Mae'r contract ar gyfer gwastraff ailgylchadwy, domestig a chyffredinol yn y broses o gael ei dendro, a bydd y contract newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2020.

Roedd ymgyrch blynyddol 'tacluso llanast' y Bwrdd Iechyd yn llwyddiant unwaith eto y gwanwyn hwn, gan annog wardiau ac adrannau i dacleso llanast ac eitemau nad oeddent yn eu defnyddio, gwella taclusrwydd a hwyluso glanhau eu hardaloedd a chefnogi ein hymdrechion i gynnal amgylchedd diogel a glân.

Cynyddodd cyfaint y gwastraff a aildefnyddiwyd ac a ailgylchwyd 6.2% dros y flwyddyn, tra bod y cyfaint gweddilliol a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi wedi ei haneru a mwy.

Grŵp Trafod Di-blastig

Mae'r Grŵp Di-blastig yn grŵp Bwrdd Iechyd eang, sydd wedi'i sefydlu gan y Tîm Amgylchedd ac mae cynrychiolwyr o ystod o adrannau sydd â diddordeb mewn ailgylchu defnydd plastig a gwastraff plastig yn y sefydliad yn bresennol yn y grŵp.

Yn dilyn trafodaethau o fewn y grŵp, mae'r Tîm Amgylchedd wedi gweithio gyda gwasanaethau caffael i ddarparu cwpanau diod amgen i blastig, ble roedd dros 2 filiwn yn cael eu defnyddio ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae cwpan bapur addas wedi cael ei gyflwyno ar draws ein safleoedd, sydd hefyd wedi arwain at arbedion ariannol o £6,200 y flwyddyn. Er mwyn lleihau gwastraff ymhellach, mae'r adrannau arlwygo yn awr yn cynnig cwpanau/mygiau llestri fel dewis amgen i gwpanau papur tafladwy.

Canllaw Nwyddau Gwyn

Er mwyn lleihau faint o wastraff trydanol sy'n cael ei symud o amgylch y safleoedd ysbyty ac sy'n cael ei waredu yn yr iardiau gwastraff, mae Swyddogion yr Amgylchedd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr caffael er mwyn ailddatblygu'r Canllaw Nwyddau Gwyn. Mae'r canllaw bellach yn cyfarwyddo staff sy'n archebu oergell newydd bod yn rhaid iddynt gynnwys tynnu'r hen gyfarpar gan y cyflenwr hefyd, os na ddilynir y broses hon, yna ni chaiff yr archeb ei phrosesu.

Ynni a rheoli carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i chwilio am fesurau ac i'w rhoi ar waith er mwyn gwella ei effeithlonrwydd ynni ac i leihau allyriadau carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau. Lleihad o 3% mewn allyriadau CO₂ flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r Targed Perfformiad Corfforaethol Lleihau Carbon presennol fel sy'n ofynnol gan Gynllun Cyflenwi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Leihau Allyriadau Llywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau lleihau carbon yn dibynnu'n bennaf ar adnoddau a ddyrennir gan y Rhaglen Cyfalaf Disgresiynol flynyddol a Chynlluniau Datblygu Cyfalaf Mawr. Yn 2019/20 bu llai o fuddsoddiad oherwydd dyraniad ariannol y cynllun datblygu cyfalaf.

Roedd cynlluniau a sicrhodd arbedion carbon yn ystod 2019/20 yn cynnwys:

- Newid y boeleri gwres a dŵr poeth yn adeilad adran Ystadau Ysbyty Maelor Wrecsam;
- Gwelliannau i oleuadau allanol yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Gosod boeler newydd yng Nghanolfan Iechyd Abergele;
- Newid boeleri yn Ysbyty Cefni;
- Newid ffenestri yn adeilad adran ystadau yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae gwaith ailwampio Ysbyty Glan Clwyd wedi'i gwblhau. Er bod gwelliannau i dechnoleg ynni wedi'u hymgorffori i'r dyluniad, efallai y caiff arbedion carbon cyffredinol o ran y cyfleusterau uwchraddedig eu gwrthbwysu gan yr ôl-troed ardal mwy o faint a gosod defnyddwyr trydanol ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer triniaeth glinigol a chysur cleifion.

Yn ystod 2019/20, ychwanegwyd y Ganolfan Data newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam at ystad y Bwrdd Iechyd. Mae rhesymoliad i asedau corfforaethol wedi parhau gyda Chanolfan Feddygol Hillcrest yn Wrecsam yn cael ei throsglwyddo i Gydweithrediad Gofal Cymuned. Cafodd Meddygfa Parc Borrass hefyd ei throsglwyddo i'r Cydweithrediad Gofal Cymuned; roedd hyn i fod i ddigwydd ar 31 Mawrth 2020 ond mae wedi'i ohirio oherwydd y rôl a neilltuwyd i'r adeilad i gefnogi'r ymateb i'r pandemig Covid-19.

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweithio gyda Gwasaneth Ynni Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Carbon, sydd wedi daparu arweiniad i'r Bwrdd Iechyd ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni ymhellach yn ein hadeiladau.

Yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol o ran monitro a, lle bo'n bosibl, lleihau defnydd o ynni, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cenedlaethol sy'n cysylltu â strategaeth ynni'r DU. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â'r nod o leihau'r cyflenwad trydanol i Ysbyty Gwynedd gymaint â phosibl ar adegau o alw brig ar seilwaith trydanol y DU. Mae hyn yn cael ei gynnal gan ddefnyddio generaduron brys y safle yn rhedeg ar y cyd â'r cyflenwad grid cenedlaethol felly nid oes unrhyw risg i'r cyflenwad trydanol ar y safle ysbyty, pan fo'r gweithgaredd ar y gweill. Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac am gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, mae BIPBC yn derbyn budd-dal ariannol.

Mae'r un systemau cynhyrchu trydanol hefyd yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd Iechyd i gymryd rhan yn y rhaglen Cronfa Gweithredu Tymor Byr Grid Cenedlaethol (STOR). Yn anffodus, yn dilyn newid yn neddfwriaeth rheoliadau allyriad, mae'r gost sy'n ofynnol i uwchraddio'r gwaith cynhyrchu i weithredu o dan y pecyn STOR yn rhy gostus felly, yn anffodus, rydym wedi tynnu'n ôl o'r rhaglen STOR.

Rydym hefyd yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd ar nifer o'n safleoedd ar gyfer araeau solar ffotofoltaidd graddfa fach a mawr, a allai ddod â manteision i'r sefydliad yn cynnwys lleihad pellach o ran faint o garbon deuocsid a gynhyrchir.

Mae astudiaeth ddichonoldeb i'r defnydd o bympiau ffynhonnell gwres / oeri daear geo-thermol yn un o'n prif ysbytai, yn anffodus, wedi pennu nad yw'r gost o osod a chysylltu â rhwydwaith yr ysbyty presennol yn hyfyw yn ariannol. Fodd bynnag, bydd y dechnoleg yn cael ei ystyried ar gyfer prosiectau adeilad newydd yn y dyfodol a allai ymgorffori technolegau tymheredd arwyneb isel neu system wresogi o dan y llawr yn y cam dylunio cychwynnol.

Mae technoleg amgen wedi'i osod yn Ysbyty Alltwen, ble mae boeler biomas (naddion pren) ar gael i ddarparu gwres sylfaen yn ystod cyfnod y gaeaf (mis Hydref i mis Mai), wedi'i ategu pan fo angen gan ddefnyddio gwres nwy mwy confensiynol. Yn anffodus mae pris y contract cyflenwi ar gyfer naddion pren a phrisiau is y contract nwy cenedlaethol ar gyfer nwy yn golygu y bydd angen adolygu hyfywedd ariannol y trefniant hwn cyn y tymor gwresogi nesaf.

Cludiant

Mae allyriadau teithio ac allyriadau sy'n gysylltiedig â charbon y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu monitro, ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys teithio busnes gan staff yn eu ceir eu hunain, a cherbydau fflyd y Bwrdd Iechyd, a throsglwyddo cleifion cymwys i'r ysbyty ac oddi yno.

Gwnaeth milltiroedd busnes cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd ostwng ychydig eto yn 2019-20 i 14.7 miliwn o filltiroedd, ac mae mentrau ar y gwaith i leihau hyn ymhellach gan gynnwys adolygu'r fflyd lwyd, defnydd o geir prydles a cheir cronfa, a hybu ffyrdd o osgoi teithio gan gynnwys defnyddio fideo-gynadledda a thechnoleg gysylltiedig.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, wrth i ni symud yn nes at weld dyfodiad ateb newydd cenedlaethol y Fanyldeb Cludiant Cleifion nad yw'n Frys. Mae'r holl geisiadau am gludiant cleifion ad-hoc yn parhau i gael eu sianelu trwy gwndid unigol, gan sicrhau teithiau diogel a rheoledig ar gyfer cleifion trwy ddarparwyr cludiant cymeradwy.

	2017-18		2018-19		2019-20	
	Tunelli CO ₂	Milltiroedd	Tunelli CO ₂	Milltiroedd	Tunelli CO ₂	Milltiroedd
Ceir Prydles Defnydd Preifat	599	2,590,257	638	2,760,038	636	2,750,481
Fflyd Lwyd	1,725	7,463,640	1,662	7,190,738	1,599	6,920,610
Ceir a Faniau y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt	1,297	5,278,560	1,277	5,207,685	1,263	5,059,578
Cyfanswm	3,620	15,332,457	3,576	15,158,461	3,498	14,730,669

Caffael cynaladwy

Caiff y rhan fwyaf o waith caffael y GIG yng Nghymru ei reoli'n genedlaethol trwy Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau rwymo i brosesau caffael cyfunol, sy'n cadw at lefelau uchel o gynaladwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Cyflwynodd NWSSP Bolisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) yn 2011. Caiff contractau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau eu trefnu ar sail genedlaethol, rhanbarthol neu leol, gyda chymorth staff NWSSP, a chaiff yr holl weithgarwch ei ategu gan ddefnyddio'r Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Caiff Gwasanaethau Caffael eu hasesu trwy Fframwaith Asesu Caffael Cynaladwy Sector Cyhoeddus Cymru (SPAF).

Caiff ymagweddau caffael eu hanelu at ddod o hyd i gynhyrchion a gwasanaethau'n lleol a chefnogi mentrau bach a chanolig lle bo hyn yn ymarferol. Mae rhyw 50% o'r holl gontractau bwyd Cymru gyfan gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr o Gymru - daw'r holl laeth a gyflenwir i GIG Cymru o ffermydd yng Nghymru, caiff yr holl gig eidion ei fagu yng Nghymru, defnyddir cig oen o Gymru ar adegau o'r flwyddyn pan fydd ar gael a hynny am brisiau cystadleuol. Yn ogystal â chefnogi cymunedau ac economïau lleol, mae hyn yn lleihau effaith amgylcheddol cludiant a dosbarthu.

Adeiladu cynaladwy

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddatblygu ei flaenoriaethau fel yr amlinellir yn ei Strategaeth Ystadau.

Mae'r Strategaeth yn hybu ystad ar gyfer y dyfodol yn addas at ei diben ac mae'n darparu amgylchedd diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion clinigol a busnes y Bwrdd Iechyd; yn gwella gofal cleifion; yn cefnogi gofawyr, teuluoedd ac ymwelwyr; ac sy'n darparu amgylchedd gwaith priodol i staff. Mae'n cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i:

- sicrhau cynllun cynhwysol trwy gyfranogiad cymunedau lleol;
- cydymffurfio â rheoliadau statudol ac arweiniad arfer gorau;
- ceisio cyrraedd safon Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) o "da iawn" fel gofyniad gyda'r dyhead i gael "ardderchog" lle bo hynny'n ymarferol;
- lleihau ôl-troed carbon y Bwrdd Iechyd;
- cynorthwyo datrysiadau cludiant cynaladwy; ac
- optimeiddio caffael a llafur lleol i gynorthwyo'r economi leol.

Yn ystod 2019/20, dyrannwyd £22 miliwn i'r Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni ystod o brosiectau cyfalaf.

Fe wnaethom gwblhau ailddatblygiad Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd, gan ddarparu estyniad newydd ac ailwampio'r adran bresennol i gefnogi modelau gofal newydd. Mae'r gwaith yn cynnwys gwella effeithlonrwydd thermal, lleihau galw trydanol a lleihau gwastraff.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y gwaith ar gynllunio'r ysbyty cymunedol newydd ar gyfer Gogledd Sir Ddinbych ac ailddatblygu'r uned iechyd meddwl cleifion mewnol yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r ddau brosiect yn ceisio ymateb i "argyfwng hinsawdd" Llywodraeth Cymru a lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil. Byddant yn cynnwys dulliau creu egni amgen megis "ffynhonnell aer", solar a gwynt.

Mae rhestr o gynlluniau cyfalaf a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys buddion amgylcheddol nodedig wedi'i nodi uchod yn yr adran Ynni a Rheoli Carbon.

Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Mae safleoedd y Bwrdd Iechyd yn ymestyn dros ran fawr o dir. Mae llawer o'n safleoedd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, adar a phryfed, y mae rhai o'r rhain yn rhywogaethau a warchodir.

Rydym wedi rhoi Cynllun Bioamrywiaeth Ymlaen ar waith i gydymffurfio ag Adran 6, Rhan 1 y Ddeddf Amgylcheddol (Cymru) 2016, i gynnal bioamrywiaeth a'i wella fel rhan o'r ddyletswydd i hybu gwytnwch systemau eco. Un o'r amcanion amgylcheddol ar gyfer y rhaglen tair mlynedd yw dynodi meysydd bioamrywiaeth a'u creu ar draws y Bwrdd Iechyd.

Yn Ysbyty Gwynedd, mae 10 ardal peilot posibl wedi'u dynodi o fewn yr adeilad i gynyddu bioamrywiaeth ar y safle drwy drosi ardaloedd o laswellt yn ddolydd blodau gwyllt, plannu coed bach a choed ffrwythau, a chyflwyno llwyni blodeuol cyfeillgar i wenyn. Byddai'r peilot yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda staff a gwirfoddolwyr, gyda'r bwriad o lansio grŵp garddio ysbyty i gynnal cynlluniau pellach a'u datblygu. Bydd hyn yn cael ei lansio gan 'Grŵp Gwyrdd' yr ysbyty, sydd wedi cael ei sefydlu gan staff i hybu darpariaeth gofal iechyd sy'n gynladwy yn amgylcheddol.

Mae cynllun garddio tebyg wedi'i sefydlu ym Mryn y Neuadd, gyda grŵp o wirfoddolwyr yn cael eu harwain gan gydlynnydd prosiect brwdfrydig ac maent yn trawsnewid ardaloedd a oedd wedi gordyfu o'r blaen.

Yn Ysbyty Maelor Wrecsam, mae nifer o ardaloedd ar y safle wedi'u dynodi y gellir eu gwella i gefnogi bioamrywiaeth. Mae'r Afon Gwenfro yn rhedeg drwy dir yr ysbyty ac mae wedi'i amgylchynu gan gloddiau o laswellt a choed sydd eisoes yn darparu cynefin i fywyd gwyllt a blodau. Bydd tîm cynnal a chadw tir yn gweithio gyda'r tîm amgylchedd i wella'r ardal o laswellt cyfagos i greu dolydd o flodau gwyllt ar gyfer gwenyn, pili palaod a phryfed eraill.

Mae gan Ysbyty Glan Clwyd ddau bwl madfallod cribog, lagŵn, dau bwl ychwanegol, dolydd a chyfoethog cynefin naturiol ar gyfer rhywogaethau amrywiol o organebau byw yn creu ecosystem gyfan a pheillio naturiol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u gadael mewn cyflwr naturiol heb ddulliau rheoli gweithgar ond maent wedi gordyfu'n sylweddol. Mewn ymateb, rydym wedi datblygu cynllun bioamrywiaeth ar gyfer yr ardaloedd hyn er mwyn:

- Amddiffyn yr amgylchedd, ac yn benodol, y Madfallod Cribog a'u cynefinoedd, a sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau a deddfwriaeth berthnasol;
- Cyfrifoldeb dros gynnal ac adfer pyllau madfallod cribog heb niwedio neu atal mynediad at eu cynefinoedd ac osgoi niwed i'r madfallod cribog;
- Peidio â chynyddu nifer y bobl, traffig neu lygryddion yn yr ardal;
- Annog mwy o lygryddion trwy reoli'r cynefin naturiol a'i rheoli'n well.

Mae prif gontractwr gwastraff cyffredinol y Bwrdd Iechyd yn parhau i noddi tri chwch gwenyn ar ran y Bwrdd Iechyd yng Nghanolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn yng Nghonwy.

Crynodeb perfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau gwasanaeth

Mesur Gwasanaethau

Caiff data ei gasglu o amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynnwys datganiadau blynyddol gan gyflenwyr gwasanaethau, anfonebau casglu data, systemau monitro gwasanaethau mewnol mewn amser real a datganiadau ariannol blynyddol.

Mae cyflenwr ynni'r Bwrdd Iechyd yn hwyluso rhaglen barhaus i osod mesuryddion nwy a thrydan smart lle nad yw'r rhain eisoes ar waith ar safleoedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yn uniongyrchol i'r sawl sy'n casglu data, a ddylai ganiatáu dosbarthu biliau sy'n fwy cywir ac amserol, ond mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd darlleniadau lleol er mwyn rhoi sicrwydd bod y darlleniadau awtomatig yn fanwl-gywir.

Mae gan ein mesuryddion nwy mwy o faint gywirwyr sy'n ystyried amrywiadau i dymereddau lleol er mwyn cael darlleniadau manylach o ddefnydd, mae ein mesuryddion trydan yn mesur tariffau gwahanol; yn ei hanfod, gall hyn adlewyrchu cyfraddau gwahanol ddydd a nos, yn achos ein safleoedd mwy o faint, efallai y bydd tariffau lluosog yn berthnasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd er mwyn cael mynediad at eu rhwydwaith cenedlaethol o delemetreg mesuryddion dŵr masnachol, sef "Water Core". Mae hyn yn ein galluogi i fonitro ein defnydd o ddŵr o bell ar gyfer Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Abergele ac Ysbyty Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan. Mae hyn yn ein galluogi i sylwi ar unrhyw ddefnydd gormodol yn gyflym, gan helpu i nodi unrhyw ollyngiadau posibl y gallai fod angen ymchwilio iddynt. Byddwn yn ystyried ychwanegu safleoedd Bwrdd Iechyd pellach at y rhwydwaith hwn.

Rydym hefyd yn gwirio defnydd o wasanaethau pan gaiff biliau eu talu. Unwaith eto, mae'r gwiriadau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw gynnydd annisgwyl o ran defnydd a allai awgrymu bod naill ai anghysondeb gyda'r broses bilio neu broblemau eraill sy'n gofyn am ymchwilio a sylw, fel gollyngiadau o'n systemau dŵr neu olew tanwydd.

Mae Cymorth Busnes Ystadau wedi adolygu pecyn meddalwedd cyfan sy'n arwain y farchnad i reoli ynni a fydd yn coladu darlleniadau mesuryddion cyflenwyr ac yn darllen data yn awtomatig gan ddadansoddi tueddiadau cymeriant a defnydd. Mae'r broses caffael ar gyfer hyn yn awr yn mynd rhagddo. Unwaith y bydd wedi'i brynu a'i osod, bydd hefyd yn darparu awtomatiaeth ar gyfer gwirio, dilysu a thalu drwy ffrwd data allanol i system dalu'r GIG i dalu'r anfonebau gwasanaeth. Caiff cymhariaeth data 2019-2020 a gynigir yn y tabl Crynodeb Perfformiad ei lunio o ddata a dderbynnir hyd at ddiwedd blwyddyn 2019/20.

Allyriadau Ynni a Charbon

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (Tunelli o CO ₂)	Cyfanswm Allyriad Gros	39,448	0.3%	39,524	0.2%	36,912	-6.6%
	Cyfanswm Allyriadau Net	39,448	0.3%	39,524	0.2%	36,912	-6.6%
	Allyriadau Gros Cwmpas 1* (Uniongyrchol) Nwy ac Olew	21,298	2.6%	25,700	20.7%	25,320	-1.48%
	Allyriadau Gros Cwmpas 2 a 3** (Anuniongyrchol)	18,150	-2.3%	13,824	-23.8%	11,591	-16.15%
Deunydd Ynni Perthynol (Tunelli o CO ₂)	Trydan : Anadnewyddadwy	0		0			
	Trydan : Cytundeb Cyflenwad Trydan Adnewyddadwy 'Gwyrdd'	18,150	-2.3%	13,824	-23.8%	11,591	-16.15%
	Nwy	20,022	-1.7%	22,124	10.5%	21,822	-1.36%
	LPG	0		0		12.11	0%
	Arall- Olew***	1,297	214%	3,576	180.3%	3,498	-2.18%
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant ar Ynni	8,667,513	2.7%	9,878,884	14.0%	10,573,940	7.04%
	Gwariant Trwydded CRC (2010 Ymlaen)	120		120		120	
	Gwariant ar osod yn erbyn achrededig (e.e. GCOF)	0		0		0	
	Gwariant ar Deithio Busnes****	8,769,017	-0.6%	9,566,443	9.1%	9,646,777	0.84%

Nodiadau

***Cwmpas 1 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol** - Mae'r rhain yn codi o ffynonellau y mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt ac mae enghreifftiau yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i hylosgiad mewn boeleri gwresogi y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt, allyriadau gan ein cerbydau ac allyriadau o ollyngiad nwy o oergell.

****Cwmpas 2 - Allyriadau Ynni Anuniongyrchol** - Allyriadau o ganlyniad i gynhyrchu trydan a nwy a gyflenwir gan barti arall ar gyfer ei ddefnyddio mewn adeiladau eraill.

**** Cwmpas 3 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill** - Allyriadau sy'n digwydd o ganlyniad i'n gweithgareddau, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn uniongyrchol neu nad yw'n eu rheoli yn uniongyrchol, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â threuliant gwastraff a dŵr, caffaeliad cynladwyedd, cynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth ac allyriadau sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes swyddogol a delir yn uniongyrchol gan y sefydliad.

*****Arall (olew)** - mae'r wybodaeth a roddir yn dangos cyfanswm cyfaint (litrau) o danwydd cerbydau a brynir ar gyfer ceir a faniau'r Bwrdd Iechyd trwy gardiau tanwydd a'u troi'n CO₂.

********Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cyfanswm costau tanwydd drwy gardiau busnes ac ad-daliadau i staff, yn ogystal â chostau eraill yn gysylltiedig â'r defnydd o gerbydau yn cynnwys yswiriant a chynnal a chadw cerbydau'r Bwrdd Iechyd, tacsis a gwasanaethau negeswyr a chludiant heb fod yn frys i gleifion a ddarperir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mesurir Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr drwy gasglu data treuliant corfforaethol a throsi'r data hwn i gyfwerthoedd carbon deuocsid (CO₂e). Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffactorau cyfnewid swyddogol a gyhoeddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol, ar gyfer mathau gwahanol o danwydd, yn achos trydan, yn unol â gwlad y tarddiad i adlewyrchu amrywiadau cenedlaethol o ran sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu ac effeithlonrwydd trawsyriad. Mae'r ffigyrau hyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo allyriadau carbon deuocsid corfforaethol, a gall y newidiadau o ran allyriadau carbon deuocsid y Bwrdd Iechyd a adroddir arnynt uchod gael eu priodoli yn rhannol i newidiadau yn y ffactorau cyfnewid hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau mawr ar safle Ysbyty Glan Clwyd a gweithgarwch adeiladu newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, yn ogystal â datblygu cyfleusterau cymunedol newydd.

Rydym yn achub ar y cyfleoedd hyn i gyflwyno technolegau newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau defnydd pŵer a dŵr. Fodd bynnag, caiff y gwelliannau hyn eu gosod i raddau mwy neu lai, fel arfer, gan yr angen i gynnig amgylchedd clinigol modern, a allai fod yn fwy o faint ac a allai gynnwys offer a chyfarpar i gynorthwyo gwresogi ac aerdymheru mannau penodol er mwyn cynnal tymereddau critigol ac ansawdd aer. Efallai hefyd y bydd datblygiadau newydd yn cynnwys technolegau clinigol a gwasanaethau arbenigol newydd i gynorthwyo'r prosesau diagnostig a thriniaeth sy'n creu galw ychwanegol ar gyflenwadau trydanol.

Rydym wedi sicrhau lleihad o 6.6% mewn allyriadau CO₂ gros cyfatebol sy'n deillio o'n defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwnaeth ein gwariant ar ynni gynyddu o 7.04%, sy'n adlewyrchu prisiau ynni sy'n codi a hefyd addasiadau i'r ffactorau trosi sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo ein hallyriadau o garbon deuocsid. Bu newid o ran cydbwysedd ein defnydd o ffynonellau ynni, gyda defnydd llai o ynni a defnydd cynyddol o nwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o grŵp ynni GIG Cymru sy'n prynu nwy a thrydan ymlaen llaw, am brisiau mwy ffafriol na'r pris "diwrnod ymlaen llaw" y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei dalu. Mae hyn yn ffordd o ddiogelu rhag amrywiadau pris sydd wedi achosi gan newidiadau i alw a chyflenwad, fel y rhai sy'n deillio o effaith y tywydd, cytundebau cynhyrchu OPEC neu darfu ar gyflenwadau. Mae prisiau nwyddau'n cyfrif am ryw 60% o'r bil ynni cyffredinol, a chaiff y balans ei gyfrifyddu ar ffurf taliadau trawsyrru/cludo, costau mesuryddion ac ardollau newid yn yr hinsawdd. Mae grŵp ynni GIG Cymru yn monitro'r ffactorau hyn i ragweld yr amser gorau i brynu ymlaen llaw.

Mae gwariant ar deithio wedi cynyddu, sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn galw a'r defnydd o wasanaethau cludiant cleifion a chostau cynyddol yswiriant, cynnal a chadw a les. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud tuag at safoni ei fflyd o geir cronfa ar gerbydau injan petrol 1 litr. Er bod hyn yn unol ag argymhellion cenedlaethol i fynd i'r afael â phryderon ansawdd aer, mae cerbydau petrol yn cynnig effeithlonrwydd tanwydd is, a fydd wedi cyfrannu at y gwariant cynyddol hefyd.

Gwastraff

Gwastraff		2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm Gwastraff	5,333	16.3%	5,289	-0.8%	5,486	3.7%
	Tirlenwad	217	-41.4%	116	-46.5%	55.2	-52%
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	3,025	34.0%	3,200	5.8%	3,399	6.2%
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		328		321	-2.1%
	Llosgwyd heb adfer ynni	340	30.8%	0	-100%	0	0
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm costau gwaredu	1,169,840	-18.8%	1,152,445	-1.5%	1,197,352	3.9%
	Tirlenwi	51,032	-1.1%	25,439	-50.2%	9,162	-64%
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	411,044	10.8%	460,860	12.1%	521,708	13%
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		152,879		140,258	8.2%
	Llosgwyd heb adfer ynni	145,401	-28.6%	0	-100%	0	0

Nodyn

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gwaredu rhai deunyddiau fel gwastraff Trin Gwres Amgen (AHT). Nid yw hwn wedi'i nodi fel categori ar wahân yn y gofynion adrodd ar gynladwyedd, er mae gwastraff AHT wedi'i gynnwys yng nghyfanswm cost gwastraff a thunelledau uchod. Yn 2019/20, mae AHT yn cynrychioli 1,720.54 tonnelli o wastraff clinigol, gyda chost gwaredu o £526,229 (2018/19: 1,645 tonnelli; £520,310).

Mae gweithio gyda'n prif contractwr gwastraff cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn wedi ein galluogi i leihau maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi; gostyngwyd hyn 52% y flwyddyn diwethaf a dim ond 55.2 tonnelli o wastraff ar draws y Bwrdd Iechyd a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. Cynyddodd faint o wastraff a oedd yn cael ei ail ddefnyddio a'i ailgylchu o 199 tonnelli o ganlyniad i well gwahaniad. Gostyngodd maint y gwastraff a losgwyd 2.1%, gostyngwyd cost hyn 8.2% (£12,621); roedd adferiad ynni o'r holl wastraff a losgwyd.

Dŵr

Treuliant Adnoddau Cyfyngedig		2017/18	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2018/19	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion heb fod yn ariannol (m ³)	Defnydd Dŵr (cyfan) cyflenwyd echdynnwyd	528,694 0	8.7%	588,127 0	11.2%	510,933	-13.1%
	Defnydd Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd) cyflenwyd echdynnwyd	0 0		0 0		0	
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau Cyflenwi Dŵr (Pawb)	1,448,191	13.2%	1,671,199	15.4%	1,323,303	-20.8%
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd)	0		0		0	

Effeithiwyd ar y defnydd o ddŵr a ddefnyddiwyd yn 2018/19 gan ollyngiad dŵr tanddaearol mawr yn Ysbyty Maelor Wrecsam, a arweiniodd at gynydd sylweddol yn y defnydd o ddŵr a gofnodwyd. Lleihawyd y defnydd yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19, hefyd o'i gymharu â 2017/18 pan nad oedd gollyngiad mawr.

Tueddiadau Gwariant Tymor Hir

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu y tueddiadau gwariant ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r Datganiadau Cyfrifon yn darparu dadansoddiad manwl o wariant sy'n cael ei ddosbarthu dan dri phrif bennawd:

- Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar y contractau Gofal Cychwynnol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Cyffuriau ac Offer a Ragnodir, a Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol eraill.
- Gwariant ar Ofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill. Mae hyn yn cynnwys gwariant gyda sefydliadau GIG eraill, Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Gwirfoddol, darparwyr preifat a gofal Iechyd parhaus a nyrsio a ariennir gan y GIG.
- Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys bob gwasanaeth sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o wariant ar gyfer bob un o'r prif benawdau ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Y Perfformiad yn Erbyn Cyfyngiad Adnoddau Refeniw. Mae hwn yn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn y cyfyngiad adnoddau cyffredinol penodol.


Pennawd gwariant	2015/2016 £'m	2016/2017 £'m	2017/2018 £'m	2018/2019 £'m	2019/2020 £'m
Gwasanaethau Gofal Cychwynnol	297.1	300.3	302.4	309.3	322.5
Gofal Iechyd gan ddarparwyr eraill	310.3	323.7	347.6	361.1	369.6
Gwasanaethau Iechyd Ysbyty a Chymuned	868.8	915.1	968.8	1,004.7	1,113.2
Perfformiad yn Erbyn Cyfyngiad Adnoddau Refeniw	(19.5)	(29.8)	(38.8)	(41.3)	(38.7)

Datganiad Ansawdd Blynyddol

Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Gellir lawrlwytho copi o wefan y Bwrdd Iechyd ar <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/datganiadau-ansawdd-blynyddol/>.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi mwy o fanylion am ansawdd ein gwasanaethau clinigol a gofal, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r rhain.

Llofnodwyd:



Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Atebol

Dyddiedig: 26th Awst 2020

RHAN DAU- Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd

Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yw Mr Mark Polin. Y Prif Weithredwr oedd Mr Gary Doherty hyd at 7 Chwefror 2020. Penodwyd Mr Simon Dean fel Prif Weithredwr Dros Dro o 10 Chefror 2020.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom groesawu Dr David Fearnley, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Ms Sue Hill, Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid, i'r Bwrdd. Penodwyd Mrs Dawn Sharpe yn Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd.

Penodwyd Mrs Lucy Reid yn Is Gadeirydd o 1 Rhagfyr 2019. Ymunodd Mr H Eifion Jones â'r Bwrdd fel Aelod Annibynnol, ac ymunodd yr Athro Nichola Callow â'r Bwrdd fel Aelod Annibynnol a Chynrychiolydd y Brifysgol.

Mae aelodaeth lawn o'r Bwrdd i'w weld yn fanwl yn Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac yn yr Adroddiad Tâl ar dudalen 65 i 74 o'r ddogfen hon.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn amlinellu manylion llawn strwythur pwyllgor cefnogi'r Bwrdd (Adran 14) a'u haelodaeth (Atodiad 1).

Pwyllgor Archwilio

Yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol o'r GIG yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Archwilio'r rôl allweddol o gynghori'r Bwrdd a chynnig sicrwydd iddynt fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle ac sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Cadeirydd	Cyngh Medwyn Hughes Aelod Annibynnol	
Is-Gadeirydd	Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol (hyd at 22 Rhagfyr 2019)
	Mrs Lyn Meadows	Aelod Annibynnol (o 23 Rhagfyr 2019)
Aelodau	Mrs Jacqueline Hughes	Aelod Annibynnol
	Ms Lucy Reid	Aelod Annibynnol (hyd at 22 Rhagfyr 2019)
	Mr Eifion Jones	Aelod Annibynnol (o 23 Rhagfyr 2019)
Yn bresennol (Cyfarwyddwr Arweiniol)		
	Mrs Grace Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd (hyd at 31 Awst 2019)
	Mrs Dawn Sharp	Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd (o 1 Medi 2019)
	Mrs Liz Jones	Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd (o 18 Rhagfyr 2019 i 5 Chwefror 2020)
	Mrs Justine Parry	Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd (o 6 Chwefror 2020 i 27 Ebrill 2020)

Yn bresennol Mr Gary Doherty
 Mr Simon Dean
 Mr Russ Favager

 Ms Sue Hill

Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
(hyd at 28 Ebrill 2019)
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro
(o 29 Ebrill 2019)

Datganiadau o Fuddiant y Cyfarwyddwyr

Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a all effeithio ar eu hamhleidioldeb o ran eu gwaith yn y Bwrdd lechyd.

Cyhoeddir y datganiadau a wnaed gan y Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2019/20 yn Nodyn 34 y Cyfrifol Blynyddol ar dudalen 73A y ddogfen hon.

Diogelwch Data

Y Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd lechyd a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd yw Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd lechyd yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 2018. Yr Uwch Gyfarwyddwr Cyswllt Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott a enwebwyd ac mae rôl yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) wedi ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Rhoddodd y Bwrdd lechyd wybod am chwech o doriadau diogelwch data a oedd angen eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Mae'r digwyddiadau wedi eu cau gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen gweithredu ymhellach, fodd bynnag cyhoeddwyd argymhellion fydd yn cael eu monitro'n agos gan yr Adran Llywodraethu Gwybodaeth. Ni chafodd y Bwrdd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth ar berfformiad gwybodaeth llywodraethu wedi'i gynnwys yn adran 30.1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cydymffurfio â gofynion dyrannu costau

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai pob gwybodaeth nad yw'n bersonol a gedwir gan gyrff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, onid oes cost neu os oes eithriad yn bodoli.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw arweiniad Llywodraeth Cymru cysylltiedig ac ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/>

Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI)


Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdanynt, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu yn Memorandwm y Swyddog Atebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau, cyn belled ag y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhain a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.



Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro

Dyddiedig: 29 Mehefin 2020

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y cyfrifon

Mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr, o dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- ddefnyddio egwyddorion cyfrifeg a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn gyson.
- barnu a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn, yn destun i unrhyw wyriad materol sy'n cael eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon.


Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg briodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr awdurdod â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yng nghyfarwyddyd Gweinidogion Cymru uchod.


Ar orchymyn y Bwrdd, arwyddwyd



Mark Polin
Cadeirydd
29 Mehefin 2020



Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro
29 Mehefin 2020



Sue Hill
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
29 Mehefin 2020

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau a'r system rheoli fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd
- Trefniadau ein pwyllgorau
- Ein trefniadau i reoli risg
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i gael ei roi mewn Mesurau Arbennig
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Ein trefniadau cynllunio
-

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn yn cael ei ddarparu fel ychwanegiad i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Polisiau ar gyfer tâl staff ac uwch reolwyr

Mae Uwch Reolwyr yn cael eu diffinio fel y rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldebau i gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol, mae'r diffiniad hwn yn cynnwys y gweithwyr ac Aelodau Annibynnol sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Datgelir enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd yn y tabl cyflog isod.

O Hydref 2004, cyflwynwyd y broses Agenda ar gyfer Newid y GIG, i gyflawni cysondeb mewn contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i bob aelod o staff a rheolwyr (gan eithrio cyfarwyddwyr) pan eu penodir. Cytunwyd ar ddiwygiadau i strwythurau Agenda ar gyfer Newid y GIG am dair blynedd gan ddechrau 1 Ebrill 2018. Fel rhan o hyn, cynyddwyd gwerth y prif bwyntiau cyflog ar gyfer Bandiau 2 i 8b yn 2019/20 o 1.7%. Yn ychwanegol, cafodd staff Meddygol ddyfarniad tâl chwyddiannol o 2.5%.

Mae GIG Cymru wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw. Felly mae cyflog staff islaw'r isafswm Cyflog Byw yn cael ei addasu i fodloni cyfradd yr awr Cyflog Byw. Ar gyfer 2019/20 addaswyd cyflogau staff Agenda ar gyfer Newid Bandiau 1 a 2 sydd ar bwyntiau cyflog 1 i 5 er mwyn bodloni'r gyfradd isaf yr awr o £9.00 yr awr.

Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygol a deintyddol sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso polisi GIG Cymru ar ddilyniant cynyddrannol ar gyfer staff ar raddfeydd cyflog Agenda ar gyfer Newid, sy'n cynnwys gweithredu'r broses Adolygu Datblygiad Gwerthuso Perfformiad.

Nid yw cyfarwyddwyr yn rhan o'r broses hon ac mae graddfa cyflog uwch reolwyr wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl yn genedlaethol ac fe'u defnyddir yn lleol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer uwch reolwyr. Mae pob contract ar gyfer rolau parhaol yn rhai parhaol ac ma'r cyfnod rhybudd ar gyfer rheolwyr uchel iawn yn dri mis.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o hyd at bedair blynedd (a gellir eu penodi am uchafswm o wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno'n genedlaethol yn ystod eu penodiad.

Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Sefydlwyd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ym mis Ionawr 2015. Cynlluniwyd y Pwyllgor i roi sicrwydd a chynghor i'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth i'r tîm gweithredol ac uwch staff eraill, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ar dâl a threfniadau telerau gwasanaeth i'r holl staff ac yn gwneud rhai swyddogaethau penodol a ddirprwywyd. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, Mr Mark Polin, ers pan ymunodd â'r sefydliad ym mis Medi 2018.

Yn ystod y cyfnod adrodd 2019/20 bu i'r Pwyllgor gyfarfod ar saith achlysur. Roedd pump yn gyfarfodydd cyhoeddus, a ddilynwyd gan adran o'r agenda heb y cyhoedd ble roedd gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol yn cael ei drafod. Hefyd, cynhaliwyd dau gyfarfod arbennig heb y cyhoedd.

Roedd prif fusnes y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Proses gymeradwyo ddiwygiedig ar gyfer polisïau Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2018/19
- Diweddariad ar gylch gorchwyl y Pwyllgor
- Ystyried achosion cyfredol o 'Gynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru'
- Adroddiad Cofrestriad Proffesiynol Cyngor Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a Chyngor Fferyllo Cyffredinol Cymru 2018/19
- Diweddariad Ail-ddilysu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) 2019
- Adroddiad y Corff Adolygu ar Dâl Meddygon a Deintyddion
- Adroddiadau Diogelu Cyflogau
- Materion yn ymwneud â thâl a phortffolios y Gweithredwyr a Chyfarwyddwyr
- Strwythurau uwch arweinwyr a threfniadau dros dro
- Cyfraddau cyflogau cenedlaethol ar gyfer grwpiau staff a ddynodwyd
- Cwynion cyfunol
- Asesiad o amcanion a pherfformiad y tîm gweithredol.

Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd:

Cadeirydd	Mr Mark Polin	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd
Aelodau	Mrs Marian Wyn Jones	Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd (hyd at 30 Tachwedd 2019)
	Mrs Jacqueline Hughes	Aelod Annibynnol
	Cyngh Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Yn bresennol	Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr (hyd at 9 Chwefror 2019)
Swyddog Arweiniol (yn bresennol)	Mrs Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Perthnasau Tâl

Mae angen i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Gellir gweld y wybodaeth yn Nodyn 9.6 o'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalen 33A y ddogfen hon.

Y cyfarwyddwr oedd yn ennill y cyflog uchaf yn 2019/20 oedd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Yn 2018/19, y Prif Weithredwr oedd yn ennill y cyflog uchaf.

Yn 2019/20 derbyniodd pymtheg o weithwyr dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (o'i gymharu ag un ar ddeg gweithiwr yn 2018/19).

Mae Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyhoeddi arweiniad ar eglurder pecynnau tâl i gyrff Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Yn ôl hyn, mae'n ofynnol i becynnau sy'n fwy na £100,000 gael eu datgelu mewn bandiau o £5,000. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r rhai sy'n cael mwy na £100,000, ac mae mwy o fanylion yn yr ail dabl.

Grŵp Staff	Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000
Prif Weithredwr ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd	13
Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill	21
Staff Clinigol	521
Staff clinigol asiantaeth (net o gomisiwn amcangyfrifedig)	35

£'000	Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd	Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill	Staff Clinigol	Asiantaeth
100-105		6	40	1
105-110	1	5	46	2
110-115		1	43	1
115-120	1	3	36	3
120-125		2	35	4
125-130	1		47	2
130-135	1	2	33	
135-140	4		37	5
140-145	1		37	1
145-150			22	
150-155	1		21	1
155-160		1	27	
160-165	1		17	1
165-170			16	1
170-175			9	2
175-180			8	
180-185		1	8	
185-190			14	1
190-195	1		4	
195-200			6	
200-205			2	
205-210			1	4
210-215	1		1	
215-220			1	
220-225			1	
225-230			1	1
230-235				
235-240			1	
240-245			2	1
245-250				1
250-255			2	
255-260			1	
260-265				
265-270				2
270-275				
275-280				
280-285			1	
285-290			1	
290-295				1
Cyfanswm	13	21	521	35

Pecynnau ymadael a thaliadau diswyddo

Yn ystod 2019/20 cytunodd y Bwrdd Iechyd un taliad pecyn gadael ar gyfer uwch reolwr, mae'r manylion wedi'i gynnwys yn y nodyn yn y tabl tâl isod. Gellir gweld manylion yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn yn nodyn 9.5 o'r Cyfrifon Blynnyddol ar dudalen 32A y ddogfen hon.

Cyflog uwch reolwyr a datganiadau pensiwn a chyfanswm tâl un ffigwr

Mae cyfanswm ffigyrau yn y tabl isod (cyfanswm tâl un ffigwr) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigwr am fuddion pensiwn, sydd wedi'i cyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigwr yn cynrychioli'r cyfanswm gwirioneddol sy'n cael ei dalu i'r unigolyn yn ystod y flwyddyn ac yn adlewyrchu asesiad cyfrifeg o'r cynnydd mewn budd-dal hir dymor sydd wedi'i gymhwyso ar gyfer chwyddiant. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrau hyn gan gynnwys newid yng nghyfllog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wneir gan unigolion a ffactorau prisio sylfaenol ar y cynllun yn gyffredinol.

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf wedi'i asesu trwy actiwari buddion y cynllun pensiwn sy'n cael eu cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni a phensiwn unrhyw briod dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae ffigurau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu blynnyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan yr Institute and Faculty of Actuaries.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV: Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n ystyried y cynnydd wedi pensiwn wedi'i gronni oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion sy'n cael eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

	2019/20						2018/19					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mr G Doherty Prif Weithredwr 01/04/19 – 09/02/20 (nodyn 1)	180-185	--	(nodyn 2)	--	180-185	210-215	205-210	--	(nodyn 2)	--	205-210	--
Mr S Dean Prif Weithredwr Dros Dro 10/02/20 – 31/03/20 (nodyn 1)	25-30	--	--	20-25	50-55	210-215	--	--	--	--	--	--
Dr E Moore Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr 01/04/19 – 31/07/19	65-70	2,100	(nodyn 2)	--	65-70	195-200	195-200	5,200	(nodyn 2)	--	200-205	--
Dr D Fearnley Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 01/08/19 – 31/03/20	150-155 (nodyn 3)	4,000	(nodyn 4)	--	150-155	225-230	--	--	--	--	--	--

	2019/20						2018/19					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
Mrs G Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth a Dirprwy Brif Weithredwr 01/04/19 – 31/03/20	160-165	--	(nodyn 2)	--	160-165	--	150-155	--	(nodyn 2)	--	150-155	--
Ms D Carter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/04/19 – 31/08/19	50-55	--	(nodyn 5)	--	50-55	130-135	0-5	--	(nodyn 5)	--	0-5	125-130
Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau 17/10/19 – 31/03/20	60-65	--	(nodyn 5)	--	60-65	130-135	--	--	--	--	--	--
Mr A Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd 01/04/19 – 31/03/20	105-110	--	22	--	125-130	--	100-105	--	16	--	115-120	--

	2019/20						2018/19					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Taliadau eraill (bandiau o £5,000) £	Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os yw'n flwyddyn rannol) £'000
	Cronfa Gyffredinol £000s	Cronfa wrth gefn Ailbrizio £000s	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £000s
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2018-19			
Balans ar 31 Mawrth 2018	393,676	131,734	525,410
Addasiadau ar gyfer Gweithredu IFRS 9	(1,371)	0	(1,371)
Balans ar 1 Ebrill 2018	392,305	131,734	524,039
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,532,531)		(1,532,531)
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio eiddo, peiriannau ac offer	0	1,164	1,164
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau anghyffwrddadwy	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau ariannol	0	0	0
Enillion/(colledion) net ar ailbrizio asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	0	0
Symudiadau wrth gefn eraill	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	4,822	(4,822)	0
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	0
Trosglwyddiadau i/o Billaau	0	0	0
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2018-19	(1,527,709)	(3,658)	(1,531,367)
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,537,727		1,537,727
Balans ar 31 Mawrth 2019	402,323	128,076	530,399

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 73A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Lifau Arian ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

		2019-20 £'000	2018-19 £'000
Llifau Arian o weithgareddau gweithredu	Nodyn		
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol		(1,660,768)	(1,532,531)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	27	6,739	(16,010)
Addasiadau llif arian eraill	28	122,221	94,187
Darpariaethau a ddefnyddir	20	(22,472)	(26,935)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(1,554,280)	(1,481,289)
Llifau Arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer		(26,353)	(55,847)
Elw o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer		57	532
Prynu asedau anghyffwrddadwy		(658)	(357)
Elw o gael gwared ar asedau anghyffwrddadwy		0	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill		0	0
Elw o gael gwared ar asedau ariannol eraill		0	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill		0	0
Elw o gael gwared ar asedau eraill		0	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(26,954)	(55,672)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn cyllido		(1,581,234)	(1,536,961)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf)		1,578,821	1,537,727
Derbynebaw cyfalaf a ildwyd		0	0
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		1,591	1,102
Elfen gyfalaf taliadau o ran prydlesau cyllid ac ar -SoFP		0	0
Arian a drosglwyddwyd (i)/ gan gyrff GIG eraill		0	0
Cyllid net		1,580,412	1,538,829
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod		(822)	1,868
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2019		3,972	2,104
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2020		3,150	3,972

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 73A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

1. Polisiâu cyfrifyddu

Mae'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i ddatganiadau ariannol y Byrddau lechyd Lleol yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol canlynol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2019-20. Mae'r polisiâu cyfrifo a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn dilyn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM), sy'n defnyddio IFRS a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'i ddehongliad sy'n effeithio ar gyfnodau'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr, heblaw am 16 o Lesoedd IFRS, a ohiriwyd tan 1 Ebrill 2021; i'r raddfa eu bod yn ystyrlon a phriodol i'r GIG yng Nghymru.

Ble mae'r Llawlyfr Cyfrifon y BILI yn caniatáu dewis o bolisiâu cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu a deimlir i fod fwyaf perthnasol i'r amgylchiadau penodol y BILI at ddiben rhoi safbwynt cywir a theg yn cael ei ddewis. Disgrifir y polisiâu penodol a fabwysiadir gan y BILI isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu defnyddio wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn ddeunyddiau o ran y cyfrifon.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan gonfensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar, asedau anniriaethol a rhestrau eiddo.

1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau a derfynwyd

Ystyrir bod gweithgareddau yn 'gaffaeledig' dim ond os ydynt yn cael eu cymryd o du allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi'u terfynu' os ydynt yn darford yn llwyr. Nid ydynt yn cael eu hystyried 'wedi'u terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff cyhoeddus i un arall.

1.3 Incwm a chyllid

Prif ffynhonnell o arian ar gyfer Byrddau lechyd Lleol (BILI) yw dyraniad gan Lywodraeth Cymru (Cyllid Llywodraeth Cymru) o fewn cyfyngiad arian cymeradwy, sy'n cael ei roi i Gronfa Gyffredinol y BILI. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol y mae'r arian yn cael ei dderbyn.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a achoswyd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon, a'u tynnu o'r costau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffael asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi yn y Gronfa Gyffredinol.

Mae incwm amrywiol yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Bwrdd lechyd Lleol (BILI) ac nid yw'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn unigryw gan y BILI ar gyfer Llywodraeth Cymru megis cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau nad ydynt yn weithgareddau a achoswyd gan y BILI yn ei rôl darparwr. Mae incwm a dderbyniwyd gan Fyrdau lechyd Lleol yn trafod â Byrddau lechyd eraill yn cael ei drin bob amser fel incwm amrywiol.

O 2018-19, mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio, fel y dehonglwyd ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM). Mae'n cymryd lle'r safonau IAS 11 blaenorol Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw, a dehongliadau SIC ac IFRIC perthnasol. Mae'r diwygiadau posibl a nodwyd o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15 yn arwyddocaol is na'r lefelau perthnasedd.

Mae incwm yn cael ei gynnwys drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Os derbyniwyd incwm gan drydydd partion ar gyfer gweithgaredd penodol i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr incwm hwnnw yn cael ei ohirio.

Dim ond incwm nad yw'n un y GIG y gellir ei ohirio.

1.4 Budd-daliadau gweithwyr

1.4.1 Budd-daliadau gweithwyr tymor byr

Mae cyflogau, tâl a thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan weithwyr. Nid yw'r BILI fel arfer yn caniatáu cario gwyliau blynyddol ymlaen o un cyfnod i'r nesaf ac mae'n rhaid i staff gymryd gwyliau blynyddol fel mae'n disgyn, oni bai bod y gwyliau blynyddol gwahaniaethu o'r cyfnod cyfrifo. Llaciwyd y gofyniad hwn fodd bynnag ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20 ar gyfer aelodau staff nad oedd yn gallu cymryd gwyliau blynyddol yn sgil y pandemig Covid-19. Os yw gweithwyr yn cael cario gwyliau blynyddol drosodd i'r cyfnod nesaf, mae'r costau cysylltiedig yn cael eu cydnabod yn llawn yn y datganiadau ariannol.

1.4.2 Costau budd-dal ymddeol

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogai'r GIG, Meddygfeydd Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'n fwriad rhedeg y cynllun mewn modd a fyddai'n galluogi cyrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir y cynllun fel y byddai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

Mae canlyniadau gwerth Cynllun Pensiwn diweddaraf y GIG yn dangos bod angen cynnydd mewn buddion o 6.3% (14.38% i 20.68%) a weithredwyd o 1 Ebrill 2019.

Fel sefydliad o fewn y sgôp cyllido llawn, byddai'r cyd-drefniant trawsnewidiol (yn GIG Cymru a GIG Lloegr) a weithredwyd yn 2019-20, ble byddai cyflogwyr yn y Cynllun yn parhau i dalu 14.38% o gyfraniadau cyflogwyr dan eu proses dalu misol arferol, yng Nghymru mae'r 6.3% ychwanegol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r gweinyddyd Cynllun Pensiwn, yr Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG (BSA Asiantaeth Bensiynau'r GIG).

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r BILIau roi cyfrif am eu cyfraniadau cyflogwr i staff o 20.68% yn llawn ac ar sail gros, yng nghyfraniadau blynyddol 2019-20. Cyfrifir taliadau a wnaed ar eu rhan gan Lywodraeth Cymru ar sail tybiannol. Am wybodaeth fanwl, gweler Nodyn 34 - Gwybodaeth arall o fewn y cyfrifon hyn.

Ar gyfer ymddeoliadau cynnar ar wahân i rai salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae cost lawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei chodi ar wariant ar yr adeg mae'r BILI yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth fo'r dull o dalu.

Lle mae cyflogai yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig mae hyn yn cael ei ddatgelu. Gall asedau a rhwymedigaeth y cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny gael eu dynodi, ac maent yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon y BILI. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar werth teg, a'r rhwymedigaethau ar y gwerth presennol o oblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnydd yn yr atebolrwydd o'r gwasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn y treuliau gweithredu. Mae'r cynnydd disgwylid yn ystod y flwyddyn o asedau cynllun yn cael ei gydnabod o fewn incwm cyllid. Mae'r gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n codi o ddatod y disgownt yn rhwymedigaethau'r cynllun yn cael ei gydnabod o fewn costau cyllid.

1.4.3 Cynllun Pensiwn NEST

Mae'n rhaid i'r BILI gynnig cynllun pensiwn amgen i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiynau'r GIG. Felly, mae'r cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cenedlaethol Cynilion Cyflogaeth) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

1.5 Costau eraill

Mae costau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan maent yn cael eu derbyn, ac i'r graddau y maent wedi cael eu derbyn. Maent yn cael eu mesur ar y gwerth teg o'r ystyriaeth sy'n daladwy.

1.6 Eiddo, peiriannau ac offer

1.6.1 Cydnabyddiaeth

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cyfalafu os:

- y'u cedwir ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- yw'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i, neu os bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r BILl;
- disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer mwy nag un flwyddyn ariannol;
- yw cost yr eitem yn gallu cael ei mesur yn ddibynadwy; a
- oes gan yr eitem gost o leiaf £5,000; neu
- ar y cyd, mae gan nifer o eitemau werth o o leiaf £5,000 ac yn unigol maent werth mwy na £250, lle mae'r asedau yn rhyngddibynnol yn ymarferol, lle mae ganddynt ddyddiadau prynu cydamserol yn fras, rhagwelir bod ganddynt yr un dyddiadau gwaredu, ac maent o dan reolaeth unigol; neu
- yw'r eitemau yn rhan o gost sefydlu a chyfarparu cychwynnol adeilad newydd, ward neu uned, waeth beth fo'u cost unigol neu gost ar y cyd.

Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau sydd ag oes ased gwahanol iawn, mae'r elfennau yn cael eu trin fel asedau ar wahân, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol eu hunain.

1.6.2 Prisiad

Mae bob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost sydd i'w briodoli yn uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod ag o i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n briodol iddo fod yn gallu gweithredu yn y modd y bwriedir iddo gan reolwyr.

Nodir y tiroedd a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar eu gwerthoedd a ail-brisiwyd, sef gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisio, wedi tynnu unrhyw ddibrisiad a cholledion gostyngiadau cronedig olynol. Mae ailbrisiadau yn cael eu perfformio yn ddigon cyson i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth y farchnad ar gyfer deunydd presennol
- Adeiladau arbenigol – cost amnewid wedi'i dibrisio.

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi mabwysiadu dull safonol at brisiadau cost amnewid wedi'i dibrisio yn seiliedig ar asedau cyfwerth modern, a, lle y byddai'n bodloni gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle amgen. Mae cyrff GIG Cymru wedi cymhwyso'r gofynion prisio newydd hyn o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sy'n cael ei adeiladu at ddibenion gweinyddol neu wasanaeth yn cael eu cynnal ar gost, wedi tynnu unrhyw golledion gostyngiad. Mae costau yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond dim costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau ar unwaith, fel y caniateir gan IAS 23 ar gyfer asedau a gedwir ar werth teg. Mae ailbrisio a dibrisio asedau yn dechrau pan maent yn dechrau cael eu defnyddio.

Yn 2017-18 defnyddiwyd ymarfer ailbrisio ffurfiol ar gyfer tir ac eiddo. Bydd gwerth dwyn ymlaen yr asedau presennol ar y dyddiad yn cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill, ac mae darnau gosod ac offer newydd yn cael eu cynnal ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio, gan nad yw hwn yn cael ei ystyried i fod yn wahanol o ran deunyddiau o'r gwerth teg.

Mae cynnydd sy'n codi wrth ailbrisio yn mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio ac eithrio pan mae'n gwrthdroi gostyngiadau ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y gwariant, ac felly mae'n cael ei roi i wariant i'r graddau gostyngiad a godir yn flaenorol. Mae gostyngiad ailbrisio nad yw'n arwain at golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedyn, i'r gwariant. Dylai colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y gwariant.

Mae'r cyfeiriadau yn IAS 36 at gydnabod colled gostyngiad o ased wedi'i ailbrisio sy'n cael ei drin fel gostyngiad ailbrisio i'r graddau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm yn y warged ailbrisio ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai'r colledion gostyngiad nad ydynt o ganlyniad i dreuliant clir o fuddion economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig (yn cynnwys o ganlyniad i golled neu niwed sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) sy'n mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio. Dylai colledion gostyngiadau sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

Rhaid cydymffurfio â Mesurau Gwerth Teg IFRS 10 yn llawn o 2015-16. Er hynny, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae prisiant yn cael ei baratoi dan IFRS 13. Dylai asedau a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar gyfer asedau arbenigol, dylai gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gael ei ddehongli fel gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill, y gellir ei gymryd ei fod yn gyfartal o leiaf i gost amnewid y potensial gwasanaeth. Os nad oes dosbarth sengl o ased sy'n disgyn o fewn IFRS 13, dylai datgeliadau fod ar gyfer eitemau materol yn unig.

Yn unol ag addasiadau IAS 16 yn nhabl 6.2 o'r FReM, ar gyfer asedau nad ydynt yn arbenigol mewn deunydd gweithredol, mae gwerth cyfredol mewn deunydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth marchnad ar gyfer deunydd presennol sy'n cael ei ddiffinio yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Deunydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a gadwyd fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sy'n weddill, gael eu priso ar werth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, os oes cyfyngiadau ar yr BIL neu'r ased fyddai'n atal mynediad at y farchnad ar y dyddiad adrodd. Pe byddai'r BIL yn cael mynediad at y farchnad yna dylid defnyddio'r ased gwarged ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn warged, dylid gwneud asesiad a oes cynllun clir i ddod â'r ased yn ôl i ddeunydd fel ased gweithredol. Os oes cynllun clir, nid yw'r ased yn warged, a dylid cynnal y gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fel arall, dylai'r ased gael ei asesu fel bod yn warged a'i brisio dan IFRS13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth gael eu priso yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40 yn dibynnu ar a yw'r ased yn cael ei gadw'n weithredol i'w werthu. Os nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac nid oes cynllun i'w ddefnyddio eto, heb unrhyw gyfyngiadau rhag gwerthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 a IFRS 5, mae'r asedau hyn yn warged ac yn cael eu priso ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

1.6.3 Gwariant dilynol

Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Lle mae gwariant dilynol yn adennill yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu, ac mae unrhyw werth dwyn ymlaen yr eitem sy'n cael ei amnewid yn cael ei gofnodi a'i godi ar y SoCNE. Fel y pwysleisiwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau yn eu lle i sicrhau y gall yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid" gael eu dynodi, ac felly dyna pam mae'r gost sy'n gysylltiedig yn cael ei feintio. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y bo'n gallu, sy'n cael ei amlinellu ym mhennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae hyn yn pennu i sicrhau nad yw asedau sy'n cario gwerthoedd yn cael eu gorbwysleisio'n faterol ar gyfer y Cynlluniau Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael eu cwblhau mewn blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i BILlau sicrhau ailbrisiad yn ystod y flwyddyn dan sylw (cyn iddynt gael eu defnyddio) ac mae angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer bob Cynllun Adeiladu Disgresiwn a gwblhawyd sydd â gwariant mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau a ddynodwyd yng ngwerth yr asedau yna'n cael eu cynnwys yn y costau gweithredu.

1.7 Asedau anghyffwrddadwy

1.7.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyffwrddadwy yn asedau heb fod yn rhai ariannol heb sylwedd ffisegol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill y busnes, neu sy'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod yn unig pan mae hi'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i'r BILL, neu pan fydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r BILL; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost o leiaf £5,000.

Mae asedau anghyffwrddadwy a gafwyd ar wahân yn cael eu cydnabod ar werth teg i ddechrau. Mae meddalwedd sy'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft system weithredu, yn cael ei gyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriannau ac offer. Mae meddalwedd nad yw'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft meddalwedd cymhwysiad, yn cael ei gyfalafu fel ased anghyffwrddadwy. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel treuliant gweithredu yn y cyfnod a achoswyd. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod, a dim ond os yw bob un o'r canlynol yn cael eu harddangos:

- y dichonolrwydd technegol o gwblhau'r ased anghyffwrddadwy fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio
- y bwriad i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio
- y gallu i ddefnyddio'r ased anghyffwrddadwy
- sut bydd yr ased anghyffwrddadwy yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol y dyfodol
- argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill digonol i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio
- y gallu i fesur gwariant i'w briodoli yn ddibynadwy i'r ased anghyffwrddadwy yn ystod ei ddatblygiad.

Mesur

Y swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol yw'r swm o'r gwariant a achoswyd o'r dyddiad pan mae'r meini prawf uchod wedi eu bodloni i ddechrau. Lle na ellir cydnabod unrhyw asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol, mae'r gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod yr achoswyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anghyffwrddadwy yn cael eu cynnal ar werth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol, neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (sail asedau cyfwerth modern), yn cael eu mynegrifo ar gyfer cynnydd mewn pris perthnasol, fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn cael ei chadw ar gost hanesyddol i adlewyrchu'r effeithiau gwrthwynebus o gynnydd mewn costau datblygiad a datblygiadau technolegol.

1.8 Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariadau

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ac asedau a gedwir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, mae dibrisiad ac amorteiddiad yn cael eu codi i gael gwared ar gostau neu brisiad yr eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffwrddadwy anghyfredol, wedi tynnu unrhyw werth dros ben, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, mewn modd sy'n adlewyrchu'r treuliant o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yw'r cyfnod y mae'r BILL yn disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth gan yr ased. Mae hwn yn benodol i'r BILL, ac efallai y bydd yn llai nac oes gorfforol yr ased ei hun. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newid yn cael ei gydnabod ar sail arfaethedig. Mae asedau a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod byrraf y brydles, ac amcangyfrif o oes ddefnyddiol.

Ar ddiwedd bob cyfnod adrodd, bydd y BILL yn gwirio a oes unrhyw arwydd bod unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anghyffwrddadwy wedi dioddef o golled amhariad. Os oes awgrym bod colled amhariad, mae gwerth adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif i benderfynu a oes colled wedi bod, ac os oes, ei swm. Mae asedau anghyffwrddadwy nad ydynt ar gael i'w ddefnyddio eto yn cael eu profi ar gyfer amhariadau'n flynyddol.

Mae colledion amhariad nad ydynt o ganlyniad i golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel amhariad a godir i'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac wedyn, i'r SoCNE. Mae colledion amhariad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd yn cael eu cynnwys yn y SoCNE. Mae balans unrhyw gronfa ailbrisio (hyd at lefel yr amhariad) y byddai'r amhariad wedi eu codi arni dan IAS 36 yn cael eu trosglwyddo i'r enillion argadwedig.

1.9 Ymchwil a Datblygiad

Mae gwariant ymchwil a datblygiad yn cael ei godi ar gostau gweithredu yn y flwyddyn yr achoswyd, ar wahân i'r ffaith ei fod yn berthnasol i brosiect a ddiffinnir yn glir, a ellir ei wahanu o weithgaredd gofal cleifion, a gellir yn rhesymol ystyried buddion o hynny ymlaen fel rhai sicr. Mae gwariant gohiriedig yn gyfyngedig i werth buddion y dyfodol disgwylidig, ac mae'n cael ei amortieiddio drwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod a ddisgwyllir i elwa o'r prosiect.

1.10 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cadw i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill drwy werthiant am arian parod yn bennaf yn hytrach na thrwy ddeunydd parhaus. Ystyrir bod y cyflwr wedi'i fodloni pan mae'r gwerthiant yn debygol iawn, bod yr ased yn barod i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol, a bod rheolwyr yn ymroddedig i'r gwerthiant, y disgwylir iddo gymhwyso ar gyfer cydnabyddiaeth fel gwerthiant gorffenedig o fewn blwyddyn o ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu yn cael eu mesur ar y lefel isaf o'u swm dwyn ymlaen blaenorol a gwerth teg, wedi tynnu'r costau i werthu. Mae gwerth teg yn werth marchnad agored yn cynnwys dibenion amgen.

Yr enillion neu'r colledion sy'n codi o gael gwared ar ased yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a'r swm dwyn ymlaen, ac mae'n cael ei gydnabod yn y SoCNE. Wrth gael gwared arno, mae balans yr ased yn y gronfa ailbrisio, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau ac offer sydd i'w sgrapio neu eu chwalu yn gymwys ar gyfer ei gydnabod fel eu bod yn cael eu gadw i'w gwerthu. Mae'n cael ei gadw fel ased gweithredol yn hytrach ac mae ei oes economaidd yn cael ei addasu. Rhwir y gorau i gydnabod yr ased wth gael ei sgrapio neu ei chwalu.

1.11 Prydlesau

Mae prydlesau yn cael eu dosbarthu fel prydlesau cyllid pan mae'r holl risgiau a thaliadau sylweddol o berchnogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r deiliaid prydles. Mae'r holl brydlesau eraill yn cael eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu.

1.11.1 Y BILI fel deiliaid prydles

Mae eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau, ar ddechrau'r brydles, ar eu gwerth teg neu, os yw'n llai, ar y gwerth presennol o leiafswm taliadau prydles, gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhwymedigaeth prydles i'r prydleswr. Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles, er mwyn cyflawni cyfradd gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae ffioedd ariannol yn cael eu codi'n uniongyrchol i'r SoCNE.

Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae mentrau prydles yn cael eu cydnabod i ddechrau fel rhwymedigaeth, ac fel gostyngiad yn rhenti ar sail llinol dros gyfnod y brydles wedyn. Mae rhenti amodol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y maent wedi eu hachosi.

Os yw'r brydles ar gyfer tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu gwahanu ac yn cael eu hasesu'n unigol o ran a ydynt yn brydlesau gweithredu neu brydlesau cyllid.

1.11.2 Y BILI fel prydleswr

Mae'r symiau sydd eu hangen gan ddeiliaid prydlesau dan brydlesau cyllid yn cael eu cofnodi fel eitemau derbyniadwy yn nifer buddsoddiad net y BILI yn y prydlesau. Mae incwm prydles cyllid yn cael ei ddosbarthu i gyfnodau cyfrifyddu er mwyn adlewyrchu cyfradd enillion cyfnodol cyson ym muddsoddiad net y BILI sy'n weddill o ran y prydlesau.

Mae incwm rhent o brydlesau gweithredu yn cael ei gydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol a achoswyd wrth drafod a threfnu unrhyw brydles gweithredu yn cael eu hychwanegu at y swm dwyn ymlaen o'r ased ar brydles, ac yn cael eu cydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

1.12 Rhestrau Eiddo

Er ei bod hi'n gonfensiwn cyfrifyddu i restrau eiddo gael eu prisio ar y gost isaf, a gwerth gwiredadwy net gan ddefnyddio fformiwla'r gost cyfartaledd wedi'u pwysoli neu cost cyntaf i mewn y cyntaf allan, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig o ran nad yw rhestrau eiddo yn cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer y bwriad o ailwerthu, ac yn wir nid oes marchnad eisoes ar gael lle gellir gwerthu'r eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio ar gost, ac mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fras amcan rhesymol i werth teg oherwydd y trosiant uchel o stoc. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau mewn cyfnodau canolraddol cynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi'u cwblhau yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

1.13 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian parod mewn llaw ac arian cadw gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad y caffael, ac sy'n drosadwy yn rhwydd i nifer sy'n hysbys o arian parod gyda risg ddinod o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad o Lifau Arian (SoCF), dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb gynnwys gorddrafft banc sy'n ad-daladwy ar alw, ac sy'n rhan anhepgor o reoli arian parod.

1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan mae gan y BILI rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad o'r gorffennol, mae'n debygol y bydd hi'n ofynnol i BILI i setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Lle mae darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r llifau arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw'r gwerth presennol o'r llifau gwaith hynny gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Lle disgwylir i ychydig neu'r holl fuddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan drydydd parti, mae'r eitem dderbyniadwy yn cael ei chydnabod fel ased os yw'n bron iawn yn sicr y bydd ad-daliadau yn cael eu derbyn, a gellir mesur swm yr eitemau derbyniadwy yn ddibynadwy.

Mae rhwymedigaethau presennol sy'n codi dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Ystyrir bod contract beichus yn bodoli os oes gan y BILI gontract lle mae'r costau na ellir eu hosgoi o fodloni'r rhwymedigaethau dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir i'w derbyn oddi tano.

Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydnabod pan mae'r BILI wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi codi disgwyliad dilys o ran y rhai a effeithir arnynt y bydd yn cynnal yr ailstrwythuro drwy ddechrau gweithredu'r cynllun neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rhai a effeithir arnynt ganddo. Mae mesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys y gwariant uniongyrchol yn unig sy'n codi o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sydd eu hangen oherwydd ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

1.14.1 Costau esgeulustod clinigol ac anaf personol

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn o gael mynediad at gytundeb rhannu risg a ariennir gan gyrff GIG Cymru cyfranogol. Gweithredwyd yr opsiwn rhannu risg yn 2019-20. Mae'r WRP yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

1.14.2 Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) - Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

Mae'r FLS yn gynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) ar gyfer esgeulustod clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaeth GMP yng Nghymru. Ym Mawrth 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Gyfeiriad i Ymddiriedolaeth GIG Felindre i alluogi'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i weithredu'r Cynllun. Tanategir y GMPI gan ddeddfwriaeth eilaidd newydd, Rheoliadau (Cynllun Esgeulustod Clinigol) y GIG (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Nid yw Darparwyr Gwasanaeth GMP yn aelodau uniongyrchol o'r GMPI FLS, eu rhwymedigaethau cymhwysol yw testun trefniant rhyngddyn nhw a'r BILI perthnasol, sy'n aelod o'r cynllun. Nid yw'r ad-daliadau cymwys i'r BILI yn destun i'r gormodedd o £25,000.

1.15 Offerynnau Ariannol

O 2018-19 mae Offerynnau Ariannol IFRS 9 wedi'u gosod, fel y'u dehonglir ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus yn y FReM. Prif effaith mabwysiadu IFRS 9 gan y BILlau, oedd i newid y sail gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau dyled ddrwg, newid o sail colledion a ysgwyddir i sail colledion credyd disgwylidig am oes (ECL).

Roedd yr holl endidau a weithredodd y FReM yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynddol oedd yn cynnwys y dyddiad ymgeisio dechreuol wrth agor y gyllideb gyffredinol o fewn yr ecwiti trethdalwyr.

1.16 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol ar y SoFP pan fo'r BILI yn arwyddo contract offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu wasanaethau wedi eu darparu. Rhwir y gorau i gydnabod asedau ariannol pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben neu pan fydd yr asedau wedi eu trosglwyddo.

Mae'r dewis polisi cyfrifyddu a ganiateir dan IFRS 9 ar gyfer eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, asedau contract sy'n cynnwys elfen cyllid sylweddol (yn unol ag IFRS 15), ac eitemau prydles sy'n dderbyniadwy, o fewn cwmpas IAS 17 wedi cael eu tynnu'n ôl, a dylai endidau bob amser gydnabod lwfans colled am swm sy'n hafal i Golledion Credyd oes gyfan Disgwylidig. Dylai bob endid sy'n defnyddio'r FReM ddefnyddio'r dull IFRS 9 wedi'i symleiddio at ostyngiadau ar gyfer asedau perthnasol.

Roedd gofynion IFRS 9 angen ymagwedd ddiwygiedig ar gyfer cyfrifio'r ddarpariaeth dyled ddrwg, gan weithredu egwyddorion colledion credyd disgwylidig, gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol o fewn IFRS9 i adeiladu matricesau darpariaeth.

1.16.1 Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg i ddechrau

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar werth teg drwy SoCNE'; 'buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd'; asedau ariannol 'ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwmpas yr asedau ariannol, gaiff ei benderfynu ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

1.16.2 Asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.16.3 Buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd

Mae buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd yn asedau ariannol anneiliadol gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy ac aeddfedrwydd sefydlog, ac mae yna fwrriad a gallu positif i'w dal hyd aeddfedrwydd. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu dal ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.16.4 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu

Mae asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneiliadol sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu yn rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Cânt eu mesur ar werth teg a chymerir newidiadau mewn gwerth i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, ac eithrio colledion amhariad. Ailgylchir enillion neu golledion cronedig i'r SoCNE wrth roi'r gorau i gydnabod.

1.16.5 Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneiliadol a chanddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad actif. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw amhariadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Penderfynir ar werth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad a ddyfynnir lle bo'n bosibl, fel arall trwy dechnegau prisio.

Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a dderbynnir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y SoFP, mae'r BILI yn asesu a oes yna unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r amhariadau i'r rhai hynny wedi eu dal ar 'werth teg drwy elw a cholled'. Mae asedau ariannol wedi eu hamharu a cholledion amhariadau wedi eu cydnabod os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a gafwyd wedi cydnabyddiaeth gychwynnol yr ased ac sy'n effeithio ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

O ran asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio, caiff swm colled yr amhariad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y lifau arian diwygiedig y dyfodol wedi ei leihau ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y SoCNE a chaiff swm dwyn ymlaen yr ased ei leihau ar unwaith, neu drwy ddarparu ar gyfer amhariadau mewn symiau derbyniadwy.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm colled yr amhariad yn gostwng a gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl cydnabod yr amhariad, caiff colled yr amhariad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi drwy'r SoCNE i'r graddau bod swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r amhariad ddim yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi ei hamorteiddio wedi bod pe na fyddai'r amhariad wedi'i gydnabod.

1.17 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y SoFP pan fo'r BILI yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n daladwy, pan fo'r nwyddau neu wasanaethau wedi eu derbyn. Rhwir y gorau i gydnabod rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth drosodd, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi ei dalu neu wedi dod i ben.

1.17.1 Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg i ddechrau

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol fel un ai rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy SoCNE neu rhwymedigaethau ariannol eraill.

1.17.2 Rhwymedigaethau ar werth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.17.3 Rhwymedigaethau ariannol eraill

Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob rhwymedigaeth ariannol arall eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'r union amcangyfrif arian parod a delir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.18 Treth ar Werth (TAW)

Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r SoCNE. Ar ddyddiad y SoFP, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

1.19 Arian tramor

Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r SoCNE. Ar ddyddiad y SoFP, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

1.20 Asedau trydydd parti

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (megis arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan y BILI unrhyw fuddiant buddiol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu rhoi yn Nodyn 31 o'r cyfrifon.

1.21 Colledion a Thaliadau Arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried pan y cytunodd ar arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi yn ddelfrydol. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o'i gymharu â chyffredinolrwydd taliadau. Maent wedi cael eu rhannu i gategoriâu gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd y mae bob achos unigol yn cael ei drin.

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu codi i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail croniadau, yn cynnwys colledion a fyddai wedi cael eu gwneud yn iawn drwy yswiriant pe na bai'r BILI wedi bod yn goddef eu risgiau eu hunain (gyda phremiwm yswiriant yna'n cael ei gynnwys fel gwariant refeniw arferol). Er hynny, mae Nodyn 23 ar golledion a thaliadau arbennig wedi'u casglu yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae'r BILI yn rhoi cyfri am yr holl golledion a chyfanswm taliadau arbennig (yn cynnwys cymorth gan y WRP).

Mae'r BILI yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau'r dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac mae'n datgelu bob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau amodol, onid yw tebygrwydd y rhwymedigaethau yn dod yn daladwy yn annhebygol.

Mae pob hawliad am golledion neu daliadau arbennig yn cael eu darparu ar eu cyfer, lle mae tebygrwydd o setlo hawliad unigol dros 50%. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynnol, mae digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn lle nad yw hawliad wedi ei dderbyn, hyd yn hyn, yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae ad-daliadau disgwylledig gan y WRP yn cael eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygrwydd setlo rhwng 5-50%, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei datgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

1.22 Cyllidebau wedi'u cyfuno

Mae'r BILL wedi dod yn rhan o drefniadau cyllidebau wedi'u cyfuno gyda'r Awdurdodau Lleol ar draws gogledd Cymru. Dan y trefniadau mae cyllidebau'n cael eu cyfuno yn unol ag adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn Nodyn 32 - cyllidebau ar y cyd.

Mae'r BILL yn gyfrifol am ei gyfran o'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant o'r gweithgareddau yn unol â'r trefniadau pob cyllideb wedi'u cyfuno.

1.23 Dyfarniadau Cyfrifyddu Allweddol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth ddefnyddio polisiâu cyfrifyddu, mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio os yw'r diwygiadau yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu gyfnod y diwygiad a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

1.24 Prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif

Y prif dybiaethau sy'n ymwneud â'r dyfodol yw'r canlynol, a ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif ar ddyddiad y SoFP, sydd â risg sylweddol o achosi addasu deunydd i'r gwerth dwyn ymlaen os yw'r asedau a'r rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol (Nodiadau 20 a 21)

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol o ran esgeulustod clinigol parhaus a hawliadau anafiadau personol. Darperir thybiaethau o ran canlyniadau tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau ymglyfreithiadau hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Bydd unrhyw newidiadau materol mewn rhwymedigaethau a gysylltir â'r hawliadau hyn yn gallu cael eu hadfer drwy Gronfa Risg Cymru.

Costau gofal iechyd parhaus (Nodiadau 20 a 21)

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol hefyd ar gyfer costau gofal parhaus yn deillio o hawliadau ôl 1 Ebrill 2003. Gwneir asesiad o ganlyniadau tebygol, rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau hyn ar sail bob achos unigol. Addasir newidiadau materol cysylltiedig â'r hawliadau hyn yn y cyfnod y'u hadolygir.

Gwasanaethau Gofal Cychwynnol gan gynnwys cyffuriau a chyfarpar a ragnodir (Nodyn 18)

Gwneir amcangyfrifon hefyd ar gyfer gwasanaethau gofal cychwynnol dan gontract. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y lefelau taliad diweddaraf. Addasir y newidiadau cysylltiedig â'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfnod adrodd canlynol.

1.24.1 Darpariaethau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol ar gyfer esgeulustod clinigol, anaf personol a chostau amddiffyniad y mae eu hamseru neu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol ar gyfer setlo'r rhwymedigaeth.

Mae hawliadau yn cael eu hariannu drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu cost ceisiadau ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob yn ail fis. Ar ôl i'r BILI setlo hawliadau unigol, mae'r gost lawn yn cael ei chydabod o fewn y flwyddyn, ac yn cyd-fynd ag incwm (tynnu trosariant o £25,000) drwy ddyledwr WRPS, nes i ad-daliad gael ei dderbyn gan y Pwyllgor WRPS.

Achosion Pendant a Thebygol– Triniaeth Gyfrifo

Mae darpariaeth ar gyfer yr achosion hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 37. Mae achosion yn cael eu hasesu a'u rhannu yn bedwar categori yn unol â'u tebygolrwydd o setlo;

Gwan	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	0 - 5% Rhwymedigaeth wrth gefn.
Posibl	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	6% - 49% Ffi'r Amddiffynnydd - Darpariaeth Rhwymedigaeth wrth Gefn ar gyfer bob gwariant arall a amcangyfrifir.
Tebygol	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	50% - 94% Darpariaeth lawn
Pendant	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifo	95% - 100% Darpariaeth lawn

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a phendant yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a adroddir arnynt gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd y cyfreithiwr yn amcangyfrifo gwerth yr achos yn cynnwys ffioedd amddiffyniad, gan ddefnyddio barn broffesiynol a drwy ofyn am gyngor y cwnsler. Mae elfennau colled y dyfodol yn cael eu tynnu o'r prisiad gan ddefnyddio disgwyliaid oes unigol a thablau'r actiwari (tablau Ogden) a chyfradd Disgownt Anaf Personol o finws 0.75%.

Mae rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer achosion pendant a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50-94% yn y drefn honno yn cael eu cadw fel darpariaeth ar y fantolen. Mae achosion fel arfer yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel, ble mae cyfnod o ddatblygiad yn angenrheidiol i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

1.25 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi penderfynu y dylai cyrff llywodraeth gymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau PFI isadeiledd, pan fo'r cyrff llywodraeth yn rheoli deunydd o'r isadeiledd a'r diddordeb gweddillol yn yr isadeiledd ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r BILI felly yn cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau ac offer ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdanynt. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir gan y contract yn cael eu cofnodi fel costau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio'r technegau amcangyfrif priodol lle bo'n briodol:

- Taliad ar gyfer gwerth teg o wasanaethau a dderbyniwyd;
- Taliad ar gyfer yr ased PFI, yn cynnwys costau ariannol; a
- Taliad ar gyfer amnewid elfennau o'r ased yn ystod 'amnewid cylch oes' y contract.

1.25.1 Gwasanaethau a dderbyniwyd

Mae gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gofnodi dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn 'costau gweithredu'.

1.25.2 Ased PFI

Mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod fel eiddo, peiriannau ac offer, pan maent yn cael eu defnyddio. Mae'r asedau yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Ar ôl hynny, mae'r asedau yn cael eu mesur ar werth teg, sy'n cael eu cadw'n gyfredol yn unol â dull y BILl ar gyfer bob dosbarth perthnasol o ased yn unol ag egwyddorion IAS 16.

1.25.3 Rhwymedigaeth PFI

Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Mae'n cael ei fesur i ddechrau ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI, ac mae'n cael ei fesur ar ôl hynny fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Mae cost ariannol flynyddol yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles i'r rhwymedigaeth prydles agoriadol ar gyfer y cyfnod, ac yn cael ei dalu drwy'r 'Costau Ariannol' o fewn y SoCNE.

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhent prydles ariannol yn cael ei gymhwyso i fodloni'r gost ariannol flynyddol ac i ad-dalu'r rhwymedigaeth prydles dros gyfnod y contract.

Mae elfen o gynydd taliad unedol blynyddol oherwydd mynegeo cronus yn cael ei ddyrannu i'r brydles ariannol. Yn unol ag IAS 17, nid yw'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y lleiafswm taliad prydles, ond mae'n cael ei drin fel rhent amodol yn hytrach ac mae'n cael ei gostio fel swm a achoswyd. Yn ei hanfod, mae'r swm hwn yn gost ariannol o ran y rhwymedigaeth, ac mae'r gost yn cael ei chyflwyno fel cost ariannol amodol yn y SoCNE.

1.25.4 Amnewid cylch oes

Mae elfennau o'r ased a amnewidir gan y gweinyddwr yn ystod y contract ('amnewid cylch oes') yn cael eu cyfalafu lle maent yn bodloni meini prawf y BILl ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu pan maent yn cael eu darparu gan y gweinyddwr, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Mae elfen o'r taliad undebol blynyddol a ddyrannir i'r amnewid cylch oes yn cael ei bennu ymlaen llaw ar gyfer bob blwyddyn o'r contract o raglen gynlluniedig amnewid cylch oes y gweinyddwr. Pan fo'r elfen cylch oes yn cael ei darparu yn gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl, mae rhwymedigaeth prydles ariannol neu ragdaliadau tymor byr yn cael eu cydnabod yn y drefn honno.

Symiau sy'n Dderbyniadwy hebio'u dyddiad dyledus ond ddim yn amharus

Mae troednodyn i Nodyn 15 symiau sy'n dderbyniadwy hebio'u dyddiad dyledus ond ddim yn amharus, yn dadansoddi anfonebau dyledus anamharus ar ddyddiad y fantolen yn ôl categori oed. Mae unrhyw anfoneb bydd y Bwrdd Iechyd yn eu creu yn destun i amodau talu 30 niwrnod, a bydd unrhyw anfoneb sy'n 30 oed, neu lai, ar ddyddiad y fantolen felly'n cael eu heithrio o'r troednodyn hwn.

Cyfanswm gwerth yr anfonebau sy'n ddyledus a gynhwysir yn Nodyn 15 ar 31 Mawrth 2020 oedd £13,020,000 (31 Mawrth 2019 £14,595,000) ac roedd £7,534,000 (31 Mawrth 2019 £6,239,000) heb basio eu dyddiad dyledus ac felly fe'u heithriwyd o'r cyfrifiad. O'r gweddill oedd ar ôl o £1,643,000 (31 Mawrth 2019 £4,896,000) o anfonebau oedd yn rhannol neu'n hollol ddiffygiol, gan arwain at weddill o £3,843,000 oedd wedi pasio eu dyddiad dyledus, ond ddim yn ddiffygiol (31 Mawrth 2019 £3,460,000).

Pandemig Covid-19

Creodd y pandemig Covid-19 nifer o heriau i'r Bwrdd Iechyd yn ystod Mawrth 2020 gyda chostau ychwanegol uniongyrchol cysylltiedig o £1,152,000 yn cael eu creu yn ystod y mis. Roedd y costau ychwanegol hyn yn cynnwys gwariant cyflogau o £430,000 a gwariant heb fod yn gyflogau o £722,000. Mae'r costau heb fod yn gyflogau'n ymwneud â gwariant clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys cyfarpar meddygol a llawfeddygol, dillad gwely a golchdy, dillad gwarchodol, cyffuriau, costau adeiladu a darpariaethau arlwygo.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn dal stoc o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) Covid-19 penodol gwerth £57,000 ar 31 Mawrth 2020 a chynhwysir rhain yn y rhestr eiddo yn Nodyn 14.1 ar dudalen 46. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid adnoddau ychwanegol o £11,000 yn ystod Mawrth 2020 ar gyfer argraffu Pecynnau Llwybr Asesu COVID Cymunedol.

Lliniarwyd y costau ychwanegol a grewyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod Mawrth 2020 yn rhannol gan weithrediadau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 13 Mawrth, gan gynnwys gohirio apwyntiadau cleifion allanol, derbyniadau llawfeddygol a gweithdrefnau heb fod yn rhai brys.

Roedd yr ymateb canolbwyntiedig i Covid-19 yn ystod Mawrth 2020 hefyd yn golygu nad oedd modd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau'r gwaith o leihau rhestrau aros, gan gynnwys trefniadau gweithgareddau gan gyflenwyr allanol i ddarparwyr eraill, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Hefyd, gohiriwyd y rhaglen adfer ariannol yn ystod y mis.

Adroddwyd effaith ariannol pandemig Covid-19 ar berfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn ystod 2019-20 i Lywodraeth Cymru drwy'r broses ddychwelyd misol yn Ebrill 2020.

Gweithredu Prydlesau IFRS16

Cytunodd Trysorlys EM gyda'r Bwrdd Cyngori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB), i ohirio gweithredu Prydlesau IFRS 16 hyd at 1 Ebrill 2021, oherwydd yr amgylchiadau a achoswyd gan Covid-19. Er mwyn lliniaru'r pwysedd ar Adrannau Cyllid GIG Cymru, mae datganiadau effaith manwl IFRS wedi cael eu tynnu gan Adran Gyllid Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl bydd cyflwyno IFRS16 yn effeithio'n arwyddocaol a gweithir drwy hyn ar gyfer eu datgelu yn natganiadau ariannol 2020-21.

34. Gwybodaeth arall (parhad)

Trafodion Partïon Cysylltiedig

Fel y manylwyd arno yn Nodyn 30 Trafodion Partïon Cysylltiedig, mae gofyn i Aelodau'r Bwrdd wneud Datganiad o Fuddiannau bob blwyddyn, gan gynnwys rhai heb ddim trafodion busnes lle bo'n berthnasol. Mae'r tabl canlynol yn darparu datganiadau o fuddiant a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20.

Enw	Manylion am swyddi a ddalwyd yn ystod y flwyddyn ariannol	Datganiad	Manylion y buddiant a ddatganwyd
<u>Cyfarwyddwyr/Cyfarwyddwyr Gweithredol</u>			
Mr G Doherty	Prif Weithredwr	G	Cyflogir ei briod gan Addysg Iechyd Lloegr
Mr S Dean	Prif Weithredwr Dros Dro	G	Gwas Sifil ar secondiad a gyflogir gan Lywodraeth Cymru
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	G	Ei briod yn gweithio i Boots fel Technegydd Gwirio Cywirdeb
Mrs L Singleton	Aelod Bwrdd Cysylltiol Dros Dro Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	A	Ei phriod yw perchennog Gwynedd Forklifts a GFL Access.
<u>Aelodau Annibynnol y Bwrdd</u>			
Mr M Polin OBE QPM	Cadeirydd	G	Cyflogir ei briod gan y Bwrdd Iechyd
Mrs M W Jones	Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd	F, G	Cadeirydd y Cyngor, Prifysgol Bangor Is-gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Kyffin Williams Ymddiriedolwr Canolfan Gerdd William Mathias.
Mrs L Reid	Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd (01.12.19 - 31.03.20)	C	Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaeth Apeliadau Gofal Cychwynnol Datrysiad y GIG. Ynad gyda Mainc Droseddol Gogledd Cymru Cyfarwyddwr Anakrisis Ltd sy'n darparu hyfforddiant arbenigol a gwasanaethau cynghori i GIG Lloegr, Gwella'r GIG a'r Comisiwn Ansawdd Gofal
Y Cyng. C Carlisle	Aelod Annibynnol	F, G	Cynghorydd Sir, Cyngor Conwy. Dirprwy Gadeirydd, Ceidwadwyr Gorllewin Clwyd. Llywodraethwr Ysgol, Ysgol Bryn Elan. Aelod o Banel Mabwysiadu Siroedd Conwy a Dinbych
Mr J Cuncliffe	Aelod Annibynnol	F, G	Cyfarwyddwr Abernet Ltd Aelod o Gyd-bwyllgor Archwilio, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru. Cyflogir ei briod gan y Bwrdd Iechyd.
Yr Athro N Callow	Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Prifysgol)	G	Deon Coleg Gwyddorau Dynol ym Mhrifysgol Bangor
Mrs J F Hughes	Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Undebau Llafur)	G	Tri o'i phlant yn gyflogedig neu'n gwirfoddoli yn y Bwrdd Iechyd. Cadeirydd Cyngor Cymru Cymdeithas a Choleg y Radiograffwyr
Y Cyng. R Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Awdurdod Lleol)	C, E, F	Cyfarwyddwr Meditel Limited. Aelod Awdurdod Lleol, Cyngor Gwynedd, Aelod o Bwyllgor Archwilio Gofal a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cynghorydd Dinas Bangor. Cadeirydd Cyfeillion Canolfan William Mathias
Mr H E Jones	Aelod Annibynnol	G	Aelod o Fwrdd Pensiynau Gwynedd. Aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd. Ynad Heddwch ar Fainc Gogledd Orllewin Cymru. Aelod o Adra (Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn flaenorol). Aelod o Glas Cymru.
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol	G	Ymddiriedolwr o Wirral Hospice St John's.
Mrs H Wilkinson	Aelod Annibynnol	C	Prif Weithredwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Aelod Pwyllgor Cymru o Gronfa Cymunedol y Loteri Cenedlaethol.
<u>Aelodau Cyswllt y Bwrdd</u>			
Mrs M Edwards	Aelod Cyswllt y Bwrdd - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	G	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd. Cyfarwyddwr Arweiniol ADSS Cymru ynghylch y Gymraeg Aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg Cadeirydd Bwrdd Comisiynu Integredig Rhanbarthol Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Mr G Evans	Aelod Cyswllt y Bwrdd - Cadeirydd, Fforwm Staff Proffesiynol Gofal Iechyd	F, G	Aelod o Bwyllgor Cynghori Therapi Cymru (WTAC). Ei briod yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd.
Mr Ff Williams	Aelod Cyswllt y Bwrdd - Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	A, F	Prifweithredwr Adra (Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn flaenorol), cymdeithas dai a leolir yng Ngwynedd ond yn gweithredu ym mhob rhan o ogledd Cymru.

CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU A RODDWDYD GAN WEINIDOGION CYMRU YN UNOL AG ATODLEN 9 ADRAN 178 PARAGRAFF 3(1) DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 2006 (P.42) GYDA CHYMERADWYAETH Y TRYSORLYS

BYRDDAU IECHYD LLEOL

1. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo y caiff cyfrif ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol (BILI)¹, ar y ffurf a nodir ym mharagraffau [2] i [7] isod.

SAIL PARATOI

2. Bydd cyfrif y BILI yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) arweiniad cyfrifyddu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer, ac wedi'i gymhwyso gan Lywodraeth Cymru a manylir arno yn Llawlyfr Cyfrifon BILI GIG Cymru;

(b) unrhyw arweiniad penodol arall neu ddatgeliadau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru.

FFURF A CHYNNWYS

3. Bydd cyfrif y BILI ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad o wariant net cynhwysfawr, datganiad o sefyllfa ariannol, datganiad o lifoedd arian a datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr cyn belled ag y bo angen y datganiadau hyn gan FReM a'u cymhwyso gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys nodiadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol am y cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif BILI yn rhoi trosolwg gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chostau gweithredu, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a lifoedd arian yn ystod y flwyddyn.

5. Caiff y cyfrif ei lofnodi a'i ddyddio gan Brif Weithredwr y BILI.

AMRYWIOL

6. Caiff y cyfarwyddyd ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

7. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon yn cynnwys, ymysg pethau eraill, fanylion am y polisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

Llofnodwyd ag awdurdod Gweinidogion Cymru

Llofnodwyd: Chris Hurst

Dyddiedig :

1. Gweler rheoliad 3 2009 Rhif 1559 (C.154); GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU; Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) (Cymru) 2009

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn ymdrin â chyfnod o heriau digynsail ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ('y Bwrdd Iechyd'). Mae pandemig COVID-19 a ddatganwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11.3.20 wedi dod â bygythiad difrifol i iechyd y boblogaeth ac felly mae wedi arwain at bwysau sylweddol iawn ar raddfa fyd-eang. Bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ymateb ar garlam i'r digwyddiad mawr hwn, er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion COVID-19 gan geisio lleihau'r effaith ar gleifion eraill ar yr un pryd a pharatoi i ddychwelyd at fusnes arferol. Mae rhagor o fanylion am ymateb amlasiantaethol y Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid i COVID-19 a'r newidiadau cysylltiedig dros dro i drefniadau llywodraethu wedi'u cynnwys yn Adran 2 o'r Datganiad hwn.
- 1.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod o dan fesurau arbennig ers Mehefin 2015 ac mae arweinyddiaeth a llywodraethu, cyllid, perfformiad a chynllunio'n parhau i fod yn heriau. Mae holl ddisgwyliadau'r fframwaith gwella mesurau arbennig yn destun trefniadau cadarn o ran arolygu, craffu a chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion am welliannau a wnaed, heriau parhaus ac adroddiadau a gyflwynwyd wedi'u darparu yn adran 4 o'r Datganiad hwn.
- 1.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu rhywfaint o drosiant o ran aelodau'r Bwrdd ac mae penodiadau allweddol wedi'u gwneud. Ym mis Chwefror 2020, gadawodd Gary Doherty, Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, y sefydliad a deuthum i (Simon Dean) yn Brif Weithredwr a Swyddog Atebol Dros Dro. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaeth Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, ddechrau yn rôl Dirprwy Brif Weithredwr hefyd, gyda chyfrifoldebau allweddol dros atgyfnerthu llywodraethu trwy adolygu strwythur y pwyllgor, yr ymagwedd tuag at reoli risg a datblygu'r strategaethau Clinigol ac Ansawdd. Mae rhagor o fanylion am newidiadau i aelodaeth y Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.
- 1.4 Yn 2019/20, torrodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i gyflwyno Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig (IMTP). Mae rhagor o wybodaeth am gynllunio wedi'i chynnwys yn Adran 7. Bu'r Bwrdd yn gweithio yn unol â Chynllun Ariannol Dros Dro ar gyfer y diffyg, ac mae wedi torri ei ddyletswydd statudol i sicrhau cydbwysedd ariannol; mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad 6.
- 1.5 Yn ystod 2019/20, gwnaeth y gwaith barhau i fynd i'r afael â chyfrifoldebau corfforaethol a chyfunol y Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFG) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWB). Mae'r cylch gorchwyl i Bwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys geiriad safonol yn ymwneud â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan felly gefnogi ymgorffori gofynion y ddeddfwriaeth i fusnes y sefydliad o ddydd i ddydd. Gweler hefyd Adran 14.17. Mae'r Asesiad Poblogaeth rhanbarthol a'r Cynllun Ardal a ddatblygwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant y pedwar Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ofynnol o dan Ddeddf WFG wedi'u hystyried yn strategaethau a chynlluniau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ei hun.

- 1.6 Mae *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, yn amlinellu uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru i ddod â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd, ac mae'n disgrifio pwysigrwydd rôl y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol o ran gyrru proses datblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol yn ei blaen ar lefel leol, gan gynnwys gofal cychwynnol ac eilaidd. Yn unol â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, gan ddatblygu ymagweddau ar y cyd er mwyn trawsnewid gwasanaethau.

2. Cwmpas Cyfrifoldeb

- 2.1 Mae'r Bwrdd yn atebol, drwy'r Cadeirydd, i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei brosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd Dros Dro, fi sy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt. Cânt eu cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo gan Swyddog Atebol GIG Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fy statws fel Swyddog Atebol ar 30.3.20.
- 2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rwyf i, ynghyd â'r Bwrdd, yn gyfrifol am roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer y Bwrdd Iechyd, gan hwyluso rhoi gweithrediadau'r Bwrdd a rheoli risg ar waith yn effeithiol.
- 2.3 Fel y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad i'r Datganiad hwn, ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn (Mehefin 2020), mae'r Bwrdd Iechyd a'r GIG yng Nghymru yn wynebu pwysau digynsail a chynyddol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion y rheiny y mae COVID-19 yn effeithio arnynt, gan hefyd cynnal gwasanaethau hanfodol a gynllunio i ail-afael mewn gweithgarwch arall lle bo hyn wedi cael effaith o ganlyniad.
- 2.4 Mae'r ymateb sydd ei angen i COVID-19 wedi golygu y bu'n rhaid i'r sefydliad cyfan weithio'n wahanol iawn yn fewnol a gyda staff, partneriaid a rhanddeiliaid a bu angen diwygio'r ffordd y caiff y fframwaith llywodraethu a gweithredol ei chyflwyno. I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru at holl Brif Weithredwyr y GIG yng Nghymru, mewn perthynas â "Penderfyniadau ac Arweiniad Ariannol yn ymwneud â COVID-19." Gwnaeth y llythyr gydnabod y byddai sefydliadau'n debygol o wneud penderfyniadau a allai fod yn anodd ar garlam a heb sail tystiolaeth gadarn neu gefnogaeth unigolion allweddol a fyddai ar gael o dan amgylchiadau gweithredu arferol. Serch hynny, mae'n dal i fod yn ofynnol i'r sefydliad ddangos bod penderfyniadau wedi bod yn effeithlon ac y byddant yn bodloni meini prawf craffu o ran cydymffurfiaeth â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a dangos Gwerth am Arian ar ôl i argyfwng COVID-19 bylu ac unwaith y bydd y sefydliad yn dychwelyd i amodau gweithredu sy'n fwy arferol.
- 2.5 I ddangos hyn, mae'r sefydliad yn cofnodi sut mae effeithiau COVID-19 wedi effeithio ar unrhyw newidiadau i brosesau penderfynu arferol, er enghraifft, trwy ddefnyddio cofrestr i gofnodi unrhyw wyro oddi ar ddulliau gweithredu arferol. Lle bo'n berthnasol, mae'r rhain a chatau gweithredu eraill, wedi'u hesbonio yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. Cafodd llythyr Dr Goodall ei ddilyn ar 4.5.20 gan nodyn canllawiau ar 'Cyflawni cyfrifoldebau pwyllgor Bwrdd yn ystod cam ymateb COVID-19.

- 2.6 Mae strwythur Gorchymyn Aur COVID-19 wedi'i sefydlu, gyda Chanolfan Rheoli Achosion Brys Iechyd, wedi'i thanategu gan ystod o ffrydiau gwaith dan arweiniad Uwch Swyddogion Cyfrifol i ymdrin ag elfennau allweddol fel ysbytai dros dro, PPE, llywodraethu a risg. Mae trefniadau cadarn ar waith o ran adrodd a chyfarfod, ac mae adroddiadau ar y sefyllfa wythnosol (SITREPS), a diweddariadau ar benderfyniadau a chofnodion risg yn cael eu craffu ar lefel Weithredol. Mae Cabinet, o dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, wedi'i sefydlu hefyd er mwyn parhau i arolygu datblygiadau a phenderfyniadau (mae cylch gorchwyl wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 eitem 20.50 [yma: https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/)).
- 2.7 Mae Archebion Sefydlog wedi'u diwygio dros dro, ac mae camau lliniaru wedi'u cymryd i gynnal llywodraethu da, yn unol ag arweiniad cenedlaethol. Cafodd Pwyllgorau a Grwpiau Cynghorol, ac eithrio'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Pwyllgor Archwilio, eu dirwyn i ben dros dro ar gyfer mis Ebrill a mis Mai. Ar adeg ysgrifennu, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi, fel rhan o gynlluniau adfer ehangach i roi trefniadau 'busnes arferol' ei waith ochr yn ochr â threfniadau COVID-19, ac i diwedd strwythur gorchymyn ac ailddechrau cyfarfodydd Pwyllgorau/Grwpiau o fis Mehefin 2020 ymlaen. Mae manylion llawn am y trefniadau newydd a'r sail resymegol wedi'u hamlinellu yn y ddau bapur 'cynnal llywodraethu da' a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar [15.4.20](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/maintaining-good-governance-covid-19-v2-0/) (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/maintaining-good-governance-covid-19-v2-0/) a [14.5.20](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/) (https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/).
- 2.8 Wrth cymeradwyo'r trefniadau fel nodir yn y papurau 'cynnal llywodraethu da', mae'r Bwrdd yn cydnabod, yn y cyfnod digynsail sydd ohoni, fod cyfyngiadau ar Fyrddau a Phwyllgorau o ran cyfarfod yn gorfforol lle nad yw hyn yn angenrheidiol ac y gellir gwireddu hyn mewn ffyrdd eraill. Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r sefydliad gyfarfod yn gyhoeddus. O ganlyniad i'r risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r pandemig, gwnaeth y DU a Llywodraeth Cymru wahardd mwy na dau unigolyn rhag ymgynnull yn gyhoeddus, ac felly, nid yw'n bosibl caniatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y bwrdd a'r pwyllgorau yn bersonol o 26.3.20. Fel rhan o'r ymdrechion er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gwblhau mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosibl yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd y camau gweithredu a ganlyn:
- Defnyddio technoleg i gynnal cyfarfodydd rhithwir;
 - Cyhoeddi agendâu a phapurau ymlaen llaw cyn gynted ag y bo modd - yn ddelfrydol, saith niwrnod cyn y cyfarfod;
 - Defnydd cynyddol o adrodd ar lafar wedi'i gofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd;
 - Darparu cwestiynau ysgrifenedig i gael eu hateb gan Aelodau Annibynnol 24 awr ymlaen llaw er mwyn cynorthwyo llif a llai o amser ar gyfer cyfarfodydd;
 - Yn ogystal â chofnod o weithredoedd sydd ar y gweill, caiff cofnod o weithredoedd sydd yn yr arfaeth ei gadw ac ni chaiff y gwethredoedd hyn eu cwblhau yn ystod yr argyfwng;
 - Cyhoeddi set o gofnodion o'r cyfarfod (fersiwn ddrafft wedi'i chymeradwyo gan y Cadeirydd) i'r wefan gyhoeddus cyn gynted â phosibl - yn ddelfrydol o fewn tri niwrnod gwaith;
 - Cafodd cyfarfod y Bwrdd ar 21.5.20 ei gofnodi ac roedd ar gael i'r cyhoedd ar-lein.

- 2.9 Caiff asesiadau eu gwneud yn ymwneud â phenderfyniadau lle mae amser yn dyngedfennol a lle nad oes modd eu gohirio hyd nes ei bod yn bosibl caniatáu i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd. Yn ogystal, bu'n angenrheidiol gwneud defnydd ehangach o weithredoedd gan y Cadeirydd (wedi'u hategu gan brosesau manylach fel y'i hamlinellir yn y papurau cynnal llywodraethu da) er mwyn osgoi oedi i fusnes hanfodol. Gan fod hyd y pandemig a'r mesurau i'w cymryd yn ddiweddarach eto'n anhysbys, bydd angen parhau i adolygu hyn, ynghyd ag ystyried ffyrdd eraill i wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

3. Gwybodaeth Gefndir

- 3.1 Cafodd y Bwrdd Iechyd ddyraniad adnoddau referniw o £1.6 biliwn ar gyfer 2019/20 a chyfrif pennau o ran y gweithlu o 18,241 ar 31.3.20. Mae rhagor o fanylion wedi'u darparu yn yr Adroddiad ar Dâl.
- 3.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles poblogaeth gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys atal salwch yn ogystal â thin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd ardderchog.
- 3.3 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymunedol ac iechyd meddwl yn ogystal â gwasanaethau ysbytai llym i boblogaeth o ryw 670,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).
- 3.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymunedol.
- 3.5 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 103 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau'r GIG yn cynnwys 16 o bractisau a reolir, a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.
- 3.6 Mae rheolaeth glinigol gwasanaethau yn cael eu darparu gan dri Thîm Ardal, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, ac un Uwch Adran Gofal Eilaidd, sy'n cynnwys tri thîm safle ysbyty, y cyfan yn derbyn cefnogaeth yr adrannau corfforaethol.

4. Mesurau Arbennig

- 4.1 Oherwydd pryderon cynyddol ynghylch llywodraethu'r sefydliad, a hefyd gwasanaethau mamolaeth ac iechyd meddwl, cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi o dan fesurau arbennig ym mis Mehefin 2015. Ers hynny, mae rhaglen waith barhaus i atgyfnerthu dulliau llywodraethu wedi'i rhoi ar waith ar draws y sefydliad cyfan. Yn ystod y cyfnod hwn, mae gwasanaethau mamolaeth a gwasanaeth teulu tu allan i oriau wedi eu ddileu fel pryderon mesurau arbennig. Fodd bynnag, mae pryderon arbennig eraill wedi codi hefyd ac maent wedi cael eu hychwanegu at gynlluniau gwella ac adrodd, gan gynnwys cyllid a pherfformiad. Trwy gydol 2019 ac yn arwain at ddechrau 2020 nes datgan pandemig Covid-19, roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â mesurau arbennig, gan graffu a herio er mwyn gyrru gwelliannau o ran perfformiad a darpariaeth yn eu blaen.

- 4.2 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen (T&F) y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig (SMIF) yn cynghori ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ymateb i ddisgwyliadau yn y SMIF (Cafodd cyfarfodydd grŵp eu gohirio dros dro yn dilyn datgan y pandemig, ond ar adeg ysgrifennu, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i ddychwelyd i fusnes arferol, pan fydd angen asesu effeithiau parhaus yr ymateb i COVID-19 ar feysydd sy'n destun mesurau arbennig). Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cyfarwyddwyr allweddol ac Aelodau Annibynnol, a chaiff ei gadeirio'n bersonol gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd.
- 4.3 Er gwaethaf gwelliannau mewn rhai meysydd pwysig trwy gydol y broses mesurau arbennig, mae heriau sylweddol wedi parhau i godi, yn enwedig yn nhermau arweiniaeth a llywodraethu, cyllid, perfformiad a chynllunio. Derbyniwyd fframwaith gwella mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â datganiad ategol y Gweinidog dyddiedig 14.11.19, gan gydnabod gwelliannau hyd yn hyn a gwaith pellach sydd ei angen.
- 4.4 Cafodd adroddiad trosolwg drafft, yn darparu datganiad sefyllfa ym mis Rhagfyr 2019, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cafodd yr adroddiad ei lunio yn dilyn hunanasesiad a gynhaliwyd gan yr Arweinwyr Gweithredol, wedi'i fesur yn erbyn y disgwyliadau yn Rhan A y fframwaith diwygiedig. Roedd hyn yn cynnwys:
- Maes 1: Galluedd Arwain a Gwella;
 - Maes 2: Gweledigaeth Strategol a Newid;
 - Maes 3: Perfformiad Gweithredol;
 - Maes 4: Cyllid a Defnyddio Adnoddau.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn eitem 20.9.2 [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-23-1-20-v2-0-public-session/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-23-1-20-v2-0-public-session/>).

5. Gwasanaeth Cynghorol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) / Ockenden

- 5.1 Ym mis Mai 2018, gwnaeth y corff annibynnol HASCAS gyhoeddi ei adroddiad thematig yn ymwneud â'r gofal a ddarparwyd ar gyfer cleifion ar ward Tawel Fan yn Uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, cyn iddo gau ym mis Rhagfyr 2013. Yn ogystal, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gomisiynu adroddiad llywodraethu i gael ei gynnal gan Donna Ockenden a derbyniodd y canfyddiadau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2018. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau, cafodd trefniadau llywodraethu eu rhoi ar waith er mwyn goruchwyllo'r broses o roi'r argymhellion a wnaed ar waith.
- 5.2 Mae'r Grŵp Gwella a sefydlwyd ym mis Awst 2018 yn cyfarfod bob yn ddeufis fel arfer (er bod hwn wedi'i ohirio ers datgan pandemig COVID-19). Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys yr arweinwyr gweithredol sy'n cael eu haseinio i bob argymhelliad. O'r 35 o argymhellion sy'n deillio o adroddiadau HASCAS ac Ockenden, mae 19 ohonynt wedi'u cau, ac mae'r gwaith yn parhau i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion sy'n weddill hyd at eu cwblhau. Yn ogystal, cafodd cyfarfodydd un-wrth-un misol eu sefydlu gydag arweinwyr gweithredol er mwyn adolygu cynnydd a'i fonitro ac i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd cymorth er mwyn mynd i'r afael â heriau neu risgiau.
- 5.3 Gwnaeth y Grŵp Rhanddeiliaid gynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2018 ac mae'n cyfarfod bob chwarter er mwyn arolygu ac archwilio'r gweithredoedd a'r gwaith sy'n cael eu gwneud i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion. Mae'r Grŵp wedi derbyn nifer o sylwadau gan arweinwyr gweithredol ar feysydd gwaith penodol yr ymgwymerwyd â nhw i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion. Mae rhanddeiliaid wedi mynd ati'n unigol hefyd i gyfrannu at rywfaint o'r gwaith ar argymhellion y gwnaethant fynegi diddordeb yn ei gefnogi.

- 5.4 Yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o argymhelliadau, rhoddodd Archwilio Mewnol sicrwydd rhesymol ar gynnydd gyda'r argymhellion ac adrodd. Mae cynnydd yn parhau i gael ei fonitro'n rheolaidd ac yn agos trwy Strwythur y Pwyllgor a'r Bwrdd. Caiff adroddiadau eu rhannu gyda'r Pwyllgor QSE o'r Grŵp Gwella, ac yna ymlaen nes cael eu rhannu gyda'r Bwrdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn eitem QS20.23 [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-28-1-20-public-v2-0/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/quality-safety-and-experience-committee/quality-safety-and-experience-committee/agenda-bundle-qse-28-1-20-public-v2-0/>).

6. Sefyllfa Ariannol

- 6.1 Cafodd y cynllun cychwynnol ar gyfer y flwyddyn ei bennu gyda diffyg o £35 miliwn. Gwnaeth y Bwrdd lechyd roi rhaglen adfer ar waith gyda'r nod o yrru perfformiad yn ei flaen tuag at reolaeth lwyr o'r diffyg o £25 miliwn. Ni chyflawnwyd hyn a £38.7 miliwn oedd gorwariant y flwyddyn gan na chafodd yr arbedion ychwanegol a oedd eu hangen i leihau'r diffyg mo'u cyflawni. Roedd gorwariant sylweddol hefyd o ran Cyffuriau Gofal Cychwynnol a Gofal Eilaidd, a gafodd eu gosod yn erbyn tanwariant mewn Gofal Cychwynnol a Chontractau.
- 6.2 Yn ystod 2019/20, gwnaeth y Bwrdd lechyd ddatblygu'r adolygiad cyllid allanol a gynhaliwyd gyda PricewaterhouseCooper (PWC), a ddechreuodd ym mis Mawrth 2019 ac a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru. Fel y'i hargymhellwyd yn yr adolygiad hwnnw, cafodd Cyfarwyddwr Adfer profiadol ei benodi dros dro i gynghori a chefnogi o ran rhaglen adferiad ac effeithlonrwydd ariannol y Bwrdd lechyd. Roedd yr apwyntiad am 9 mis, ac yn seiliedig ar trefniant cytyndebol. Fel rhan o'r cynydd gafael a rheolaeth, cafodd Grŵp Adfer Ariannol ei sefydlu, yn adrodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, i roi sicrwydd ar hynt adferiad i'r Bwrdd.
- 6.3 Yn ystod mis Mawrth 2020, yn yr un modd â sefydliadau eraill yn y GIG, bu'n rhaid i'r Bwrdd lechyd ymateb ar frys i bandemig byd-eang COVID-19 a oedd yn prysur ddod i'r amlwg ac sydd wedi parhau hyd at 2020/21. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar gynlluniau gweithredol ar gyfer y flwyddyn tra bydd y Bwrdd lechyd yn rheoli'r pandemig a thra caiff gwasanaethau clinigol eu hail-ffurfweddu er mwyn caniatáu i gleifion gael eu trin ac i staff weithio'n ddiogel.
- 6.4 Y cynllun ariannol ar gyfer 2020/21 yw cyflwyno diffyg o £40 miliwn ar ôl arbedion yn ymwneud â darpariaeth o £45 miliwn. Nid yw'r cynllun yn ystyried pandemig COVID-19 ac felly, cydnabyddir bod cryn ansicrwydd ynghylch y rhagolwg perfformiad gweithredol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn.

7. Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig (IMTP) - Cynllun Gweithredol Tair Blynedd

- 7.1 Nid oes gan y Bwrdd lechyd IMTP cymeradwy eto, felly nid yw'n cyflawni ei ddyletswydd statudol yn hyn o beth, ond mae wedi datblygu Rhagolwg Tair Blynedd a Chynllun Blyneddol 2019/20 a gafodd ei nodi fel cynllun dros dro gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019.
- 7.2 Mae'r Bwrdd (a'r pwyllgorau perthnasol) wedi derbyn diweddariadau rheolaidd trwy gydol 2019. Ym mis Gorffennaf, cafodd Rhagolwg Tair Blynedd wedi'i ddiweddarau a Chynllun Blyneddol 2019/20 (yn cynnwys ein cynllun ariannol) ei gyflwyno i'r Bwrdd yn amodol ar gefnogaeth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad o ran tanategu proffiliau cynllunio'n ymwneud â Thargedau Cyfeirio at Driniaeth (RTT) yn cynnwys diagnosteg, a Gofal heb ei Drefnu.

- 7.3 Derbyniodd y Bwrdd gynllun wedi'i adnewyddu ym mis Tachwedd a oedd yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r cynllun. Cafodd y risgiau sy'n gysylltiedig â RTT / diagnosteg eu hamlygu gan gynnwys gwaith sy'n parhau i ddiogelu ein cynllun gan weithio'n agos gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.
- 7.4 Mewn perthynas ag asesiadau cyffredinol o gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Blyneddol dros dro, cydnabyddir iddi fod yn flwyddyn heriol iawn yn nhermau cyflwyno'r cynllun a diffygion mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae nifer o gyflawniadau wedi'u gwneud ar draws ystod o wasanaethau yn ystod y flwyddyn.
- 7.5 Fel rhan o Wella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldeb Iechyd, gwnaeth y Bwrdd Iechyd gyflwyno Haen 2 Gwasanaeth Gordewdra (Oedolion) a chyfleoedd cynyddol trwy sefydlogi'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty. Cafodd ymgyrch 'Mi Fedraf' a phartneriaethau 'Beth am symud, Gogledd Cymru' eu datblygu. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau sy'n targedu tlodi bwyd, tai a digartrefedd ac rydym wedi cydweithio i ddatblygu rhwydwaith o raglenni rhagnodi cymdeithasol. Ysbyty Maelor Wrecsam yw'r cyntaf yng Nghymru i gynnig llawdriniaeth gosod clun newydd lle caiff cleifion eu rhyddhau ar yr un diwrnod ac yn cefnogi mwy o ofal yn nes at y cartref.
- 7.6 Mae meddygon dan hyfforddiant wedi graddio Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd fel un o'r lleoedd gorau i hyfforddi yn y DU. Mae canlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ddiweddar yn dangos bod dros 85% o feddygon sy'n cael hyfforddiant yn falch gydag ansawdd goruchwyliaeth glinigol, profiad, a'r addysgu maent yn eu cael yn yr Adran Achosion Brys.
- 7.7 Mae 'Gofal Brys ar yr Un Diwrnod' yn Ysbyty Glan Clwyd wedi dechrau. Mae hyn wedi datblygu fel uned frys ar gyfer triniaethau dydd a fydd yn gweld, trin ac yn rhyddhau cleifion ar yr un diwrnod. Byddai llawer o'r rhain wedi aros yn yr ysbyty am nifer o ddiwrnodau gynt. Mae'r menter hefyd yn lleihau tordyletswydd lle na dderbynnir cleifion i'r ysbyty a derbyniadau ac yn helpu i osgoi tagfeydd yn yr Adran Achosion Brys.
- 7.8 Er mwyn sicrhau bod cyfeiriad clir o ran sut fydd gwasanaethau'n newid ac yn datblygu i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac i alinio â *Cymru Iachach*, bu'n datblygu strategaeth glinigol i'r Bwrdd Iechyd gyda staff, y cyhoedd a sefydliadau partner, ac mae'n rhaid ymdrin â phopeth o les y boblogaeth i ofal iechyd hynod arbenigol i ategu at yr IMTP ar gyfer 2021//24 a thu hwnt.
- 7.9 Rydym yn cynnig cynllun uchelgeisiol i Ogledd Cymru ddod yn esiampl o ran iechyd sydd wedi'i alluogi'n ddigidol. Bydd hyn yn gofyn am waith eang mewn partneriaeth ac ar draws y rhanbarth, rhannu ymagweddau a chyfuno llwybrau. Bydd adeiladu ar lwyfan digidol yn ein galluogi i ganolbwyntio ar ganlyniadau gwella trwy fabwysiadu gofal effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- 7.10 Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Gyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ar 19.3.20 i roi gwybod, er ei bod yn nodi nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflwyno IMTP neu Gynllun Blyneddol 2020.21, y penderfynwyd gohirio proses gynllunio'r IMTP a'r adroddiad blyneddol er mwyn caniatáu canolbwyntio ar weithredu ar unwaith mewn ymateb i COVID-19.

8. Bod yn Barod am Argyfwng

8.1 Mae'r Bwrdd Iechyd dan Gategori 1 fel ymatebydd o fewn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004), ac o ganlyniad, mae'n ofynnol iddo fod â threfniadau penodol yn eu lle. Mae'r canlynol ar waith gan y Bwrdd Iechyd:

- Cynllun Argyfwng Mawr a chynlluniau safle penodol sy'n tanategu neu gynlluniau penodol ar gyfer digwyddiadau sy'n disgrifio ymateb y sefydliad i argyfwng a ddiffinir fel digwyddiad mawr;
- Strwythur llywodraethu sy'n darparu trosolwg a chydlyniant o'n trefniadau parodrwydd argyfwng. Mae'r strwythur hwn yn cysylltu â Fforwm Gwytnwch Gogledd Cymru, sy'n darparu cynllunio cydlynedig a pharodrwydd ar draws pob asiantaeth sy'n gysylltiedig â gweithgaredd diogelu sifil;
- Rhaglen o ymarferion a hyfforddi i gefnogi ein staff sydd â rolau penodol o fewn ein trefniadau argyfwng mawr, darparu gorchmynion a galluoedd rheoli yn unol â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, hyfforddiant pwrpasol sy'n ymwneud ag ymateb meddygol cyn ysbyty, diheintio ysbytai ac ymwybyddiaeth o baratoi ar gyfer achosion brys;
- Polisi Dilyniant Busnes a rhaglen waith mawr yn canolbwyntio ar ddatblygu System Rheoli Dilyniant Busnes ar gyfer gwasanaethau hollbwysig, er mwyn caniatáu adferiad o fewn terfynau goddefol yn dilyn tarfu ar fusnes;
- Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl, sef fforwm mewnol y Bwrdd sy'n cynnig arweinyddiaeth yn ymwneud â bod yn barod am achosion brys ym maes iechyd. Mae cylch busnes wedi'i ddatblygu, sy'n dangos sut mae'r Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl yn rhoi sicrwydd a llywodraethu'n ymwneud â pharodrwydd ym maes iechyd yn ogystal â chydlynu gwytnwch penodol ar gyfer yr economi iechyd;
- Proses sicrwydd sy'n cynnwys archwilio mewnol yn cynnal archwiliadau blynyddol o system rheoli dilyniant busnes a threfniadau Argyfyngau Sifil Posibl wedi'u halinio â Chanllawiau a Fframwaith Bod yn Barod am Achosion Brys, Gwytnwch ac Ymateb;
- Cofrestr Argyfyngau Sifil Posibl ynghyd â chofrestrau risg uwch adrannol unigol sy'n cynnig dull ar gyfer adrodd ar risgiau a'u dwysáu;
- Rhaglen o waith gwytnwch sy'n adeiladu ar drefniadau sydd wedi'u sefydlu am wytnwch sefydliadol ac sy'n sicrhau bod dyletswyddau a osodir ar y Bwrdd Iechyd yn cael eu cyflawni trwy'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) a chanllawiau cysylltiedig nad ydynt yn ymwneud â deddfwriaeth. Cafodd Rheolwr Dilyniant Busnes ei benodi ym mis Tachwedd 2019, yn cefnogi Pennaeth Parodrwydd a Gwytnwch Achosion Brys a benodwyd ar ddiwedd cyfnod adrodd 2018/19.

8.2 Wrth reswm, bydd datgan Covid-19 fel pandemig ac achos brys mawr o ran iechyd y cyhoedd tua diwedd 2019/20 yn profi am ein parodrwydd am achosion brys a bydd, heb os, yn ffynhonnell gyfoethog i ddysgu ohoni. Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Digwyddiadau Mawr yn ei le sy'n ystyried yn llawn ofynion Canllawiau Llywodraeth Cymru i GIG Cymru a'r holl ganllawiau cysylltiedig. Bu angen manteisio ar y Cynllun hwn wrth ymateb i Covid-19. Gweler hefyd rhan 9.3.

9. Gweithio mewn Partneriaeth

- 9.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau yn ystod y flwyddyn ei fod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd, hyrwyddo ymgysylltu â chymunedau ac i wneud yn fawr o gyfleoedd i weithio ar y cyd. Mae'r sefydliadau partner yn cynnwys:
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
 - Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
 - Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam);
 - Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru ac yn Lloegr;
 - Y Trydydd Sector, gan gynnwys Gyngorau Gwirfoddol Cymunedol a gwirfoddolwyr lleol;
 - Y Sector Elusennau, yn cynnwys Tenovus, y Groes Goch a Macmillan;
 - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/Bwrdd Arwain Rhanbarthol;
 - Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru.
- 9.2 Yn ogystal, mae gan y Bwrdd Iechyd gydberthnasau gwaith allweddol â Charchar y Berwyn fel darparwr gwasanaethau gofal iechyd yn y carchar. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb i ddiwallu anghenion iechyd a lles y boblogaeth yng Ngharchar y Berwyn. Wedi'i ymgorffori i gynllun gwasanaeth a pharamedrau gweithredol y mae cysyniad cynnig cynhwysfawr a chwbl integredig, sydd ar gael i bawb, gan seilio mynediad ar angen clinigol. Mae gwasanaethau yng Ngharchar y Berwyn wedi'u ffurfweddu i ategu at ganfod a gwneud diagnosis yn gynnar, lleihad mewn amllder aildroseddu trwy wella iechyd a lles, lle bo gwasanaethau'n adlewyrchu'r rheiny a gynnigir yn y gymuned yn nhermau mynediad a safonau gofal.
- 9.3 Wrth reswm, mae COVID-19 wedi arwain at gydweithio digynsail ag ystod eang o bartneriaid er mwyn mynd i'r afael â heriau fel adeiladu'r tri ysbyty dros dro ar garlam a chynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE). Mae partneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth yr ymateb brys yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, y gwasanaethau milwrol, cartrefi gofal, academia, busnesau ac ystod eang o wirfoddolwyr o'r cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd. Fel rhan o'r ymateb amlasiantaethol, mae'r Bwrdd Iechyd yn aelod o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol ac yn ddiweddarach bu'n gweithio gyda partneriaid strategol i lansio TTP. Bydd maint y cydweithio yn ystod yr ymated i COVID-19 yn helpu yn y broses pontio a chynllunio wrth i ni symyd i'r cam adfer.

10. Swyddogaeth y Bwrdd

- 10.1 Swyddogaeth y Bwrdd yw:
- Ffurio strategaeth ar ran y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan ymateb i anghenion lleol y boblogaeth leol;
 - Sicrhau atebolrwydd trwy alw'r sefydliad i gyfrif am gyflwyno'r strategaeth a thrwy gael sicrhwydd bod y systemau rheoli'n gadarn ac yn ddibynadwy;
 - Llunio diwylliant cadarnhaol o ran y Bwrdd a'r sefydliad;
 - Cynnal safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol;
 - Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol.

- 10.2 Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal sy'n rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Cefnogir y Bwrdd gan Ysgrifennydd y Bwrdd ac sy'n gweithredu fel prif gynghorydd ar bob agwedd o lywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd.
- 10.3 Mae pwrpas, gweledigaeth, nodau strategol amcanion lles a gwerthoedd y Bwrdd Iechyd fel y'i datganwyd i'w gweld isod. Adlewyrchir y rhain o fewn y fframwaith cynllunio ac mae gwaith yn parhau i'w ymgorffori ar draws y sefydliad ar bob lefel:

Ein Pwrpas

- Gwella iechyd a chynnig gofal ardderchog.

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais penodol ar y mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Gwnawn hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal ardderchog a gyflawnir mewn partneriaeth gyda'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel ei fod â'r sgiliau cywir ac yn gweithredu mewn diwylliant o ddysgu wedi'i drwytho mewn ymchwil.

Ein nodau strategol

- Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldeb iechyd;
- Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a chyflawni mwy o ofal yn agosach i'r cartref;
- Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyd fynd â goreuon y GIG;
- Parchu unigolion a chynnal urddas mewn gofal;
- Gwrando a dysgu o brofiadau unigolion;
- Cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff i ragori;
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil.

- 10.4 Gwnaeth ein hamcanion o ran pwrpas, gweledigaeth a nodau amlinellu nodau hirdymor y Bwrdd. Mae gennym waith pellach i'w wneud i droi'r pethau hyn yn amcanion penodol o ran gwella iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd y byddwn yn eu cynnwys yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ein Gwerthoedd

- Rhoi dinasyddion yn gyntaf;
- Gweithio gyda'n gilydd;
- Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd;
- Dysgu ac arloesi;
- Cyfathrebu'n agored ac yn onest.

- 10.5 Bydd ein gwerthoedd yn arwain y ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu ei fusnes a'r ffordd y bydd ein staff yn ymgysylltu â'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r naill a'r llall i gyflawni ein nodau strategol.

11. Cyfansoddiad y Bwrdd

- 11.1 Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, sydd wedi'u hadlewyrchu yn ei Orchmynion Sefydlog.
- 11.2 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob yn ddeufis ac mae'n cynnwys y Cadeirydd, deg Aelod Annibynnol (AA), pedwar Aelod Cysylltiol (daeth y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn Aelod Cysylltiol ym Mehefin 2016), y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn bresennol fel prif ymgynghorydd llywodraethu. Bu swydd wag Aelod Annibynnol ers Rhagfyr 2019.

12. Effeithiolrwydd a Safonau'r Bwrdd

- 12.1 Er mwyn gwella ei effeithiolrwydd a chwrdd â dyheadau o ran didwylledd ac atebolrwydd, mae'r Bwrdd yn anelu at fod yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau mae'n ei wneud a'r ffordd mae'n gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus.
- 12.2 Mae gan holl Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb i gadw at egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Gweithredol gadw at God Ymddygiad y GIG (Rheolau Disgyblu a Safonau Ymddygiad). Mae system electronig gadarn ar waith i ddatgan buddiannau ynghyd â rhoddion a lletygarwch.
- 12.3 Mae gofyn i Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd ac i gwblhau ffurflen bob blwyddyn. Mae'n ofynnol hefyd i Aelodau'r Bwrdd ddatgelu rhoddion a lletygarwch a dderbynnir neu a gynigir, yn unol â chanllawiau penodol. Cofnodir datganiadau ar y rhestr gorfforaethol, sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Ym mis Tachwedd 2016, cafodd Polisi Safonau Cynnal Busnes a system datgan electronig newydd eu cyflwyno ac mae hyn wedi parhau i aeddfedu.
- 12.4 Er budd llywodraethu, craffu a herio da, mae pob Pwyllgor yn y Bwrdd lechyd yn cael eu cadeirio gan Aelod Annibynnol.
- 12.5 Caiff cylch busnes / cynllun gwaith blynyddol y Bwrdd ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, yn ôl yr angen, yn barhaus.
- 12.6 Tra bydd y Bwrdd lechyd yn parhau i fod o dan fesurau arbennig, fel y manylir arno yn adran 33 o'r Datganiad hwn, daeth Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Asesiad Strwythuredig yn 2019 i'r casgliad, er bod dal i fod angen atgyfnerthu rhai agweddau, bod trefniadau llywodraethu'n *'gwella ar y cyfan'*.

13. Datblygiad y Bwrdd

- 13.1 Yn dilyn ymarfer tendro, penodwyd 'Cronfa'r Brenin' i gyflwyno rhaglen bwrpasol i ddatblygu'r bwrdd er mwyn adeiladu ar waith a wnaed eisoes yn y blynyddoedd diwethaf. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi cynnwys cyfres o weithgareddau datblygu i gefnogi Aelodau'r Bwrdd yn unigol a'r Bwrdd cyfan i gyflawni swyddogaethau craidd a phenderfynu effeithiol yn unol ag egwyddorion llywodraethu da. Yn ystod 2019-20, cyflwynwyd saith sesiwn.


- 13.2 Yn ogystal â'r sesiynau a hwyluswyd yn allanol, bu 10 o Weithdai neu Gyfarfodydd Briffio Bwrdd Cyfan a oedd â'r bwriad o gyflwyno hyfforddiant craidd ac i ddiweddarau aelodau ar faterion strategol neu wasanaeth allweddol. Mae sesiynau datblygu'r Bwrdd wedi'u gohirio dros dro ar adeg ysgrifennu hyn oherwydd COVID-19.

14. Trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau

- 14.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Pwyllgor Grŵp Rheoli Busnes (CBMG) i oruchwyllo cyfathrebu effeithiol rhwng ei bwyllgorau. Mae hyn yn osgoi dyblygu a sicrhau bod busnes yn cael ei reoli'n effeithiol ac effeithlon drwy fframwaith llywodraethu, gan gwrdd â gofynion statudol ac ystyried arferion gorau sy'n amlygu.
- 14.2 Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd ar gyfer 2019-20 wedi cadw statws sefydlog, yn cynnwys wyth pwyllgor a dau is-bwyllgor, sef y:
- Pwyllgor Archwilio;
 - Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth;
 - Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl gyda'i Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau Deddf Iechyd Meddwl;
 - Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
 - Pwyllgor Gwybodaeth Ddigidol a Llywodraethu (wedi'i ailennu o'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg);
 - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
 - Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth;
 - Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gyda'i Is-bwyllgor Grŵp Cyngori Cronfeydd Elusennol.
- 14.3 Roedd Grŵp Rhaglen Arbedion yn adrodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn gweithredu am ran o'r flwyddyn tan fis Gorffennaf, er mwyn rheoli ac adrodd ar ddatblygu a chyflwyno Rhaglen Arbedion y Bwrdd Iechyd. Wrth i'r sefydliad geisio symud o weddnewid tuag at drawsnewid, cafodd Cyfarwyddwr Adferiad Dros Dro ei benodi i oruchwyllo rhaglen adferiad ariannol a grwpiau cysylltiedig. Cafodd y gwaith hwn ei ddirwyn i ben ym mis Mawrth 2020; gadawodd y Cyfarwyddwr Adferiad Dros Dro y sefydliad yn ddiweddarach ac mae cydweithwyr yn y Swyddfa Reoli Prosiect Dros Dro (PMO) wedi'u hadleoli i roi cymorth gyda'r ymateb i COVID-19.
- 14.4 Mae'r Grŵp Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch Strategol wedi'i sefydlu yn ystod y flwyddyn ac mae'n adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar gyflwyno'r Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol o dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
- 14.5 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri Grŵp Cyngori fel a ddangosir yn y diagram o'r strwythur yn Ffigur 1 isod i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ystyried sylwadau gan y gymuned y mae'n ei gwasanaethu a rhanddeiliad allweddol eraill. Y tri grŵp yw: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG), Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (HPF) a'r Fforwm Partneriaeth Leol (LPF). Caiff dau o Gadeiryddion y Grŵp Cyngorol eu gwahodd i fynychu'r Bwrdd a Pwyllgorau fel a ganlyn:
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Cadeirydd HPF;
 - Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth - Cadeirydd GCRh;
 - Bwrdd Iechyd - Cadeiryddion HPF ac SRG fel Aelodau Cysylltiol o'r Bwrdd.

- 14.6 Manylir ar aelodaeth Pwyllgorau/Is-bwyllgorau yn Atodiad 1. Manylir ar bresenoldeb aelodau'r Bwrdd Iechyd yng Nghyfarfodydd y Bwrdd yn Atodiad 2. Manylir ar gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn yn Atodiad 3.
- 14.7 Mae Cadeiryddion Pwyllgor yn rhoi adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod pwyllgor, gan amlygu materion o bwys ac unrhyw risgiau allweddol. Mae adroddiadau'r Cadeiryddion hyn yn cael eu cyhoeddi gyda phapurau'r Bwrdd Iechyd.
- 14.8 Mae gofyn i bob Pwyllgor o'r Bwrdd ac i bob Grŵp Cyngorol lunio adroddiad blynyddol sydd fel arfer yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gydag adroddiad sicrwydd cyffredinol yn cael ei baratoi'n ddiweddarach gan y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Bwrdd. Ar gyfer 2019-20, roedd effaith pandemig COVID-19 yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud mai'r unig Bwyllgorau lle'r oedd yn ofynnol iddynt lunio adroddiad blynyddol oedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Pwyllgor Archwilio. Cafodd trefniadau yn ymwneud â phwyllgorau eraill eu diwygio hefyd oherwydd COVID-19, fel y disgrifir mewn adrannau eraill o'r Datganiad hwn ac yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru (gweler adran 2).
- 14.9 Roedd y materion arwyddocaol a ystyriwyd gan y pwyllgorau, ac esiamplau o weithredoedd a gymerwyd yn ystod 2019/20 fel a ganlyn o adran 14.14 ymlaen. Mae'r materion allweddol hyn yn ymddangos fel uchafbwyntiau yn Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau.

Ffigur 1. Strwythur Pwyllgorau a Grwpiau Cynggori'r Bwrdd Iechyd



14.14 Pwyllgor Archwilio

Rôl a phwrpas y Pwyllgor yw cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol p'un a oes trefniadau effeithiol ar waith - trwy gynllunio a gweithredu system sicrwydd y Bwrdd lechyd - er mwyn eu cynorthwyo gyda phenderfyniadau ac o ran gwireddu eu cyfrifoldebau i gyflawni amcanion y Bwrdd lechyd, yn unol â safonau llywodraethu a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru. Lle bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch ymhle, a sut, y gellid atgyfnerthu ei fframwaith sicrwydd a'i ddatblygu ymhellach.

14.15 Mae enghreifftiau o rai o'r prif faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod:

- Mae system TeamMate wedi'i hymgorffori'n llawn erbyn hyn a chaiff holl argymhellion Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru eu rheoli a'u hadrodd trwy'r system erbyn hyn. Mae hyn wedi lleihau gweinyddiaeth ac wedi gwella effeithlonrwydd y broses o adeg derbyn adroddiadau hyd at argymhell eu cau. Er bod rhai problemau wedi codi o ran ansawdd diweddariadau ar gynnydd a sicrhau bod tystiolaeth foddhaol yn cael ei darparu i gyflawni cau'r argymhellion, eid i'r afael â hyn yn drwyadl trwy hyfforddiant a roddwyd gan Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Yn ddiweddarach, nododd y Pwyllgor welliant mewn ansawdd yng nghyfarfod mis Rhagfyr ac mae'n parhau i alw Gweithredwyr i gyfrif trwy ei gwneud yn ofynnol iddynt fynychu cyfarfodydd er mwyn cyflwyno tystiolaeth ar gynnydd o ran materion allweddol, at ddibenion sicrwydd.
- Strategaeth Rheoli Risg (RM): Yn dilyn trafodaeth ym Mhwyllgor Archwilio Rhagfyr 2019, cafodd y strategaeth Rheoli Risg ddiwygiedig ei chymeradwyo trwy Weithred y Cadeirydd. Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, argymhellwyd y dylid gohirio rhoi'r strategaeth rheoli risg ddiwygiedig ar waith tan Bwyllgor Archwilio Mawrth 2020. Yn ddiweddarach, gwnaeth aelodau argymhell i'r Bwrdd y dylai'r Bwrdd ddiddymu cymeradwyaeth a chymeradwyo parhau gyda'r strategaeth rheoli risg bresennol, gyda'r gofrestr rheoli risg pum haen sy'n bodoli eisoes, hyd nes y bydd y Pwyllgor Archwilio yn argymhell i'r Bwrdd y dylid cymeradwyo Strategaeth wedi'i diweddarau. Bydd y Strategaeth bresennol yn parhau i fod ar gael tan fis Medi 2020 - gweler Adran 16 y Datganiad hwn am ragor o fanylion.
- Fframwaith Atebolrwydd, Fframwaith Risg Gorfforaethol a Sicrwydd (CRAF) a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF): Cafodd y BAF ei drafod yn y gweithdy ym mis Mai 2019. Cytunwyd y byddai'r BAF diwygiedig yn cael ei alinio â'r Cynllun Blynnyddol ac yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth. Fodd bynnag, mae'r broses gynllunio wedi'i gohirio dros dro oherwydd COVID-19. Bydd gwaith yn ailddechrau unwaith y bydd busnes arferol yn dechrau o'r newydd. Yn y cyfamser, caiff y trefniadau CRAF eu hymestyn yn unol ag ehangu'r Strategaeth Rheoli Risg.
- Data Deintyddol: Mae Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn wasanaeth gofal cychwynnol allweddol a gomisiynir gan y Bwrdd lechyd ar gyfer ei drigolion. Yn dilyn ymholiad yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Medi 2019 ynghylch hepgor data deintyddol o Adroddiad Cynnydd ar Ddilysu Ôl-daliad, gwnaeth Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Deintyddol Gogledd Cymru a'r Rheolwr Contractau Deintyddol fynd i Bwyllgor Archwilio mis Rhagfyr er mwyn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a'r prosesau sicrwydd a oedd ar waith i Aelodau o ran rheoli contractwyr gwasanaethau deintyddol gofal cychwynnol. Nododd aelodau, er bod arolygu annibynnol gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA), fod arolygu'n gyfyngedig gan BIPBC / yn fewnol o ran y prosesau rheoli risg. Cytunodd aelodau i adroddiadau ar Wasanaethau Deintyddol yn y dyfodol gael eu derbyn bob dwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod sicrwydd ac arolygiaeth gan y Bwrdd yn ddigonol.

- Costau Cronfa Risg Cymru (WRP): Ym mis Rhagfyr, cafodd aelodau wybod am gost ychwanegol a oedd ei hangen i fantoli cyfran y Bwrdd Iechyd o'r cyfraniad ychwanegol at WRP. Amcangyfrifwyd yn y lle cyntaf mai £1.8 miliwn oedd hyn, ond cafodd ei ddiwygio i £733,000.
- Archwilio Clinigol: Gwnaeth aelodau ystyried y Polisi Archwilio Clinigol a'i gymeradwyo. Mae'r Cynllun Archwilio Clinigol a oedd yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r polisi wedi'i ohirio tan fis Medi 2020 er mwyn caniatáu cynnwys unrhyw ddiweddariadau i'r archwiliadau cenedlaethol a/neu archwiliadau dwy haen ychwanegol, fel y cytunir arnynt.
- Fframwaith Sicrhau Deddfwriaeth (LAF): Nododd Aelodau'r Pwyllgor ddatblygiad parhaus y LAF. Cydnabu gwaith a wnaed yn flaenorol rhwng Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru Gyfan a Rhwydwaith Ysgrifenyddion y Bwrdd ei bod yn hanfodol i Fyrddau fod â system effeithiol ar waith lle'r oedd canfod a rheoli risg yn broses feddwl barhaus i'r Bwrdd er mwyn bodloni'r Pwyllgor Archwilio bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Cydnabuwyd mai'r ymagwedd yng Nghymru fyddai cynhyrchu tri chynnyrch ar wahân (gan gydnabod yr angen am amrywio lleol), sef:
 - Dogfen naratif BAF
 - Map y Fframwaith Sicrwydd
 - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
- Mae Rhan B y map sicrwydd yn cynnwys Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaeth (LAF). Mae'n rhaid i gyrff y GIG yng Nghymru weithredu yn unol â'r gyfraith mewn perthynas â phob agwedd ar eu busnes. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu system i gofnodi gwybodaeth am gydymffurfio a sicrwydd ar gofrestr a system reoli canolog. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r LAF ddwywaith y flwyddyn. Mae'r system yn fodd i'r Bwrdd o arolygu rhwymedigaethau/atebolrwydd deddfwriaethol, lefel y sicrwydd, effaith methiant i gydymffurfio a'r mesurau rheoli sydd ar waith ar gyfer pob un.
- Mae adolygiad cychwynnol o ddeddfwriaeth Ystadau a Chyfleusterau wedi'i gynnal gyda Chyfarwyddwr Ystadau ac mae asesiad sylfaenol o sicrwydd wedi'i gwblhau. Darn sylweddol o waith yw hwn yn cynnwys hunanasesu sy'n berthnasol i ryw 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-archwilio/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-archwilio/>).

14.16 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

Diben Pwyllgor Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd yw gwneud trefniadau a'u monitro o ran rheoli a llywio Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd. Awyr Las yw'r elusen ambarél ar gyfer dros 420 o gronfeydd elusennol sydd gyda'i gilydd yn cefnogi pob ward, uned, adran, arbenigedd a phrosiect cymunedol ar draws ardal Gogledd Cymru sy'n cael eu gwasanaethu gan y Bwrdd Iechyd. Mae Awyr Las, yn darparu gwasanaethau ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y mae'r GIG yn ei ariannu. Mae rhoddion gan y cyhoedd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gofal a'r driniaeth y gall y GIG eu darparu.

14.17 Mae enghreifftiau o rai o'r prif faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod:

- Croesawodd y Pwyllgor y gwaith a oedd yn cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau busnes ar gyfer y pedair ymgyrch strategol codi arian sy'n flaenoriaeth; Gofal Canser, Pobl Hŷn, Pobl Iau a Chymorth Iechyd Meddwl. Bydd yr ymgyrchoedd codi arian hyn yn ystyried pob un o'r pum ffordd o weithio fel rhan o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo datblygu achos busnes i sefydlu loteri i staff. Bydd hyn yn rhoi eglurder o ran cronfeydd heb eu dynodi i gynorthwyo prosiectau strategol arloesol, na fyddant, efallai, yn denu cymorth elusennol sylweddol fel arall. Caiff yr achos busnes ei ddatblygu ar y cyd â chynrychiolwyr Undebau Llafur a bydd yn cynnwys mesurau i gyfyngu ar nifer y cynigion gan unigolion, yn unol ag argymhellion ar hapchwarae.
- Cytunodd y Pwyllgor i ddiweddarau Grŵp Cynghorol Cronfeydd Elusennol (CFAG) o dan Gylch Gorchwyl cymeradwy newydd. Cytunwyd i atgyfnerthu aelodaeth y CFAG i sicrhau bod holl uwch adrannau'r Bwrdd Iechyd yn cael eu cynnwys, gan ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y Grŵp, gan felly wella penderfyniadau. Yn ogystal, bydd aelodau'r Bwrdd yn mynd i gyfarfodydd CFAG ar sail patrwm cylch am gyngor, cymorth a gwybodaeth.
- Nodwyd bod Awyr Las wedi derbyn £2.0 miliwn yn ystod 2018/19 a chyfanswm y rhoddion ac incwm codi arian a dderbyniwyd oedd £1,950,000. Derbyniwyd 4,819 o roddion a rhoddwyd grantiau gwerth £1.7 miliwn at ddibenion ymchwil, hyfforddiant, offer a gwella amgylcheddau ysbyty.
- Gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo Polisi Cronfeydd wrth Gefn diwygiedig yr elusen, a oedd yn lleihau lefel darged y cronfeydd wrth gefn i £2,811,000.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-cronfeydd-elusennol/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-cronfeydd-elusennol/>).

14.18 Pwyllgor y Ddeddf Iechyd Meddwl (MHAC)

Diben Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni holl ofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd).

Mae enghreifftiau o rai o'r prif faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod:

- Mynegwyd pryderon ynghylch y pwysau sydd ar ymarferwyr ar draws yr holl safleoedd yn ymwneud â nifer cynyddol o geisiadau am asesiadau Amddifadu o Ryddid. Cydnabuwyd bod cynlluniau ar waith i gynyddu nifer yr Aseswyr Lles Pennaf [BIA], ond mae recriwtio i'r swyddi arbenigol hyn yn her barhaus.
- Ni chyflogir Archwilwyr Meddygol Fforensig (FMEs) yn Heddlu Gogledd Cymru (NWP) yn y dalfeydd mwyach, sy'n rhoi cryn bwysau ar Feddygon Ymgynghorol a staff meddygol eraill o bryd i'w gilydd, oherwydd nifer y ceisiadau am addasrwydd i bledio ac asesiadau eraill. Mae trafodaethau'n parhau gyda NWP a'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD).
- Mynegwyd pryderon ynghylch staff Meddygol a Nyrsio yn meddu ar sgiliau a hyfforddiant priodol i ddelio ag Adrannau 136 i'r rheiny o dan 18 oed mewn unedau oedolion. Mae ymgysylltu rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a Gwasanaethau Oedolion wedi gwella, sydd wedi arwain at leihau'r amser y bydd unigolyn ifanc yn parhau i gael ei asesu.

- Mewn perthynas â CAMHS, cydnabu aelodau'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran rheoli capasiti a galw, oherwydd materion cadw staff. Nododd aelodau fod Uned Gyflenwi Llywodraeth Cymru yn disgwyl dod â'u gwaith Galw a Chapasiti i ben ar ddechrau 2019, a'r gobaith oedd y bydd hyn helpu i fynd i'r afael â heriau o ran cyflwyno'r Mesur Iechyd Meddwl ym maes CAMHS. Mae'r rhesymau dros golli'r targedau'n ymwneud â galw uwch am gyfeiriadau CAMHS a lleihad mewn capasiti oherwydd salwch, cyfnod mamolaeth a swyddi gwag yn effeithio ar gyflawni targedau mewn ffordd gynaliadwy ac yn arwain at ddirywiad mewn perfformiad. Tra'r oedd adborth o'r ymweliad deuddydd gan Lywodraeth Cymru i ystyried Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn dal heb ddod i law, bu pryder ynghylch cyfathrebu mewnol ac allanol.
- Mae CAMHS a Gwasanaethau Plant wedi mynd i'r afael â'r llwybr argyfwng ar gyfer pobl ifanc sy'n gofidio a mynediad at welyau brys y Tu Allan i Orlau, ac mae'r ddau wasanaeth yn gweithio i sicrhau bod anghenion unrhyw unigolyn ifanc y mae angen ei dderbyn i'r ysbyty'n cael eu diwallu yn yr amgylchedd mwyaf priodol.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-deddf-iechyd-meddwl/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-deddf-iechyd-meddwl/>).

14.19 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

Diben y Pwyllgor yw cynghori'r Bwrdd a rhoi sicrwydd iddo o ran cyflawni ei gyfrifoldebau o ran ei sefyllfa ariannol bresennol a disgwyledig ynghyd â pherfformiad a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Gyfalaf y Bwrdd, Gwybodeg a Llywodraethu Gwybodaeth, Cyfathrebu a Rhaglenni Technoleg a materion yn ymwneud â'r Gweithlu.

Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod ar 11 achlysur rhwng 1.4.19 a 31.3.20. Mae enghreifftiau o rai o'r prif eitemau a materion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod:

- Craffu misol o'r Adroddiadau Cyllid, gan arwain at sialens ynglyn ag amrywiadau ee gofal eilaidd a iechyd meddwl.
- Agenda arbedion a sefydliad Grwp Rhaglen Arbedion i wella craffu.
- Craffu argymhellion PWC a cynnydd.
- Monitro a craffu gwaith y Grŵp Adfer Cyllid ac adroddiadau misol y Cyfarwyddwr Adfer.
- Llundio'r cynlllyn cyllid 2019/20 a monitro risgiau cyflawni.
- Ystyried risgiau cyflawni'r rhaglen arbedion, RTT, capasiti orthopedeg, a ddwysáu pryderon ynglyn a risgiau a monitro gwariant gofal iechyd parhaus.
- Craffu misol o'r adroddiad integredig ansawdd a pherfformiad – gyda gofyn am briffiadau penodol ychwanegol I ddatrys pryderon a tangyflawni.
- Asesiad o risgiau gorfforaethol ddysranedig y Pwyllgor, yn dwysáu/cynyddu sgor fel bo'n briodol ee cynaliadwyedd cyllid, ystadau a'r amgylchedd.
- Bu gofyn i'r Prif Weithredwr mynychu pob cyfarfod Cyllid a Pherfformiad gydag effaith o Gorffennaf 2019, a croesawyd arsylwi gan Llywodraeth Cymru a cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru.
- Dirywiad perfformiad gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei gynllunio.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-cyllid-a-pherfformiad/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-cyllid-a-pherfformiad/>).

14.20 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Diben y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni ei swyddogaethau a bodloni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaeth o wasanaethau iechyd.

Derbyniodd y Pwyllgor ystod o eitemau sefydlog a rheolaidd yn unol â'i gylch busnes. Mae'r broses bennu agenda hefyd yn caniatáu hyblygrwydd i ddod â phapurau ad hoc i'r Pwyllgor. Fel arfer, mae'r rhain yn ymwneud â rhoi sicrwydd yn erbyn risg neu fater sy'n bodoli eisoes, sy'n fater Cymru gyfan sy'n gofyn am ystyriaeth leol, neu sicrhau llywodraethu a chraffu o ran mater cyn cyfarfod y Bwrdd Iechyd sydd i ddod. Mae crynodeb o'r adroddiadau hyn yn 2019/20 fel a ganlyn:

- Ymateb cynhwysfawr i'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau mamolaeth Cwm Taf. O'r 70 o argymhellion, cafodd chwech ohonynt eu graddio fel rhai lle'r oedd angen gwella parhaus. Byddai'r camau gweithredu'n cael eu monitro gan y Pwyllgor QSE a byddai'r Bwrdd yn cael eu briffio.
- Diweddariad ar reoli risg o ran trosglwyddo cleifion rhwng y Gwasanaeth Ambiwylans a'r Adrannau Achosion Brys. Roedd mesurau sy'n cael eu cymryd yn cynnwys adolygiad rheolaidd o dagfeydd yng nghoridorau'r Adran Achosion Brys ac oedi wrth drosglwyddo cleifion.
- Gwnaeth yr Adroddiad Rheoli Meddyginiaethau nodi'r prif risgiau sy'n cael eu rheoli gan y gwasanaeth. Cafodd diffyg cymorth fferyllol o ran Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Dwyrain a'r cynlluniau i fynd i'r afael â hyn ei drafod. Bu trafodaeth hefyd ynghylch y goblygiadau i gleifion yn ymwneud â newidiadau'n ddiweddar i wasanaethau ailbresgripsiwn yn y fferyllfa gymunedol.
- Adroddiad arolygu o wasanaethau iechyd Carchar y Berwyn wedi'i gynnal gan Arolygiaeth EM ar gyfer Carchardai ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Bu'r canfyddiadau'n bositif ar y cyfan ond nodwyd mai'r prif faes i'w wella oedd gwasanaethau deintyddol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i lesteirio gan faterion ystadau sydd wedi arwain at anawsterau o ran gallu darparu gwasanaethau deintyddol ychwanegol yn arwain at amseroedd aros hir i garcharorion.
- Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar gyfarfod eithriadol o'r Fforwm Partneriaeth Leol i drafod newidiadau i'r rota nyrsio a bu ymrwymiad i symud ymlaen mewn partneriaeth gyda'r newidiadau.
- Rhoddwyd diweddariad ar fenter ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu rhaglen waith tîm amlddisgyblaethol ar gyfer parafeddygon. Mae hyn yn weithredol ar draws pum ardal glwstwr ac mae'r adroddiadau cychwynnol yn ymwneud â'i effaith yn bositif iawn.
- Derbyniwyd ymateb y Bwrdd Iechyd i adolygiad Thematig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o Wasanaethau Plant, yn darparu manylion am sut bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi dysgu ar waith sy'n deillio o'r canfyddiadau.
- Derbyniwyd cyhoeddiad dilynol yr Adroddiad Rheoli ac Atal Heintiau a gomisiynwyd yn allanol gan Jan Stevens ac amlygodd welliannau sylweddol ar draws y Bwrdd Iechyd fel rhan o waith Gofal Diogel Glân.

- Monitro argymhellion HASCAS / Ockenden gyda sefyllfa ddiwedd blwyddyn bod 19 o'r 35 o argymhellion wedi'u cau, gyda 14 o'r rhai sy'n dal i fod ar agor yn cael eu hasesu fel 'gwyrdd' a 2 yn cael eu hadrodd fel rhai 'ambr'. Gweler adran 5 o'r Datganiad hwn am ragor o wybodaeth.
- Adroddiad diweddar ar wasanaethau dementia a ddangosodd gryn gynnydd o ran gwella cymorth dementia i gleifion ac a fanylodd ar waith y Grŵp Strategaeth Dementia.
- Gwnaeth y Pwyllgor ganolbwyntio ar amseroedd aros sylweddol am wasanaethau therapi seicolegol a chawsant wybod bod adolygiad wedi'i nodi fel darn allweddol o waith fel rhan o'r cynllun blynyddol. Yn dilyn yr adolygiad hwn, byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn goruchwyllo rhoi'r argymhellion ar waith a byddai cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor QSE.
- Derbyniwyd yr Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn ffurfiol a byddai'r Pwyllgor yn derbyn cynllun gweithredu yn y cyfarfod nesaf er mwyn monitro cynnydd.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-ansawdd-diogelwch-a-phrofiadau/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-ansawdd-diogelwch-a-phrofiadau/>).

14.21 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth

Diben y Pwyllgor yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran datblygu strategaethau'r Bwrdd Iechyd a chynlluniau i gyflwyno gwasanaethau sydd o ansawdd uchel ac sy'n ddiogel, yn gyson â chyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd ac unrhyw ofynion a safonau a bennir ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn gwneud hyn trwy sicrhau bod cydweithio strategol a threfniadau partneriaeth effeithiol ar waith i wella iechyd y boblogaeth ac i leihau anghydraddoldeb iechyd.

Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod chwe gwaith, yn ogystal â chynnal tri gweithdy, rhwng 1.4.19 a 31.3.20. Mae enghreifftiau o rai o'r prif faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod:

- Monitro cynnydd o ran y cynllun gweithredu a'r rhagolwg tair blynedd
- Adolygu risgiau cofrestr gorfforaethol ddryanedig y Pwyllgor.
- Diweddariadau Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Datblygu strategaeth ee Ymchwil ac Arloesi Integredig, Trydydd Sector a strategaeth glinicaol a alluogir yn ddigidol.
- Cynnydd ar brosiectau gwasanaethau – yng ngwasanaethau Iechyd Meddwl, nodir risg i cynaliadwyedd gwelliannau wedi i'r brosiect orffen, felly comisiynwyd gwerthuso'r prosiect er mwyn liniaru.
- Argyfyngau sifil Posibl a dilyniant busnes.
- Ymgysylltu â staff a'r cyhoedd.
- Diweddariad adolygiad tair blynedd statws prifysgol y Bwrdd Iechyd.
- Ymadawiad yr UE – penderfynwyd adolygu'r sefyllfa ymhob cyfarfod oherwydd y sefyllfa gwleidyddol.
- Iechyd Cyhoeddus ee pwysau iach, rhoi'r gorau i ysmegu, a profiadau niweidiol yn ystod plentynod.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfod y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-strategaeth-partneriaethau-ac-iechyd-y-boblogaeth/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-strategaeth-partneriaethau-ac-iechyd-y-boblogaeth/>).

14.22 Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth (R&TS)

Diben y Pwyllgor yw rhoi:

- Cyngor i'r Bwrdd ar dâl a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch aelodau o staff eraill o fewn y fframwaith a bennir gan Lywodraeth Cymru;
- Sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd Iechyd o ran tâl a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau contract, i'r holl staff, yn unol â'r gofynion a'r safonau a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru; a
- Chyflawni rhai swyddogaethau penodol fel y cânt eu dirprwyo gan y Bwrdd ac fel y'i rhestrir yn y cylch gorchwyl.

Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith (gan gynnwys dau gyfarfod eithriadol) rhwng 1.4.19 a 31.3.20, a bu cworwm bob tro. Mae enghreifftiau o rai o'r prif eitemau a materion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn y mae'r Pwyllgor wedi mynd i'r afael â nhw wedi'u hamlinellu isod.

Wedi'u trafod yn gyhoeddus:

- Gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo proses gymeradwyo ddiwygiedig ar gyfer Polisiâu Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
- Adborth y Pwyllgor Archwilio ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, a arweiniodd at ddiwygio cylch gorchwyl Tâl a Thelerau Gwasanaeth, a gymeradwywyd eisoes gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019 (cyfeiriadau at bartneriaid undebau llafur yn rhinwedd eu swydd ac ychwanegu cyfrifoldeb o ran arolygu ailddilysu).
- Gwnaeth y Pwyllgor drafod yr angen i oruchwyllo'r broses o bennu amcanion ac arfarnu perfformiad rheolwyr sydd ar lefel uchel iawn. Cytunwyd i ddiwygio'r ail bwynt bwled a'r trydydd yn adran 3.1.1 o'r cylch gorchwyl, i ddarllen *'goruchwyllo'r amcanion a bennir gan y Prif Weithredwr ar gyfer ei dîm agosaf, cadarnhau bod amcanion wedi'u pennu ar gyfer yr holl Gyfarwyddwyr, a bod adolygiadau priodol a phrydlon o berfformiad wedi'u cynnal'*.
- Strwythur uwch reoli - gofal llym.
- Adroddiad Cofrestru Proffesiynol 2018/19 y Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd (HCPC) a Chyngor Fferyllol Cyffredinol Cymru (GPhC).
- Diweddariad Ailddilysu 2019 y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC).
- Corff Adolygu ar Adroddiad Tâl Meddygon a Deintyddion.
- Cynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW) - cytunwyd ar welliannau i'r broses reoli bresennol.
- Codiad cyflog i feddygon teulu a gyflogir fel arweinwyr clinigol mewn practisau a reolir gan y Bwrdd Iechyd i fod yn gyson â chydweithwyr meddygon ymgynghorol.

Wedi'i drafod yn breifat oherwydd cynnwys sy'n golygu bod modd adnabod unigolion:

- Achosion Cynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru - cyfyngiadau neu waharddiadau sy'n para mwy na chwe mis.
- Adroddiad ar hynt diogelu cyflog; portffolios gweithredol a thefniadau dros dro; cyfraddau cyflog cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Asesu a Brysbennu Integredig Unigol.
- Tâl lefel weithredol.
- Ail-alinio swyddogaethau corfforaethol penodol.
- Telerau ac amodau cyflogaeth staff.
- Manylion am achwyn ar y cyd.
- Newidiadau i Weithredwyr a Chyfarwyddwyr, tâl a thelerau ac amodau.
- Amcanion ac asesiadau perfformiad y tîm gweithredol.
- Disgrifiadau swydd rolau uwch.
- Cynnig secondiad.
- Trefniadau cyflog a thâl ar gyfer grŵp staff clinigol.
- Cynllun Cadw a Dirprwyo - esbonio cyfrifoldebau uwch aelodau o staff.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-tal-a-thelerau-gwasanaeth/)
(<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-tal-a-thelerau-gwasanaeth/>)

14.23 Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth

Pwrpas y Pwyllgor (y Pwyllgor Llywodraethu a Gwybodeg gynt ac a ail-enwyd yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019 yn unol â chylch gorchwyl wedi'i adnewyddu) yw cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a chywirdeb; diogelwch a diogeledd a mynediad a defnydd priodol o wybodaeth i gynorthwyo gwella iechyd a darparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod y cyfnod adrodd.

Gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod ar 4 achlysur rhwng 1.4.19 a 31.3.20. Cafodd yr eitemau busnes allweddol canlynol eu trafod:

- Cynllun Gweithredol Digidol - diweddariad chwarterol yn cynnwys diweddariad ar yr Ymchwilad Cenedlaethol i Waed sydd wedi'i Heintio.
- Adroddiad diweddarau NWIS.
- Llywodraethu Gwybodaeth - adroddiad sicrwydd chwarterol (KPI, Gwersi a ddysgwyd ac adroddiad cydymffurfiaeth).
- Adolygiadau Strategaeth.
- Gwybodeg - Cynllunio Gweithredol.
- Adolygiadau Blynyddol o Lywodraethu Gwybodaeth ac Adroddiadau Caldicott.
- Adroddiad monitro Perfformiad Ansawdd Integredig - dimensiynau perthnasol.
- Cymeradwyo Cylch Gwaith y Pwyllgor.
- Cymeradwyo'r Cylch Busnes.
- Cytuno ar risgiau corfforaethol a aseirir i'r Pwyllgor a'u hadolygu.

- Cefnogi adroddiadau blynyddol 2018/2019.
- Adolygu perfformiad yn erbyn Cynllun Cymeradwy'r Bwrdd 2019/20.
- Polisiâu – cymeradwyo cydymffurfiaeth genedlaethol a lleol â pholisi cenedlaethol a datblygu polisi sefydliadol).
- Diweddariadau'r Grŵp Gwella.
- Nyrsio digidol.
- Strategaeth Ddigidol.
- Polisi Rheoli Newid.
- Codau Clinigol WAO.
- Dyrannu'r Gronfa Drawsnewid a chynllunio ar gyfer cyfleoedd y Gronfa Drawsnewid yn y dyfodol.
- Adroddiad Archwilio Diogelu Data Dilydol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Materion wedi'u trafod yn breifat gan gynnwys Ceisiadau'r Heddlu am Ddatganiadau Meddygol.

Mae cofnodion a phapurau o gyfarfodydd y Pwyllgor ar gael [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/digital-and-information-governance-committee/).

(<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/committees-and-advisory-groups/digital-and-information-governance-committee/>).

14.24 Grwpiau Cynghorol

- 14.24.1 Gweler manylion yr itemau busnes a ystyrir gan Grwpiau Cynghorol y Bwrdd isod. Mae Cadeirydd pob grŵp yn darparu Adroddiad Sicrwydd i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod i amlygu materion arwyddocaol neu gyngor.

14.24.2 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Rôl y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yw cynnig:

- Ymgysylltu a chynnwys parhaus o ran penderfynu cyfeiriad strategol cyffredinol y Bwrdd lechyd;
- Rhoi cyngor ar gynigion penodol ynghylch gwasanaethau cyn ymgynghoriad ffurfiol; yn ogystal ag
- Ymateb i'r effaith a gaiff gweithrediadau'r Bwrdd lechyd ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Gwnaeth y SRG gyfarfod ar bedwar achlysur rhwng 1.4.19 a 31.3.20. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Grŵp ddelio â'r eitemau busnes allweddol a ganlyn:

- Diweddariad ar Gynllunio Corfforaethol, yn ymgorffori'r Strategaeth Ystadau.
- Diweddariad ar Strategaeth y Gweithlu.
- Lleihau dibyniaeth ar staff dros dro.
- Diweddariad ar y Strategaeth Ymgysylltu.
- Diweddariad ar Strategaeth y Trydydd Sector.
- Y Diweddaraf ar Strategaeth Gwasanaethau.
- Gwasanaethau Strôc.

- Gwasanaethau Orthopaedig.
- Gwasanaethau Gofal Llygaid.
- Diweddariad ar Iechyd Meddwl.
- Strategaeth Gwasanaethau Clinigol.
- Datblygu Cynllun Strategol Cydraddoldeb.
- Diweddariad ar Strategaeth y Trydydd Sector.
- Diweddariad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Diweddariad ar Ofal Cychwynnol.
- Achos Busnes Orthopaedig - Ymgynghori ac Ymgysylltu.
- Diweddariad Cynllunio - Cynllun Blynnyddol a Strategaeth Glinigol wedi'i Galluogi'n Ddigidol.
- Diweddariad ar Raglen Gogledd Cymru Iach.
- Diweddariad ar Gynllunio.
- Achos Busnes Offthalmoleg.
- Achos Busnes Gwasanaethau Wroleg.

Mae manylion y materion a gafodd eu hystyried a'u trafod gan y Grŵp wedi'u nodi yn y cofnodion ac maent ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/>).

14.24.3 Fforwm Partneriaeth Leol

Pwrpas Fforwm Partneriaeth Leol (LPF) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw:

- Ystyried datblygiadau cenedlaethol yng ngweithlu a strategaeth sefydliadol GIG Cymru a'u goblygiadau ar gyfer y Bwrdd;
- Trafod materion yn amodol ar benderfyniadau lleol;
- Sicrhau bod cynrychiolwyr staff sefydliadau'n cymryd amser i ffwrdd a hwyluso cytundeb, cynnig amser rhesymol i ffwrdd am dâl i gyflawni eu dyletwyddau a'u bod yn cael cyfleusterau priodol gan ddefnyddio cytundeb cyfleusterau'r Agenda ar gyfer Newid fel safon ofynnol;
- Sefydlu trafodaeth reolaidd a ffurfiol rhwng gweithredwyr y Bwrdd ac undebau llafur ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a materion gwasanaeth;
- Yn ogystal, gall y LPF sefydlu is-grwpiau'r Fforwm Partneriaeth Leol i gynnig trafod, cyfathrebu ac ymgynghori parhaus ar faterion gwasanaeth a rheoli gweithredol. Lle bo'r is-grwpiau hyn yn cael eu datblygu, mae'n rhaid iddynt adrodd wrth y LPF yn unol â'r cylch busnes.

Rhwng 1.4.19 a 31.3.20, gwnaeth y LPF gyfarfod ar bum achlysur yn cynnwys 1 cyfarfod eithriadol. Ymhlith yr eitemau busnes allweddol a ystyriwyd oedd:

- Cynllunio Corfforaethol, yn cynnwys Cynllun Gweithredu Blynnyddol.
- Cyllid.
- Atal a Rheoli Heintiau.
- Gwerthuso Swyddi.

- Mesurau Arbennig.
- Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.
- Datganiad Ansawdd Blynyddol 2018/2019.
- Fframwaith Sicrwydd Risg Gorfforaethol.
- Cylch Busnes.
- Gwella Iechyd a Diogelwch.
- Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad.
- Deddf Staff Nyrsys.
- Polisi Newid Sefydliadol.
- Iechyd a Lles Staff.
- Rhaglen Brechu Rhag y Ffliw i Staff.
- Arolwg Staff.
- Safonau'r Gymraeg.
- Ymgysylltu â'r Gweithlu.
- Materion Gweithlu yn yr IQPR.
- Adroddiad ar Fetrigau'r Gweithlu.
- Grŵp Partneriaethau'r Gweithlu.
- Gweithgor Polisiâu a Gweithdrefnau'r Gweithlu.
- Adroddiad Gweithlu.
- Ystadau a Chyfleusterau - Adolygiad o Gyflog Wythnosol a Misol Staff.
- Ad-dalu Costau Teithio.
- Uned Ddysgu Undebau Cymru - Cynnig i sefydlu grŵp llywio.
- Materion Gweithlu yn yr Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad (IQPR).
- Grŵp Gweithlu Gweithio'n Hirach ac Adolygu Absenoldeb Salwch.
- Adroddiad Blynyddol LPF 2018/19 a Chylch Busnes 2019/2020.
- Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad.
- Adroddiad Archwiliad Blynyddol.
- Cofnodion Fforwm Partneriaethau Cymru.
- Cofnodion Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol.

Mae manylion y materion a gafodd eu hystyried a'u trafod gan y Fforwm wedi'u nodi yn y cofnodion ac maent ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/>).

14.24.4 Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

Pwrpas y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yw hwyluso ymgysylltiad a thrafodaeth ymhlith ystod eang o ddiddordebau clinigol ym maes gweithgarwch y Bwrdd Iechyd, gyda'r nod o sicrhau a chyflwyno persbectif proffesiynol cydlynol a chytbwys yn sail i benderfyniadau'r Bwrdd Iechyd.

Rhwng 1.4.19 a 31.3.20, gwnaeth y Fforwm gyfarfod ar dri achlysur. Ymhlith yr eitemau busnes allweddol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Cynllunio Corfforaethol - yn cynnwys diweddariadau ar gynllun AOP/IMTP/tair blynedd.
- Perfformiad.
- Datganiad Ansawdd Blynyddol.
- Iechyd y Cyhoedd.
- Hwb Ansawdd a Gwella (QI).
- Diweddariad Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.
- Trafodaeth flynyddol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol.
- Aelodaeth.
- Diweddariadau ysgrifenedig cadeiryddion.
- Diweddariadau ysgrifenedig aelodau.
- Adolygu cofnodion a gweithredoedd.
- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor.
- Adolygu ac adnewyddu cylch gorchwyl HPF.
- Cofnodion Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.
- Cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Cynghorol Proffesiynol.
- Diweddariadau Briffio Timau.

Mae manylion y materion a gafodd eu hystyried a'u trafod gan y Fforwm wedi'u nodi yn y cofnodion ac maent ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghori/pwyllgorau-a-grwpiau-cynghorir-bwrdd-iechyd1/>).

14.24.5 Pwyllgorau Cenedlaethol

- 14.24.6 Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn ac ystyried crynodebau, copïau o gofnodion neu adroddiadau'n rheolaidd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlas Brys (EASC) a Phwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP). Gellir gweld y rhain trwy bapurau'r Bwrdd Iechyd [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodau-bwrdd/cyfarfodydd-y-bwrdd-iechyd/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodau-bwrdd/cyfarfodydd-y-bwrdd-iechyd/>).

15. **Pwrrpas y System Rheoli Mewnol**

- 15.1 Mae'r system rheoli mewnol wedi'i chynllunio i reoli risg at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly nid yw ond yn gallu cynnig sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

- 15.2 Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau strategol ac amcanion corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'r trefniadau sydd ar waith i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Roedd y system rheoli mewnol cyn COVID-19 fel y'i disgrifiwyd yn y Ddatganiad hwn ar waith i'r flwyddyn i ben 31.3.20, fodd bynnag bu'r strwythur gorchymyn y pandemig yn dechrau cynllunio trefniadau llywodraethu diwygiedig o 12.3.20.
- 15.3 Ers Ebrill 2020, bu blaenoriaethu'r ymateb pandemig yn golygu ei fod yn angenrheidiol i gymeradwyo amrywiadau dros dro i systemau arferol. Bu diwygiadau i trefniadau llywodraethu fel sefyll i lawr pwyllgorau yn Ebrill a Mai, ac ymadawiadau o Rheolau Sefydlog cael eu gymeradwyo gan y Bwrdd ar [15.4.20](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/maintaining-good-governance-covid-19-v2-0/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/maintaining-good-governance-covid-19-v2-0/>) a [14.5.20](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-14-5-20-public-v3-0/>), a cyhoeddwyd dull rheoli risg dros dro ar 22.4.20 (gweler Atodiad 5). Mae'r system rheoli mewnol yn cynnwys yr elfennau diwygiedig hyn wedi bod ar wait hers 15.4.20, a gyda rhai diwygiadau ychwanegol o 14.5.20 i 21.6.20. Bu'r strwythur gorchymyn COVID-19 yn cael ei sefyll i lawr o 22.6.20, a cafodd trefniadau busnes fel arfer ei ail-sefydlu, felly'n dychwelyd i'r system rheoli mewnol cyn COVID-19 o'r dyddiad yna at dyddiad cymeradwyo'r cyfrifon.
- 15.4 Mae'r system rheoli mewnol wedi cael ei haddasu'n sylweddol yn dilyn datgan pandemig COVID-19, fel y'i disgrifir yn adrannau amrywiol o'r Datganiad hwn. Mae'r newidiadau hyn wedi parhau ac maent yn debygol o esblygu fel bo'n briodol trwy gydol 2020/21/

16. Y gallu i Ymdrin â Risg

- 16.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd broffil risg heriol oherwydd amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir, yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymunedol i wardiau llym, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth iechyd carchardai. Yn ogystal â hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd ehangder daearyddol mawr, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth arwyddocaol o wasanaethau o Loegr. Hefyd, mae'n gallu ymdrin â brig mewn galw oherwydd bod gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau o ddewis i lawer iawn.
- 16.2 Cyfrifoldeb arweiniol dros risg a sicrwydd sy'n cael eu trosglwyddo i'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2019, gyda rôl Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Bwrdd yn cael ei dirprwyo erbyn hyn i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.
- 16.3 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur yn ei le i nodi, asesu a rheoli ei risgiau. Yn ystod 2019, cymeradwywyd y Strategeth Rheoli Risg presennol gan y Bwrdd i'w gael ei ddefnyddio tan diwedd Medi 2020 tra bo'r tîm rheoli risg gorfforaethol yn canolbwyntio ar ddiwygio'r Strategaeth a'r brosesau, yn seiliedig ar adborth gan gweithdai'r Fwrdd, adolygiad arbenigol ag o canfyddiadau archwiliadau mewnol. Mae'r strategaeth presennol [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance1/corporate-risk-register/rm01-risk-management-final-v4-2-march-2020/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance1/corporate-risk-register/rm01-risk-management-final-v4-2-march-2020/>).

- 16.4 Mae adolygiad llawn o holl risgiau wedi parhau trwy'r flwyddyn, gan gynnwys sicrhau bod y risgiau yn berthnasol ag yn briodol yn ol ddeddfwriaeth a safonau presennol, bod rheolaethau lliniaru yn briodol a bod y risgiau sydd wedi eu lliniaru a sydd yn cyflawni'r sgor risg targed wedi'u cymeradwyo i'w chau yn briodol. Mae hyn i gyd yn unol a fformat diwygiedig disgwylidig y strategaeth. Mae hyfforddiant Rheoli Risg hefyd wedi parhau ar draws y Bwrdd Iechyd. Prif nod y tim rheoli risg ydy i barhau i ddarparu gwasanaeth cymwys i'r Bwrdd Iechyd er mwyn datblygu systemau effeithiol a threfniadau i helpu ymgorffori'r dull rheoli risg ar pob lefel.
- 16.5 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn parhau i gael ei adolygu a'i diweddarau yn flynyddol ac ar ol neidiadau i bortffolios gweithredol yn ystod 2019, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymchwilio ymhellach ei ddull rheoli risg, wedi trafod yn fanwl ei archwaeth risg, gosod amcanion mewn cyd-destun cynllun tair blynedd, calibradu risgiau a chyfleoedd i wella dulliau adrodd. Mae hyn i gyd yn unol gyda'r symudiad disgwylidig i mabwysiadu model newydd rheoli risg Enterprise i wella perchnogaeth ac i ymgorffori rheoli risg fel rhan o brosesau penderfyniadau fel rhan o diweddariadau'r Strategaeth Rheoli Risg.
- 16.6 Yn Ebrill 2019, cynhaliwyd y Bwrdd Iechyd cyfarfod cyntaf y Grwp Rheoli Risg newydd, yn adrodd i'r Tim Gweithredol, yn cael ei cadeirio gan y Prif Weithredwr yn wreiddion ac wedyn y Dirprwy Prif Weithredwr o Mehefin 2019. Sefydlwyd y grwp er mwyn oruchwyllo Strategaeth Rheoli Risg yn cael ei rhoi ar waith, i yrru cysondeb a cyd-gysylltiad welliannau mewn arferion rheoli risg ac i geision cael sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau a prosesau rheoli risg. Mae'r Grwp hefyd yn ceisio cael sicrwydd gan y Grwp Iechyd a Diogelwch a'r Grwp Ansawdd a Diogelwch, i sicrhau tystiolaeth dysgu o brofiad cleifion a staff.
- 16.7 Bu gweithdrefnau rheoli risg, canllawiau a'r cynllyn hyfforddiant yn parhau i gael ei weithredu ar draws y Bwrdd i gefnogi ymgorfforiad rheoli risg gyda pob adran yn mabwysiadu'r model safonol rheoli risg a cynllun dwysau. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan arbenigwyr annibynnol i sicrhau arfer gorau, ac ar lefel Bwrdd gyda rhaglen o waith yn ystod 2019 a thu hwnt.
- 16.8 Er bod y Strategaeth Rheoli Risg yn amlinellu'r trefniadau rheoli ar bob lefel risg a allai gael effaith ar y sefydliad ac felly a allai fod angen eu monitro a'u dwysáu / neu dad-ddwysáu lle bo'n briodol, cafodd Arweiniad Ymateb symlach i COVID-19 ar Reoli Risg a'i gymeradwyo a'i roi ar waith (Atodiad 5). Roedd hyn yn cynnwys y gofynion o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (fel y'i diwygiwyd) (CCA) ac arweiniad Arfer Da ar gyfer ymatebwyr Categori 1 yn unigol ac fel rhan o'r "Gymuned" Gwytnwch Lleol. Gwnaeth hyn effeithio, nid yn unig ar yr angen i reoli risg mewn ffordd ddeinamig, ond hefyd ar "archwaeth risg", sy'n bwysig a'r ddyletswydd o dan y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).
- 16.9 Darperir canllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod yr holl risgiau priodol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cael eu cofnodi a'u hadrodd trwy Fframwaith Gorchymyn a Chydlynw. Cafodd dwy risg COVID-19 eu dwysáu i'r Gofrestr Risk Gorfforaethol:
- CRR27 – risg i iechyd a diogelwch y cyhoedd yn deillio o achos o COVID-19 a galw sy'n fwy na chapasiti'r sefydliad.
 - CRR28 – Risg o heintio oherwydd COVID-19 i staff a chleifion o ganlyniad i gyflenwad, ansawdd neu ddefnydd annigonol o PPE.

Cafodd Risg CRR28 ei hargymell yn ddiweddarach am risg lai a'i dad-ddwysáu, a chafodd risg yn ymwneud ag oedi o ran mynediad at leoliadau gofal iechyd oherwydd yr angen i amddiffyn cymunedau sy'n agored i niwed rhag y firws, ei hargymell i gael ei dwysáu i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

- 16.10 Fel y nodwyd eisoes, cyflwynodd yr angen i gynllunio ag ymated i pandemig COVID-19 nifer o heriau i'r sefydliad. Er bod gan y sefydliad cynllun digwyddiad mawr a parhad busnes, fel sy'n ofynnol yn ol Deddf Argyfyngau Sifil 2004, roedd maint ac effaith y pandemig yn digynsail. Cymerwyd camau sylweddol are level cenedlaethol a lleol i baratoi ac ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn wedi cynnwys gweithion mewn bartneriaeth ar ymated amlasiantaethol fel aelod allweddol o'r Grwp Cydgysylltu Strategol. Mae lefel o ansicrwydd ynglyn a'r effaith gyffredinol ar darparu gwasanaethau tymor byr a tymor hir, er rwyf yn hyderus bod pob cam priodol yn cael eu cymryd.
- 16.11 Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gyda ystod eang o bartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru fel iddynt parhau gyda'u hymateb, a cynllunio wrth symud i'r cam adfer. Bu'n angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn seiliedig ar trefniadau rheoli risg cadarn a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a photensial i gael effaith ar gallu'r sefydliad i gyflawni amcanion strategol.

17. Y Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol

- 17.1 Mae'r Bwrdd wedi parhau gyda'i ymagwedd flaenorol tuag at reoli risg gan fabwysiadu'r fframwaith pum haen, ac mae manylion am honno wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Risg. Mae arweiniad, gweithdrefnau a hyfforddiant wedi'u diwygio trwy gydol y flwyddyn.
- 17.2 Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr Gweithredol sicrhau bod risg yn cael ei rheoli yn eu maes cyfrifoldeb penodol ac mae hyn yn eglur iawn o fewn y Strategaeth Rheoli Risg. Yn ogystal â hyn, caiff yr holl staff eu hannog a'u grymuso i ddefnyddio prosesau rheoli risg fel dull i dynnu sylw at feysydd y gallai fod angen eu gwella, yn eu tyb nhw. Os bydd staff yn teimlo y gallai tynnu sylw at beryglon eu rhoi mewn perygl neu na fyddai'n effeithiol, cânt eu hannog i ddilyn arweiniad ar chwythu'r chwiban a thynnu sylw at bryderon.
- 17.3 Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddefnyddio ymagwedd integredig y Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol (CRAF) sy'n cyfuno dogfen flaenorol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- 17.4 Yn ystod 2019, gwnaeth y Bwrdd barhau i adolygu'r CRAF yn y fformat hwn. Mae pob risg ar y CRAF wedi'u mirienio ymhellach erbyn hyn a chânt eu cyflwyno i'r Bwrdd fel risg ar y dudalen. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth weledol yn dylunio symudiad y sgoriau risg dros gyfnod diffiniedig, yn ogystal â threfniadau perthnasol o ran adrodd ar sicrwydd a chysylltiadau â'r Fframwaith Mesurau Arbennig.

- 17.5 Trwy gydol y cyfnod hwn, mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddatblygu a mireinio'r CRAF ac i lunio map sicrwydd yn seiliedig ar ymagwedd Cymru Gyfan. Cydnabu'r Bwrdd y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth gael system effeithiol ar waith lle bo canfod a rheoli risg yn broses feddyliol barhaus er mwyn bodloni'r Pwyllgor Archwilio bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cytuno'n flaenorol y dylai fod tri chynnych gwahanol (gan gydnabod y byddai amrywio lleol), sef:
- Dogfen naratif BAF;
 - Map y Fframwaith Sicrwydd;
 - Y Gofrestr Risg Gorfforaethol (gan ddefnyddio'r risg bresennol ar dampled tudalen).
- 17.6 Roedd map y Fframwaith Sicrwydd wedi'i lunio'n flaenorol yn dilyn cyfraniad Arweinwyr gan alinio'r prif ddeilliannau i'r amcanion a oedd yn deillio o gynllun tair blynedd y Bwrdd lechyd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith pellach i ddatblygu fframwaith risg a sicrwydd y sefydliad. Cafodd Gweithdy o'r Bwrdd ar Reoli Risg ei gynnal ym mis Gorffennaf. Cafodd y sesiwn hon ei hwyluso'n allanol. Ym mis Medi 2019, cafodd y Portffolio Rheoli Risg ei drosglwyddo o Bortffolio Ysgrifennydd y Bwrdd i'r Diprwy Brif Weithredwr. Ym mis Tachwedd 2019, nododd y Bwrdd fod y sefydliad yn symud tuag at Fodel Rheoli Risg Menter (ERM) er mwyn rheoli risg yn well a fyddai'n cael ei hategu gan strwythur llywodraethu clir trwy Bwyllgorau. Cydnabuwyd y byddai heriau er mwyn sefydlu systemau ac o ganlyniad, gwnaeth y Bwrdd gymeradwyo ymestyn y Strategaeth Rheoli Risg bresennol tan fis Medi 2020.
- 17.7 Yn dilyn y prosiect gwreiddiol i ganoli system rhestru a rheoli i Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol y Bwrdd lechyd, bu gwaith yn parhau i asesu lefel cydymffurfiaeth ynghyd â'r tebygolrwydd a'r effaith fyddai'n deillio o ddiffyg cydymffurfio, yn cynnwys adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio. Roedd aelodau yn gefnogol o'r datblygiad a'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud.
- 17.8 Y bwriad ar gyfer y Strategaeth ddiwygiedig oedd symud o fodel rheoli risg pum haen i dri haen. Er mwyn cryfhau trefniadau rheoli risg ymhellach, cafodd Grŵp Risg dan arweiniad Gweithredwyr ei sefydlu yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad i COVID-19, gwnaeth y Bwrdd symud at Strwythur Gorchymyn a Rheoli yn ystod mis Mawrth 2020. Cafodd y strwythur ei gefnogi gan nifer o ffrydiau gwaith a chafodd Uwch Swyddog Cyfrifol ei aseinio i bob un. Yn y lle cyntaf, cafodd ymagwedd rheoli rhaglen ei mabwysiadu gyda phob ffrwd waith a strwythur gorchymyn yn cynnal cofrestr risg ddeinamig. Mae'r broses hon wedi'i mireinio ers hynny gyda chyfnod o newid i Datix o ran rheoli risgiau a lle bo'r Ffrwd Waith Risg a Llywodraethu'n adolygu'r holl risgiau ac yn adrodd wrth y Gorchymyn Aur.
- 17.9 Mae'r Bwrdd lechyd wedi mabwysiadu datganiad archwaeth risg sy'n disgrifio'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu i'w goddef o ran ceisio cyflawni ei nodau strategol.

"Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod ei gynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar gyflawni ei nodau strategol a'i gydberthnasau gyda'i gleifion, y cyhoedd a'i bartneriaid strategol. Ni fydd y Bwrdd lechyd yn derbyn risgiau sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd a diogelwch neu gydymffurfiaeth reoleiddio. Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd ymagwedd ofalus o ran y risgiau y mae'n barod i'w cymryd o ran rheolaeth ariannol, ac mae'n well ganddo 'gyflwyno dewisiadau'n ddiogel' gyda lefel isel o risg gynhenid."

"Fodd bynnag, mae gan y Bwrdd lechyd fwy o archwaeth i fynd ar drywydd arloesi. Mae'r Bwrdd lechyd yn fodlon herio'r arferion gwaith presennol er mwyn achub ar gyfleoedd lle gellir disgwyl buddion positif, o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd rheoleiddio."

- 17.10 Wrth ddiffinio'r archwaeth risg bresennol, gwnaeth y Bwrdd fabwysiadu matrices aeddfedrwydd o ran sgoriau risg sy'n cynnwys elfennau'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch, cydymffurfio â rheoleiddio, cyllid ac arloesi. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad cysyniad sefydlog mohoni ac adnewyddodd y datganiad archwaeth risg yn ystod y flwyddyn, a chaiff ei ail-lansio yn 2020.
- 17.11 Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnwys ei randdeiliaid cyhoeddus i reoli risgiau sy'n effeithio arnynt. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn dal i fod yn rhan annatod o gyflwyno strategaeth *Byw'n Iach, Aros yn Iach*. Yn ogystal, mae gan rolau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ddwy elfen sylweddol o'r strwythur llywodraethu sy'n helpu i gynnal trefniadau i reoli risg sy'n wynebu'r sefydliad(au) trwy drafodaethau ar y cyd.

18. Prif Risgiau

- 18.1 Mae'r Bwrdd lechyd wedi penderfynu ar naw brif risg (cymeradwywyd yn 2015) i gyflawni ei nodau strategol:

- 1: Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion.
- 2: Methiant i gynnal cynaliadwyedd ariannol.
- 3: Methiant i reoli perfformiad gweithredol.
- 4: Methiant i gynnal gweithlu ymgysylltiedig ac effeithiol.
- 5: Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol.
- 6: Methiant i gyflawni buddion partneriaethau strategol.
- 7: Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach.
- 8: Methiant i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd.
- 9: Methiant i fewnosod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau llywodraethu.

*Gweler hefyd adran 16 ar gyfer risgiau COVID-19 sydd newydd eu canfod.

19. Risgiau Allweddol

- 19.1 Adolygwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd ac mae'n ystyried y meysydd sydd mewn mesurau arbennig fel y nodir isod. Fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Risg, mae gofyniad i sicrhau bod rheolaethau a chymau lliniarol ar waith i alluogi'r Bwrdd lechyd i reoli pob risg. Archwilir yr holl Risgiau Gorfforaethol a ganfyddir a'u rheolaethau cysylltiedig â'u camau lliniarol ar sail gylchol fel rhan o gylch busnes Pwyllgorau'r Bwrdd. Yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Bwrdd lechyd yn ystod y flwyddyn, dynododd y Bwrdd lechyd fod cyfyngiad o hyd ar allu'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y materion allweddol a mynd i'r afael â nhw. Cytunodd y Bwrdd i ddadelfennu Gwybodeg CRR10 ymhellach yn dair cydran allweddol: CRR10a Seilwaith a Chynhyrchion Cenedlaethol, CRR10b Gwybodeg - Cofnodion Iechyd a CRR10c Capasiti, Adnodd a Galw Seilwaith Gwybodeg.
- 19.2 Ym mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ddwysáu chwe risg newydd sy'n gysylltiedig â threfniadau rheoli iechyd a diogelwch y Bwrdd lechyd a'r effaith y gallai hyn ei gael ar allu'r Bwrdd lechyd i gynnal gwasanaethau gofal iechyd diogel ac effeithiol. Mae cynllun gwelliant cynhwysfawr wedi'i roi ar waith a fydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Grŵp Strategol Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cymeradwyo dwysáu risg o ran y posibilrwydd o beryglu diogelwch cleifion oherwydd ôl groniat enfawr a diffyg capasiti dilynol.

- 19.3 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cytuno i ddad-ddwysáu un risg i'w rheoli ar Lefel Cyfarwyddiaeth Haen 2. CRR19 targedau cyfeirio at driniaeth (RTT) wedi dod i ben i gleifion yng Nghymru o Ysbyty Iarllles Caer o 1af Ebrill 2019 oedd y risg. Cytunodd y Bwrdd Iechyd hefyd i gau Systemau Cyfalaf CRR07, ymgymherwyd â risgiau sydd wedi cael eu dad-ddwysáu a'u cau ar ôl cyflwyno tystiolaeth, gwelliannau a sicrwydd sylweddol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad.
- 19.4 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi ymgorffori rheoli risg i mewn i brosesau cynllunio yn y dyfodol drwy alinio'r Proffil Risg Gorfforaethol â'r Rhagolwg Tair Blynedd sy'n dod i'r amlwg a Chynllun Blyneddol 2020/21.
- 19.5 Mae risgiau clinigol wedi'u cynnwys yn y systemau a phrosesau rheoli risg cyffredinol sy'n cynnwys dwysáu a dad-ddwysáu mewn trefn adrodd gyson a safonol gyda Datix. Mae hyn yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg a gweithdrefnau ategol. Mae enghreifftiau o risgiau clinigol yn cynnwys CRR02 - Atal Haint, CRR05 - Dysgu o Brofiad Cleifion a CRR13 - Iechyd Meddwl. Yn fwy diweddar, mae effeithiau'r Pandemig Cenedlaethol, COVID-19 wedi creu risgiau llywodraethu, ariannol, clinigol a diogelwch cleifion posibl. Cyfeiriwch hefyd at adran 16 ynglŷn â risgiau COVID-19 sydd wedi'u dynodi o'r newydd. Mae mwy o fanylion ar risgiau y Bwrdd Iechyd ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/cofrestr-risg-gorfforaethol/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/cofrestr-risg-gorfforaethol/>).

20. Y Fframwaith Rheoli

- 20.1 Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros drefnu, rheoli a staffio cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Mae'n rhaid i mi sicrhau fy hun a'r Bwrdd bod trefniadau Gweithredol a Rheoli Clinigol y Bwrdd a'r fframwaith reoli cyffredinol yn addas at eu diben.
- 20.2 Mae'r fframwaith reoli wedi'i gynllunio i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risg o fethiant i gyflawni nodau strategol ag amcanion corfforaethol (gweler hefyd adran 14). Mae llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad yn broses barhaus a gynlluniwyd i:
- Ddynodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni ein pwrpas, gweledigaeth, nodau strategol a gwerthoedd;
 - Gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn cael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu;
 - Rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.
- 20.3 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar ddatganiad archwaeth risg a gyfeiriwyd ato yn gynt yn y ddogfen hon yn adran 17. Mae mwy o wybodaeth am gydymffurfio ag arfer da llywodraethu corfforaethol wedi'i gynnwys yn Adran 23.

21. Rheolau Sefydlog

- 21.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoli gweithrediadau a busnes. Gellir cael mynediad at y Rheolau Sefydlog [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/rheolau-sefydlog-a-chyfarwyddiadau-ariannol/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/rheolau-sefydlog-a-chyfarwyddiadau-ariannol/>).

- 21.2 Cynlluniwyd y Rheolau Sefydlog i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 i arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu rhaglen o faterion a neilltuir i'r Bwrdd, rhaglen o ddirprwyaethau i swyddogion ac eraill a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu fframwaith rheoli ar gyfer ymddygiad busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd a Risg Gorfforaethol (sy'n ymgorffori'r gofrestr risg gorfforaethol ac ystod o bolisiâu a safonau busnes a gytunir gan y Bwrdd, yn gwneud y fframwaith rheoli y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddo.
- 21.3 Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cynnal adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog fel mater o drefn, yn ogystal ag ystyried newidiadau ad hoc drwy gydol y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â materion megis newidiadau i gyfrifoldebau Cynllun Cadw a Dirprwyo oherwydd bod swyddi uwch newydd wedi'u creu a newidiadau i'r portffolio Gweithredol. Mae gwybodaeth bellach ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-archwilio/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/pwyllgoraur-bwrdd-iechyd-a-grwpiau-cynghori/pwyllgor-archwilio/>). Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau ar ran y Bwrdd, sydd yna'n derbyn y newidiadau sydd wedi'u gwneud, er mwyn eu cadarnhau. Yn ystod y cyfnod adrodd, y digwyddiad mwyaf arwyddocaol o ran Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo oedd cadarnhau Model cenedlaethol Rheolau Sefydlog ar 7.11.19 (wedi'u personoli at ddibenion y Bwrdd Iechyd Lleol) yn unol ag eitem 19.159 [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-7-11-19-public-v2-0/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-board-7-11-19-public-v2-0/>). Cadarnhawyd newidiadau perthnasol pellach yng Nghyfarfod y Bwrdd ar [23.1.20](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-23-1-20-v2-0-public-session/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/health-board-meetings-and-members/health-board-meetings/health-board-meetings/agenda-bundle-health-board-23-1-20-v2-0-public-session/>). Gweler hefyd 2.7 ynglyn a newidiadau brys i'r Rheolau Sefydlog, a gymeradwywyd gan y Bwrdd fel rhan o'r ymateb i COVID-19
- 21.4 Darperir Adroddiad Cydymffurfio ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yn amlygu cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o ran:
- Gweithdrefnau Caffael (Adrodd ar ildio hawl i dendro a thorri gofynion caffael);
 - Gweithdrefnau Cyflog (Adrodd ar ordaliadau cyflogau);
 - Gweithdrefnau Derbyniadwy a Thaladwy (Adrodd ar hen falans dros £10,000 a dros 6 mis oed);
 - Gofynion Colledion a Thaliadau arbennig (Adrodd ar golledion, taliadau arbennig, a dileu balans sy'n ddyledus i'r Bwrdd Iechyd).
- 21.5 Yn ystod 2019/20, y materion allweddol a ddynodwyd yn yr adroddiad cydymffurfio i'r Pwyllgor Archwilio oedd, yn unol a 21.4 uchod, caffael, symiau taladwy, symiau derbyniadwy, cyflogres a gordaliau cyflog, cymeradwyo, colledion a thaliadau arbennig, gweithdrefn newydd i ymdrin a ddeddfwriaeth cyfryngwyr (IR35) a gofynion caffael er mwyn cyflogi staff dros dro.
- 21.6 Amlygodd yr adroddiad hefyd fod nifer yr ildladau hawl tendr unigol a dyfynbrisiau wedi gostwng yn 2019/20. Mae camau wedi'u cymryd i wella'r rheolaethau trwy'r system ildio hawl electronig newydd wedi arwain at fwy o dryloywder a chraffu. Mae ildladau hawl ôl-weithredol yn cael eu monitro a'u hadrodd.
- 21.7 Mae gwerth a faint gordaliadau cyflog yn cael eu monitro yn fisol i ddynodi cyfleoedd i leihau'r risg o ordaliadau y gellid eu hosgoi. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio i sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud o fewn y targed 30 diwrnod.

22. Archwilio Allanol

- 22.1 Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru'r adroddiadau a'r dogfennau canlynol yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn ffurfiol i bob un ohonynt ac mae camau'n codi o argymhellion yn cael eu holrhain gan ddefnyddio'r Audit Tracker / TeamCentral, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio: Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio'n monitro'r argymhellion hyn sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd ond a allai fod wedi codi o adolygiadau Cymru Gyfan.
- 22.2 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Iechyd yn 2019.

Teitl yr Adroddiad	Dyddiad rhoi'r adroddiad
Adroddiadau Archwilio Ariannol	
Gwariant ar Staff Asiantaeth gan GIG Cymru	Ionawr 2019
Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol:	Mai 2019
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2019
Archwiliad o Adroddiad Datganiadau Ariannol yr Elusen	Hydref 2019
Barn ar Ddatganiadau Ariannol Elusen	Hydref 2019
Adroddiadau Archwilio Perfformiad	
Adolygiad Dilydol Codio Clinigol	Mai 2019
Cronfa Gofal Canolraddol	Gorffennaf 2019
Adolygiad Theatrau Llawdriniaeth	Awst 2019
Cronfa Gofal Integredig - Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru	Medi 2019
Rhoi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith	Hydref 2019
*Adolygiad Rheoli Ased TGCh	Tachwedd 2019
Asesiad Strwythuredig 2019	Rhagfyr 2019
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2019	Chwefror 2019
Adroddiad Archwiliad Blyneddol 2018	Chwefror 2019

*oherwydd cynhwysiant gwybodaeth sensitif, derbyniwyd yr adroddiad a'i hadolygu mewn sesiwn breifat o'r Pwyllgor

Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael [yma](https://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau) (<https://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau>).

23. Cod Llywodraethu Corfforaethol

- 23.1 Ar gyfer y GIG yng Nghymru, diffinnir llywodraethu fel "system o atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio ynddynt, yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain eu pobl i gyflawni eu hamcanion." Yn syml, mae hyn yn golygu'r ffordd y mae cyrff y GIG yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl gywir, mewn ffordd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodir ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

- 23.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r agweddau perthnasol sy'n cael eu disgrifio yn 'Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2011' sy'n gyson â'r 'Arweiniad Llywodraethu Da' ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (ail rifyn) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir o ran rôl y Bwrdd, cyfansoddiad y Bwrdd, ei effeithiolrwydd a rheoli risg. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol wedi cynnal adolygiad bwrdd-gwaith i gadarnhau cydymffurfiaeth yn ystod 2019/20 â Chod Arfer Da Swyddfa'r Cabinet. Gellir cael mynediad at y Cod Arfer Da [yma](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220645/corporate_governance_good_practice_july2011.pdf) (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220645/corporate_governance_good_practice_july2011.pdf).

24. Trefniadau Ansawdd a Llywodraethu

- 24.1 Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol (2018/19) a oedd yn crynhoi sut mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd yr holl wasanaethau y mae'n eu cynllunio a'u darparu ac i rannu arfer da. Gellir gweld yr adroddiad [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-lywodraethu-a-sicrwydd/datganiadau-ansawdd-blynyddol/datganiadau-ansawdd-blynyddol/annual-quality-statement-2018-19/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-lywodraethu-a-sicrwydd/datganiadau-ansawdd-blynyddol/datganiadau-ansawdd-blynyddol/annual-quality-statement-2018-19/>).
- 24.2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r broses o ddrafftio'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2019/20 yn mynd rhagddo. Bydd yr adroddiad yn dangos yr ymdrechion parhaus o ran gwella ansawdd ein gwasanaethau a phrofiad cleifion, yn unol â Safonau Iechyd a Gofal 2015, ynghyd â gweithio mewn partneriaeth a blaengynllunio strategol. Yn ogystal, bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adran yn ymwneud â COVID-19 a fydd yn dangos tystiolaeth o ddull rheoli'r Bwrdd Iechyd ac unrhyw ddysgu wedi hynny.
- 24.3 Yr Arweinydd Gweithredol dros Ansawdd a Diogelwch yn y sefydliad yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n ategu swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd.
- 24.4 Mae'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch (QSG) yn goruchwyllo gweithrediad y Strategaeth Gwella Ansawdd a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig. Mae'n cael effaith gadarnhaol ar lywodraethu a rheolaethau cyffredinol drwy fonitro risg glinigol yn rheolaidd, dwysáu a dad-ddwysáu fel bo angen. Mae'r grŵp yn cael sicrwydd gan ei is-grwpiau, gan sicrhau bod sicrwydd a thystiolaeth o ddysgu o brofiad cleifion yn cael eu triogli. Mae pob uwch adran glinigol yn darparu adroddiad sicrwydd misol i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch i ystyried themâu a thueddiadau ehangach y Bwrdd Iechyd a'u dynodi, yn ogystal â darparu sicrwydd am y risgiau sy'n cael eu rheoli mewn gwahanol wasanaethau. Mae archwilio allanol hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddynodi risgiau a phroblemau sy'n effeithio ar ansawdd. Er enghraifft, fel y nodir yn adran 14 y Datganiad hwn, cyflwynwyd darganfyddiadau'r adolygiad o reolaeth ôl groniad Cleifion Allanol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2019, a dynodwyd nifer o faterion yn ymwneud ag ansawdd data ac integreiddio systemau yn effeithiol a rheoli risg glinigol. Cafodd y mater hwn ei ddwysáu i'r Bwrdd ei ddatrys.
- 24.5 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol mwyaf diweddar ar Weithio i Wella (PTR) i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf a gellir cael mynediad at yr adroddiad [yma](https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance1/concerns/concerns/putting-things-right-annual-report-2018-19/) (<https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance1/concerns/concerns/putting-things-right-annual-report-2018-19/>).

- 24.6 Mae'r swyddogaeth pryderon o fewn portffolio Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ac mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Phrofiad Cleifion yn gyfrifol am arwain rheoliadau Gweithio i Wella (PTR). Pwyslais allweddol y swyddogaeth yw cefnogi a chryfhau triongiant themâu a gallu'r Bwrdd Iechyd i ddysgu o bryderon, cwynion a digwyddiadau er mwyn lleihau ailadrodd a niwed. Mae cyfanswm nifer y cwynion agored wedi lleihau'n sylweddol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld gwelliannau o ran prydlondeb ymateb i gwynion. Bu hefyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymchwiliadau agored a gwelliant amlwg o ran prydlondeb cwblhau ymchwiliadau.
- 24.7 Fodd bynnag, o ran gallu adrannau gweithredol i gadw at ofynion cenedlaethol, nid yw'r amser a gymerir i ymateb i bryderon yn cyflawni targedau cenedlaethol eto felly mae angen gwaith pellach ar yr agwedd hon ac mae adolygiadau ar y gweill i wella prosesau. Er mwyn cyflawni hyn, mae rhoi Cynllun Darparu ar waith wedi dechrau, sy'n cynnwys pwrpas adrannol glir sy'n cael ei chefnogi trwy adolygu strwythurau a phrosesau. Bydd hyn yn cael ei gryfhau drwy roi pwyslais ar ymgysylltu, parhad busnes a datblygiad y dyfodol. Yn bwysicaf oll, bydd yn gwella ansawdd diogelwch a phrofiad cleifion ac yn rhoi sicrwydd.
- 24.8 Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau diweddarau rheolaidd ar Weithio i Wella drwy'r Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad, sy'n adlewyrchu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau allweddol Llywodraeth Cymru a thargedau lleol. Mae sicrwydd ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â pholisi PTR, tueddiadau a themâu sy'n codi a gwersi i'w dysgu.
- 24.9 Ymdrinnir ag egwyddorion cywiro yn y datgeliadau Gweithio i Wella a wneir yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol, sydd ar gael [yma](https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/datganiadau-ansawdd-blynyddol/datganiadau-ansawdd-blynyddol/annual-quality-statement-2018-19/) (<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/datganiadau-ansawdd-blynyddol/datganiadau-ansawdd-blynyddol/annual-quality-statement-2018-19/>).
- 24.10 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lansio ei Wasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS) ar draws y tair ardal leol yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn gwella'r cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael i'n cleifion, a'r broses o gasglu adborth gan gleifion. Mae'r timau wedi'u lleoli ym mhob prif ysbyty gan estyn allan yn rheolaidd i'r unedau iechyd meddwl, ysbytai cymunedol a chlinigau.
- 24.11 Fel y cyfeiriwyd ato yn adrannau 16 i 19 yn y Datganiad hwn, mae systemau rheoli risg y Bwrdd Iechyd wedi'u datblygu i ystyried yr holl risg, gan gynnwys risgiau clinigol, sy'n cael eu dynodi a'u hasesu gan ddefnyddio methodoleg generig i ddynodi beth yw'r risg, beth allai beri i'r risg gael ei gwireddu a beth neu bwy y gall y risg effeithio arno. Yna cofnodir y risgiau hyn yn y System Integredig Rheoli Risg (Datix) gyda'r wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer adolygiadau rheoli a dwysáu o fewn y sefydliad fel bo'n briodol. Mae'r broses rheoli risg glinigol yn cael ei harwain ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol meddygol a Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

25. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

25.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal pwyslais ar ymgysylltu er mwyn meithrin perthnasau â'r cyhoedd a'u gwella ac i weithio'n agosach gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned. Mae effaith gweithgarwch ymgysylltu'n cael ei fesur drwy nifer o fecanweithiau gan gynnwys adborth gan y cyhoedd ac arolygon rhanddeiliaid. Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth hon, cynhaliwyd tri arolwg safbwynt y cyhoedd - y cyntaf ym mis Tachwedd 2017, yr ail ym mis Tachwedd 2018 a'r trydydd ym mis Tachwedd 2019. Pwrpas yr arolwg yw:

- helpu i ddarparu gwaelodlin o wybodaeth am lefelau ymddiriedaeth a hyder yn y Bwrdd Iechyd;
- dynodi unrhyw newidiadau mewn agweddau tuag at y Bwrdd Iechyd, a'u monitro;
- darparu offeryn mesur i sefydlu p'un a yw'r gweithgaredd ymgysylltu dynodedig parhaus yn cael effaith ar sut mae'r cyhoedd yn gweld y Bwrdd Iechyd, fel y gellir dynodi unrhyw wendid ac y gallwn weithredu ar adborth i addasu'r dull fel bo angen.

25.2 Amlygodd ein trydydd arolwg safbwynt a gynhaliwyd ar ddiwedd 2019 nifer o ddarganfyddiadau cadarnhaol:

- Mae lefelau presennol ymgysylltu â gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau'n uchel gyda mwyafrif y cyhoedd wedi defnyddio gwasanaethau lleol y GIG yn y 6 mis diwethaf (86%);
- O'r rhain, mae 9% wedi mynychu digwyddiad ymgynghori neu weithgaredd ymgysylltu, cynnydd lleiaf o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac sy'n nodi bod tua 60,000 o bobl wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd y tu hwnt i ddefnyddio'r gwasanaethau meddygol;
- Mae ymatebwyr yn parhau i fod â dealltwriaeth dda o'r rôl sydd gan y Bwrdd Iechyd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd lleol.

25.3 Fodd bynnag, nododd yr arolwg nifer o feysydd ar gyfer eu gwella:

- Fwyfwy mae pobl yn teimlo na allant ddylanwadu na dweud eu dweud yn y blaenoriaethau iechyd a'r penderfyniadau a wneir;
- Er bod pryder ynghylch dyfodol gwasanaethau lleol y GIG wedi aros yn gyson rhwng blynyddoedd 1 a 2, dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r pryder wedi cynyddu'n sylweddol. Mae nifer y bobl sydd wedi dweud nad ydynt yn teimlo'n bositif wedi cynyddu o 52% i 63%;
- Ar raddfa 1 - 10 (1 yn sero, deg yn llawer), y sgôr cyfartalog ar gyfer cyfle'r ymatebwyr i ddylanwadu neu leisio barn ar eu blaenoriaethau iechyd a'u penderfyniadau ar gyfer eu hardal leol yw 2.8, sy'n sylweddol is na'r sgôr cyfartalog o 3.16 a gyflawnwyd y llynedd;
- Yn gyffredinol, y sgôr cyfartalog ar gyfer pa mor dda y mae'r ymatebwyr yn credu bod eu GIG lleol yn gwrando ar bobl leol yw 4.0, i lawr o 4.3 y llynedd;
- Y broblem o ran mynediad at eu meddygon teulu a'r diffyg apwyntiadau sydd wedi bod o bwys pennaf i nifer sylweddol o ymatebwyr;
- Mae cyfran uwch o'r cyhoedd (32%) yn cofio clywed rhywbeth am BIPBC yn ystod y mis diwethaf nag a wnaethant yn un o'r blynyddoedd blaenorol (22%);
- Gwnaeth 307 o ymatebwyr sylwadau ar yr hyn yr oeddent wedi'i glywed, gyda dros hanner y sylwadau'n canolbwyntio ar agweddau negyddol ar reolaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi clywed rhywbeth, naill ai am y newidiadau i rota / contractau nyrsio a / neu gost ymgynghorwyr allanol, yn benodol, y Cyfarwyddwr Adferiad;
- Eleni, dywedodd 57% eu bod yn siarad yn gadarnhaol am y GIG lleol, sydd i lawr o 63% ym mlwyddyn 2.

- 25.4 I ategu canfyddiadau'r arolwg cyhoeddus, cynhaliwyd tri arolwg rhanddeiliaid hefyd. Cwblhawyd y cyntaf yn 2017, yr ail flwyddyn yn ddiweddarach a'r trydydd ar ddiwedd 2019. Gofynnwyd i nifer o uwch randdeiliaid allweddol o awdurdodau lleol, y trydydd sector, tai cymdeithasol a sefydliadau iechyd eraill am eu safbwynt o'r Bwrdd Iechyd. Y prif amcanion oedd:
- Darparu gwell dealltwriaeth ar gyfer y Bwrdd Iechyd am sut mae perthnasau gyda rhanddeiliaid wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf, a
 - Dynodi ffyrdd y gall y Bwrdd Iechyd feithrin y perthnasau hyn wrth symud ymlaen
- 25.5 Unwaith eto, dynododd y trydydd arolwg rhanddeiliaid safbwynt cadarnhaol. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol am y berthynas waith sydd ganddynt â'r Bwrdd Iechyd, gan nodi ei fod wedi gwella neu wedi aros yr un fath â'r llynedd. Mae lefel uwch o bositifrwydd gan y rhanddeiliaid eleni o ran darpariaeth gwasanaeth. Mae cydnabyddiaeth bod gan y Bwrdd Iechyd heriau o hyd, ond craffter i barhau i gydweithio, i gefnogi a darparu gwell gwasanaethau.
- 25.6 Fel y disgwyliwyd, mae arolygon rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at rai heriau o ran gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd. Teimlir nad oes gan y rheolwyr ar yr haen ganol ddigon o awdurdod i wneud penderfyniadau cymharol syml mewn cyfarfodydd. Priodolir hyn i'r dull llywodraethu hierarchaidd canfyddedig y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei fabwysiadu wrth wneud penderfyniadau. Fe all hyn achosi rhwystredigaeth ar y ddwy ochr mewn cyfarfodydd ac fe all rwystro cynnydd wrth ddelio â materion ymarferol sy'n gymharol ddibwys. Mae meysydd eraill a godwyd yn cynnwys cyflymder newid a datblygiad yn y Bwrdd Iechyd, materion yn ymwneud â chyllid, ariannu a chynllunio/cynnaladwyedd hir dymor a'r angen am well dealltwriaeth o waith partneriaeth a gwaith cydweithredol.
- 25.7 O ran gweithgarwch ymgysylltu dynodedig parhaus, mae cymryd rhan yn y rhaglenni trawsnewid / gwella sy'n cyd-fynd â'r Rhagolwg Tair Blynedd wedi bod yn flaenoriaeth. Wrth i'r ffrydiau gwaith hyn symud ymlaen ar ôl i'r saib COVID-19 ar gynllunio ddod i ben, bydd ymgysylltiad ag unrhyw ailgynllunio gwasanaeth sylweddol yn cael ei gynllunio, yn enwedig yn y meysydd a ddynodwyd yn strategaeth gwasanaethau clinigol sy'n datblygu. Y llynedd bu amrywiaeth o ymgysylltiad ar feddygaeth niwclear, gwasanaethau deintyddol, orthopaedeg, iechyd meddwl a gwasanaethau mamolaeth.
- 25.8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i feithrin perthnasau sy'n bodoli eisoes ac i sefydlu rhai newydd gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid. Yn benodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi rhwydweithiau a fforymau'r trydydd sector fel mater o drefn ac yn cydweithio ar nifer o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau ffoaduriaid o Syria, aelodaeth o Grŵp Hil Heddlu Gogledd Cymru, cyswllt â Chyn-filwyr / y Lluedd Arfog a chysylltu â rhwydweithiau pobl hŷn a grwpiau anabledau dysgu.
- 25.9 Dros yr haf, roedd y Bwrdd Iechyd yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst, gan alluogi staff ac adrannau i hybu eu gwasanaethau, cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a dangos ochr ddynol y Bwrdd Iechyd. Bu ganolbwyntio ar ymgysylltu ar yr ystod o wasanaethau gofal cychwynnol sydd ar gael yn y cymunedau a threfnu i gynrychiolwyr o fferylliaeth gymunedol, adran deintyddiaeth, lles ac iechyd meddwl fod yn bresennol. Defnyddiwyd hefyd y cyfle i hybu cyfleoedd recriwtio a gyrfa. Roedd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd hefyd yn bresennol yn Sioeau Amaethyddol Dinbych a Fflint, Sioe Meirionydd a Sioe Môn yn ystod mis Awst 2019. Yn ychwanegol, fel y cyfeirir ato yn rhan 9, mae ymgysylltu a bartneriaeth wedi bod ar flaen ymated y Bwrdd Iechyd i COVID-19 yn 2020. Mae ymgysylltu gyda'r Cyngor Iechyd Cymunedol wedi cael ei cynnal ledled y pandemig.

25.10 Ymgysylltu â Staff

- 25.10.1 Mae'r cynllun gweithredu sydd ynghlwm â'r Strategaeth Ymgysylltu â Staff wedi'i gyflawni'n llawn, gyda'r gwaith yn parhau i ymgorffori'r prosesau a gyflwynwyd fel rhan o'r cynllun. Mae Strategaeth Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol 2019/22 sydd newydd ei datblygu yn cwmpasu ymgysylltiad â staff a'r gwelliannau sy'n ofynnol. Mae Amcanion y Gweithlu'n cynnwys ymgysylltu â staff fel thema annatod sy'n rhedeg drwy'r holl amcanion. Bydd monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth yn cael ei wneud drwy Grŵp Gwella'r Gweithlu.
- 25.10.2 O ran cynlluniau gwella Arolwg Staff 2018, mae camau gwella sylweddol wedi eu cyflawni ers i'r Bwrdd gymeradwyo'r cynllun gwella sefydliadol cyffredinol ym mis Mawrth 2019. Mae pob Uwch Adran wedi datblygu eu cynllun gwelliannau lleol ei hunain. Mae'r broses adborth i staff yn dilyn dull 'Fe ddywedoch chi, Fe wnaethom ni', sy'n fecanwaith cefnogol sy'n canolbwyntio ar raeadru negeseuon allweddol ar gyflawniadau i'r sefydliad.
- 25.10.3 Mae ByddwchynFalch yn offeryn ymgysylltu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau adborth parhaus gan staff sy'n darparu mesur o ymgysylltiad â staff yn barhaus. Yn dilyn y broses caffael, cafwyd yr offeryn Go Engage a ddatblygwyd gan Wrightington, Wigan and Leigh NHS Foundation Trust. Cafodd ei ail frandio ar gyfer BIPBC fel ByddwchynFalch er mwyn cynnal cysondeb gyda'r thema 'ByddwchynFalch' sydd wedi'i fabwysiadu fel rhan o'r strategaeth ymgysylltu â staff.
- 25.10.4 Mae dwy gainc i'r offeryn:
- Arolygon pwls chwarterol lefel sefydliadol o 25% o'r sefydliad;
 - Arolygon ar lefel tîm i wella ymgysylltiad ar lefel tîm/adranol lleol. Hyfforddir pencampwyr o bob tîm, sy'n adnabyddus fel Arloeswyr i ddefnyddio gwahanol offer ymgysylltu i gefnogi datblygiad tîm a chynlluniau gwella.
- 25.10.5 Mae'r offeryn yn cynnig:
- Ffordd syml o ddeall y wyddoniaeth y tu ôl i ymgysylltiad â staff o ran achos ac effaith;
 - Argymhellion ymarferol clir i wella ymgysylltiad â staff;
 - Dadansoddi tueddiadau yn rheolaidd - nid cipolwg unwaith y flwyddyn / dwy flynedd;
 - Y gallu i weithredu'n gyflym ar ddata, cyn pen pythefnos o gau'r arolwg i gyflwyno'r canlyniadau.
- 25.10.6 Mae'r cwestiynau yn yr arolwg ByddwchynFalch wedi cael eu croesgyfeirio i'r rhai yn Arolwg Staff GIG Cymru. Bydd hyn yn caniatáu olrhain gwelliannau ar lefel sefydliadol yn ogystal ag ar lefel tîm. Defnyddir y Prawf Ffrindiau a Theulu Staff yn helaeth o fewn GIG Lloegr fel meincnod; bydd y ddau gwestiwn hyn yn cael eu defnyddio'n lleol fel gwiriad pwls sefydliadol allweddol bob chwarter drwy'r arolwg chwarterol 'ByddwchynFalch' ynghyd â sylwadau ansoddol gan staff. Y mesuriadau yw:
1. Canran y staff sy'n debygol o argymhell BIPBC i ffrindiau a theulu os ydynt angen gofal neu driniaeth;
 2. Canran y staff sy'n debygol o argymhell BIPBC i ffrindiau a theulu fel man gwaith.

25.10.7 Lansiodwyd yr arolwg pwls cyntaf ym mis Ebrill 2019 i sampl o staff ar hap, a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Medi 2019. Lansiodwyd yr ail arolwg ym mis Chwefror 2020. Bydd y camau sy'n codi'n cael eu hymgorffori i gynlluniau gwella arolwg staff i gyd-fynd â chamau ac i ddarparu fframwaith monitro cyson. Rhagwelir y bydd arolygon pwls chwarterol pellach yn cael eu cynnal yn hanner olaf 2020 a dechrau Gwanwyn 2021.

26. Safonau Iechyd a Gofal Cymru Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

- 26.1 Roedd y Safonau Iechyd a Gofal a lansiodwyd ym mis Ebrill 2015 yn cadarnhau bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol yn hanfodol ar gyfer darpariaeth gynaliadwy gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac felly'n rhan annatod o'r holl Safonau Iechyd a Gofal.
- 26.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn hunan asesu ac yn defnyddio'r dysgu o hyn yn barhaus, ac yn ogystal, mae HIW, WAO a Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro fel rhan annatod o'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig.
- 26.3 Cynhaliwyd adolygiad ar y cyd gan HIW a WAO "*Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu BIPBC - Crynodeb o Gynnydd*" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Yn ogystal â hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru i Deloitte gynnal Adolygiad Llywodraethu Ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018, a oedd yn cynnwys archwilio arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar draws y sefydliad.
- 26.4 Fel rhan o drefniadau mesurau arbennig, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi cyfres o ddatganiadau sy'n nodi cynnydd fel y cyfeirir ato mewn rhannau eraill o'r Datganiad hwn.

27. Safonau Iechyd a Gofal (HCS): Fframwaith Diwygiedig

- 27.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgorffori'r safonau Iechyd a Gofal fel rhan o'r gwaith ansawdd parhaus i gefnogi adrodd a monitro arferol. Disodlwyd archwiliadau misol y ward i'r Bwrdd gan archwiliad misol diwygiedig (a lansiodwyd ym mis Ebrill 2019). Mae'r archwiliad diwygiedig wedi'i ddatblygu mewn fformat electronig i ategu'r rhaglen Achredu Wardiau a weithredwyd yn ddiweddar a'i gefnogi. Mae cwestiynau'r archwiliad wedi'u mapio yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal yn ogystal â'r themâu o'r fframwaith Achredu Wardiau.
- 27.2 Mae dangosfwrdd 'HARMS' yn parhau i ddatblygu ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu'n sylweddol yn dilyn ei lansio ym mis Hydref 2017. Mae datblygiad arbennig wedi digwydd o ran ystyriaeth y wardiau yn dilyn uwchraddio'r warws data. Mae'r dangosfwrdd yn parhau i weithredu'r Strategaeth Gwella Ansawdd (QIS) ac mae'n elfen annatod o'r rhaglen Achredu Wardiau. Mae cyfuniad y dangosfwrdd a'r rhaglen Achredu Wardiau yn parhau i hybu symud tuag at sefydlu safonau ac adeiladu ar ddiwylliant gwelliant parhaus, gyda'r nod o allu lleihau amrywiad a niwed. Mae dangosfwrdd 'HARMS' hefyd yn alluogwr allweddol i'r Bwrdd Iechyd i gefnogi gwaith y:
1. Rhaglen Gofal Diogel Glân (i leihau cyfraddau haint);
 2. Cydweithrediad Briwiau Gwasgu a Gafwyd yn yr Ysbyty (HAPU);
 3. Cydweithrediad Codymau Cleifion Mewnol;
 4. Cydweithrediad rheoli meddyginiaethau.

- 27.3 Mae argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yn dilyn ymchwiliadau / adroddiadau wedi'u mapio yn erbyn Safonau Iechyd a Gofal ac maent yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn chwarterol ac i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch bob yn ail fis. Mae'r wybodaeth gwyno yn rhoi barn ar lefel uchel o'r camau hynny yr ystyrir eu bod yn ddyledus h.y y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau a bennir gan y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith yn parhau gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned i fapio ac integreiddio cwestiynau sy'n ymwneud â Safonau Iechyd a Gofal a ofynnwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned yn ystod eu harolygiadau heb rybudd.
- 27.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gofnodi arolygiadau ac argymhellion HIW drwy system wybodaeth a fydd yn caniatáu ar gyfer gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar themâu dysgu a darparu dull mwy integredig at ddibenion sicrwydd ac adrodd.
27. Ar 12.12.19, derbyniodd y Bwrdd Iechyd lythyr gan y Prif Swyddog Nyrsio a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol yn gofyn am sylwadau o ran effeithiolrwydd presennol y Safonau Iechyd a Gofal, yn benodol, p'un a ydynt yn parhau'n addas at eu diben neu p'un a oes angen adolygiad ar raddfa fawr ar yr adeg hon.
- 27.6 Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn allweddol i wella ansawdd gwasanaethau ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i sicrhau themâu yn ymwneud â dysgu ac i gynorthwyo rhannu arfer da. Drwy fapio'r safonau i feini prawf Achredu Wardiau, mae hyn yn sicrhau cysondeb.

28. Strategaeth Gwella Ansawdd (QIS)

- 28.1 Mae Strategaeth Gwella Ansawdd BIPBC (2017-2020) yn canolbwyntio ar bum nod:
1. Dim marwolaethau y gellid eu hosgoi;
 2. Diogel: canfod niwed i gleifion a'i leihau'n barhaus;
 3. Effeithiol: Cyflawni'r lefel uchaf o ddibynadwyedd mewn gofal clinigol;
 4. Gofalu. Darparu'r hyn sydd o bwys fwyaf: gweithio mewn partneriaeth â chleifion, gofaluwr a theuluoedd i fodloni eu holl anghenion a gwella eu hiechyd;
 5. Cyflawni gofal arloesol ac integredig yn agos i'r cartref sy'n cefnogi a gwella iechyd, lles a byw yn annibynnol.
- 28.2 Mae'r QIS yn gyfeirio at y bwriad i adrodd ar gynnydd yn y Datganiad Ansawdd Blynnyddol. Fodd bynnag, dim ond sicrwydd cyfyngedig cafodd ei rhoi i hyn mewn adroddiad Archwilio Mewnol, felly mae cydnabyddiaeth bod mwy o waith i'w gwennud i wella adrodd ar gynnydd, fel rhan o ddatblygiad QIS diwygiedig.
- 28.3 Mae'r QIS ar gyfer 2020-2023 ar y gweill. Mae adolygiad wedi'i gynnal o ran y cynnydd yn erbyn y pum nod a amlinellir yn y QIS ar gyfer 2017-2020. Mae cynllun ar gyfer ymgysylltu a gweithredu wrth symud ymlaen ar gyfer y tair blynedd nesaf ar y gweill. Fodd bynnag, yn sgîl COVID-19, mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio dros dro a bydd yr amserlen yn cael ei hadolygu.
- 28.4 Mae arweinyddiaeth y Tîm Diogelwch Cleifion a'r Tîm Profiad Cleifion wedi cael eu hadolygu i ddarparu un arweinydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd ym mhob ardal gyda thimau cryfach.

- 28.5 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddefnyddio ei system Adborth Amser Real sy'n caniatáu i gleifion, gofalwyr ac ymwelwyr rannu eu hadborth. Mewn ymateb i'r themâu a'r tueddiadau a nodir yn yr adborth, mae'r Tîm Profiad Cleifion wedi datblygu rhaglen hyfforddiant gofal cwsmer sy'n cael ei gynnal bob mis ar gyfer holl staff y Bwrdd Iechyd.
- 28.6 Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu'r broses o driongli gwybodaeth ymhellach o'r rhaglen teithiau crwydr arweinyddiaeth ar ei newydd wedd a nifer o wahanol ffynonellau. Mae'r dystiolaeth o'r holl ffynonellau hyn yn darparu cyfleoedd i gael tystiolaeth arfaethedig o cydymffurfiaeth â safonau iechyd a gofal ac amcanion sy'n flaenoriaeth i gefnogi'r triongli yma.
- 28.7 Mae angen gwaith pellach ar draws y Bwrdd Iechyd drwy drefniadau llywodraethu i greu tystiolaeth o driongli lleol a gweithredu gwelliannau i ddangos y gwersi a ddysgwyd.

29. Elfennau Eraill o'r Fframwaith Rheoli

29.1 Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl oblygiadau'r sefydliad dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Cynhaliwyd adolygiad sylweddol o amcanion cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP) eleni. Mae'r fframwaith polisi cydraddoldeb a hawliau dynol ar waith ac fe'i cefnogir gan raglen hyfforddi i godi ymwybyddiaeth a meithrin gallu o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) ac i gynorthwyo staff i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae strwythur y pwyllgor wedi'i adolygu ac mae atebolrwydd a chyfathrebu wedi'i gryfhau.

Mae mesurau eraill yn cynnwys:

- Mae sesiwn flynyddol datblygu cydraddoldeb yn cael ei hwyluso gan y Bwrdd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswydd i 'roi sylw priodol' i'r PSED;
- Mae'r Strategaeth Byw'n Iach Aros yn lach yn nodi'r ymrwymiad i hybu cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhob un o swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd;
- Mae'r Cynllun Blynyddol yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn bodloni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a hawliau dynol a'r trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb (EqIA);
- Mae cyfleoedd wedi'u dynodi i ymgorffori darpariaeth yr SEP i gynllunio a mecanweithiau darparu gwasanaeth a'r system ar gyfer gwella;
- Mae datblygiad Strategaeth a pholisi'r Gweithlu yn cael ei lywio gan wybodaeth cydraddoldeb y gweithlu ac EqIA;
- Mae hyfforddiant Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn orfodol i'r holl staff;
- Mae rhaglen o hyfforddiant EqIA yn cael ei hwyluso ochr yn ochr â chefnogaeth ac arweiniad hyfforddi. Mae'r craffu ar EqIA wedi'i gryfhau eleni;
- Mae risgiau sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth wedi'u dynodi ac wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg gorfforaethol;
- Mae'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y SEP;

- Mae cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cydraddoldeb allanol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned;
- Mae Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd drwy lwybr llywodraethu'r Pwyllgor Strategaeth, Cynllunio ac Iechyd y Boblogaeth; mae'n cael ei gyhoeddi ac mae ar gael i'r cyhoedd;
- Mewn perthynas â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2018 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, derbyniodd y Bwrdd Iechyd hysbysiad o gydymffurfiaeth reoleiddiol ym mis Tachwedd 2018, ar ffurf safonau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n unol â'r safonau hyn a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro trwy adrodd wrth y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth.

29.2 Cynllun Pensiwn

- 29.2.1 Fel cyflogwr sydd â staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl oblygiadau i gyflogwyr sydd yn y Cynllun a'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddiidyniadau o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni sydd yn y Rheoliadau.

29.3 Dilysu Ôl Daliadau

- 29.3.1 Nod y broses Ddilysu Ôl Daliadau yw sicrhau priodoldeb taliadau arian cyhoeddus gan y Bwrdd Iechyd; mae hyn yn golygu bod rhaid i'r tîm Dilysu Ôl Daliadau wneud gwiriadau cywirdeb yn barhaus. Mae hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd Iechyd bod arian cyhoeddus wedi cael ei wario'n briodol ac yn rhoi sicrwydd i gontractwyr am eu trefniadau.
- 29.3.2 Cytunwyd ar raglen dreigl 3 blynedd wedi'i haddasu o ymweliadau Dilysu Ôl Daliadau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol a Gwasanaethau Optegol Cyffredinol, yn unol â phrotocolau GIG Cymru y cytunwyd arnynt.
- 29.3.3 Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn defnyddio technegau Dadansoddi Risg ac yn cysylltu â chydweithwyr perthnasol yn y Bwrdd Iechyd, ac yn dibynnu ar y cyfraddau camgymeriadau sy'n cael eu darganfod, yn cynnal ail ymweliadau neu gamau priodol eraill gyda'r Bwrdd Iechyd.
- 29.3.4 Derbynnir diweddariadau rheolaidd yn erbyn y cynllun gwaith y cytunwyd arno ac Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio yn rhoi manylion am y dadansoddiad. (Gweler hefyd adran 14.15, 4ydd pwynt bwled).

29.4 Cynlluniau Darparu Lleihau Carbon

- 29.4.1 Mae cydnerthedd y sefydliad yn seiliedig ar cynlluniau parhau busnes. Mae gan BIPBC cytundebau partneriaeth a rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill fel rhan o ddatblygiad parhaus Strategaeth Lleihau Carbon y Bwrdd Iechyd.

29.4.2 System Rheoli Amgylcheddol (EMS) ISO14001 BIPBC

Mae gan y Bwrdd lechyd nifer o agweddau amgylcheddol, a allai gael effaith ariannol ac amgylcheddol sylweddol os na fyddant yn cael eu rheoli'n ofalus. Fel rhan o'i ymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, mae'r Bwrdd lechyd wedi gweithredu a chynnal System Reoli Amgylcheddol ffurfiol, a gynlluniwyd i gyflawni'r egwyddorion allweddol hyn:

- Datblygiad cynaliadwy;
- Amddiffyn yr amgylchedd;
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth;
- Atal llygredd;
- Gwelliant parhaus yr EMS i wella perfformiad amgylcheddol.

29.4.3 Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei gyflawni drwy'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i bob rhanddeiliad perthnasol a phartïon sydd â diddordeb;
- Dynodi holl elfennau amgylcheddol arwyddocaol a goblygiadau cydymffurfiaeth cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sydd o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth;
- Rhoi gweithdrefnau rheoli addas a digonol ar waith, sy'n cynnwys amodau gweithredu normal, annormal ac amodau gweithredu brys;
- Sefydlu amcanion a thargedau allweddol a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a nodir gan Lywodraeth Cymru;
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl staff perthnasol;
- Archwiliadau mewnol rheolaidd wedi'u cynllunio;
- Adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd yr EMS gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol, sy'n cael ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd.

29.4.4 Mae safon ISO 14001:2015 bellach wedi'i rhoi ar waith ac wedi'i hymgorffori ar draws BIPBC a cyflawnwyd tystysgrif ym mis Ebrill 2018. Dangoswyd bod yr EMS ISO14001 wedi gwneud y Bwrdd lechyd a'i staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddio, ac mae'n caniatáu i'r risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n fwy effeithiol. Mae Swyddogion yr Amgylchedd wedi cwblhau hyfforddiant trawsnewid Archwilwyr Arweiniol yn llwyddiannus, ac maent bellach wedi'u hardystio gan IEMA / IRCA & CQI.

29.4.5 Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolwyr Amgylcheddol wedi mynd ati i roi fersiwn 2015 y safon ar waith drwy amlygu:

- Y newidiadau allweddol y mae angen i ddarparwyr gwasanaeth eu gwneud;
- Ymrwymiad a rhan yn yr EMS ar bob lefel;
- Cydymffurfiaeth â Pholisi Amgylcheddol;
- Anghenion partïon sydd â diddordeb a'u disgwyliadau;
- Materion allanol a mewnol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol;
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'w gwasanaeth/adran;
- Perfformiad, gwerthusiad a monitro.

29.4.6 Mae ISO14001:2015 yn darparu fframwaith i amddiffyn yr amgylchedd ac i ymateb i amodau cyfnewidiol yr amgylchedd, ochr yn ochr ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001:2015 yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni canlyniadau EMS a fwriedir, sy'n cynnig gwerth i'r amgylchedd, BIPBC ei hun a phartïon sydd â diddordeb. Yn gyson â Pholisi Amgylcheddol BIPBC, mae canlyniadau'r EMS a fwriedir yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol;
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth;
- Cyflawni amcanion amgylcheddol.

Roedd yr asesiad yn dangos bod conglfeini'r system ar waith, h.y. agweddau ac effeithiau, amcanion a thargedau corfforaethol ac sy'n benodol i safleoedd ynghyd â Rhaglenni amgylcheddol ar waith ar draws y safleoedd. Mae'r Rhaglen Archwilio Fewnol yn unol â'r targed ac mae archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal yn effeithiol.

29.4.7 Rheoli Gwastraff

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Amgylcheddol Seven Ways fel ei gcontractwr gwastraff ailgylchu/domestig (bag clir) i wella dulliau rheoli gwastraff yn y Bwrdd Iechyd ac i leihau ei effeithiau ar yr amgylchedd, trwy ddargyfeirio cymaint o wastraff â phosibl o safleoedd tirlenwi. Mae'r gyfradd ailgylchu ar gyfer y Bwrdd Iechyd oddeutu 97%; rhagwelir y bydd ailgylchu'n parhau i gynyddu yn dilyn mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i wella gwahanu gwastraff. Ar y cyd â menter 'Gofal Diogel Glân' er mwyn gwella diogelwch cleifion a lleihau heintiau'n barhaus, cafodd Digwyddiadau Glanhau ar gyfer y Gwanwyn a'r Hydref eu cynnal ym mis Ebrill a mis Hydref 2019, lle cafodd dodrefn heb eu defnyddio, gwastraff trydanol a metal eu casglu o 45 o safleoedd ar draws y Bwrdd Iechyd.

29.4.8 Cyhoeddwyd Llywodraeth Cymru dogfennau ymgynghori ar cynigion deddfwriaeth drafft i annog ailgylchu a gwaredu gwastraff priodol o safleoedd annomestig. Bydd y deddfwriaeth yn:

- Gofyn i safleoedd annomestig i gyflwyno defnyddiau ailgylchadwy i'w casglu ar wahan;
- Gwahardd llosgi'n ulw a tirlenwi i rhai defnyddiau ailgylchadwy i'w casglu ar wahan;
- Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o safleoedd busnes;
- Sancsiynau sifil i tramgwyddau troseddol cysylltiedig.

Cyflwynwyd y Bwrdd Iechyd ei hymateb i'r yngynghoriad yn Rhagfyr 2019.

29.4.9 Bu'r strategaeth weithredu i reoli ein Hymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) a oedd ar waith yn blynyddoedd blaenorol wedi ei dirymu bellach. Mae wedi cael ei disodli gan gynnydd i'r ardoll newid yn yr hinsawdd (CCL) sy'n cael ei gymhwyso'n uniongyrchol i'r biliau gwasanaethau.

29.4.10 Datblygwyd Cynllun Gweithredu Carbon ar ffurf safonol Llywodraeth Cymru. Bydd gweithredu'n cael ei fonitro a'i adrodd yn flynyddol. Mae mwyafrif yr eitemau ar y cynllun yn dibynnu ar ddyrannu adnoddau o Ddatblygiad Cyfalaf Mawr a'r Dyraniadau Cyfalaf Disgresiwn Blynyddol, a fydd yn amrywio bob blwyddyn. Bydd cynnydd y cynllun gweithredu felly'n dibynnu ar argaeledd adnoddau corfforaethol.

29.5 Gwasanaeth Lleol Gwrth Dwyll

- 29.5.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn Adroddiadau Cynnydd Gwrth Dwyll Lleol rheolaidd yn chwarterol ac Adroddiad Blyneddol yn ymwneud â gwaith Lleol Gwrth Dwyll a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Lleol Gwrth Dwyll yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi manylion am y prif ganlyniadau, yn cynnwys nifer y sancsiynau Troseddol a Disgyblu, yn ogystal â'r adenillion ariannol a ddiogelwyd.
- 29.5.2 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnal cyfarfod preifat dwyochrog blyneddol â Phennaeth y Gwasanaethau Lleol Gwrth Dwyll, i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r materion a risgiau cyfredol, fel yr argymhellir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru. Mae hyn yn ychwanegu at y sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ac yn arwain at berfformiad mwy effeithiol o'r Pwyllgor Archwilio wrth ymdrin â materion Gwrth Dwyll.
- 29.5.3 Yn ystod 2019/20, mae'r Tîm Lleol Gwrth Dwyll wedi cynnal ystod o weithgareddau, gan arwain at y canlyniadau a'r manteision a wireddwyd fel y nodir isod:
- Mae cyflwyniadau Ymwybyddiaeth am Dwyll yn cael eu rhoi'n rheolaidd i Staff y Bwrdd Iechyd mewn sesiynau hyfforddiant Cynefino Staff, drwy gyrsiau hyfforddi'r Rhaglen Camu i Reoli yn ogystal ag i grwpiau ad-hoc yn ôl yr angen. Mae'r cyflwyniadau Ymwybyddiaeth o Dwyll yn cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd ar Dwyll, Llwgwrwobraeth a Llygredd;
 - Mae cyflwyniadau Ymwybyddiaeth o Dwyll yn cael eu cyflwyno i Aelodau Gweithredol y Bwrdd Iechyd ac Aelodau Anweithredol pan wneir penodiadau newydd i'r Bwrdd;
 - Mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Gwrth Dwyll, Llwgwrwobraeth a Llygredd ar waith sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac mae wedi'i gyhoeddi yn y newyddlen electronig i staff ac mae ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd;
 - Gall y rhai sy'n dymuno rhoi gwybod am dwyll wneud hynny'n ddienw drwy Linell Adrodd Amddiffyn Twyll a Llygredd y GIG;
 - Mae negeseuon Gwrth Dwyll Lleol yn cael eu cynnwys yn slipiau cyflog staff;
 - Cyhoeddir gweithgareddau Atal Twyll sy'n cynnwys cyhoeddi adroddiadau cyfryngau sy'n ymwneud ag achosion llwyddiannus ar weithgareddau Gwrth-Dwyll yn rheolaidd yn newyddlen electronig staff y Bwrdd Iechyd ac fe'u hadroddir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth Cymru;
 - Mae gweithgareddau Atal Twyll sy'n cynnwys camau a gymerir i newid gweithdrefnau a ddynodwyd fel rhai mewn perygl o dwyll neu gamau i weithredu Proses Atal strwythuredig yn cael eu cynnal yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraeth Cymru;
 - Mae'r tîm Gwrth Dwyll Lleol wedi adrodd i'r Pwyllgor Archwilio am waith a wnaed, hyd at Chwarter 3 o 2019/20, sydd wedi arwain at adferiadau ariannol o arian cyhoeddus gwerth £283,058 yr adroddwyd amdanynt i Lywodraeth Cymru.

29.6 Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHCs) a Chyfarwyddiadau Gweinidogion

- 29.6.1 Cyhoeddwyd ystod o Gylchlythyrau Iechyd Cymru gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019-20 ac maent yn cael eu cofnodi'n ganolog yn y Bwrdd Iechyd a phenodir Cyfarwyddwr Gweithredol arweinïol i oruchwylio rhoi unrhyw gamau angenrheidiol ar waith, yn unol â'r tabl yn Atodiad 4.

- 29.6.2 Rhoddir copi o WHCs i bob Aelod Annibynnol ar ôl eu derbyn a chaiff copi ei storio ar y system feddalwedd ddi-bapur. Mae hyn yn galluogi i Aelodau Annibynnol sy'n Gadeiryddion Pwyllgorau sicrhau bod y Bwrdd neu un o'i Bwyllgorau yn cael gweld ei gynnwys fel bo'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei WHC ar ei [wefan](https://llyw.cymru/cylchlythyrau-iechyd) (<https://llyw.cymru/cylchlythyrau-iechyd>).
- 29.6.3 Cyhoeddir Cyfeiriadau Gweinidogion gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyhoeddiadau [iechyd a gofal cymdeithasol](https://llyw.cymru/cyhoeddiadau?keywords=&field_policy_areas%5B43%5D=43) (https://llyw.cymru/cyhoeddiadau?keywords=&field_policy_areas%5B43%5D=43). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i dderbyn a gweithredu gohebiaeth gyffredinol Gweinidogion gyda system logio ac olrhain ar waith. Cyfarwyddyd Gweinidogol allweddol a dderbyniwyd ac a ddosbarthwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn oedd ynghylch [Cynnig Treth Pensiwn y GIG 2019 i 2020](https://llyw.cymru/cyfarwyddyd-gweinidogol-ynghylch-y-cynnig-ar-dreth-pensiynaur-gig-2019-i-2020) (<https://llyw.cymru/cyfarwyddyd-gweinidogol-ynghylch-y-cynnig-ar-dreth-pensiynaur-gig-2019-i-2020>). Ysgrifennodd y Bwrdd Iechyd i pob un ymgynghorydd ag uwch reolwr roedd wedi cael ei effeithio, i'w hysbysu ynglyn a'r canllawiau cenedlaethol ac opsiynau.

30 Data

30.1 Diogelwch Data

- 30.1.1 Trosglwyddwyd y prif gyfrifoldeb dros lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd i'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2019, gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Sicrwydd Gwybodaeth yn ymgymryd â rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Yr Uwch Gyfarwyddwr Cyswllt Meddygol yw'r Gwarcheidwad Caldicott a benodwyd gan y Bwrdd Iechyd a throsglwyddir rôl yr Uwch Berchennog Gwybodaeth Risg i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid fel y nodwyd yn y Cynllun Cadw a Dirprwyo diwygiedig a gadarnhawyd gan y Bwrdd ar 23.1.20.
- 30.1.2 Adolygwyd statws llywodraethu gwybodaeth a diogelwch seibr y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd gan y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg a ddaeth yn ddiweddarach yn Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Digidol yn dilyn ailenwi a ddaeth i rym yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019.
- 30.1.3 Parhaodd adroddiadau sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol ar gydymffurfiaeth ac arfer Diogelu Data (gan gynnwys hyfforddiant gorfodol) a chydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth trwy gydol y flwyddyn.
- 30.1.4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal hunanasesiad blynyddol yn erbyn pecyn Caldicott C-PiP. Mae hyn wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal sgôr seren Dosbarth 4 gyda chydymffurfiaeth o 90% yn dal i gael ei gyflawni yn erbyn yr offeryn.
- 30.1.5 Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd hefyd asesiad sylfaenol peilot yn erbyn y Pecyn Offer Cenedlaethol Llywodraethu Gwybodaeth a fydd yn helpu i gryfhau trefniadau sicrwydd ac adrodd ar draws Cymru. Nid yw craffu ar yr asesiad wedi'i gytuno'n genedlaethol eto, ond bydd canlyniad yr asesiad sylfaenol yn sail i raglenni gwaith llywodraethu gwybodaeth yn y dyfodol.

30.1.6 Cymerodd y Bwrdd Iechyd hefyd ran yn archwiliad dilynol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ym mis Gorffennaf 2019 i gadarnhau'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r archwiliad gwreiddiol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018. Parhaodd yr archwiliad dilynol hwn i ganolbwyntio ar y tri phrif faes:

1. Llywodraethu ac Atebolrwydd;
2. Rheoli Cofnodion; a
3. Cheisiadau am Wybodaeth Personol.

Nododd yr ICO fod rhai gweithredoedd heb eu datrys yn bodoli, ond roedd cynnydd ystyrlon yn cael ei wneud gyda gweddill y camau sydd ar waith i liniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfio. Nodwyd meysydd o welliannau ac roeddent yn cynnwys set gynhwysfawr o ddeunyddiau ymwybyddiaeth y cyhoedd i hysbysu unigolion am brosesu teg a'u hawliau; datblygu QA ffurfiol a gweithdrefn golygu ar gyfer ceisiadau mynediad pwnc; cyflwyno hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer perchnogion asedau gwybodaeth a chynhyrchu deunyddiau ymwybyddiaeth staff sy'n ymwneud â thrin ceisiadau llafar.

30.1.7 Adroddodd y Bwrdd Iechyd 6 dor diogelwch data a sbardunodd cyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Y rhain oedd:

- Un yn ymwneud â cholli ffeil personol;
- Un yn ymwneud â cholli cofnodion;
- Un yn ymwneud â mynediad amhriodol parhaus i systemau gan aelod o staff;
- Un yn ymwneud â lladrad cofnodion;
- Un yn ymwneud ag anfon gwybodaeth at y cyfeiriad anghywir;
- Un yn ymwneud â chofnod yn cael ei adael yng nghartref claf arall.

30.1.8 Mae'r holl ddigwyddiadau wedi cael eu cau gan y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth. Nid oedd tri angen unrhyw gamau pellach gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd y camau gweithredu a'r gwelliannau a oedd ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Darparodd y Comisiynydd Gwybodaeth argymhellion ar gyfer dau o'r digwyddiadau ynghyd â chais am gopi o adroddiad terfynol yr ymchwiliad a oedd yn ymwneud â mynediad amhriodol parhaus. Nid yw'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth yn cymryd unrhyw gamau pellach o ran y 3 digwyddiad hwn. Ni chafodd y bwrdd unrhyw gosb ariannol yn ystod y flwyddyn.

30.1.9 Fel rhan o'r broses i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn dilyn ymchwiliad i ddigwyddiadau, mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi cymryd sawl cam, gan gynnwys:

- Rhoi gwybod i unigolion / pynciau data yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad a darparu cefnogaeth briodol lle bo angen;
- Cwblhau asesiadau risg gweithio gartref, sydd hefyd wedi'u cynnwys yn y sesiynau hyfforddiant gorfodol wyneb wrth wyneb i godi ymwybyddiaeth staff ymhellach;
- Mae bwletinau llywodraethu gwybodaeth chwarterol sy'n tynnu sylw at wersi a ddysgwyd yn cael eu dosbarthu ar draws y sefydliad ac maent ar gael i staff ar safle'r fewnrwyd;
- Atgoffwyd staff o bwysigrwydd rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar Datix (system rheoli digwyddiadau'r Byrddau Iechyd) er mwyn dynodi tueddiadau ac i wneud gwelliannau a hefyd yr angen i roi gwybod am achosion difrifol o dorri rheolau i'r ICO a Llywodraeth Cymru yn allanol cyn pen 72 awr ar ôl cael gwybod amdanynt;

- Mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi cynyddu nifer y sesiynau hyfforddiant ychwanegol sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau yn y gymuned ac mewn safleoedd llym i barhau i wella ymwybyddiaeth staff;
- Atgoffwyd staff i anfon gwybodaeth yn electronig ble bo'n bosibl ac i amgryptio / rhoi cyfrinair i ddiogelu'r wybodaeth.

30.1.10 Tua diwedd y flwyddyn, rhoddwyd trefniadau gwaith diwygiedig sylweddol ar waith i gefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Pandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio Clinigau Rhith, ymgynghoriadau dros y ffôn a Skype a gweithio o gartref. Datblygwyd asesiad effaith ar ddiogelu data i sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data yn parhau a bod modd ei harchwilio.

30.2 Ansawdd Data

- 30.2.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid ei ddata, ac mae gwiriadau rheolaidd yn eu lle i sicrhau y gellir dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth. Fodd bynnag, golyga lluosogrwydd systemau a mewnbynnu data ar draws y sefydliad fod posibilrwydd o amrywiaeth mewn ansawdd yn bodoli bob amser, felly mae bob amser lle i wella fel fel y mae'r enghraifft yn adran 24.3 o'r Datganiad hwn yn ei ddangos.
- 30.2.2 Yn ystod 2019/20, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwaith uwchraddio i System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae'r prosiect i roi'r system ar waith yn Ysbyty Gwynedd hefyd yn mynd rhagddo, ond bydd y pandemig COVID-19 yn effeithio ar y gwaith. Mae rhoi un enghraifft o WPAS ar waith ar draws Gogledd Cymru yn parhau i fod yn amcan allweddol i'r sefydliad.
- 30.2.3 Wrth i'r Bwrdd Iechyd ddechrau safoni ar un System Gweinyddu Cleifion, gyda'r potensial am un ffordd o weithio, mae dangosfyrddau ansawdd data amser real wedi'u cyflwyno i gynorthwyo staff gweithredol i gymryd perchnogaeth o gamgymeriadau. Bydd hyn yn cefnogi'r agenda safoni, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n rhagweithiol i sicrhau ansawdd y data fel rhan o brosiect WPAS Ysbyty Gwynedd. Mae'r sefydliad wedi gweithredu nifer o ddangosfyrddau byw ar ffurf cwmwl yn llwyddiannus gan ddarparu mynediad amser real at ddata ar ffurf arloesol a deniadol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau Llawr yr Adran Achosion Brys, cyfradd llenwi byw Ward drwy fwrdd gwyn, cyfrifiadur a dyfais symudol.
- 30.2.4 Gwelwyd pwyslais parhaus yn y 12 mis diwethaf ar fynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn codio clinigol yn erbyn y targedau diwygiedig. Cyflawnodd yr adran y targed sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar gynaliadwyedd.
- 30.2.5 Mae'r Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad misol a gyflwynwyd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2019-20 yn cynnwys data ar berfformiad yn erbyn cynllun Blynnyddol y bwrdd iechyd a dangosyddion y fframwaith cyflawni cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn yn ogystal â dangos y perfformiad yr adroddwyd arno yn y cyfnod cyfredol a blaenorol. Ble bo'r data hwn ar gael, mae'r data hwn wedi'i feincnodi gyda data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2019/20 newidiwyd sgôr coch-ambr-gwyrdd (RAG) perfformiad adrodd y cyfnod presennol i gyd-fynd â lefelau perfformiad bwriadedig y Bwrdd sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Blynnyddol. Mae hyn yn cynorthwyo'r Bwrdd i graffu ar feysydd ble mae amrywiad yn uwch nag y disgwylir iddo fod, ac mae hefyd yn caniatáu'r awdurdod i gyfranwyr dynnu sylw at unrhyw faterion yn ymwneud ag ansawdd data yn eu hadroddiadau o eithriadau.

- 30.2.6 Trwy gydol 2019-20 cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cynllun Blynyddol i'r Pwyllgorau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, Cyllid a Pherfformiad, Strategaeth, Cynllunio ac Iechyd y Boblogaeth, Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol ac i'r Bwrdd i fyfyrion ar y cynnydd misol ar gamau gweithredu o fewn y Cynllun Blynyddol. Mae arweinwyr gweithredol ar gyfer pob gweithred wedi graddio'r cynnydd gyda RAG gan ddarparu naratif i egluro unrhyw gamau Coch. I ategu gofynion ansawdd data, samplwyd y camau ar hap bob chwarter gyda thystiolaeth ychwanegol yn cael ei darparu i gefnogi'r sgôr a briodolir i'r weithred a gwirio cyfraddau cysondeb rhwng arweinwyr gweithredol. Yn nhraean olaf y flwyddyn, roedd angen naratifau hefyd i gamau gweithredu â gradd Ambr roi sicrwydd ychwanegol bod camau cywir ar waith i wella'r tebygolrwydd o gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.
- 30.2.7 Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd dangosyddion ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd y rhain yn dilyn asesiadau effaith a gynhaliwyd drwy NWIS a gyda diffiniadau o ran methodoleg casglu data a echdynnu data. Cydnabyddir nad yw rhywfaint o'r ansawdd data'r dangosyddion newydd hyn ar yr un lefel â dangosyddion blaenorol, gan fod y data wedi'i gasglu â llaw a'i fod y tu allan i systemau rheoli data sefydledig. Mae'r dangosyddion hyn wedi bod yn ganolbwynt i waith mewnol i wella ansawdd data a hefyd yn destun trafodaeth genedlaethol o fewn y gwasanaeth penodol a drwy'r Grŵp Rheolwyr Perfformiad Cymru Gyfan.
- 30.2.8 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn fodlon bod ansawdd data yn ddigon cywir i allu nodi patrymau neu dueddiadau mewn perfformiad. Mae gwelliant parhaus o ran ansawdd data yn parhau i fod yn broses barhaus, mae'r Adran Wybodaeth wedi sefydlu tîm ansawdd data o fewn eu swyddogaeth. Mae CHKS yn darparu adroddiadau ar ansawdd data i'r Bwrdd Iechyd. Lle bo materion ansawdd data yn hysbys, maent yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau ar gyfer yr is-bwyllgorau ac mae ansawdd data wedi'i gynnwys yng nghofrestr risg y gyfarwyddiaeth.

31. Adolygu Effeithiolrwydd

- 31.1 Fel y Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheoli mewnol wedi cymryd i ystyriaeth gwaith yr Archwilwyr Mewnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheoli mewnol, a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.
- 31.2 Mae fy adolygiad hefyd wedi cael ei arwain gan:
- Adborth gan Lywodraeth Cymru a'r datganiadau penodol a gyflwynir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
 - Archwiliadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
 - Cynlluniau archwilio ac adroddiadau gan archwilwyr allanol a mewnol;
 - Adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned;
 - Adborth gan Gomisiynwyr statudol;
 - Adborth gan staff, cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd;
 - Sicrwydd a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill y Bwrdd;
 - Asesiad Strwythuredig WAO.

31.3 O'r ffynonellau amrywiol o dystiolaeth, gan gynnwys Asesiad Strwythuredig 2019 WAO yn canfod *'bod agweddau ar lywodraethu a rheoli mewnol i'w nodi yn cynnwys...datblygu trefniadau sicrwydd i'r bwrdd, rhaglenni a phrosesau rheoli risg ac archwilio clinigol'* yn ogystal â'r sicrwydd rhesymol a roddwyd gan Archwilio Mewnol (gweler adran 32.3), ar y cyfan, rwy'n fodlon ar effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Fel y gwelwyd gan WAO, mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n dangos *'manwl-gywirdeb a herio gwell'*, wedi'u tanategu gan elfennau allweddol sy'n ategu effeithiolrwydd, fel adroddiadau sicrwydd cadeiryddion pwyllgorau aelodau annibynnol i'r Bwrdd llawn, cydlynu gwaith Grŵp Rheoli Busnes y Pwyllgor ac allbynnau'r Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan WAO a ffynonellau eraill o dystiolaeth, mae lle i wella ymhellach o ran y system rheoli mewnol a threfniadau llywodraethu. Fel y cyfryw, mae cydweithwyr yn gweithio'n barhaus i wella effeithiolrwydd systemau llywodraethu'r Bwrdd lechyd mewn nifer o ffyrdd trwy, er enghraifft:

- Adolygu strwythurau llywodraethu dan arweiniad y Dirprwy Brif Weithredwr a chefnogaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar adrodd mewn Pwyllgorau a Grwpiau'n adrodd drwy Weithredwyr atebol;
- Rhaglen Datblygu Bwrdd strwythuredig ac wedi'i hwyluso sy'n cyd-fynd ag anghenion cyfunol ag unigol;
- Rhoi argymhellion adolygiadau allanol ar waith;
- Adolygiad parhaus o bolisiau BIPBC cyfan a threfniadau newydd y fewnrwyd a'r rhyngrwyd;
- Adrodd Integredig Perfformiad a'r fframwiath atebolrwydd diwygedig;
- Ymdrechion parhaus i fodloni disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig;
- Argymhellion o archwiliadau mewnol;
- Gwaith parhaus i wella rheolaeth pryderon a honiadau.

Gweler hefyd adran 29.6 ynglŷn â WHCs y gweithredwyd arnynt yn ystod y cyfnod adrodd.


32 Archwilio Mewnol

32.1 Mae archwilio mewnol yn darparu llif o sicrwydd am y system reoli fewnol i mi fel Swyddog Atebol ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio. Comisiynwyd rhaglen o waith archwilio ac fe'i darparwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunwyd ar sgôp y gwaith hwn â'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn goruchwyllo olrhain cynnydd camau rheoli mewn ymateb i argymhellion archwilio mewnol.

32.2 Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheoli risg yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus. O ganlyniad i bandemig COVID-19 ac ymateb y Bwrdd lechyd, nid oedd Archwilio Mewnol yn gallu cwblhau ei rhaglen archwilio. Fodd bynnag, cwblhawyd digon o waith archwilio er mwyn rhoi barn yn ôl gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

32.3 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad:

“Mae sgôp fy marn wedi cael ei gyfyngu i'r meysydd a archwiliwyd yn y cynllun archwilio'n seiliedig ar risg y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system reoli mewnol a chael ei weld fel sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu'r sefydliad, rheoli risg a rheolaeth yn cael ei nodi isod.”

	Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd rhesymol bod trefniadau i ddiogelu llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol o fewn y meysydd hynny sydd dan adolygiad, wedi cael eu cynllunio a'u defnyddio'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheolwyr o ran cynllunio rheoli neu gydymffurfiaeth gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg dros ben nes bydd wedi'i ddatrys.
---	---

Dylid rhoi pwyslais penodol ar yr ymateb y cytunwyd arno i *unrhyw adroddiadau* cyfyngedig neu *nad yw'n rhoi sicrwydd* a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn ac arwyddocâd yr argymhellion a wnaed.

32.4 Yr hyn sy'n Sail i'r Farn

Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cymhwyso barn broffesiynol a chanllaw Archwilio a Sicrwydd *"Meini prawf Cefnogi ar gyfer y Farn Gyffredinol"* a gynhyrchwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd a rannwyd gyda rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i gasgliad y gellir adrodd *sicrwydd rhesymol* ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Rheoleiddio; Llywodraethu a Rheoli Ariannol; Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch; Gwasanaeth Gweithredol a Rheoli Swyddogaethol a pharth Rheoli Cyfalaf ac Ystadau; ond gellir ond rhoi *sicrwydd cyfyngedig* ar gyfer Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd; Ansawdd a Diogelwch; a pharthau Rheoli Gweithlu.

Dylid nodi bod deuddeg adolygiad wedi'u gohirio o'r cynllun eleni a allai gael effaith gadarnhaol/negyddol ar y gyfradd sicrwydd parth penodol.

Mae'r sail tystiolaeth y mae'r farn gyffredinol yn cael ei seilio arni yn cael ei ffurfio fel a ganlyn:

- Asesiad o'r ystod o farnau unigol yn codi o aseiniadau archwilio ar sail risg, sydd mewn cynlluniau archwilio mewnol a hysbyswyd i'r Pwyllgor Archwilio trwy gydol y flwyddyn. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol wrth wneud gwelliannau rheoli;
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio sy'n gysylltiedig â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yw'n briodol, y dystiolaeth sydd ar gael y mae'r Bwrdd wedi dod at ei ddatganiad o ran hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; ac
- Adolygiadau sicrwydd eraill sy'n cael effaith ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol gan gynnwys gwaith archwilio mewn sefydliadau eraill.

Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi cael eu cydgrynhoi i greu darlun o sicrwydd ar draws yr wyth parth sicrwydd allweddol, sef yr hyn a ddefnyddir fel ffrâm gan y cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg. Ble nad oes tystiolaeth ddigonol i ddod i gasgliad cadarn, nid yw'r parth sicrwydd yn cael ei raddio.

Hefyd, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad dros ben i risg ar draws yr aseiniadau hynny lle na adroddwyd am unrhyw sicrwydd, neu sicrwydd cyfyngedig. Hefyd, ni aeth nifer o aseiniadau archwilio a gynlluniwyd eleni ymlaen i archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio rhagarweiniol ac roedd y rhain naill ai: wedi'u tynnu o'r cynllun; ei dynnu o'r cynllun a rhoi archwiliad arall yn ei le; neu wedi'i ohirio hyd nes flwyddyn archwilio yn y dyfodol. Ble gwnaed newidiadau i'r cynllun archwilio yna cyflwynwyd y rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er gwaethaf y ffaith bod y farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd hynny a oedd yn destun adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth lunio ei farn gyffredinol.

Amlinellir crynodeb o'r darganfyddiadau ym mhob un o'r parthau isod. Mae cod lliw ar gyfer pennawd pob parth i ddangos y sicrwydd cyffredinol ar gyfer y parth hwnnw. Mae coch yn nodi dim sicrwydd, ambr yn nodi sicrwydd cyfyngedig, melyn yn nodi sicrwydd rhesymol a gwyrdd yn nodi sicrwydd sylweddol.

Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Rheoleiddio (Melyn – sicrwydd rhesymol)

- Ein hadolygiadau'n ymwneud â Safon Rheoli Hawliadau Cronfa Risg Cymru, Iechyd a Diogelwch, Cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog - Caffael nwyddau a gwasanaethau: Ystadau - GRAMMS a Chydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog - Caffael nwyddau a gwasanaethau: Therapiau - Cofnododd y Rheolwr Therapi sicrwydd rhesymol, ble dynodwyd rhai problemau cydymffurfiaeth â'r rheolaethau disgwylidig.
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 / Welsh Language (Wales) Measure 2011 - Nid yw strategaeth sgiliau dwyieithog y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r swyddi hynny a nodir fel rhai Cymraeg hanfodol – sicrwydd cyfyngedig / The Health Board Bi-lingual skills strategy is not being complied with for those posts stipulated as Welsh essential – limited assurance.

Cynllunio Strategol, Rheoli Perfformiad ac Adrodd (Ambr – sicrwydd cyfyngedig)

- Adolygiad llywodraethu Partneriaeth - dynododd Cytundeb Adran 33 ddiffyg sicrwydd wedi'i adrodd drwy'r strwythur rheoli a strwythur y Pwyllgor ynghylch pob cytundeb Adran 33. Yn ogystal, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r Offer Statudol ble mae'n bartner cynnal - sicrwydd cyfyngedig.
- Adrodd ar fesur perfformiad i'r Bwrdd - Gohiriwyd adolygiad cywirdeb gwybodaeth o'r cynllun, ar ôl cytuno ar y sgôp gyda'r Pwyllgor Archwilio i ddadansoddi cywirdeb adrodd ar weithgareddau RTT i'r Bwrdd.

Llywodraethu a Rheoli Ariannol (Melyn- sicrwydd rhesymol)

- Adolygu gosod Cyllideb - dynododd Ysbyty Maelor Wrecsam, fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer gosod cyllidebau 2019/20, fodd bynnag, wrth adolygu costau swyddi gwag, nid oedd dogfennaeth wrth gefn wedi'i chadw ac nid oeddent ar gael ar gyfer yr adolygiad, felly nid oedd yn bosibl i ni gadarnhau bod gofynion y strategaeth cyllideb wedi'u bodloni - sicrwydd rhesymol.

- Gordaliadau cyflog - Gwnaethom ddynodi nad ymgynghorwyd ar y weithdrefn a oedd ar waith a bod gordaliadau'n cynyddu, yn rhannol oherwydd bod ffurflenni staff sy'n gadael yn cael eu cyflwyno'n hwyr i'w prosesu - sicrwydd cyfyngedig.
- Mae ein gwaith ar Gyflawni Arbedion yn erbyn cynlluniau a ddynodwyd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd yn mynd rhagddo ond nid ydym wedi gallu gorffen yr archwiliad hwn ar ddyddiad cyflwyno'r farn hon. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad a'n canfyddiadau fel rhan o raglen archwilio 2020/21.
- Roedd gwaith archwilio wedi'i gynllunio i edrych ar reoli cynlluniau arbedion ar draws y Bwrdd Iechyd, ond byddai cwrpas y gwaith Archwilio Mewnol wedi ymdrin â thir tebyg i'r hyn a wnaed gan Price Waterhouse Coopers (PwC) ac o'r herwydd gohiriwyd y rhan hon er mwyn osgoi dyblygu posibl. Dechreuodd PwC waith yn y Bwrdd Iechyd ar 1 Ebrill 2019 a pharhaodd i gefnogi rhaglen arbedion y Bwrdd Iechyd hyd at 5 Gorffennaf 2019. Cyhoeddodd PwC ddau adroddiad, *Adolygiad Gwariant (Gafael a Rheolaeth)* ar 26 Ebrill 2019 [22 argymhelliad] ac *Adolygiad Gwaelodlin Ariannol* ar 15 Mai 2019 [32 argymhelliad].

Ansawdd a Diogelwch (Ambr – sicrwydd cyfyngedig)

- Cofnododd ein hadolygiad o drefn ddilydol Diogelu sicrwydd sylweddol ac roedd yr holl argymhellion wedi'u rhoi ar waith, ar adeg ein hadolygiad.
- Adolygiad o Ddatganiad Ansawdd Blyneddol ac adroddiadau allanol HASCAS ac Ockenden – Cofnododd yr adolygiad ar gynnydd gydag argymhellion ac adrodd (yn seiliedig ar yr adolygiad o dri argymhelliad a dderbyniwyd hyd yma) sicrwydd rhesymol.
- Dynododd yr adolygiad o Asesiad Effaith Ansawdd nad oedd rhai Dogfennau Cychwyn Prosiect (PIDs) wedi'u cwblhau yn unol â'r weithdrefn a oedd ar gael i ni ac ni allem ddynodi adroddiadau effeithiol gyda Grwpiau Gwella craffu posibl dros PIDs ar gyfer adroddiadau sicrwydd i'r Grŵp Adfer Cyllid - sicrwydd cyfyngedig.
- Dynododd Adolygiad diheintio ddiffyg adrodd ar faterion o bwys ar gyfer dwysáu gan y Grwpiau Atal Haint Lleol (LIPGs) ynghyd â chanfod bod sawl cyfarfod wedi'u canslo o fewn y trefniadau llywodraethu ac adrodd. Dangosodd yr Adran Diheintio ddull wedi'i gynllunio gyda'r pecyn hunan-archwilio, fodd bynnag fe wnaethom ddarganfod nad oedd y pecynnau hunan-archwilio'n cael eu trafod fel mater o drefn yn yr LIPG; ni ddarparwyd tystiolaeth bod dwy adran wedi cwblhau'r pecyn hunan-archwilio ac nid oedd cwestiynau yn y pecyn hunan-archwilio'n canfod p'un a oedd cemegau wedi'u hasesu'n gywir - sicrwydd rhesymol.
- Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) - Dynododd yr adolygiad ddiffyg gweithdrefn weithredol leol yn egluro disgwyliadau wardiau / adrannau fel yr Awdurdod Rheoli; nid oes digon o Aseswyr Budd Gorau sy'n golygu bod y Bwrdd Iechyd mewn perygl o gael cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â gofynion Deddfwriaeth DoLS. Yn ogystal, weithiau roedd rhai ceisiadau DoLS yn anghyflawn ac nid oedd tystiolaeth o adrodd am fethiannau'n amlwg - sicrwydd cyfyngedig.
- Strategaeth Gwella Ansawdd - nid oeddem yn gallu cadarnhau bod y Strategaeth wedi cyflawni'r camau a fwriadwyd dros y tair blynedd gan nad oedd cynllun tanategol yn nodi beth roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei wneud. Roedd adroddiadau cyfyngedig ar gynnydd yn amlwg ac nid yw Byrddau Croeso ar draws rhai wardiau yn cael eu cynnal - sicrwydd cyfyngedig.

Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch (Melyn – sicrwydd rhesymol)

- GDPR - Dynododd dilyniant adolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) reolaeth gadarn dros y cynllun gweithredu gydag amserlen glir ar gyfer gweithredu - tystiolaeth gyfyngedig o adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Pwyllgor - sicrwydd rhesymol.
- Dynododd adolygiad diogelwch seibr fod angen cymeradwyaeth a bod diffyg tystiolaeth o adrodd ar sicrwydd trwy strwythur y Pwyllgor i'r Bwrdd ar gyfer polisi diogelwch seibr - sicrwydd rhesymol.

Gwasanaeth Gweithredol a Rheoli Swyddogaethol (Melyn – sicrwydd rhesymol)

- Dynododd adolygiad y gwasanaeth cludiant cleifion nad oedd yn frys (NEPTS) fod diffyg rheoli perfformiad o ran monitro contract NEPTS. Yn ogystal, roedd cyflwyno contract NEPTS Cymru Gyfan, gan WAST wedi llithro - sicrwydd rhesymol.
- Dynododd adolygiad o Feddygfeydd a Reolir gyfleoedd i wella'r trefniadau craffu llywodraethu a pherfformiad o amgylch meddygfeydd a reolir, gan gydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu rheoli ei holl feddygfeydd o dan uned meddygfeydd a reolir - sicrwydd rhesymol.
- Dilyniant ar y cyd â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Tîm Iechyd Meddwl Cymuned Conwy (CMHT) - roedd yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan swyddogion yn Uwch Adran Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i fynd i'r afael â chanfyddiadau / argymhellion penodol a wnaed gan adroddiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol Conwy ar CMHT Conwy. Nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud ar draws yr holl argymhellion heblaw am un. Rydym yn credu mai'r unig ffordd o fynd i'r afael â'r argymhellion gwreiddiol gan archwilywyr y Cyngor yw datblygu cytundeb ffurfiol Adran 33 rhwng y ddau barti - sicrwydd ddim yn berthnasol
- Monitorau Cleifion Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd - dynododd yr adolygiad fod angen gwella trefniadau llywodraethu a thryloywder mewn cofnodi penderfyniadau yn Ysbyty Gwynedd - sicrwydd ddim yn berthnasol.

Rheoli Gweithlu (Ambr – sicrwydd cyfyngedig)

- Arolwg staff GIG Cymru - dynododd yr arolwg cyflwyno canfyddiadau na chafwyd craffu cyffredinol ar gynlluniau cyflenwi uwch adrannau fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor ac roedd diffyg tystiolaeth ym maes Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD) a Gofal Eilaidd Ysbyty Gwynedd bod y trefniadau llywodraethu priodol yn adolygu'r arolwg staff fel mater o drefn. Ni fu'n bosibl nodi'n bendant bod y cynnydd yr adroddir arno yn erbyn pob cynllun darparu, ar gyfer rhai, yn mynd i'r afael â'r camau gweithredu oherwydd gweithredoedd penodol / mesuradwy cyfyngedig - sicrwydd cyfyngedig.
- Recriwtio - dynododd adolygiad staff Meddygol a Deintyddol fod ansawdd data a chwblhau meysydd penodol yn wael; mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gael data ystyrlon. Mae'r amser a gymerir wrth gyflwyno cais rheoli sefydliadol i gwblhau gwiriadau cyn cyflogi yn cymryd 104 diwrnod ar gyfartaledd; mae gallu gwasanaethau / uwch adrannau i ddarparu gwasanaethau'n cael ei danseilio gan y broses recriwtio hir ac fe allai effeithio ar ymdrechion i leihau costau locwm / asiantaeth. Mae'r adolygiad o ddata TRAC yn nodi y gall y cyfnod rhwng dyddiadau cau hysbysebion a llunio rhestr fer ychwanegu oedi sylweddol; nid yw'n eglur pam mae dyddiad cau a cham llunio rhestr fer yn cymryd cymaint o amser gan y bydd rheolwyr recriwtio yn gwybod ymlaen llaw beth yw'r dyddiad cau ac yn cael digon o amser i drefnu i sicrhau bod rhestr fer yn cael ei llunio - sicrwydd cyfyngedig.

- Rheoli rhestrau dyletswyddau - Mae ein gwaith ar reoli rhestrau dyletswyddau ar hyn o bryd yn mynd rhagddo, ond nid ydym wedi gallu gorffen yr archwiliad hwn ar ddyddiad cyhoeddi'r farn hon. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad a'n canfyddiadau fel rhan o raglen archwilio 2020/21.

Rheoli Cyfalaf ac Ystadau (Melyn – sicrwydd rhesymol)

- Derbyniodd yr adolygiad o'r Gorchymyn Ymrwymiad Lleihau Carbon sicrwydd sylweddol a nodwyd cydymffurfiaeth lawn â'r rheolaethau disgwylidig.
- Nododd adolygiad cynaliadwyedd amgylcheddol fod angen datblygu strategaeth gynaliadwyedd cyffredinol y Bwrdd Iechyd a bod gwybodaeth berthnasol a chywir wedi'i chynnwys yn yr adroddiad - sicrwydd rhesymol.
- Cydymffurfiaeth Statudol: Dynododd adolygiad Diogelwch Tân fod y Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol wedi'i ailsefydlu ynghyd â'r camau rhagweithiol a gymerwyd i ail-fywiogi'r agenda iechyd a diogelwch o fewn y Bwrdd Iechyd ac ar ei draws. Fodd bynnag mae'n rhaid i adrodd a sicrwydd gan gyfarwyddiaeth/uwch adrannau wella er mwyn darparu sicrwydd i'r Gweithredwr a'r Bwrdd - sicrwydd rhesymol.
- Dynododd adolygiad Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd fod adrodd ar gynnydd prosiect yn amlwg, fodd bynnag roedd oedi gyda'r prosiect a dynodwyd problemau o amgylch rhwystrau - sicrwydd rhesymol.
- Dynododd adolygiad Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych nad yw cyfarfodydd bwrdd prosiect wedi bod yn cyfarfod yn fisol ac mae angen cymeradwyo contractau - sicrwydd rhesymol.
- Dynododd adolygiad o Gronfeydd Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau rai materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Bwrdd Prosiect ac amserlen un cais cynllunio - sicrwydd rhesymol.
- Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd - dynododd gweithrediad y Mekanwaith Poen / Cynnydd ac adolygiadau Poen / Cynnydd Agored Ysbyty Glan Clwyd rai materion rheoli i reolwyr eu hystyried - roedd y ddau adolygiad yn sicrwydd rhesymol.

32.5 Yng ngoleuni Covid-19, mae Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar feysydd risg blaenoriaeth, systemau critigol busnes, a rhoi sicrwydd i reolwyr ar draws y tymor canolig ac yn ystod y flwyddyn weithredol sydd i ddod. Fel ag yn unrhyw flwyddyn, bydd y Cynllun yn parhau i gael ei adolygu a gallai fod yn ddarostyngedig i newid i sicrhau ei fod yn parhau i fod addas at ei ddiben. Mae'r swyddogaeth yn arbennig o ymwybodol o lefel yr ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran y pandemig COVID-19. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut y bydd y pandemig yn effeithio ar gyflawni'r Cynllun dros y flwyddyn i ddod. I'r perwyl hwn bydd angen hyblygrwydd, ac i ailedrych ar ffocws ac amseriad y gwaith arfaethedig, ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn.

33. Archwilio Allanol

- 33.1 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, cynhaliodd staff Swyddfa Archwilio Cymru (WAO - a elwir yn Archwilio Cymru erbyn hyn) Asesiad Strwythuredig, fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y datganiad hwn. Roedd yr Asesiad yn ymdrin â phum prif faes yn ymwneud â chyllid a pherfformiad; gweledigaeth strategol; gweddnewid a thrawsnewid; trefniadau llywodraethu; a materion recriwtio, cynhyrchiant a moderneiddio'r gweithlu. Derbyniodd y Bwrdd argymhellion yr Asesiad Strwythuredig a chymeradwywyd yr ymateb rheoli cysylltiedig yn ei gyfarfod ar 23.1.20. Prif gasgliad WAO yn dilyn ei Asesiad Strwythuredig oedd:

"Ein casgliad cyffredinol o waith asesu strwythuredig 2019 yw bod y Bwrdd lechyd yn dal i fynd i'r afael â llawer o'r heriau allweddol a ddynodwyd gennym yn asesiad strwythuredig y llynedd. Mae tystiolaeth o welliannau o ran rhai metrigau ansawdd pwysig ynghyd ag ymrwymiad a chmau i fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog gyda chyllid ac agweddau allweddol ar berfformiad. Fodd bynnag, yn achos yr un olaf, mae llawer wedi'i anelu at atebion tymor byr nad ydynt eto'n sicrhau graddfa'r gwelliant sydd ei angen. Mae'r angen i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth sy'n darparu gwasanaethau clinigol sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn glinigol bellach yn bwysicach nag erioed. Mae angen bwrw ymlaen â hyn fel rhan o ddull gweithredu ar draws y Bwrdd lechyd sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus a thrawsnewid gwasanaethau."

- 33.2 Mae cynnydd yn parhau i gael ei fonitro trwy'r pecyn olrhain archwilio. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad yn erbyn yr argymhellion maes o law. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, derbyniodd y Bwrdd yr Adroddiad Archwilio Blyneddol WAO 2019 a'i nodi'n ffurfiol.
- 33.3 Manylir isod ar negeseuon allweddol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y'u nodir yn yr Adroddiad Archwilio Blyneddol. Gellir cael mynediad at fwy o fanylion o'r adroddiad llawn drwy [wefan](https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adolygiad-o-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus) Archwilio Cymru (<https://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/adolygiad-o-fyrddau-gwasanaethau-cyhoeddus>):

"Archwiliad o'r Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol:

- Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd lechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol ac na ddynododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd lechyd sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoi.*
- Fodd bynnag, wrth gyhoeddi'r farn ddiamod hon, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Gwnaethom gydnabod y cyflawniad sylweddol wrth baratoi'r cyfrifon erbyn y dyddiad cyflwyno a bod y Bwrdd lechyd wedi gwella rhai o'i arferion cyfrifyddu ers y flwyddyn flaenorol, er bod lle i wella ymhellach.*
- Ni chyflawnodd y Bwrdd lechyd falans ariannol am y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn gymwysedig ar gysondeb trafodion ariannol yn ei gyfrifon 2018-19.*
- Ochr yn ochr â fy marn archwilio, gosodais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd lechyd i dynnu sylw at ei fethiant i sicrhau cydbwysedd ariannol a hefyd ei fethiant i roi cynllun tair blynedd cymeradwy ar waith.*

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi wrth ddefnyddio adnoddau

Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2019 yn y Bwrdd Iechyd wedi darganfod:

- er bod tueddiadau ansawdd perfformiad yn gadarnhaol, mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol ac mae heriau'n parhau o ran perfformiad gwasanaethau.*
- mae angen datblygu gweledigaeth a chynllun strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru sy'n gynaliadwy yn glinigol ac yn ariannol.*
- er bod tystiolaeth o gamau o ran gweddnewid a thrawsnewid, nid yw'r rhain wedi sicrhau'r gwelliannau gofynnol hyd yma. Mae angen cydbwyso gweithredoedd byrdymor i reoli costau â chynlluniau gwella a moderneiddio gwasanaethau hirdymor.*
- mae trefniadau llywodraethu yn gwella'n gyffredinol, ond mae angen cryfhau elfennau o'r strwythur uwch reoli a sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn parhau'n gydlynol ac yn adeiladol.*
- mae trefniadau rheoli gweithlu'n amlwg yn cryfhau, ond mae heriau ers amser maith o ran recriwtio, cynhyrchiant a moderneiddio."*

33.4 Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Bwrdd Iechyd ar 19.3.20 i roi gwybod bod Archwiliad Cymru wedi atal agweddau ar ei waith - archwiliadau ar y safle - er mwyn caniatáu blaenoriaethu'r ymateb i COVID-19.

34. Casgliad

34.1 Fel Swyddog Atebol, yn seiliedig ar y broses adolygu a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol o ran rheoli mewnol. Gan ystyried y dystiolaeth y manylir arni yn y Datganiad hwn, ynghyd ag adborth gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Mesurau Arbennig, gan Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) trwy eu Hasesiad Strwythuredig ac o asesiad sicrwydd Archwiliad Mewnol, rwyf wedi dod i'r casgliad ar y cyfan bod effeithrwydd y system reoli mewnol yn foddhaol, er bod rhai materion theoli mewnol/ llywodraethu sylweddol wedi'u dynodi. Adroddwyd ar y materion hyn yn y naratif blaenorol sy'n nodi'r materion a'r camau sy'n cael eu cymryd. O ran y cyfnod cyn fy apwyntiad fel Swyddog Atebol, rwyf wedi cael sicrwydd o'r wybodaeth a welais oherwydd fy rôl fel Dirprwy Prif Weithredwr GIG Cymru.

34.2 Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn anodd ac yn heriol i'r sefydliad. Er bod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, mae sawl maes allweddol yn cyfrannu at y ffaith bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn mesurau arbennig.


34.3 Yn ogystal â symud ymlaen â'r gwaith a restrir yn adran 31.3, a mynd i'r afael â'r risgiau a nodir yn adran 19 y Datganiad hwn, y meysydd sydd o flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd eu gwella a chanolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod, fydd:

- Cydbwyso'r angen i ymateb i'r pandemig COVID-19 yn erbyn adferiad a'r angen i redeg busnes fel arfer ochr yn ochr â'i gilydd;
- Gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng iechyd a chyfleoedd ar gyfer trawsnewid;
- Ymdrechion parhaus sy'n ceisio sicrhau codi'r mesurau arbennig;
- Gwella perfformiad ym maes gofal heb ei drefnu ac ar RTT;

- Gwella'r sefyllfa ariannol;
- Cynyddu capasiti a gallu cynllunio gwasanaeth a chynllunio strategol;
- Parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol, yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol;
- Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gymhwyso egwyddorion arfer gorau wrth lywodraethu'r sector cyhoeddus.

- 34.4 Fel Swyddog Atebol, rwy'n glir iawn ar y gwelliannau y mae'n rhaid eu gwneud ar gyflymder a'r gwaith pellach sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ystod o heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Mae gennyf hyder ym mharodrwydd ac ymrwymiad yr holl staff yn y sefydliad i ymdrechu i oresgyn yr heriau lawer sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, er mwyn sicrhau llwyddiant sy'n trosi i well perfformiad a chanlyniadau i gleifion.
- 34.6 Datblygwyd y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol hwn yn unol â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac fe'i gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 29.6.20. Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn cymryd sicrwydd ar gywirdeb y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol o'r trefniadau a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd.
- 34.7 Fel y nodwyd trwy gydol y datganiad hwn, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a'r gymdeithas gyfan. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Bydd yr angen i ymateb ac adfer o'r pandemig gyda'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach trwy gydol 2020/21 a thu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Llofnodwyd:



Simon Dean
Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Atebol

Dyddiad: 30.6.20

Atodiad 1 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2019/20

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2019/20, yn cynnwys trefniadau dros dro ac fe'u hadlewyrchir yn y tabl isod.

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Mr Mark Polin	Cadeirydd		- Cadeirydd y Bwrdd - Cadeirydd, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth (100%) - Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (100%)	
Mrs Marian Wyn Jones	Is-gadeirydd <i>hyd at 30.11.19</i>	Gofal Cymunedol Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl	- Aelod o'r Bwrdd - Cadeirydd Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth <i>hyd at 30.11.19</i> (100%) - Cadeirydd - Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>hyd at 30.11.19</i> (100%) - Aelod o'r Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth <i>hyd at 30.11.19</i> (75%)	- Cynnwys y Cyhoedd a Chleifion - Pobl Hŷn - Diogelu / Oedolion mewn Perygl
Mrs Lucy Reid	Aelod Annibynnol Is-gadeirydd o 3.12.19	Gofal Cymunedol Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl	- Aelod o'r Bwrdd - Pwyllgor Archwilio <i>hyd at 22.12.19</i> (100%) - Cadeirydd, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (100%) - Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol <i>hyd at 22.12.19</i> (100%) - Cadeirydd Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl o 23.12.19 (100%)	Pryderon
Mrs Lyn Meadows	Aelod Annibynnol	Gofal Cymunedol	- Aelod o'r Bwrdd - Aelod o 2.10.19, Cadeirydd Dros Dro o 23.12.19 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a Iechyd y Boblogaeth (100%) - Is Gadeirydd Pwyllgor Archwilio o 23.12.19 (100%) - Is Gadeirydd, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau o 23.12.19 (83%) - Aelod o Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad <i>hyd at 2.10.19</i> (100%) - Aelod o Bwyllgor Deddf Iechyd Meddwl <i>hyd at 22.12.19</i> (100%) - Aelod o Bwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>hyd at 22.12.19</i> (100%)	- Maeth - Glanhau, Hylendid a Rheoli Haint

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Cyng Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol	Gofal Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (80%) • Aelod o Bwyllgor Deddf Iechyd Meddwl (66%) • Aelod o Bwyllgor Cronfeydd Elusennol o 23.12.19 • Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol hyd at 22.12.19 (25%)	• Gofalwyr • Plant a Phobl Ifanc
Cyng Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol	Awdurdod Lleol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio (100%) • Is Gadeirydd, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth (100%) • Aelod o Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol o 23.12.19 (0%) • Aelod o Bwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth hyd at 23.12.19 (80%)	• Cynnwys y Cyhoedd a Chleifion • Y Gymraeg
Yr Athro Nichola Callow	Aelod Annibynnol o 5.6.19	Prifysgol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol (66%) • Aelod o Bwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth o 23.12.19 (100%)	
Ms Helen Wilkinson	Aelod Annibynnol	Y Trydydd Sector	• Aelod o'r Bwrdd • Is-Gadeirydd Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (66%) • Aelod o Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad (81%) • Aelod o Bwyllgor Cronfeydd Elusennol (66%)	• Cyn-filwyr
Mrs Jackie Hughes	Aelod Annibynnol	Undeb Llafur	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o Bwyllgor Archwilio (75%) • Aelod o Bwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth (100%) • Is-Gadeirydd hyd at 22.12.19, Aelod o 23.12.19, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (83%) • Cadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (100%) • Aelod yn rhinwedd ei swydd - Fforwm Partneriaeth Leol	• Trais ac Ymosodedd • Cydraddoldeb

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol	Gofal Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd - Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol (100%) • Is Gadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (90%) • Aelod - Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth o 23.12.19 (110%) • Is-gadeirydd Pwyllgor Archwilio hyd at 22.12.19 (66%)	
Mr Eifion Jones	Aelod Annibynnol o 5.8.19	Gofal Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad (75%) • Aelod, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl o 2.10.19 (100%) • Aelod - Pwyllgor Archwilio o 23.12.19 (100%)	
Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr hyd at 7.2.20		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio (o leiaf yn flynyddol) • Cyd-Gadeirydd / Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Drwy wahoddiad, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad o mis Gorffennaf 2019	
Mr Simon Dean	Prif Weithredwr Dros Dro o 10.2.20		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio (o leiaf yn flynyddol) • Cyd-Gadeirydd / Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Drwy wahoddiad, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	
Mr Russell Favager	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid hyd at 28.4.19		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio • Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Ms Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid <i>o 29.4.20</i>		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio • Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol	
Miss Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn bresennol, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth	
Mrs Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn bresennol, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn bresennol, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	
Mr Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth a Iechyd y Boblogaeth • Aelod o Bwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	
Dr Evan Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol <i>hyd at 31.7.19</i>		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol - Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg • Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Dr David Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol <i>o 1.8.19</i>		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol • Yn bresennol, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>o 4.9.19</i>	
Dr Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol		• Aelod o'r Bwrdd • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn bresennol, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth	
Mrs Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth /Dirprwy Brif Weithredwr <i>o 1.7.19</i>		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Yn bresennol, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl • Drwy wahoddiad, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio <i>o 23.1.20</i> • Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol <i>hyd at 3.9.19</i>	
Mrs Deborah Carter	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth <i>1.4.19-31.8.19</i>		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Yn bresennol, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl • Aelod o Bwyllgor Cronfeydd Elusennol • Drwy wahoddiad, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	
Mr Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd • Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	
Mrs Grace Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd <i>hyd at 31.8.19</i>		• Yn bresennol yn y Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio • Yn bresennol, Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau Pencampwr
Ms Dawn Sharp	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd o 1.9.19		- Yn bresennol yn y Bwrdd - Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio	
Mrs Liz Jones	Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd 18.12.19-5.2.20		- Yn bresennol yn y Bwrdd - Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio	
Mrs Justine Parry	Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd 6.2.20-27.4.20		- Yn bresennol yn y Bwrdd - Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn bresennol, Pwyllgor Archwilio	
Aelod Cyswllt o'r Bwrdd				
Mr Andy Roach	Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu		- Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Cyfarwyddwr Arweiniol / yn bresennol, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl - Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol	
Mrs Lesley Singleton	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu o 6.11.19		- Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Cyfarwyddwr Arweiniol / yn bresennol, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl - Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol	
Mrs Morwena Edwards	Aelod Cyswllt	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	
Mr Ffrancon Williams	Aelod Cyswllt	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd	
Mr Gareth Evans	Aelod Cyswllt	Cadeirydd, y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol	- Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	

- Crynodeb o benodiadau newydd a thros dro: Cyhoeddwyd penodi Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ym mis Ebrill 2019, Aelod Annibynnol newydd (cynrychiolydd prifysgol) ym mis Mehefin 2019, dechrau rôl y Dirprwy Brif Weithredwr ym mis Gorffennaf 2019, Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro tan Awst 2019, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol newydd ym mis Awst 2019, Aelodau Annibynnol newydd gydag arbenigedd ariannol ym mis Awst 2019, tri Ysgrifennydd Bwrdd Dros Dro rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2020, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro o fis Tachwedd 2019, Aelod Annibynnol sy'n bodoli eisoes yn mynd yn Is-gadeirydd newydd ym mis Rhagfyr 2019 ac ymunais innau â'r sefydliad fel Prif Weithredwr Dros Dro ym mis Chwefror 2020.
- Ar 23 Mawrth 2020, cafodd pob ymgyrch Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Gweinidogion eu hatal ar unwaith gan Lywodraeth Cymru. Ar adeg atal, roedd y Bwrdd Iechyd yn cynnal sedd Aelod Annibynnol wag. Mae'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fod â chworwm ac yn sefydlog yn ystod yr amser hwn wedi cynnwys ail-gyflogi'r Is-Gadeirydd blaenorol fel Cynghorydd Arbennig. Y bwriad yw ail-ddechrau ymgychoedd ym mis Medi 2020, fodd bynnag mae hyn yn parhau i gael eu hadolygu wrth i ymateb iechyd cyhoeddus i COVID-19 ddatblygu.

Atodiad 2 Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng nghyfarfodydd y bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2019/20

Y = Presennol A = Ymddiheuriadau P = Rhan o'r cyfarfod

		2.5.19	25.7.19 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol	5.9.19	7.11.19	23.1.20	26.3.20 CNX
Mr Mark Polin Cadeirydd	Aelod	P	Y	Y	Y	Y	
Cynghorydd Cheryl Carlisle Aelod Annibynnol	Aelod	P	Y	Y	Y	Y	
Mr John Cunliffe Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	A	
Mrs Marian Wyn Jones Aelod Annibynnol / Is-gadeirydd	Aelod	Y	Y	Y	A		
Cynghorydd Medwyn Hughes Aelod Annibynnol	Aelod	A	Y	Y	Y	Y	
Yr Athro Nichola Callow Aelod Annibynnol	Aelod		A	Y	Y	Y	
Mrs Jackie Hughes Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	
Mrs Lyn Meadows Aelod Annibynnol	Aelod	A	Y	Y	Y	Y	
Ms Helen Wilkinson Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	
Mrs Lucy Reid Aelod Annibynnol / Is-gadeirydd	Aelod	Y	Y	A	Y	Y	
Mr Eifion Jones Aelod Annibynnol	Aelod			Y	Y	Y	
Mr G Doherty Chief Executive	Aelod	P	Y	Y	Y	A	
Mr Simon Dean Prif Weithredwr Dros Dro	Aelod						
Dr Evan Moore Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Aelod	Y	Y				
Dr David Fearnley Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Aelod			Y	Y	Y	
Ms Sue Hill Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	
Miss Teresa Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Aelod	P	Y	Y	Y	Y	
Mrs Gill Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy Brif Weithredwr	Aelod	A		Y	A	Y	
Mrs Deborah Carter Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth	Aelod	Y	Y				
Mr Adrian Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Aelod	A	Y	Y	Y	P	
Mrs Sue Green Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Aelod	Y	Y	A		Y	

		2.5.19	25.7.19 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol	5.9.19	7.11.19	23.1.20	26.3.20 CNX
Dr Chris Stockport Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned	Aelod	Y	Y	Y	A	A	
Mr Mark Wilkinson Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	
Mr Andy Roach Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn Bresennol	Y	A	Y	A	A	
Mrs Lesley Singleton Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn bresennol					Y	
Mrs Grace Lewis-Parry Ysgrifennydd y Bwrdd	Yn Bresennol	Y	Y				
Ms Dawn Sharp Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd	Yn Bresennol			Y	Y	A	
Mrs Liz Jones Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd	Yn Bresennol					Y	
Mrs Justine Parry Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd	Yn Bresennol						
Mrs Morwena Edwards cynrychioli Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Aelod Cyswllt	A	Y	Y	Y	Y	
Mr Ffrancon Williams Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Aelod Cyswllt	Y	A	Y	Y	Y	
Mr Gareth Evans Cadeirydd, y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol	Aelod Cyswllt	Y	A	Y	Y	Y	

Atodiad 3 - Cofnodion y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2019-20:

Cyfarfod	Dyddiad											
	2.5.19	25.7.19 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol	5.9.19	7.11.19	23.1.20	26.3.20 CNX						
Bwrdd Iechyd												
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE)	21.5.19	16.7.19	24.9.19	19.11.19	28.1.20	17.3.20						
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P)	24.4.19	23.5.19	25.6.19	29.7.19	22.8.19	30.9.19	24.10.19	4.12.19	19.12.19	23.1.20	27.2.20	24.3.20 CNX
Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth Pwyllgor (SPPH)	2.4.19	4.7.19	3.9.19	1.10.19	3.12.19	5.3.20						
Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	9.4.19	13.5.19	29.8.19	4.11.19	21.1.20							
Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl	29.3.19	28.6.19	27.9.19	20.12.19	27.3.20 CNX							
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	20.6.19	4.10.19	10.12.19	10.3.20								
Pwyllgor Archwilio	30.5.19	12.9.19	12.12.19	19.3.20								
Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Llywodraethu Digidol (IGIC yn flaenorol)	9.5.19	29.9.19	21.11.19	13.2.20								

Atodiad 4 - Cylchlythyrau Iechyd Cymru (WHCs)

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 006	9.5.19	Panel Cenedlaethol Adolygu Archwilio Clinigol a Chanlyniadau GIG Cymru	Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol	Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol wedi ymdrin â hyn, gan adrodd wrth y Pwyllgor Archwilio
WHC 012	9.4.19	Rhoi OBS Cymru (Strategaeth Gwaedu Obstetrig ar gyfer Cymru) ar waith, rheoli strategaeth ar gyfer Gwaedlif Ôl-enedigol (PPH), Gwasanaethau Mamolaeth	Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd	Cadarnhaodd Cyfarwyddiaeth y Merched fod y Gwasanaeth Mamolaeth yng Ngogledd Cymru yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau y manylir arnynt yn WHC 012. Mae ymagwedd OBS Cymru tuag at Waedlif Ôl-enedigol yn cael ei hymgorffori i arfer fel mater o drefn ym mhob Ardal yn BIPBC ar ôl i'r Prosiect Cenedlaethol ddod i ben ar 31/3/19. Mae data'r safle lleol a chanlyniadau clinigol mewn perthynas â gwaedlif ôl-enedigol a ffyrdd o'i reoli'n effeithiol yn parhau i gael ei gasglu, ei fonitro a'i adolygu gan Fforwm Esgor Gogledd Cymru, sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth Bwyllgor QSE a Bwrdd Gwasanaeth y Merched sy'n cael eu cynnal bob mis.
WHC 013	12.4.19	Canllawiau a Thempledi Dychwelyd Monitro Misol	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd yr arweiniad a'r templedi i gyflwyno Ffurflenni Monitro misol i Lywodraeth Cymru (LIC) bob mis a chafodd trafodaethau rheolaidd yn fewnol ac â LIC yn ymwneud â'r hyn a gyflwynwyd. Mae'r Ffurflenni Monitro yn dystiolaeth o ddilyn yr arweiniad.
WHC 014	12.4.19	Canllawiau Dyledion GIG Cymru sy'n destun dadl	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn yr arweiniad sy'n ddiweddiariad ar arweiniad blaenorol. Caiff pob anghydfod ei fonitro gan LIC trwy gyflwyno Ffurflenni Monitro yn ffurfiol.
WHC 015	16.4.19	Rhaglen Genedlaethol Imiwneiddio y Ffliw 2019-2020	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Mae'r WHC yma wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Ffliw sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Grŵp Imiwneiddio Strategol yn BIPBC ac mae'n ffurfio rhan o gylch gweithgareddau i roi ymgyrch brechu rhag y ffliw effeithiol ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Lluniwyd cynllun Ffliw'r Bwrdd Iechyd a dau gynllun gweithredu i'r cyhoedd a staff i sicrhau bod pob elfen ar y WHC yn cael ei rhoi ar waith er mwyn hybu manteisio ar y brechiad gymaint â phosibl. Caiff cyfarfodydd rheolaidd eu cynnal trwy gydol y flwyddyn i gynllunio, gweithredu a monitro'r ymgyrch, y cynllun gweithredu a data'n ymwneud â'r niferoedd sy'n manteisio ar y brechiad. Fforwm yw hwn lle gellir tynnu sylw at faterion a'u dwysáu os bydd angen, i fynd i'r afael â'r broblem. Yn ystod yr ymgyrch, adroddir ar ddata'n ymwneud â niferoedd manteisio ar frechlynnau wrth y Grŵp Ansawdd a Diogelwch i'w graffu. Cafodd ystod o ddogfennaeth ei datblygu unwaith y cafodd y WHC ei gyhoeddi i danategu gweithgareddau clinigol a threfniadau llywodraethu fel Cyfarwyddbau Grŵp Cleifion, templedi cynlluniau gweithredu, bwletin y ffliw a dogfennau arweiniad i gefnogi rheolwyr a'r sawl sy'n imiwneiddio. Mae hyfforddiant imiwneiddio a ddarparwyd gan BIPBC i'r sawl sy'n imiwneiddio trwy gydol y flwyddyn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a'r blaenoriaethau a amlinellir yn y WHC ac mae'n cynnwys awgrymiadau i wella'r niferoedd sy'n manteisio ar y brechiad. Cawsom ôl-drafodaeth amlasiantaethol ym mis Chwefror 2020 er mwyn sicrhau y cawn y cyfle i ymgysylltu â chydweithwyr ac i ddysgu gwersi o'r sectorau lawer sydd ynghlwm wrth yr ymgyrch brechu rhag y ffliw, gan gynnwys gofal cychwynnol, Awdurodau Lleol er mwyn helpu i ffurfio'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i ddatblygu ceinciau newydd o waith.

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 016	30.4.19	Etholiadau Seneddol Ewropeaidd 23 Mai 2019	Ysgrifennydd y Bwrdd	Cafodd arweiniad ei gylchredeg ymysg y Bwrdd a'i wneud ar gael i staff.
WHC 017	7.5.19	Canllaw - Byw gyda phoen barhaus yng Nghymru	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol	Y Gwasanaeth Rheoli Poen wedi ymdrin â hyn
WHC 018	6.6.19	Llwybr Ychwanegol ac Amgen (ACC)	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Yn sgil derbyn y WHC ym mis Mehefin 2019, cafodd ei drafod mewn cyfarfodydd priodol a'i roi ar waith yn y sefydliad. Darparwyd cyllid a chafodd ei ddosbarthu i ddiwallu anghenion y boblogaeth a'r ddemograffeg. Oherwydd anghenion y boblogaeth, demograffeg a'r cymysgedd sgiliau presennol ar draws y Bwrdd Iechyd, mae'r dyraniad wedi'i ailbroffilio.
WHC 019	9.7.19	Nodau Gwelliannau AMR a HCAI ar gyfer 2019-20	Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd	Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro trywyddion bob wythnos a phob mis ac mae'n adrodd ar y rhain i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch o ran perfformiad. Caiff perfformiad ei fonitro hefyd trwy graffu manwl ac adolygiadau ar ôl heintiau
WHC 020	17.6.20	Newidiadau i'r rhaglen imiwneiddio Firws Papiloma Dynol (HPV) o'r flwyddyn ysgol academiaidd sy'n dechrau ym mis Medi 2019.	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau brechu bechgyn yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y WHC, gan gynnig y brechlyn HPV yn ystod tymor y gwanwyn ym mis Ionawr - Mawrth y flwyddyn academiaidd. Caiff dyddiadau eu pennu ar ôl trafod gyda'r ysgolion uwchradd. Caiff bechgyn gynnig y brechlyn yn yr un sesiwn imiwneiddio â'r merched ac roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd wedi cwblhau eu sesiwn HPV cyn COVID-19 a chyn i'r ysgolion gau. Felly mae'r cynllun brechu HPV wedi dod i ben am y tro oherwydd COVID ond bydd y sesiynau sydd wedi'u canslo yn ailddechrau unwaith y caiff mesurau'r cyfnod clo eu llacio. Mae cyflenwad o'r brechlyn ar gael yn barod i ailddechrau ar gyfer yr ychydig ysgolion sy'n weddill. Ar gyfer benywod hyn hyd at 25 oed, cafwyd nifer o ymholiadau gan Ofal Cychwynnol mewn perthynas â brechu pan fo'r cyfle'n codi gan fod modd eu brechu erbyn hyn waeth beth fo'u statws imiwneiddio blaenorol. Cafodd gwybodaeth ar y WHC yn ymwneud â HPV ei thrafod yn ystod hyfforddiant imiwneiddio yn 2019 er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella'r niferoedd sy'n manteisio ar y brechiad gymaint â phosibl.

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 021	24.7.19	Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymuned a Gwasanaethau ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol	Mae asesiad o anghenion iechyd y geg wedi'i ddatblygu a bydd angen ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae Grŵp Strategaeth Iechyd y Geg Gogledd Cymru a MCNs yn cyfarfod yn rheolaidd a bwriedir sefydlu MCNs pellach e.e. Deintyddiaeth Adferol. Mae cyfraniad at Glystyrau Gofal Cychwynnol yn cael ei ddatblygu gyda'r Pwyllgor Deintyddol Lleol. Mae dogfen strategol 'Gwasanaethau ar gyfer Gwên' yn disgrifio: y gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau deintyddol cymunedol gyda phwyslais ar grwpiau sy'n agored i niwed yn ogystal â gofal canolraddol; cymryd rhan mewn ystod o hyfforddiant; mentrau hybu iechyd y geg ac epidemioleg. Cydnabyddir yr angen i gynnal buddsoddi yn y gwasanaeth neu i'w wella er mwyn ategu at gyflwyno WHC (2019) 021. Cydnabyddir potensial y gwasanaeth i wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol fel y mae potensial y model CDS/PDS. Mae arolwg o hyfforddiant a chymwysterau deintyddion gofal cychwynnol wedi'i gynnal. Mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu cymorth arbenigeddau ar gyfer Gogledd Cymru. Fel y gofynnwyd gan Lywodraeth Cymru, mae datblygu swyddi meddygon ymgynghorol mewn Deintyddiaeth Plant ac SCD yn parhau i fod ar yr agenda. Mae Gofal a Rennir rhwng gwasanaethau'n datblygu ar garlam.
WHC 022	4.10.19	Rhoi safonau PROMPT ar waith o fewn gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Yn cael eu datblygu mewn Gwasanaethau Mamolaeth ar ran Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
WHC 023	30.7.19	Diweddariad ar Arweiniad ar Glirio a Rheoli Gweithwyr Gofal Iechyd sy'n Byw â Firws sy'n cael ei gario yn y Gwaed (BBV)	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Mae protocol wedi'i ddatblygu, gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaed yn y WHC.

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 024	1.8.19	Pertwsis - brechiad galwedigaethol gweithwyr gofal iechyd	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddechrau'r ymgyrch brechu rhag Pertwsis ar 11 Tachwedd 2019, gan gynnig y brechlyn i staff Grŵp Blaenoriaeth 1, fel y nodir yn y WHC. Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig yn ymwneud â chyflwyno ymgyrch ffliw'r staff, gwnaethom ddechrau'r ymgyrch trwy ddosbarthu posteri a deunydd cyfathrebu mysg rheolwyr ardal perthnasol ac uwch glinigwyr er mwyn hybu pwysigrwdd cael y brechlyn ac yn hysbysebu sut gallai staff fanteisio ar y brechlyn. Yn y lle cyntaf, cafodd grwpiau staff Grŵp Blaenoriaeth 1 eu hannog i fynd i'r Adrannau Iechyd Galwedigaethol naill ai trwy apwyntiad, neu i sesiynau galw heibio wedi'u hysbysebu a gafodd eu cynnal dair gwaith yr wythnos ar draws pob un o'r tri safle Iechyd Galwedigaethol. Ym mis Ionawr, gwnaeth ymweliadau wythnosol ddechrau ar y tri safle ysbyty â'r wardiau/ardaloedd clinigol a gynhwysir yn y WHC, er mwyn cynnig y brechiad. Cafodd cyfanswm nifer y staff a enwyd yn y lle cyntaf fel rhai yng Ngrŵp Blaenoriaeth 1, ei gwmpasu yn y lle cyntaf ar ryw 500. Cyfanswm nifer y brechlynnau pertwsis a roddwyd hyd yma yw 185 a gwnaeth chwe aelod o staf ddatgan hefyd eu bod wedi cael brechlyn yn cynnwys pertwsis dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn hafal i gymeriant o 38% o ran y brechiad yn y grŵp hwn. Mae'r ymgyrch brechu rhag pertwsis wedi dod i ben ers mis Mawrth pan ddaeth y sefyllfa'n ymwneud â Covid yn flaenoriaeth. Byddwn yn ailedrych ar y sefyllfa hon eto yn ystod haf 2020 unwaith y bydd Asesiad Risg wedi'i gynnal ar gyflenwi, a chan ddibynnu sut mae'r sefyllfa a phwysau'n ymwneud ag adnoddau yn y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn datblygu o ystyried gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Covid.
WHC 026	21.8.19	Asesiad Cleifion Mewnol Oedolion wedi'i Safoni'n Genedlaethol ac Asesiadau Risg Craidd	Cyfarwyddwr Cyswllt Sicrwydd Ansawdd	Mae estyniad wedi'i roi hyd at fis Rhagfyr 2020. (Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ailddechrau caffael ar gyfer y ddwy ddogfen gyda'r bwriad o gyflwyno'r llyfryn asesu risg o fis Medi 2020; dim dyddiad wedi'i gadarnhau eto ar gyfer yr asesiad cleifion mewnol ar gyfer oedolion)
WHC 027	12.9.19	Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau - Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylansys Brys	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd	Cafodd Model Diwygiedig ei fabwysiadu gan y Bwrdd ar 7 Tachwedd 2019.
WHC 028	26.9.19	Y Rheolau Cyfunol ar gyfer Amseroedd Aros Canser	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd	Wedi adolygu'r arweiniad gyda chydlynwyr y tîm amlddisgyblaethol sy'n gyfrifol am gofnodi amseroedd aros canser ac adrodd arnynt. Cafodd crynodeb o newidiadau i arweiniad blaenorol ei gytuno a'i gylchredeg. Cafodd yr holl newidiadau eu rhoi ar waith o 1 Rhagfyr, yn unol â'r arweiniad.

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 029	20.9.19	Fframwaith Cynllunio'r GIG 2020/2023	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	Cafodd dogfen ei lledaenu'n eang ar 23 Medi fel rhan o waith cynllunio i ategu at ddatblygu ein Cynllun Gweithredol Blynyddol ar gyfer 2020/21. Cafodd hyn ei ategu gan ein hegwyddorion cynllunio a'n hamserlen eu hunain yn cynnwys prif ddeiliannau a nodwyd yn lleol. Mae cynllunio wedi cymryd saib ar draws GIG Cymru oherwydd Covid-19. Fframwaith gweithredu Covid-19 GIG Cymru wedi'i ddatblygu ar gyfer Chwarter 1. Cynllun Chwarter 1 2020 wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i LIC erbyn 18 Mai mewn ymateb i'r fframwaith gweithredu. Amserlen / trefniadau cynllunio i ddatblygu cynllun Chwarter 2 wedi'i sefydlu, dan arweiniad y ffrwd waith gynllunio. Cynllun chwarter 2 i gael ei ddatblygu erbyn 30 Mehefin 2020.
WHC 030	20.9.19	Cynllun Cenedlaethol Integredig Tymor Canolig (IMTP) a Fframwaith Cynllunio'r GIG 2020-23	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	Dogfen wedi'i lledaenu'n eang fel rhan o'r gwaith cynllunio uchod, i ategu at arfer da wrth i'n prosesau cynllunio iechyd yn y gymuned barhau i esblygu ac aeddfedu.
WHC 031	19.9.19	Arweiniad yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer adrannau'r DU ar opsiynau lliniaru ar gyfer risgiau i lif data.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Mae'r holl systemau wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Asedau, lle maent wedi cael eu hadolygu'n llawn er mwyn dirnad llifoedd data a lleoliadau storio data. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd i gysylltu â chyflenwyr lle bydd storio a llifoedd data'n cael effaith unwaith y byddwn yn gadael yr UE. I bontio'r bwlch, byddwn yn canfod cyflenwyr penodol ac anfon cymalau contract Safonol wedi'u diweddarau atynt er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau penodol yn cael eu lliniaru.
WHC 032	20.9.19	Taflen/ Arweiniad ar Anghenion Cyfathrebu Nam ar y Synhwyr	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n ymdrin â hyn.
WHC 035	6.11.19	Etholiad Cyffredinol 2019	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Cafodd staff swyddogaeth Cyfathrebu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd ei wneud yn ymwybodol o'r canllawiau hyn ac roedd yr ymagwedd tuag at ddelio ag ymholiadau gan y cyfryngau a thuag at drefnu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r arweiniad.
WHC 036	8.11.19	Etholiad Cyffredinol 2019	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Fel uchod
WHC 037	28.11.19	Brechlynnau'r Ffliw 2020-2021	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Ymdrinnir â hyn fel rhan o fusnes arferol.

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 038	12.12.19	Canllaw ar gyfer darparu cynnyrch ymataliaeth i oedolion yng Nghymru	Cyfarwyddwr Gweithredol Nysio a Bydwreigiaeth	Cafodd WHC 038 ei rannu gyda'r Tîm Ymataliaeth a grwpiau perthnasol eraill am adborth er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at bwyntiau allweddol yng nghanllaw drafft PBC ar gyfer Cymhwyster a Chyflenwi Padiâu Ymataliaeth (Oedolion).
WHC 039	8.1.20	Egwyddorion arfer gwaith da ar gyfer defnyddio Gwarchodwyr yn ystod Archwiliadau neu Driniaethau Agos yn GIG Cymru.	Cyfarwyddwr Gweithredol Nysio a Bydwreigiaeth	Mae gan y Bwrdd Iechyd ddogfen arweiniad arfer gorau ar gyfer gwarchodwyr oedolion a phlant. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei hadolygu yn unol â'r cais. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau yn unol â'r broses adolygu Polisi.
WHC 040	3.1.20	Dyraniadau Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020-21	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid	Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd y wybodaeth er mwyn helpu i bennu cyllideb a chynllun ariannol 2020/21. Gellir gweld tystiolaeth o hyn yn y papurau pennu cyllideb.
WHC 041	19.12.19	Newidiadau i amserlen imiwneiddio'r brechlyn niwmococol babanod (PCV)	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Ymdrinnir â hyn fel rhan o fusnes arferol.
WHC 042	23.12.19	Ymgynghoriad parthed Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019-20	Cyfarwyddwr Gweithredol Nysio a Bydwreigiaeth	Mae LIC wedi diwygio'r terfyn amser i 30.9.20.
2020:				
WHC 003	4.3.20	Rhaglenni Gofal Iechyd ar sail Gwerth - Gofynion Data	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sy'n ymdrin â hyn
WHC 006	31.3.20	Ymateb i COVID-19 - Parhau gyda'r rhaglenni imiwneiddio	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Wedi'i anfon ymlaen at Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol - gweler y diwygiad isod
WHC 006 Revised	3.4.20	Ymateb i COVID-19 - parhau gyda'r rhaglenni imiwneiddio - adolygwyd Wedi cau	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Ymdrinnir â hyn fel rhan o fusnes arferol

Rhif cyferinod WHC	Dyddiad Derbyn	Teitl	Arweinydd	Camau a gymerwyd
WHC 008	30.4.20	Ailddefnyddio meddyginiaeth mewn cartrefi gofal a hosbisau	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Mae hyn wedi'i drafod yng Nghell Cartrefi Gofal COVID-19 a chafodd memorandwm ei ddrafftio er mwyn esbonio sut y dylid cymhwyso hyn yng Ngogledd Cymru. Mae rhestr wirio i'w chwblhau a'i chynnwys yn nodiadau'r claf os oes unrhyw ailddefnydd wedi'i ddatblygu a chaiff ei gylchredeg maes o law gyda'r memorandwm.* Mae arweiniad NACORP yn hysbysu Rhaglen Archwilio Clinigol PBC. Yn ystod y pandemig Covid-19, cafodd rhai archwiliadau cenedlaethol eu dirwyn i ben a chafodd staff eu hadleoli. Rydym bellach yn ailddechrau darparu'r rhaglen archwilio clinigol yn gyfan gwbl lle mae'n berthnasol i'n gwasanaethau.

RHEOLI RISG YN YSTOD ACHOSION COVID-19

Cyhoeddwyd gan: Matthew Joyes, Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro Sicrhau Ansawdd
a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Phrofiad Cleifion

Adolygu'r ddogfen

Fersiwn Rhif	Dyddiad adolygu	Enw'r cyfeiriwr	Newidiadau a wnaed
0.01	21/04/2020	David Tita	Dogfen wreiddiol gan David Tita wedi'i mewnbynnu i dampled, wedi mewnosod rheolaeth fersiwn/rhif tudalen
0.02	21/04/2020	Glesni Driver	Newidiadau a awgrymwyd trwy gydol y ddogfen
0.03	21/04/2020	Justine Parry	Mân newidiadau
0.04	22/04/2020	Justine Parry	Fersiwn wedi'i diweddarau gan Justine Parry gyda newidiadau i fersiwn 0.03
0.05	22/04/2020	Matthew Joyes	Ymateb i ymholiadau gan Justine Parry
0.06	22/04/2020	Justine Parry	Ymateb gan Matthew Jones y cytunwyd arno gan Justine Parry
1.00	22/04/2020	Gorchymyn Aur	

1. RHAGARWEINIAD

Mae canfod, cofnodi, ymateb ac arolygu risgiau'n hanfodol er mwyn cynnal ein gwasanaethau'n effeithiol. Oherwydd y newidiadau a wnaed yn y Bwrdd Iechyd i ymateb i achosion COVID-19, efallai hefyd y bydd y ffordd y caiff risg ei rheoli'n newid mewn rhai mannau. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r newidiadau hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud ymrwymiad clir bod rheoli risg yn effeithiol yn rhan allweddol o'i fusnes o ddydd i ddydd a'i ymateb i COVID-19. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd Iechyd gofrestr risg unigol ar system Datix, lle mae'n rhaid parhau i gofnodi'r holl risgiau.

GOFYNION O DAN Y DDEDDF ARGYFYNGAU SIFIL POSIBL 2004 (fel y'i diwygiwyd)

2. COFNODI RISG: GWASANAETHAU CLINIGOL A CHORFFORAETHOL

Mae'n rhaid i wasanaethau clinigol a chorfforaethol barhau i reoli risgiau yn y ffordd arferol. Derbynnir bod llawer o'r cyfarfodydd llywodraethu a gynhelir fel arfer wedi dod i ben dros dro neu eu newid, ac felly, mae'n rhaid i reolwyr sicrhau bod risgiau ym meysydd eu cyfrifoldeb yn cael eu canfod, eu cofnodi ar Datix, eu rheoli a'u hadrodd wrth uwch arweinwyr y tu allan i unrhyw gyfarfodydd sy'n cael eu canslo.

3. COFNODI RISG: STRWYTHURAU GORCHYMYN A RHEOLI COVID-19

Mewn ymateb i achosion COVID-19, mae mesurau gorchymyn a rheoli brys ar waith i ddarparu'r modd i wneud penderfyniadau'n glir ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys Comander Aur COVID-19, gyda chefnogaeth Canolfan Reoli Achosion Brys y Bwrdd Iechyd (HECC), sy'n cynnwys Comander HECC (Aur) a swyddodaeth Arian HECC trwy gydol yr wythnos.

Mae gan bob economi iechedd (dwyrain, canol a'r gorllewin) Ganolfan Reoli Leol sy'n darparu cydlynu tactegol ar draws gwasanaethau gofal cychwynnol, cymunedol ac eilaidd yn yr ardal leol honno. Mae Uwch Swyddog Cyfrifol (SRO) yn arwain y Canolfannau Rheoli hyn. Mae gan Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Ganolfan Reoli ac SRO ar wahân hefyd. Mae'r Canolfannau Rheoli a'r SROs yn atebol i'r HECC ac yna i'r Comander Aur COVID-19.

Mae nifer o Ffrydiau Gwaith wedi'u sefydlu ar draws y Bwrdd Iechyd hefyd i ddarparu cydlynu tactegol mewn perthynas â meysydd gwaith arbenigol fel Cyfleusterau ac Ystadau, Llwybrau Clinigol, ac ati. Caiff y Ffrydiau Gwaith hyn eu harwain gan SRO sy'n gyfarwyddwr ar lefel weithredol. Mae'r ffrydiau gwaith a'r SROs yn atebol i'r Comander Aur COVID-19.

Mae maes newydd wedi'i ychwanegu at Datix er mwyn canfod p'un a oes risg yn gysylltiedig â COVID-19, ac os felly, â pha Ganolfan Reoli neu Ffrwd Waith y mae wedi'i halinio.

Derbynnir y bydd Canolfannau Rheoli a Ffrydiau Gwaith yn canfod risgiau, eu cofnodi ac ymateb iddynt mewn ffordd ddeinamig mewn amgylchedd sy'n prysur newid. Fel y cyfryw, caiff Canolfannau Rheoli a Ffrydiau Gwaith gynnal cofnod o risgiau lleol er mwyn canfod y risgiau deinamig hyn, ac mae copi o'r templed Cofnodi Risg wedi'i atodi yn Atodiad 1. Mae'r templed hwn yn cael ei ddefnyddio gan yr holl Ganolfannau Rheoli a Ffrydiau Gwaith fel rhan o'u Cofnodion Risg, Gweithredoedd, Problemau a Phenderfyniadau. Bydd SRO pob Canolfan Reoli ac STO pob Ffrwd Waith yn gyfrifol am benderfynu pryd y dylid ychwanegu risg ar y gofrestr risg at gofrestr risg Datix. Mae'n hanfodol bod yr holl risgiau sylweddol yn cael eu nodi ar gofrestr risg Datix, gan mai hon yw'r unig ffynhonnell ddata ar gyfer adrodd ar risgiau i'r Bwrdd Iechyd. Gall y Tîm Risg Gorfforaethol gefnogi Canolfannau Rheoli ac SROs gydag ymholiadau mewn perthynas â Datix.

4. DWYSÁU RISGIAU

Mae angen i risgiau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19 gael eu dwysáu trwy'r broses llywodraethu a rheoli arferol. Lle bo cyfarfodydd llywodraethu wedi'u canslo, dylai risgiau gael eu dwysáu trwy'r strwythur rheoli, a fydd yn sicrhau bod risgiau'n cael eu dwysáu o wasanaethau i lefel uwch adrannol, hyd at lefel weithredol a'r Bwrdd Iechyd yn y pen draw.

Dylai risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 gael eu dwysáu trwy'r strwythurau gorchymyn a rheoli a amlinellwyd yn gynharach, h.y. o Ganolfannau Rheoli i naill ai'r Ffrwd Waith berthnasol neu'r HECC, ac yna i Orchymyn Aur COVID-19. Cyfrifoldeb Gorchymyn Aur COVID-19 yw dwysáu risgiau i'r Bwrdd Iechyd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r adroddiad dyddiol.

Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr ar lefel weithredol argymhell risgiau i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd Iechyd, fel bo'n briodol.

5. ADRODD AR RISGIAU A'U HAROLYGU

Mae'n rhaid i'r holl wasanaethau corfforaethol a chlinigol barhau i arolygu eu risgiau, ac os yw cyfarfodydd llywodraethu wedi cael eu canslo, mae'n rhaid i reolwyr sicrhau eu bod yn arolygu'n uniongyrchol. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r holl Ganolfannau Rheoli a Ffrydiau gwaith arolygu eu risgiau eu hunain a'u trafod yn eu cyfarfodydd.

Bydd y Tîm Risg Gorfforaethol yn anfon adroddiad wythnosol i bob Canolfan Reoli a Ffrwd Waith trwy e-bost yn cynnwys yr holl risgiau sydd wedi'u halinio i faes eu cyfrifoldeb. Yna, dylai'r SROs ar gyfer pob Canolfan Reoli a Ffrwd Waith ymgysylltu â'r perchnogion risg i roi cymorth, yn ôl yr angen.

I gweld gweld safle mewnwyd rheoli risg, [cliciwch yma](#). Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar reoli risg.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Risg Gorfforaethol - [cliciwch yma](#) am fanylion cyswllt. Gall y Tîm roi hyfforddiant i wasanaethau clinigol a chorfforaethol, Canolfannau Rheoli a Ffrydiau Gwaith.

ATODIAD 1 - templed cofnod risg

Croeso i Gyfarfod Cyffredinol
Blynyddol Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr
(BIPBC), 24^{ain} Medi 2020

Gill Harris

Prif Weithredwr Dros Dro

*“Gwellu iechyd a darparu
gofal rhagorol”*

Welcome to the Betsi
Cadwaladr University Health
Board (BCUHB) Annual
General Meeting, 24th
September 2020

Gill Harris

Acting Chief Executive

*“To improve health and provide
excellent care”*

Myfyrio ar y flwyddyn flaenorol

Reflecting on the past year

- Blwyddyn o her eithriadol: strategaeth, arweinyddiaeth, cyllid, perfformiad > pandemig
- Covid-19: ymateb deinamig; cyfleoedd yn ogystal â risgiau
- Cynnydd o ran y Mesurau Arbennig: gwelliannau ond hefyd angen gwaith pellach
- A year of exceptional challenge: strategy, leadership, finance, performance > pandemic
- Covid-19: dynamic response; opportunities as well as risks
- Special Measures progress: improvements but also further work required

Uchafbwyntiau Cynnydd

Progress highlights (1)

- un o'r goreuon yng Nghymru am warchod y boblogaeth drwy raglenni imiwneiddio
- un o'r goreuon ung Nghymru ar ran yr amser bydd cleifion sydd wedi cael diagnosis canser yn dechrau eu triniaeth
- lleihad cynaliadwy yn nifer y cleifion lle bu oedi wrth eu rhyddhau o'r ysbyty
- one of the best in Wales for protecting the population through immunisation programmes
- one of the best in Wales on time before patients diagnosed with cancer start treatment
- sustained reduction in the number of patients whose discharge from hospital was delayed

Uchafbwyntiau Cynnydd (2)

Progress highlights (2)₁

- y gorau yng Nghymru o ran adrodd ac ymateb i ddigwyddiadau anffafriol
- gwelliant arwyddocaol o ran pa mor gyflym y byddwn yn ymateb i gwynion
- lleihau nifer y digwyddiadau 'na ddylent byth ddigwydd'
- gwelliannau ansawdd a diogelwch fel y nodwyd yn y Datganiad Ansawdd Blynnyddol
- best in Wales in reporting and responding to serious adverse incidents
- significant improvement in the speed with which we respond to complaints
- reduced the number of 'never events'
- quality and safety improvements as noted in the Annual Quality Statement

Edrych i'r dyfodol Looking to the future (1)

Blaenoriaethau:

- yr angen i fod yn barod i ymateb i unrhyw gynnydd pellach mewn COVID-19 ac adfer yn gyflym o effaith y pandemig
- gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng iechyd a chyfleoedd ar gyfer trawsnewid
- ymdrechion parhaus sy'n ceisio sicrhau codi'r mesurau arbennig
- Gofal heb ei drefnu sy'n ddiogel
- parhau i roi gofal o dan "wasanaethau hanfodol" a sicrhau bod modd camu i fyny'n ddiogel o ran gofal wedi'i gynllunio

Priorities:

- the need to be ready to respond to any further COVID-19 increase and recover swiftly from the pandemic impact
- lessons learnt from the health emergency and opportunities for transformation
- ongoing efforts aimed at securing the lifting of special measures
- Safe unscheduled care
- continue to provide care under "essential services" and ensure the safe stepping up of planned care

Edrych i'r dyfodol *Looking to the future (2)*

- integreiddio a gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn ddiogel
- amgylchedd diogel a chadarn i'n pobl
- defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol
- parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol
- parhau i gymhwyso egwyddorion arfer gorau wrth lywodraethu'r sector cyhoeddus.
- safe integration and improvement of mental health services
- safe and secure environment for our people
- effective use of our resources
- continuing joint working with key strategic partners
- continue to apply the principles of best practice in public sector governance.

Newyddion da - fideo *Good news - video*

Diolch

Thank you



Datganiad Blynyddol Ansawdd

1 Ebrill - 31 Mawrth 2020



Gofal yn agosach i'r
cartref




Gofal ysbyty rhagorol



Gwella iechyd,
anghydraddoldebau
iechyd

Cynnwys

Ynghylch yr adroddiad hwn	Tudalen 3
Cyflwyniadau a Chroeso	Tudalen 4
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru	Tudalen 5
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	Tudalen 6
Gwybodaeth am BIPBC	Tudalen 7
Edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf	Tudalen 8
Sut rydym wedi mesur ein perfformiad	Tudalen 9
Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol	Tudalen 10
Aros yn iach	Tudalen 11 - 14
Gofal Diogel	Tudalen 15 - 22
Gofal Effeithiol	Tudalen 23 -28
Gofal gydag Urddas	Tudalen 29 - 33
Gofal Amserol	Tudalen 34 - 39
Trin Pobl fel Unigolion	Tudalen 40 - 43
Ein staff	Tudalen 44 - 50
Cydraddoldeb: Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau	Tudalen 51
Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig	Tudalen 52
Edrych Ymlaen at 2020 / 2021	Tudalen 53
COVID-19	Tudalen 54
Ymgysylltu	Tudalen 55
Gwybodaeth Ddefnyddiol	Tudalen 56



Ble mae'r wybodaeth y mae arnoch eisiau ei wybod?

"Mae'r lliwiau gwahanol yn cynrychioli'r 7 maes o'r Safonau Gofal Iechyd."



Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn darparu gwybodaeth am ansawdd gofal ar draws ein gwasanaethau ac mae'n dangos y gwelliannau a'r datblygiadau rydym wedi mynd i'r afael â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i wella ansawdd y gofal a ddarparwn. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn fformat themâu'r Safonau Iechyd a Gofal:

Aros yn iach - sicrhau eich bod yn meddu ar wybodaeth dda i reoli eich iechyd corfforol a meddyliol eich hun.

Gofal Diogel - sicrhau eich bod yn cael eich diogelu rhag niwed ac yn diogelu eich hun rhag niwed hysbys.

Gofal Effeithiol – sicrhau eich bod yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth gywir mor lleol â phosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwn yn llwyddiannus.

Gofal gydag Urddas – sicrhau y cewch eich trin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yn yr un modd.

Gofal Unigol – sicrhau y cewch eich trin fel unigolyn gyda'ch anghenion a'ch cyfrifoldebau eich hun.

Ein Staff – sicrhau bod gennym ddigon o staff gyda'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar gael ar yr amser iawn i fodloni eich anghenion.

Os hoffech gael mynediad at fwy o'n hadroddiadau a gyhoeddwyd, neu os hoffech gysylltu â ni, gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar sut i wneud hyn yn yr adran 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' ar dudalen 56.

Cyflwyniadau a Chroeso

Pwrpas ein Bwrdd yw llywodraethu'r sefydliad yn effeithiol. Rydym yn anelu at adeiladu hyder yn ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwn. Am fwy o wybodaeth am Aelodau Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ewch ar ein gwefan: <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/>

Datganiad ar y cyd gan Mark Polin, Cadeirydd a Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro.

Yn ychwanegol at yr heriau sylweddol rydym yn eu hwynebu fel Bwrdd Iechyd, mae'r pandemig coronafirws byd-eang wedi achosi newid mawr ac wedi tarfu ar sut mae pob un ohonom yn byw ein bywydau, ac mae'r effaith ar y GIG wedi amrywio'n eang ac yn ddifrifol. Er hynny, a'r ffaith fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod mewn Mesurau Arbennig, mae'n bwysig cydnabod y meysydd hynny lle darparwyd gwelliannau, neu lle mae perfformiad cadarn wedi'i gynnal.

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r cofnodion gorau yng Nghymru am amddiffyn ei breswylwyr trwy'r rhaglenni imiwneiddio amrywiol y mae'n ei hyrwyddo a'i weithredu. Rydym hefyd ymysg y perfformwyr gorau yng Nghymru o ran yr amser cyn y mae cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser yn dechrau eu triniaeth. Rydym yn darparu lleihad cyson yn nifer y cleifion y mae oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty, sydd wedi ein helpu i reoli'r nifer uwch o gleifion sydd angen derbyniadau brys.

Mae gwasanaethau eraill sydd wedi gwneud datblygiadau a gwelliannau sylweddol yn cynnwys ein gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a phlant a phobl ifanc. Mae gwelliannau wedi bod o ran sut ydym yn ymateb pan na fydd pethau'n mynd fel y dylent hefyd. Mae ein perfformiad o ran adrodd ar ddigwyddiadau anffafriol difrifol ac ymateb iddynt wedi mynd o'r gwaethaf i'r gorau yng Nghymru, ac rydym wedi darparu gwelliannau sylweddol o ran pa mor gyflym rydym yn ymateb i gwynion. Rydym wedi lleihau nifer y 'digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd' a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn hefyd.

Rydym yn hyderus y bydd y Datganiad Ansawdd Blyneddol ar gyfer 2019-20 yn rhoi trosolwg clir i chi o'r meysydd o arfer da a'r gwelliannau a wnaed gennym fel Bwrdd Iechyd, ynghyd â phwysleisio'r heriau a wynebwn yn awr a dros y flwyddyn gyllidol nesaf, yn enwedig mewn ymateb i Covid-19.

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru. Mae'n cynrychioli diddordeb y cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd BIPBC.

Mae'r Cyngor yn monitro a chraffu ar wasanaethau iechyd BIPBC i wella profiadau cleifion; un o'r sawl ffordd y mae'n gwneud hynny yw drwy ymweld ag adeiladau iechyd. Gwneir pob ymweliad gan aelodau gwirfoddol CICGC.

Yn ystod 2019, aeth aelodau CICGC i ymweld â phob un o'n Hysbytai Cyffredinol Dosbarth ac ysbytai cymuned, Adrannau Achosion Brys ac Unedau Iechyd Meddwl. Mae CICGC wedi gwneud dros 500 o ymweliadau i'n lleoliadau yn ystod y cyfnod hwn lle bu i aelodau CICGC siarad â chleifion, eu perthnasau a'u gofalwyr yn ogystal â staff am bob elfen o brofiadau gofal iechyd.

Mae CICGC wedi canolbwyntio llawer o'i waith ar Wasanaethau Iechyd Meddwl BIPBC. Mae CICGC yn parhau i bryderu bod y gwasanaeth hwn yn parhau i fod dan y mesurau arbennig gyda diffyg cynnydd amlwg yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan yr adolygiadau HASCAS ac Ockenden. Mae llawer o'r adborth a ddarparwyd i CICGC yn ystod ymweliadau i leoliadau gofal iechyd amrywiol (yn cynnwys lleoliadau cychwynnol a chymuned) wedi arwain at amheuaeth difrifol gan y Cyngor am y model gwasanaeth MI-FEDRAF unigryw a ddatblygwyd fel ffordd ymlaen ar gyfer sawl agwedd o ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl.

Mae tîm Trawsnewid Gofal BIPBC a chyfarwyddiaethau eraill yn parhau i weithio ar y cyd â CICGC. Mae adroddiadau ymweld CICGC yn aros yn rhan o'r Rhaglen Achrediad Ward.

I ganfod mwy am waith CICGC, cysylltwch â:

- E-bost – admin@waleschc.org.uk
- Ffôn – 01248 679284 (est 3)
- Gwefan – www.communityhealthcouncils.org.uk
- Ysgrifennu at – CICGC, Uned 11, Llys Castan, Parc Menai, Bangor



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Pwrpas y Bwrdd yw llywodraethu'r sefydliad yn effeithiol. Rydym yn anelu at adeiladu hyder yn ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwn. Am fwy o wybodaeth am Aelodau'r Bwrdd, ewch ar y ddolen ganlynol: <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodau-r-bwrdd/>

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'n hadroddiad blynyddol. Yn ogystal â'r adroddiad hwn, gellir dod o hyd i'n Hadroddiad Blynyddol a'n Datganiad Llywodraethu Blynyddol drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/>

Gellir cael yr adroddiad hwn a dogfennau cefnogol mewn ieithoedd ac ar ffurfiau eraill ar gais gan y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol:

E-bost: bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk

Ffôn: 01248 384776

Cyfeiriad: Tîm Cyfathrebu
Bloc 5
Cwrt Carlton
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 0JG

Mae llawer o gyfleoedd i fod yn rhan a rhannu eich syniadau ynghylch sut gallwn wella iechyd yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn awyddus i glywed gennych, p'un ai fel aelod o'r cyhoedd, claf neu ofalwr, neu os oes gennych gwyn neu awgrym.

Eich gwasanaeth iechyd lleol chi ydyw. Helpwch ni i'ch helpu chi!

Gallwch hefyd gofrestru â'n cynllun cymryd rhan. Drwy gofrestru, (defnyddiwch y ddolen isod) byddwch yn cael ein newyddlen, yn clywed am sut y gallwch rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau a chael diweddariadau ar weithgareddau a digwyddiadau. Rydym am gynnwys pawb, waeth beth fo eu hoed, anabledd, rhyw, hunaniaeth rywiol, hil, crefydd neu gred neu dueddfyd rhywiol.

<https://www.pbccymrydrhan.co.uk/cofrestru>

Gwybodaeth am BIPBC

BILI BETSI CADWALADR

POBLOGAETH

698,400 unigolyn



Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth gynyddol ac sy'n heneiddio. Disgwylir y bydd y boblogaeth yn cynyddu i 734,700 erbyn 2036; disgwylir y bydd y canran o'r boblogaeth sydd yn 85 oed a throsodd yn cynyddu o 154% rhwng 2011 a 2036.

POBL HŶN

Mae 15% o gartrefi yn BIPBC yn cynnwys un unigolyn 65 oed a throsodd, sydd ychydig dros y cyfartaledd ar gyfer Cymru (14%). Conwy sydd â'r canran uchaf o gartrefi un unigolyn gyda phobl 65 oed a throsodd (17%). Mae Ynys Môn, Gwynedd a Sir Ddinbych hefyd yn uwch na chyfartaledd BIPBC. Mae'r nifer o bobl sy'n cael brechiadau fflw ymysg y rheiny sydd 65 oed a throsodd yn BIPBC yn 71% o'i chymharu â 68% ar draws Cymru.


CODYMAU

Bydd 1 allan o 3 oedolyn hŷn yn cael codwm bob blwyddyn. Dim ond 1 allan o 3 fydd yn mynd yn ôl i fyw â'r lefel o annibynnolaeth a oedd ganddynt cyn y codwm a bydd 1 allan o 3 yn symud i gael gofal hir dymor. Eto, mae modd atal llawer o godymau.

PRIF ACHOSION MARWOLAETH

Clefyd y galon, canser a chlefyd resbiradol yw'r prif achosion o farwolaeth yn BIPBC.

Mae'r siart hwn yn dangos prif achosion marwolaeth fel canran o'r holl farwolaethau yn BIPBC.



DISGWYLIAD OES

BIPBC
82.4
OED



78.9
OED

Mae'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn 7.4 bl i ddynion a 6.1 bl i ferched. Yng Nghymru, mae'r cynnydd mewn disgwyliad oes wedi bod yn fwy gwestad ers 2011.

YMDYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR IECHYD

	BIPBC (%)	Cymru (%)
Ynnygu	18	18
Defnyddio e-sigarettau	7	6
Yfed dros y canllawiau	18	18
Gweithgarwch corfforol	55	53
Cymeniant ffrwythau a llysiau	23	24
Dros eu pwysau/gordew	54	60
Dilyn 0/1 ymddygiad iach	10	10

AMDDIFADEDD

Mae tua 12% o boblogaeth BIPBC yn byw yn y pumed ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn enwedig ar hyd morlin Gogledd Cymru.

CANSER

Mae modd atal 4 allan o 10 o ganserau.



LLES MEDDYLIO

Mae 16% o bobl yn BIPBC yn dweud bod yn teimlo'n unig sy'n is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (17%). Ar draws y Bwrdd Iechyd, mae hyn yn amrywio o 13% yn Sir y Fflint i 20% yn Wrecsam.

Mae 83% o bobl yn BIPBC yn dweud bod ganddynt ymdeimlad uchel o fodlonrwydd bywyd o'i chymharu â 81% ar draws Cymru.

BAICH CLEFYDAU

Mae'r siart hwn yn dangos prif achosion baich clefydau yng Nghymru, fel y mesurwyd gan y Blynnyddoedd Bywyd a Addaswyd gan Anabledd (DALY).



Mae 'cyflyrau eraill' yn cynnwys anhwylderau meddyliol a defnyddio sylweddau, clefydau eraill nad ydynt yn drosglwyddadwy ac anhwylderau niwrolegol.

Wedi'i greu gan Claire Jones
Yn Iechyd Cyhoeddus BIPBC, Medi 2023

Edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein **Strategaeth Gwella Ansawdd 2017-2020**. Mae'r prif flaenoriaethau yn cynnwys lleihau marwolaethau y gellir eu hosgoi, lleihau niwed a rhoi gofal dibynadwy drwy wneud ein llwybrau gofal cleifion yn fwy cadarn trwy ein gwasanaethau a darparu beth sy'n bwysig i gleifion sy'n cael mynediad at ein gwasanaethau. Isod gweler y prif bethau yr ydym wedi'u gwneud i gefnogi'r gwelliannau hyn:

- Mae'r Dangosfwrdd Mamolaeth wedi cael ei gyflwyno ac yn casglu cydymffurfiaeth BIPBC yn erbyn safonau cenedlaethol ar gyfer gofal mamolaeth yng Nghymru. Mae'r Dangosfyrddau Cleifion Mewnol a Chymuned yn cael eu poblogi a'u hadolygu bob mis yn yr Is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Merched a'r cyfarfodydd Bwrdd Merched. Ar gyfer sicrwydd, lle dynodwyd themâu neu dueddiadau, gall Cadeirydd y cyfarfod ofyn am adolygiad thematig neu archwiliad a'i gyflwyno yn nes ymlaen am fwy o wybodaeth.
- Gan ddefnyddio marwoldeb bras fel dangosydd, gallwn ddynodi unrhyw amrywiad o'r normal a dechrau archwiliad ar lefel nodiadau achos i ganfod gwersi i'w dysgu. Mae gan yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd broses ar waith yn awr i adolygu pob marwolaeth o fewn 5 niwrnod ac i gasglu gwersi a ddysgwyd. Mae gan adolygiadau yn awr ddull dyfarniad strwythuredig (SJR hybrid) ac maent yn cael eu holrhain ar ein System Deallusrwydd Adrodd ar Wybodaeth (IRIS).
- Ym mis Tachwedd 2018, bu i ni gyflwyno ein rhaglen Achrediad Ward sy'n asesu wardiau ac unedau ar draws y rhanbarth ar ystod o fesurau ansawdd. O fis Ionawr 2020 ymlaen, mae 90 ymweliad heb ei gyhoeddi / Achrediad Ward i wardiau wedi bod. Mae'r 90 achrediad hwn yn cynnwys Gofal Llym, Cymuned, Plant, Gofal Critigol, Merched ac Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
- Dros 3 blynedd y strategaeth, bu i ni gofnodi 17 Digwyddiad na Ddylai Byth Ddigwydd o'i chymharu â 15 yn ystod y tair blynedd cynt. Mae hyn ymhell o fewn yr amrywiad achos cyffredin ac felly nid oes newid wedi bod yn y raddfa Digwyddiadau na Ddylai Byth Ddigwydd ar y cyfan. Ar gyfer sicrwydd, bydd adolygiad thematig yn cael ei gynnal a bydd ein strategaeth QIS nesaf yn sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddiogelwch cleifion.
- Rydym wedi gweld lleihad mewn clostridiwm difficile a heintiau llif gwaed MRSA dros y 3 blynedd diwethaf. Mae'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau wedi dechrau sawl menter newydd yn ystod 2019, a fydd yn helpu gyda thueddiadau a'r gallu i flaenoriaethu risgiau i'r boblogaeth, a chynyddu sgrinio.

O edrych ymlaen, y nod yw cwblhau adolygiad o gynnydd yn erbyn y Strategaeth Gwella Ansawdd a chynllunio at y tair blynedd nesaf drwy ymgysylltu â'n cleifion, staff, partneriaid a chymunedau. Byddwn hefyd yn ail-siapio ein Strategaeth Ansawdd erbyn mis Ionawr 2021. Y Strategaeth Ansawdd fydd y modd o sicrhau ansawdd a darparu sicrwydd.

Sut rydym wedi mesur ein perfformiad

	Perfformiad Gwell	Perfformiad Cyson	Dirywiad mewn Perfformiad	Crynodeb o'r Perfformiad	Targed wedi'i gyflawni*
AROS YN IACH - Mae gan bobl yng Nghymru ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol	3 mesur	0 mesur	2 mesur		1 mesur
GOFAL DIOGEL - Mae pobl yng Nghymru wedi eu hamddiffyn rhag niwed ac yn cael eu cefnogi i amddiffyn eu hunain rhag niwed	3 mesur	0 mesur	12 mesur		1 mesur
GOFAL GYDAG URDDAS - Mae pobl yng Nghymru yn cael eu trin â pharch ac urddas ac yn trin eraill yr un fath	1 mesur	0 mesur	1 mesur		
GOFAL EFFEITHIOL - Mae pobl yng Nghymru yn cael y gofal a chefnogaeth iawn mor lleol â phosibl ac yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiant	1 mesur	0 mesur	7 mesur		
GOFAL PRYDLON - Mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad prydol at wasanaethau'n seiliedig ar angen clinigol ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal	6 mesur	1 mesur	19 mesur		3 mesur
GOFAL UNIGOL - Mae pobl yng Nghymru yn cael eu trin fel unigolion, gyda'u hanghenion a chyfrifoldebau eu hunain	1 mesur	0 mesur	4 mesur		2 mesur
EIN STAFF AC ADNODDAU - Gall pobl yng Nghymru ddod o hyd i wybodaeth am sut y darperir adnoddau i'r GIG ac yn eu defnyddio'n ofalus	3 mesur	0 mesur	2 mesur		1 mesur
CRYNODEB	18 mesur	1 mesur	47 mesur		8 mesur

*Yn ymwneud â'r mesurau hynny gyda tharged misol/chwarterol diamed ar gyfer Rhagfyr 2019 / Chwarter 3 2019/20

Sylwer – mae'r cerydn sgorio hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Rhagfyr 2019

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur ar draws saith parth neu faes allweddol, sy'n cyd-fynd â Safonau Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru a Fframweithiau Cenedlaethol Perfformiad.

Mae'r dangosfwrdd cryno (chwith) yn dangos ein perfformiad ar draws yr ystod o ddangosyddion y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. [Mae fframwaith darparu ac arweiniad adrodd GIG Cymru 2018 i 2019](#) yn rhoi mwy o wybodaeth.

Rydym wedi dangos gwelliant cyffredinol yn ymwneud â helpu pobl i aros yn iach ac o ran cynnig gofal urddasol ac unigol. Fodd bynnag, mae ein perfformiad wedi gostwng o ran cynnig gofal prydol a phan gaiff ei fesur yn erbyn dangosyddion ar gyfer gofal diogel ac effeithiol.

Bob mis, rydym yn rhoi nodiadau briffio manwl i'n Bwrdd ar ein perfformiad, gan amlinellu'r Camau Allweddol i'w cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael, beth yw Canlyniadau'r Camau hynny a'r amserlen o ran pa bryd yr ydym yn disgwyl i berfformiad gyflawni'r targed yn gyson.

Ar gyfer 2019/20, rydym ond wedi cynnwys y Mesurau gorfodol cenedlaethol yn ein hadroddiadau i adlewyrchu blaenoriaethau'r sefydliad ac i wella iechyd, gofal a phrofiad y boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae'r angen i gynllunio ar gyfer y pandemig Covid-19 ac i ymateb iddo wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad, y GIG ehangach a'r gymdeithas gyfan. Mae wedi gofyn am ymateb deinamig, sydd wedi arwain at nifer o gyfleoedd yn ogystal â risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig ac i ddod drosto yn parhau, i'r sefydliad a'r gymdeithas ehangach, trwy gydol 2020/21 a thu hwnt. Bydd Fframwaith Llywodraethu'r sefydliad yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol

Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd	Gofal yn Nes at y Cartref	Gofal Ysbyty Ardderchog
• Pwysau iach: Rydym wedi datblygu'r gwasanaeth Gordewdra (Oedolion) Haen 2. • Rydym yn parhau i adolygu a dynodi cyfleoedd i wella mynediad at wasanaethau rheoli pwysau plant. • Rhoi'r Gorau i Ysmygu: Rydym wedi cynyddu'r cyfleoedd trwy sefydlogi'r fenter Helpa fi i Stopio yn yr Ysbyty. • Lles: Rydym wedi datblygu ymgyrch 'Mi Fedraf' a'r partneriaethau 'Beth am symud, Gogledd Cymru'. • Rydym wedi datblygu ein cynllun partneriaeth ar gyfer Plant. • Rydym yn parhau i wella ein canlyniadau trwy'r rhaglen '1000 diwrnod cyntaf'. • Imiwneiddio: Rydym wedi datblygu Cynllun Imiwneiddio Strategol cyntaf BIPBC sy'n amlinellu sut byddwn yn gwella faint sy'n cael brechiadau allweddol ar draws y cwrs bywyd, gyda phwyslais penodol ar y Ffliw a MMR. • Lleihau Anghyfartaleddau Iechyd: Rydym yn datblygu ein gwaith ar leihau anghyfartaleddau iechyd - rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau sy'n targedu tlodi bwyd, tai a digartrefedd. • Rydym wedi datblygu Canolfannau Iechyd a Lles amlasiantaethol integredig.	• Mae Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd yn Ysbyty Alltwen yn arwain prosiect sy'n ceisio atal oedi ar gyfer cleifion sy'n gadael yr ysbyty drwy gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n barod i adael yr ysbyty ond sydd efallai'n aros am becyn gofal, yn eu cartref eu hunain. • Mae cynllun peilot yn helpu pobl i fod yn heini cyn llawfeddygaeth fawr er mwyn lleihau'r risg o gymhlethdodau ar ôl eu llawdriniaethau wedi cael ei gyflwyno yn Ysbyty Maelor Wrecsam. • Mae staff GIG y Gymuned yn gwella monitro sepsis fel rhan o raglen gwella Cymru gyfan. Mae offer newydd yn helpu staff nyrsio ardal i ddynodi sepsis. • Ysbyty Maelor Wrecsam yw'r cyntaf yng Nghymru i gynnig llawfeddygaeth clun newydd i gleifion a'u rhyddhau ar yr un diwrnod, mae rhai cleifion yn gallu mynd adref ar yr un diwrnod oherwydd bod llawfeddygon yn defnyddio dull newydd o ddarparu gofal ar ôl-llawdriniaeth. • Mae timau arbenigol Therapyddion Galwedigaethol yn helpu cleifion Ysbyty Glan Clwyd i baratoi at ddychwelyd adref yn dilyn astudiaeth beilot, sy'n lleihau hyd arosiadau o bron i 50 y cant.	• Mae meddygon dan hyfforddiant wedi graddio Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd fel un o'r lleoedd gorau i hyfforddi yn y Deyrnas Unedig. Mae canlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ddiweddar yn dangos bod dros 85% o feddygon sy'n cael hyfforddiant yn falch gydag ansawdd goruchwyliaeth glinigol, profiad, a'r addysgu maent yn eu cael yn yr Adran Achosion Brys. • Mae system newydd i gyflymu diagnosis i bobl sydd ag amheuaeth o ganser wedi'i gyflwyno yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi rhoi arweiniad i helpu Meddygon Teulu benderfynu p'un a ellir cyfeirio cleifion sydd â symptomau o ganser colorectol yn uniongyrchol am archwiliad, gan osgoi apwyntiad cleifion allanol ac arbed amser. • Mae pobl sy'n byw â dementia a'u gofalmwr wedi ymuno ag arbenigwyr iechyd o ran canmol y gefnogaeth cof 'o'r radd flaenaf' a ddarperir ar draws Gogledd Cymru. Mae Gwasanaeth Cof Gwynedd a Môn wedi cael y marc ansawdd gorau gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion ar y trydydd tro'n olynol am ddarparu gofal o'r safon uchaf i bobl sy'n byw â dementia a phroblemau cof eraill.

Aros yn Iach

Ysmygu

Mae staff yng Ngwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu BIPBC wedi trin 3.08% o'r boblogaeth sy'n ysmygu sy'n dangos yr ail berfformiad gorau yng Nghymru, ond cydnabyddir nad yw hyn yn cyflawni'r targed 5%.

O'r rhai a gafodd eu trin gan y gwasanaethau, cafodd 38.46% eu dilysu fel rhai a oedd wedi rhoi'r gorau i ysmygu. Er bod hwn yn welliant ers y llynedd, mae'n parhau i fod yn is na'r targed 40% ac mae ei wella'n flaenoriaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf (2020 hyd at 2022).

Prosiect Iechyd Resbiradol

Dynodwyd bod 20% o boblogaeth Blaenau Ffestiniog yn ysmygwyr. Mae hyn, ynghyd ag etifeddiaeth y diwydiant chwareli wedi cyfrannu at iechyd resbiradol gwael a dynodwyd bod 11% o'r cleifion hynny sydd wedi cofrestru â'r feddygfa (Canolfan Goffa Ffestiniog) yn dioddef o gyflyrau resbiradol cronig.

Dynodwyd bod y practis yn un o'r rhagnodwyr uchaf o gorticosteroidau mewnanadledig yn BIPBC, a hyrwyddodd y clwstwr i ddynodi ffyrdd i ddatblygu strategaethau a thriniaethau mwy effeithiol i wella iechyd resbiradol.



Cynhaliodd Steffan John, fferyllydd annibynnol sy'n rhagnodi sy'n arbenigo mewn iechyd resbiradol, 6 sesiwn, a oedd yn cynnwys:

- Dynodi cleifion a gwahodd cleifion i glinigau resbiradol
- Addysgu a hyfforddi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd o ran rhoi diagnosis o COPD a'i reoli
- Adolygu a gwella technegau anadlwyr

Amddiffyn pobl rhag y Ffliw

Mae amddiffyn pobl rhag y risg o gael y fflw yn un o'r prif elfennau o ran helpu'r GIG i leihau'r galw am ofal brys dros y gaeaf. Mae nifer y bobl sy'n gymwys i gael eu brechu ac sy'n derbyn brechiadau wedi cynyddu fesul blwyddyn yn achos y grwpiau sydd o dan 65 oed a throsodd. Mae lefel gynyddol y brechiadau a roddir yn dangos y gwaith caled y mae ein staff wedi'i wneud i hybu'r angen am frechiadau. O ganlyniad, erbyn 31 Mawrth 2020, mae dros 2,444 yn fwy o bobl yng Ngogledd Cymru wedi cael eu brechu o'i gymharu â'r llynedd.

Y targed cenedlaethol yw bod 75% o'r grwpiau cymwys (pobl dros 65 oed a rhai dan 65 oed sydd â mwy o berygl o gael haint) yn cael eu brechu. Gogledd Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o frechiadau yng Nghymru, ar 71.4% ar gyfer y rheiny sydd dros 65 oed a 46.9% ar gyfer y rheiny o dan 65 oed. Mae hwn yn welliant i'r grŵp sydd dros 65 oed. Fodd bynnag, roedd y nifer cynyddol o bobl o dan 65 oed a oedd yn gymwys i gael eu brechu'r llynedd yn golygu bod cyfradd manteisio ar frechiadau wedi gostwng, er bod nifer y bobl yn y grŵp hwn a gafodd eu brechu wedi cynyddu. Mae hyn yn dangos bod angen i ni barhau â'n hymdrechion i annog pobl i amddiffyn eu hunain.



Atal

Cynllun Strategol Imiwneiddio Tair Blynedd 2019-2022

Trwy ddatblygu ein Cynllun Strategol Imiwneiddio tair blynedd (2019-22), mae BIPBC wedi ymrwymo i amddiffyn a gwella iechyd y boblogaeth trwy wneud y mwyaf o faint sy'n cael brechiadau ar gyfer pob grŵp sy'n gymwys ar draws y cwrs bywyd. I gyflawni hyn byddwn yn canolbwyntio ar leihau'r amrywiant yn y nifer sy'n cael brechiadau, rhannu dysg a mewnosod diwylliant o wella ansawdd ymhellach, gan wneud trefniadau llywodraethu mwy cadarn, gwella sut ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chymryd pob cyfle i imiwneiddio ein cyhoedd, cleifion a'n staff.

Mae ystod o raglenni brechu rheolaidd yn cael eu darparu ar draws Gogledd Cymru gan BIPBC a chontractwyd gofal cychwynnol. Darperir mwy o imiwneiddiadau dewisol, meddygol, galwedigaethol a theithiol hefyd, yn cynnwys brechiadau rhag y fflw i ferched beichiog a phobl â chyflyrau cronig; Twbercwlosis, Hepatitis B a brechiadau rhag y fflw i staff sy'n ymwneud â gofal cleifion uniongyrchol; a brechiadau teithio i bobl sy'n teithio i wledydd penodol.



Imiwneiddio Plant

Mae BIPBC yn hanesyddol wedi gwneud yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran faint o blant sy'n cael imiwneiddiadau yn ystod plentyndod, er mae amrywiaeth ar sail yr ardal ddaearyddol ac mae cyfraddau'n gostwng o fabanod hyd at blentyndod diweddarach. Yn 2019/20, roedd brechiadau 90.3% o blant yng Ngogledd Cymru yn gyfredol wrth iddynt droi yn 4 oed. Mae hyn yn uwch nag ardaloedd byrddau iechyd eraill a Chymru. Fodd bynnag mae mwy o blant yn cael eu himiwneiddio yn ardaloedd llai difreintiedig yn BIBPC na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac felly mae annhegwch. Rydym wedi penodi dau gydlynnydd imiwneiddio arall sy'n targedu'r ardaloedd sydd fwyaf mewn angen.

Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR)

Roedd nifer y plant dwy oed a gafodd y dos cyntaf o'r brechiad MMR yn BIPBC o dan y targed 95%, sef 94.9% yn 2019/20. Fodd bynnag, rhagorodd dwy ardal y targed, sef Ynys Môn a Wrecsam. Roedd nifer y plant 5 oed a gafodd yr MMR yn BIPBC yn llai na'r targed 95%, sef 91.0% yn 2019/20. Ni wnaeth unrhyw ardal yng Ngogledd Cymru gyrraedd y targed. Rydym yn parhau i weithio gyda'n cymunedau i hybu imiwneiddiad a chwalu mythau.

Gwasanaethau Pwysau Iach

Mae BIPBC yn parhau i weithio tuag at sefydlu gwasanaeth 2 haen sy'n cynnwys darparwr pwysau masnachol fel rhan o'r opsiynau pecyn gwasanaeth. Mae'r rhaglenni Bwyta'n Ddoeth a Kind eating wedi ehangu yn ystod 2019/20 gyda chynnydd mewn cyswllt â chleifion.

Rydym wedi bod yn cwmpasu modelau o arfer a pherfformiad da i ddatblygu ein gwasanaeth haen 3 gordewdra ymysg plant yn ystod 20/21. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ddarpariaeth ein strategaeth hir dymor 'Pwysau Iach: Cymru Iach' i leihau gordewdra a'i atal.

Yn ystod 2019, lansiwyd ein Strategaeth Bwydo Babanod cyntaf. Y weledigaeth yw creu diwylliant cefnogol yng Ngogledd Cymru sy'n caniatáu i rieni wneud y dewis am fwydo babanod mewn ffordd wybodus sy'n gwneud y mwyaf o faeth ac sy'n helpu i ddatblygu perthynas agos a chariadus gyda'i babi.

Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol i leihau anghydraddoldebau iechyd ar draws cwrs bywyd. Mae'r sylfaen ar gyfer bron pob elfen o ddatblygiad dynol - corfforol, deallusol ac emosiynol - yn cael eu gosod yn ystod plentyndod cynnar.

Mae cydweithrediad Beth am Symud, Gogledd Cymru yn parhau i gydweithio i wella iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru, drwy gynyddu cyfleoedd i fod yn fwy actif.

Ymgyrch Lles y Gaeaf

Roedd Ymgyrch Lles y Gaeaf, Tîm Ardal y Dwyrain yn ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a ddarparwyd i gynnig cyngor a chefnogaeth i aelodau'r gymuned ar bwysigrwydd cadw'n iach yn enwedig yn ystod y gaeaf. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys pum thema a oedd yn cynnwys: Gofal y Croen, Hydradiad, Atal Codymau, Dewis Fferyllfa a Brechiad y Ffliw a Chefnogi Gofalwyr. I ddechrau, cynhaliwyd Sioeau Teithiol yn Wrecsam a Sir y Fflint. Wedyn, mae aelodau'r tîm wedi bod yn hybu'r ymgyrch mewn Gwyliau Bwyd a digwyddiadau lechyd yn y Gweithle.

Cleifion Allanol Plant: Ffrwyth am ddim

Cydweithiodd adran arlwyyo, dieteteg a phaediatreg BIPBC ochr yn ochr ag elusen Awyr Las yn 2019 i dreialu cynllun i gynnig ffrwyth am ddim i blant yn ardal cleifion allanol paediatreg. Cynhaliwyd y treial i ddechrau yn adran cleifion allanol paediatreg Ysbyty Maelor Wrecsam ond ers hynny mae wedi cael ei gyflwyno yn y prif ysbytai eraill. Ar gyfartaledd, mae 40-60 darn o ffrwyth yn cael ei ddosbarthu pedair gwaith yr wythnos ac nid oes gwastraff wedi cael ei adrodd. Mae'r dderbynfa'n hybu'r cynnig gyda phosteri lliwgar a gweithgareddau ar y thema ffrwythau i'r plant, megis lliwio a chroesair. Mae adborth gan rieni wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r cynnig wedi parhau gyda chefnogaeth y tîm arlwyyo.



Pobl Ifanc dros Bobl Ifanc: cynyddu gwytnwch

Mae Hannah Mart, Cyngorydd Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc, yn y Ganolfan Cyfeirio Ymosodiad Rhywiol, Amethyst wedi bod yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc i ddatblygu llyfryn adnodd o dan y teitl 'Sharing Stories / Rhannu Straeon'. Nod yr adnodd oedd darparu gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc eraill am y broses cyfiawnder troseddol a sut i ymdopi gyda'r broses, cefnogi eu hadferiad, lleihau ynysu a chynyddu gwytnwch. Yn ogystal, gellir ei ddefnyddio i helpu gweithwyr proffesiynol ddeall profiad y daith CJS o safbwynt y goroeswr a rhoi gwell cefnogaeth iddo.



Datblygodd y prosiect momentwm ac yn ogystal â'r llyfryn mae ffilm a podcast wedi'i ddatblygu. Lansiwyd y ffilm a'r podcast 'Sharing Stories / Rhannu Straeon' yn swyddogol ym mis Medi 2019. Cyflwynwyd y prosiect fel cais yng Ngwobrau Problemau'r Heddlu (POP). Gwahoddwyd Hannah a rhai o'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r prosiect i'r seremoni Gwobrwyd i gyflwyno'r prosiect, er na wnaeth ennill, roedd y gwaith wedi gwneud argraff ar y beirniaid ac fe benderfynasant roi gwobr y beirniaid o £3000 i'r prosiect.

Gofal Diogel

Gofal Diogel Glân - lleihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd



Bu gwelliant parhaus gyda phwyslais a gwaith adweithiol yn ymwneud ag atal heintiau, ynghyd â chynnwys yr ymgyrch Gofal Diogel Glân dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys lleihau amrywiad direswm, craffu dwfn ar yr holl heintiau taflwybr, datblygu rhaglen ymarferydd cyswllt, gyda'n digwyddiad addysgol mewnol cyntaf.

Ail ymwelodd Adolygydd Annibynnol â'r Bwrdd Iechyd a rhoddodd adroddiad cadarnhaol yn ôl i'r tîm Gweithredol ar y cynnydd pellach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, cynhaliwyd archwiliad mewnol ac roedd lefelau sicrwydd wedi cynyddu'n gyffredinol o'r llynedd o ran Gofal Diogel Glân ac Atal a Rheoli Haint. Cynhaliwyd archwiliad ciplun ar gathetrau wrinol ym mis Medi 2019 ac mae canlyniadau rhagarweiniol yn awgrymu bod gan lai na 2% o'r cleifion hynny haint sy'n gysylltiedig â dyfeisiau wrinol. Mae hyn ochr yn ochr â'r cyflawniadau hyd yma o ran lleihau heintiau llif gwaed, Meticillin Resistant Staphylococcus Aureus (MRSA), sydd wedi gostwng fesul 100.000 y boblogaeth o 2.72 i 1.87.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod heintiau penodol i ganolbwyntio arnynt o hyd, megis heintiau gram-negyddol a'r rhaglenni gwaith cydweithredol ym maes gofal cychwynnol a chymuned gyda gwasanaethau arbenigol eraill.

Canolbwyntio ar Wella Ansawdd- Cydweithrediad Codymau a Wlserau Gwasgu a gafwyd yn yr Ysbyty.

Cyflwynodd BIPBC raglen waith sy'n canolbwyntio ar welliant sy'n cynnwys Rhaglen Achrediad Ward, a ddechreuodd yng nghanol mis Hydref 2018, a dilynodd y Cydweithrediad Wlserau Gwasgu a gafwyd yn yr Ysbyty yn gyflym yn ddiweddarach ym mis Tachwedd 2018 ac yna'r Cydweithrediad Codymau Cleifion Mewnol ym mis Mehefin 2019.

Mae'r holl raglenni allweddol sy'n canolbwyntio ar welliannau'n darparu cyfle i BIPBC ymgorffori egwyddorion iaith a methodoleg Gwella Ansawdd yn ogystal ag ymgorffori set o safonau i fframio ein hagenda ansawdd, diogelwch a gofal cleifion ac i gynnal momentwm gwelliannau ac egwyddorion yr ymgyrch Gofal Diogel Glân.

Gwella Diogelwch a Lleihau Niwed

Drwy ddefnyddio dull cydweithredol, rydym wedi canolbwyntio ar welliannau sy'n ymwneud â'n prif niwed (Codymau Cleifion Mewnol a Wlserau Gwasgu a gafwyd mewn Ysbyty). Mae'r cydweithrediad yn nifer fach o wardiau sydd wedi dod ynghyd gyda chefnogaeth gan y tîm Gwella Ansawdd ac arbenigwr pwnc fel cyfadrn drwy sesiynau wyneb wrth wyneb wedi'u trefnu ac sydd wedi arwain at ymgorffori iaith a dealltwriaeth gyffredin o wella ansawdd ar gyfer staff ward ar bob lefel. Mae wedi'n helpu ni i ddynodi safonau ar gyfer ein holl wardiau o ran dynodi a lleihau niwed o Wlserau Gwasgu a gafwyd yn yr ysbyty ac yna ar gyfer codymau Cleifion Mewnol unwaith mae'r cydweithrediad wedi'i gwblhau.

Mae canlyniadau hyd yma'n cynnwys safoni adroddiadau am ddigwyddiadau, symleiddio a mynediad hawdd at adnoddau addysgol, datblygiad ymwybyddiaeth archwiliad y gadair ac ymgysylltu ag ymwelwyr â'r cyhoedd i leihau niwed o am godymau.



Codymau: Adroddiadau DATIX SBAR							
S	Sefyllfa: Beth yw'r sefyllfa ar unwaith? Dynodi eich hun, uned, claf a rhif ystafell Nodwch y broblem yn fyr.	B	Cefndir: Beth all fod wedi cyfrannu at y codwm hwn? Gofynnwch i'r claf beth roedd yn ei wneud cyn y codwm? E.e gwisgo ei sliperi, angen mynd i'r toiled ayb Diagnosis wrth dderbyn a dyddiad derbyn. Meddyginiaethau, alergeddau a hylifau IV cyfredol. Hanes byr. Triniaeth gyfredol.	A	Asesiad: Beth ydych chi'n meddwl yw'r broblem? Eglurwch eich asesiad o'r claf a sut y daethoch i'r asesiad hwn e.e sefydlog neu ddirywio. Sicrhewch fod difrifoldeb cywir o ran effaith y codwm yn cael ei gofnodi	R	Argymhelliad / Cais: Beth rydych chi'n ei argymhell y dylid digwydd nesaf? Adolygu / gweld y claf yn awr yn unol â rhestr wirio ôl-godymau BIPBC . Cynnal/ adolygu profion. Ail-asesu / ystyried: Esgidiau; Lleoliad y claf ar y ward; Cymhorthion symudedd; Llwybr Codymau; Rhoi gwybod i deulu ac

Digwyddiadau i'w hadrodd wrth Lywodraeth Cymru

Ble mae digwyddiadau anffafriol difrifol yn digwydd, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu harchwilio'n drylwyr, ein bod yn dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto a gwella diogelwch i gleifion. Rydym yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau difrifol ac yn ceisio dangos, o fewn amserlen y cytunwyd arni, ein bod wedi cymryd mesurau priodol i leihau'r risg o ddigwyddiadau tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Dyma faes ble mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei berfformiad yn sylweddol yn y naw mis o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2019, o fod â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2018 i'r gorau ym mis Rhagfyr 2019 ar 84%. Mae hwn yn fater y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd o ddifrif ac mae gwaith yn parhau i wella perfformiad ac i ddysgu o ddigwyddiadau er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau i'n cleifion.

Gwellir gweld mwy o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2019-20 ar ein gwefan. Gellir gweld mwy o fanylion yn yr adran 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' ar dudalen 53.

Digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd

Mae digwyddiadau na ddylent ddigwydd yn ddigwyddiadau anffafriol difrifol y dylai ein systemau a'n prosesau sicrhau na ddylent fyth allu digwydd, ac rydym wedi ymrwmo i gyflawni hyn. Rydym wedi lleihau nifer y digwyddiadau na ddylent ddigwydd, gyda phedwar wedi'u hadrodd yn ystod y naw mis rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 o'i gymharu ag wyth wedi'i hadrodd yn ystod yr un cyfnod yn 2018/19.

Mae'r holl ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'n Gweithredwyr Clinigol cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad, ac yn cael eu hymchwilio'n llawn o ran y fframwaith digwyddiadau difrifol. Mae'r broses hon yn cynnwys y claf, y teulu a'r gofalwyr trwy'r cyfan. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr ac yn cael ei gynnal gan yr Uwch Reolwyr Ymchwiliad gyda chefnogaeth gan Uned Ddarparu Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau cadarn yn cael eu cynnal, bod yr holl wersi perthnasol yn cael eu dysgu a'u rhannu ar draws y sefydliad a bod pob cam angenrheidiol yn cael eu cymryd i atal y digwyddiad rhag digwydd eto.

Yn anffodus, adroddwyd ar Ddigwyddiad arall na ddylai fyth ddigwydd ym mis Mawrth 2020 gan ddod â'r cyfanswm ar gyfer 12 mis 2019/20 i bump, o'i gymharu ag wyth yn 2018/19.

Gellir gweld mwy o wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2019-20 sydd ar gael ar ein gwefan. Gellir gweld mwy o fanylion yn yr adran 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' ar dudalen 53.

Marwoldeb

Mae marwoldeb crai Cleifion o dan 75 oed yn seiliedig ar nifer y marwolaethau mewn cyfnod penodol wedi'i rannu â chyfanswm derbyniadau cleifion mewnol y cyfnod hwnnw (cleifion o dan 75 oed). Ar gyfer y flwyddyn 2018/19 gwnaethom adrodd ar gyfradd o 0.77%, ac am yr un cyfnod yn 2019/20 rydym wedi gweld cynnydd bach i 0.78%.


Mae Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gweithio gyda'n hysbytai llym, cymuned ac ysbytai iechyd meddwl i ddefnyddio'r broses adolygu marwoldeb Cymru gyfan i edrych ar y ffordd rydym yn adolygu gofal y cleifion sy'n marw. Maent hefyd yn gweithio gyda Gwella Cymru ar sail Cymru gyfan, i wella'r adolygiad ymhellach a gwneud y gwelliannau gofynnol a ddynodwyd gan yr adolygiadau.

Mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd gynnal Adolygiadau Marwoldeb Byd Eang cyn pen 28 diwrnod o farwolaeth. Mae perfformiad yn erbyn y mesur hwn wedi gwella o 87.8% a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2018 i 92.8% a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn i sicrhau ein bod yn cyflawni'r gyfradd targed o 95% yn gyson drwy gydol 2020/21 a thu hwnt.

Achrediad Ward

Mae ein rhaglen Achrediad Ward a lansiwyd ym mis Tachwedd 2018 yn asesu wardiau ac unedau ar draws y rhanbarth ar ystod o fesurau ansawdd. Mae wardiau sy'n dangos gofal rhagorol yn cael gwobr efydd, arian neu aur yn dilyn asesiad manwl gan arweinwyr nyrsio.

Mae gwaith y rhaglen Achrediad Ward yn parhau gyda phob ward yn cael ymweliad annisgwyl. Hyd yma mae 95 ward wedi cael ymweliad ac mae un wedi cael gwobr Aur. Bydd y rhaglen yn parhau ac mae wedi'i hymgorffori'n llawn o fewn BIPBC fel ffordd o gefnogi ein timau wrth roi set o safonau ar waith, rhannu gwelliannau a dathlu llwyddiant.



Gwasanaeth Gwybodaeth am Feddyginiaethau

Darparodd y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor ar Feddyginiaeth gyngor i 56 claf yn 2019 drwy'r llinell gymorth meddyginiaeth. Roedd y mwyafrif o'r galwadau yn ymwneud â meddyginiaethau cyflenwol a meddyginiaethau amgen a p'un a oedd yn ddiogel eu defnyddio mewn cyfuniad â meddyginiaethau a ragnodir neu a oedd rhagofalon neu wrtharwyddion eraill ar gyfer eu defnydd.

Deliodd y Gwasanaeth Gwybodaeth ar Feddyginiaethau BIPBC gyda dros 1000 ymholiad gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gweithredu i gefnogi defnydd diogel ac effeithiol, diwastraff a chylchdro o feddyginiaeth yn yr ysbytai a'r gymuned, gyda pwyslais cryf ar hybu gofal o ansawdd a sicrhau diogelwch.

Roedd yr ymholiadau hyn yn ymwneud â gofal cleifion unigol a allai effeithio ar ddiogelwch a phrofiad ac effeithlonrwydd a chanlyniadau triniaeth. Wedi'i rannu dros dri safle llym yn BIPBC, mae'r tîm MI yn cydweithio i sicrhau bod mynediad ar gael at wybodaeth pum niwrnod yr wythnos. Mae Fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau ar-alwad yn cael eu hyfforddi gan y tîm MI i allu darparu cyngor o ansawdd ar gais.

Mae cynlluniau ar y gweill i hybu'r llinell gymorth meddyginiaethau'n ehangach yn 2020.

Uned Gofal Dwys Seiciatrig: gwella diogelwch

Cafodd staff Uned Gofal Dwys Seiciatrig Ysbyty Maelor Wrecsam eu henwi fel Tîm y Flwyddyn y Nursing Times am eu gwaith o ddod â llawenydd i bobl yr effeithir arnynt fwyaf gan salwch meddwl. Enillodd staff o Ward Tryweryn yn Uned Heddfan Ysbyty Maelor Wrecsam gystadleuaeth gref o dimau'r GIG o bob rhan o'r DU.



Mae'r wobwr fawreddog wedi'i rhoi i gydnabod newidiadau "anhygoel" y mae'r tîm wedi'u gwneud i Ward Gofal Dwys Seiciatrig Tryweryn, gyda wyth gwely, sy'n darparu gofal a chefnogaeth i bobl sydd mor ddifrifol wael fel na allant gael eu trin yn ddiogel ar ward iechyd meddwl gyffredinol. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno ystod o weithgareddau a therapïau newydd ar y ward, gan gynnwys sesiynau yoga, tylino'r dwylo a phobi, yn ogystal ag ystafell newydd 'rhefrw ac ymlacio', sydd wedi'i gynllunio gan y cleifion.

Dywedodd Denise Charles, Rheolwr Gwasanaeth Caniad: "Mae gwahanol bobl yn bwrw'i bol mewn gwahanol ffyrdd. Os yw rhywun yn teimlo na all fynegi ei hun, gallant fod yn ofidus iawn. Yn hytrach nag angen ei atal yn ddiogel, gallwn arwain pobl at yr ystafell ddiogel a'u hannog i un ai fwrw'i bol neu orwedd o dan y flanced wedi'i phwysoli. Rydym yn eu cysuro".

Ers cyflwyno'r newidiadau mae'r staff ar Ward Tryweryn wedi llwyddo i haneru nifer yr ataliadau sy'n cael eu gwneud, tra bod sgôr boddhad cleifion wedi cynyddu'n sylweddol yn yr un amser. "Mae llawer iawn mwy o chwerthin i'w glywed ar y ward gan ei fod dan arweiniad cleifion".

Dywedodd Matt Jarvis, Rheolwr y Ward: "Mae i gyd yn syml iawn - y cwbl sydd angen ei wneud yw gofyn sut allwn ni gefnogi anghenion unigol pobl, a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud."

Maeth a Hydradiad: gwella diogelwch

Yn ogystal â pharhau i hybu maeth a hydradiad ar draws BIPBC drwy gydol 2019-2020, cefnogodd y timau maeth, sy'n ymgorffori gwasanaethau Dieteteg, Nyrsys Maeth a gwasanaethau Arlwyo, ddarn mawr o waith i alluogi newid i brofion sgrinio diffyg maeth ledled BIPBC

O 2018 i 2019, cyfrannodd aelodau'r Grŵp "*Hanfodion Maeth, Safonau Arlwyo a Hydradiad*" BIPBC at adolygiad prawf sgrinio diffyg maeth Cymru Gyfan. Daethpwyd i'r casgliad yn 2019, ei bod yn briodol newid (gan eithrio Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Mamolaeth) o ddefnyddio'r 'Adnodd Byd Eang Sgrinio Diffyg Maeth, 'MUST' (Malnutrition Universal Screening Tool) ym mhob lleoliad cleifion mewnol llym a chymuned, i ddefnyddio adnodd dilysu amgen o'r enw 'WAASP' (**W** yth, **A** rchwaeth) , **A** gallu i fwyta, **S** ffactor straen, **P** wiser gwagu) Adnodd Asesu Risg Maethol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr adnodd yn gallu dal cleifion sydd mewn perygl o ddiffyg maeth fel claf mewnol yn sensitif.

Yn dilyn y gwaith hwn, cafodd holl Fyrddau Iechyd Cymru gyfarwyddyd gan Gylchlythyr Iechyd Cymru i newid y ddogfennaeth a ddefnyddir ar gyfer Profion Sgrinio Maeth Cleifion Mewnol Oedolion o 2 Rhagfyr 2019.

Parhaodd FINCHS i weithio ar draws BIPBC a gyda rhanddeiliaid Cymru Gyfan, gan gynnwys Nyrsio a Gwybodeg i sicrhau bod Llyfrynnau Asesiad Risg priodol yn cael eu cynllunio a'u dosbarthu, a diweddarwyd llwyfannau e-ddysgu i adlewyrchu'r adnodd newydd. Er mwyn cefnogi'r broses o'i roi ar waith, darparodd Dietegwyr a Nyrsys Maeth BIPBC raglen addysg gynhwysfawr o ddechrau mis Medi 2019 hyd at y flwyddyn newydd.

Mae'r adnodd WAASP yn awr wedi'i ymgorffori ar draws BIPBC ym mhob ardal cleifion mewnol priodol.



The new All Wales
Nutritional Screening Tool is coming to your ward
on
1st December 2019!

Prepare yourself by completing the
ESR E-Learning by the end of September

000 NHS Wales – Food Record Chart



Department of Nutrition & Dietetics & Nutritional Support Teams
August 2019

Diogelu

Mae'r enghreifftiau isod yn ychydig o'r camau rydym wedi'u cymryd i ddarparu sicrwydd, gwneud gwelliannau ac i ddysgu, o safbwynt Diogelu.

Adroddiad Archwiliad Mewnol 2019/20

Cynhaliwyd adolygiad manwl o ddarpariaeth gwasanaeth yn erbyn gofynion Safonau Iechyd a Gofal, deddfwriaeth Diogelu ac arweiniad yn 2017-2018 gyda sicrwydd cyfyngedig wedi ei roi. Canfu adolygiad dilynol o'r cyfnod 2019-2020 sicrwydd sylweddol heb wneud unrhyw argymhellion gan fod canfyddiadau'r adroddiad wedi tystio bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud.

Matrics Aeddfedrwydd Diogelu

Mae'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu (SMM) yn adnodd hunan asesu a monitro ansawdd a ddefnyddir gan yr holl Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau yng Nghymru. Ym mis Tachwedd 2019, y pum safon a gafodd eu hasesu oedd; Llywodraethu a Dull ar Sail Hawl, Gofal Diogel, ACE Gwybodus, Diwylliant Dysgu a Gwaith Partneriaeth Aml Asiantaeth. Y sgôr cyraeddadwy uchaf yw pump ar gyfer bob safon, gydag uchafswm sgôr o 25.

Cyflawnodd BIPBC sgôr o 14 yn 2018, a sgôr o 23 yn 2019. Mae hyn yn dangos cynnydd rhagorol, a dyma'r sgôr uchaf yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn drwy roi'r Fframweithiau Llywodraethu, Perfformiad a Sicrwydd ar waith, dysgu ar sail tystiolaeth a datblygu Llwybrau Cyfathrebu.

Diwylliant o ddysgu mewn diogelu

Mae'r Tîm Diogelu Corfforaethol yn rhoi sicrwydd i BIPBC yn erbyn Adolygiadau Mewnol, Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gyfer oedolion a phlant. Enghraifft dda yw argymhelliad gan Adolygiad Arfer Plant sy'n argymhell bod bob asiantaeth yn datblygu model dibriff digwyddiad critigol. Ar 4 Mai 2020, lansiodd y Tîm Diogelu Corfforaethol y Rheolaeth Risg Trawma (TRIM) sy'n cefnogi staff sy'n goddef o ddigwyddiad trawmatig.

Gofal Effeithiol

Prosiect Cartref yn Gyntaf

Fel rhan o gynllun arloesol, fe wnaeth tîm cymuned ardal y canol atal dros 800 o dderbyniadau ysbyty y gellir eu hosgoi dros gyfnod o chwe mis ac maent wedi rhannu eu gwaith gyda'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ymwelodd Vaughan Gething â chydweithwyr sy'n gweithio ar y Prosiect Cartref yn Gyntaf, sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae'r prosiect, a asesodd dros 2,000 o ymwelwyr â'r Adran Achosion Brys rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2019, yn dod â staff therapiâu, gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector ynghyd i helpu pobl ddychwelyd gartref ar ôl triniaeth yn yr adran.

Mae'r tîm Camu i Lawr yn cydweithio i gefnogi cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty drwy ddarganfod datrysiadau i rwystrau a fyddai fel arall yn eu rhwystro rhag dychwelyd gartref. Mae Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol a Ffisiotherapyddion yn gweithio patrymau sift estynedig yn yr Adran Achosion Brys ac yn rhannu cyngor a gwybodaeth gyda chydweithwyr i gefnogi rhyddhau i'r cartref. Mae eu gwaith yn helpu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty ac yn atal datgyflyru ble mae pobl yn colli eu hannibyniaeth a symudedd ar ôl arhosiad mewn gofal.

Mae'r tîm yn mynd i'r afael â heriau gan gynnwys mynediad at gefnogaeth yn y gymuned ac yn trefnu ymweliadau dilynol gyda chleifion i sicrhau eu bod yn gallu gwella'n ddiogel gartref, yn hytrach nag mewn ysbyty.

Dywedodd Sandra Naughton, Metron Camu i Lawr ar gyfer Ysbytai Cymuned: "Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ofyn i bobl beth sy'n bwysig iddynt hwy, sy'n amlach na pheidio'n golygu dychwelyd gartref ac i'w ffordd arferol o fyw cyn gynted â phosibl. Drwy gynnig arbenigedd i gydweithwyr yn yr Adran Achosion Brys dros gyfnod hirach o amser, rydym wedi llwyddo i helpu dros 800 o bobl i osgoi arhosiad mewn ysbyty nad oeddent ei angen, yn hytrach maent wedi mynd gartref neu i ofal yn y gymuned gyda chynllun triniaeth ar waith i wella."

Cydnabuwyd y prosiect ar restr fer y categori Making Every Day Count, Gwobrau Gwella Gofal Iechyd 2019, a oedd yn dathlu cyraeddiadau rhagorol gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd a fferyllwyr ar draws Cymru.



Llwybrau Gofal Effeithiol: Llwybr Hunan Ofal

Pwrpas Rhyddhau Uniongyrchol yr Adran Achosion Brys ar gyfer ardal y Dwyrain oedd i ail lunio'r llwybr gofal ar gyfer rheoli chwe thor asgwrn ac anaf penodol. Mae bob claf sydd â thor asgwrn llym yn draddodiadol wedi bod yn cael eu cyfeirio at glinig tor asgwrn yn fuan ar ôl anaf. Fodd bynnag, gellir rhyddhau achos o dor asgwrn ac anafiadau syml a sefydlog o'r Adran Achosion Brys gyda thaflenni cyngor safonedig, mynediad at gyngor dros y ffôn ac ni fydd angen apwyntiad dilynol mewn clinig tor asgwrn.

➡ Dechreuwyd rhoi hyn ar waith ar 1 Hydref 2018 a chasglwyd y data am 12 mis. Roedd cleifion a oedd yn cael diagnosis o un o'r chwe anaf penodol yn cael eu rhoi ar y 'Llwybr Hunan Ofal' (SCP) ac yn cael y driniaeth briodol a thaflen gyda chyngor, cyn cael eu rhyddhau o'r Adran Achosion Brys.

➡ Cysylltodd ffisiotherapydd yr Adran Achosion Brys gleifion a roddwyd ar y Llwybr Hunan Ofal, ac adolygu'r nodiadau / Pelydr X gyda Meddyg Ymgynghorol Orthopaedig yn wythnosol, i sicrhau bod cleifion wedi cael eu rhyddhau o'r Adran Achosion Brys yn ddiogel ac yn briodol. Byddai cleifion un ai'n parhau ar y Llwybr Hunan Ofal, yn cael eu cyfeirio at Therapi Galwedigaethol am reolaeth bellach (anafiadau i'r bys morthwyl yn unig) neu'n cael eu galw i ddod i glinig tor asgwrn. Ar 8 wythnos ar ôl anaf, cynhaliodd ymarferydd ffisiotherapi'r Adran Achosion Brys adolygiad ffôn ar gyfer cleifion a oedd wedi parhau ar y Llwybr Hunan Ofal heb apwyntiad dilynol arferol. Yn ogystal, defnyddiwyd system meddalwedd yr Adran Achosion Brys i archwilio faint o gleifion a gafodd eu cyfeirio at y clinig tor asgwrn gydag un o'r 'chwe' anaf, yn hytrach na chael eu trin ar y Llwybr Hunan Ofal:

➡ Cysylltodd ffisiotherapydd yr Adran Achosion Brys gleifion a roddwyd ar y Llwybr Hunan Ofal, ac adolygu'r nodiadau / Pelydr X gyda Meddyg Ymgynghorol Orthopaedig yn wythnosol, i sicrhau bod cleifion wedi cael eu rhyddhau o'r Adran Achosion Brys yn ddiogel ac yn briodol. Byddai cleifion un ai'n parhau ar y Llwybr Hunan Ofal, yn cael eu cyfeirio at Therapi Galwedigaethol am reolaeth bellach (anafiadau i'r bys morthwyl yn unig) neu'n cael eu galw i ddod i glinig tor asgwrn. Ar 8 wythnos ar ôl anaf, cynhaliodd ymarferydd ffisiotherapi'r Adran Achosion Brys adolygiad ffôn ar gyfer cleifion a oedd wedi parhau ar y Llwybr Hunan Ofal heb apwyntiad dilynol arferol. Yn ogystal, defnyddiwyd system meddalwedd yr Adran Achosion Brys i archwilio faint o gleifion a gafodd eu cyfeirio at y clinig tor asgwrn gydag un o'r 'chwe' anaf, yn hytrach na chael eu trin ar y Llwybr Hunan Ofal:

Mae'r gwaith hwn wedi gwella llwybr gofal heb gyfaddawdu ar y canlyniad cyffredinol ac wedi hynny, wedi arwain at lai o amser teithio ac amser i ffwrdd o'r gwaith i'r 'cleifion' fynd i apwyntiad a llai o apwyntiadau clinig tor asgwrn, a thrwy hynny leihau llwyth gwaith y clinig tor asgwrn.

Llwybrau Effeithiol: 'Siop Un Stop' - Clinig yr Ysgwydd

Dechreuodd gweithrediad y 'Clinig Ysgwydd Siop Un Stop' ar 1 Ebrill, 2019. Pwrpas gweithredu'r clinig ysgwydd 'Siop un Stop' o fewn y gwasanaeth brysbennu cyhyrysgerbydol (CMATS) oedd gwella'r llwybr gofal i gleifion â chyflyrau ysgwydd. Mae'r gwasanaeth yn caniatáu i gleifion fynychu un apwyntiad a chael asesiad cyhyrysgerbydol gyda mynediad ar unwaith i sgan uwchsain diagnostig a phigiad os oes angen

“Popeth! Gwasanaeth un-stop. Ymgynghoriad gwych. Wedi egluro beth oedd yn bod - wedi gallu cael profion, archwiliad a sgan uwch-sain i gyd mewn un ymweliad.

- ➡ Rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2019, trinwyd 131 claf yn y clinig ysgwydd un stop. Yn dilyn asesiad clinigol, aeth 61% o'r cleifion ymlaen i gael sgan uwchsain, nid oedd angen sgan ar 39% o'r cleifion.
- ➡ Roedd 142 cyfeiriad at yr adran radioleg ar gyfer sgan uwchsain ar yr ysgwydd gan Feddyg Teulu. Mae gostyngiad o 44% mewn gweithgaredd uwchsain yr ysgwydd o'i gymharu â'r sganiau a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2019.
- ➡ Roedd yr amser aros cyfartalog am sgan uwchsain yn yr adran radioleg rhwng Ebrill 2018 ac Awst 2018 yn 9.4 wythnos. Rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2019, roedd yr amser aros cyfartalog yn 6.1 wythnos. Mae hyn yn dangos gostyngiad o 35% mewn amseroedd aros i gleifion yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2019 ac Awst 2019.

Symposiwm Blynyddol Ysbyty Maelor Wrecsam: Gwella Ansawdd (QI) ac Archwiliadau



Dyma oedd yr ail "Symposiwm Archwiliad-QI Blynyddol" ym Maelor Wrecsam, a mynychodd 94 aelod o staff o ddisgyblaethau amrywiol. Roedd yn cynnwys 10 prosiect/archwiliad QI dethol a gyflwynwyd gan staff meddygol a nyrsio a chafodd ganmoliaeth gan yr holl fynychwyr gydag adborth rhagorol. Rhoddwyd tair gwobr am y prosiectau gorau a'r tîm orthopaedeg enillodd y wobr gyntaf am eu canlyniadau gwych gyda "Llwybr clun newydd wedi'i bersonoli" yn Ysbyty Maelor. Dyma ddyfyniadau gan rai o'r rhai a fynychodd:

"Ardderchog. Ystod eang o bynciau ac ysbrydoliaeth am newid arloesol".

Arfer da i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Addysgiadol iawn a phrosiectau rhagweithiol, cyfredol, calonogol iawn ac yn bleser i'w glywed".

"Amrywiaeth o brosiectau o amrywiaeth o arbenigeddau! Cyflwyniadau da iawn drwyddi draw. Prosiectau o ansawdd da! Gwych-gwych!".

Archwilio Clinigol, Adolygu Canlyniad a Gwerthuso Gwasanaeth

Mae BIPBC yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwella ansawdd i nodi pa mor dda y darperir ein gofal a thriniaethau i'n cleifion a gofalwyr. Mae un o'r ymagweddau hyn yn cynnwys defnyddio 'Archwilio Clinigol' i fesur ymarfer yn erbyn safonau a gytunwyd. Mae'r safonau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, a all fod yn ganllawiau cenedlaethol, arbenigedd clinigol neu ddarganfyddiadau ymchwil. Yn y ffordd hon, nodir anghenion gwella ansawdd a gweithredir arnynt.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y pynciau cywir ar gyfer archwilio clinigol yn BIPBC, felly proses o flaenoriaethu'r prosiectau yr ydym yn eu cynnal sydd wedi'u cymell gan ffactorau sy'n bwysig i wella canlyniadau a gwranddo ar adborth gan gleifion a gofalwyr ynghyd â dysgu o adborth, digwyddiadau, pryderon ac ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys Archwiliad Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru a *Chynllun Adolygu Canlyniadau Llywodraeth Cymru: 2019/20*. Yma mae prosiectau archwilio clinigol ac adolygu canlyniadau'n galluogi i ni ddysgu a chymharu yn erbyn sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr.

Dyma esiampl o pan mae Adolygiad Canlyniad Clinigol Cenedlaethol wedi arwain at ymgysylltiad lleol uniongyrchol yn y MBRRACE-UK: Mamau a Babanod: Gostwng y Risg drwy Archwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol ar draws y DU. Nodwyd sawl gwelliant i'w wella'n syth a gweithredwyd arnynt, gan gefnogi darpariaeth gofal wedi ei wella ar gyfer merched risg uchel yn y ffyrdd canlynol:

- Gwella ffurflen asesu risg archeb cychwynnol
- Diweddariadau hyfforddiant i'r holl aelodau staff drwy anfon dolen i fideo addysgiadol Sefydliad Amenedigol parthed mesur uchder y ffwndws(SFH).
- Asesiad wyneb yn wyneb o'r arfer mesuriad SFH i sicrhau bod arfer priodol ar waith ac wedi ei safoni ar draws BIPBC.

Bydd hyn yn cefnogi cynnydd o ganfod babanod bach ar gyfer eu hoed yn y cyfnod cario sydd mewn perygl o gael genedigaeth farw.

Esiampl gadarnhaol arall o'r effaith y gall prosiectau gwerthuso eu cael yn lleol yw un sy'n cefnogi'r gwelliant a ddangoswyd gan raglen addysg BIPBC ar gyfer staff; gan eu harwain a'u cefnogi wrth ofalu am gleifion a chreu Grwpiau Darpariaeth Strategol ac Is-grwpiau o amgylch gofal diwedd bywyd a Gofal Lliniarol.

Ymchwil, Datblygiad ac Arloesedd

Yn ychwanegol i'r gwaith a nodwyd uchod, mae ymchwil yn rhan ddyddiol o'n gwaith. Mae'n helpu i wella iechyd a lles pobl Gogledd Cymru. Rydym bob amser yn edrych ar ffyrdd newydd i atal, rheoli a thrin clefydau a dod â gobaith i unigolion sy'n byw â salwch. Mae'r staff ymchwil yn bennaf yr un meddygon a gweithwyr proffesiynol iechyd y byddwch yn eu gweld yn ystod eich apwyntiad. Mae **Strategaeth** Arloesedd ac Ymchwil wedi ei lansio ar gyfer 2020-2025 (isod).

Ein Diben: Rydym yn bodoli l ychwanegu gwerth at iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru drwy ragoriaeth mewn ymchwil, gwella ac arloesi.

Ein gweledigaeth: Creu gwybodaeth newydd er budd y boblogaeth, meithrin arloesedd, gwella gofal iechyd fel bod ein pobl yn hapusach, yn iachach ac yn gallu ffynnu yn yr ardal hon

Ein gwerthoedd	Rhoi'r claf yn gyntaf	Gweithio gyda'n gilydd	Gwerthfawrogi a pharchu'n gilydd	Dysgu ac Arloesi
Egwyddorion i'n tywys	Gweithio gyda'n gilydd fel un system	Nodau Strategol		
	Parchu gwahaniaethau	#1 Adeiladu cymuned gref		
	Dysgu gyda'n gilydd	#3 Gwireddu'r budd i'r rhanbarth		

Astudiaeth Achos: Cafodd grŵp o bobl yng Ngogledd Cymru gyfle unigryw i gymryd rhan mewn astudiaeth i ganfod a all wella ansawdd eu bywyd yn dilyn triniaeth cancer.

Cafodd yr astudiaeth CLASP, sef rhaglen ar-lein a elwir yn Renewed ar gyfer pobl sydd wedi cael cancer y brostad, y fron neu'r coluddyn, ei gynnig i bobl sydd wedi gorffen eu

prif driniaeth cancer yn y 10 mlynedd diwethaf neu sy'n cael eu monitro ar gyfer cancer y brostad. Mae Renewed yn rhaglen ar-lein a all helpu pobl i fod yn fwy actif, lleihau eu lefelau straen, rheoli eu pwysau, bwyta diet iach a theimlo'n llai blinedig.

Gofynnir i bawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth, a ddaeth i ben ddiwedd mis Hydref 2019, i gwblhau holiadur ar-lein ar ôl chwe mis ac ar ôl blwyddyn. Mae'r holiadur yn gofyn iddynt am eu teimladau a p'un a yw'r rhaglen wedi'u helpu i wella ansawdd eu bywyd. Y Bwrdd Iechyd oedd y recriwtiwr gorau yng Nghymru ar gyfer pobl yn dilyn triniaeth cancer.

Integreiddio a Gweithio ar y Cyd: Hwb Gofal Cymuned

Mae'r Hwb Gofal Cymuned o dan arweiniad Dr Karen Sankey a Dr Dewi Richards a sefydlwyd ym Myddin yr Iachawdwriaeth, Wrecsam ym mis Ionawr 2017. Mae Dr Sankey wedi bod yn Feddyg Teulu ers 25 o flynyddoedd, ond mae'n teimlo fel nad yw arfer cyffredinol modern yn "addas i'w ddiben", yn enwedig i grwpiau o bobl sy'n agored i niwed, sy'n dueddol o "ddisgyn drwy'r craciau".

You can see all services
at once No WAITING
Joey

Mae'r Hwb Cydweithredol Gofal Cymuned yn darparu siop un stop ar gyfer pob gwasanaeth y gall pobl ei angen. Mae'n sesiwn galw-heibio sy'n cael ei chynnal bob dydd Gwener gan gyfuno 29 asiantaeth. Mae'r model 'Pawb yn yr Ystafell' yn cyfuno pob asiantaeth mae pobl eu hangen yn yr un ystafell, ar yr un amser yn wythnosol. Mae'r system yn golygu nad oes angen i bobl boeni am golli apwyntiadau neu angen gwaith papur nad oes ganddynt fynediad ato. Ar gyfartaledd, mae'n cefnogi 60 o bobl bob wythnos sy'n ddigartref, yn cysgu'n arw neu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu'n camddefnyddio sylweddau. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, defnyddiodd 850 o bobl y gwasanaethau. Mae PALS wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â 28 asiantaeth arall ers Mis Medi 2019.

Gofal strôc

Ni pharhaodd y gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y mesurau Gofal Strôc a gyflawnwyd gennym yn hanner cyntaf 2019/20 i fisoedd y gaeaf mewn perthynas â nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i uned arbenigol o fewn pedair awr a'r niferoedd a welwyd gan feddyg ymgynghorol arbenigol o fewn y 24 awr gyntaf o'u derbyn. Yn rhannol, mae hyn wedi bod oherwydd bod pwysau gofal brys wedi cael effaith ar y nifer o welyau strôc sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn y flwyddyn wedi gwella ers 2018/19 ar gyfer y ddau fesur.

Mewn ymateb, cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth gyda staff yn gweithio yn ein Hadrannau Achosion Brys (ED) i bwysleisio'r angen am gyfeiriad cynnar at y Tîm Strôc. Mae cynnig i glustnodi nifer briodol o welyau i'w defnyddio gan gleifion Strôc yn unig yn cael ei ystyried.

Gofal gydag Urddas

Gofal Dementia

Y llynedd, gwelwyd llawer o waith cadarnhaol yn digwydd o amgylch gofal dementia yn BIPBC. Er bod dros 10,000 o'n staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant ar ddementia, gwnaethom hefyd weithio mewn partneriaeth â TIDE, sefydliad gofalwyr dementia, i hyfforddi 1,000 o staff rheng flaen ychwanegol i ddod yn fwy ymwybodol o anghenion teuluoedd a gofalwyr. I gefnogi hyn, rydym hefyd wedi creu partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru i lansio'r protocol Herbert sy'n helpu unigolyn gyda dementia a all fynd ar goll i gael ei ddarganfod yn gyflym a'i ddychwelyd gartref yn ddiogel a drwy wneud hyn yn lleihau'r pryder o fynd ar goll neu golli unigolyn annwyl.

Ymunodd ein hail Nyrs Ymgynghorol ar gyfer dementia, Suzie, â ni ac mae wedi cychwyn cymuned o arfer ar gyfer yr holl weithwyr cymorth dementia ar draws y sefydliad i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ei angen arnynt wrth iddynt ddatblygu rolau newydd mewn ysbytai cymuned ac unedau iechyd meddwl. O dan ein Strategaeth Dementia, gwelsom nifer o ysbytai ac unedau'n cael eu hachredu gan y Gymdeithas Alzheimer's fel rhai sy'n Deall Dementia ac Ysbyty Gwynedd oedd ein Ysbyty Cyffredin Dosbarth cyntaf i gael ei achredu. Mewn ffordd debyg, cafodd ein holl Wasanaethau Asesu Cof ar draws Gogledd Cymru eu hachredu'n llwyddiannus eto gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae'r achrediadau'n dangos bod gwasanaethau'n perfformio i safonau ansawdd cenedlaethol sydd â'r nod o ddarparu gofal dementia o ansawdd uchel.



Gofal Dementia: Lleoliad heddychlon

Yn gynnar yn 2019, fe wnaethom ni gyflwyno ystafell gofal newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam a fydd yn darparu lleoliad heddychlon i bobl gyda dementia i dreulio eu dyddiau olaf. Bydd y cyfleuster yn Uned Iechyd Meddwl Pobl Hŷn Heddfan yr ysbyty yn sicrhau bod pobl â dementia'n gallu derbyn gofal diwedd bywyd mewn lleoliad urddasol ar wahân i amgylchedd y prif ysbyty, os mai dyma yw dymuniad y claf a'i deulu

Mae gan yr ystafell a ailwampwyd, a fydd yn cefnogi cleifion ar Ward Gwanwyn, gyfleusterau ymrwymedig i alluogi teuluoedd i aros yn agos i'r sawl sy'n annwyl iddynt ac yn dilyn ein hymrwymiad i Ymgyrch John, sy'n eirioli ar gyfer hawl gofalwyr i aros. Mae'n ffurfio rhan o'n ymdrechion i wella ansawdd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiadau allanol gan y Gwasanaeth Cyngori Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r ymchwiliwr iechyd, Donna Ockenden.



"Mae gan bobl â dementia gymaint o hawl ag unrhyw unigolyn arall i farwolaeth urddasol gyda sicrwydd o ofal tosturiol o ansawdd uchel. Fel bwrdd iechyd, rydym yn cydnabod bod angen nodi dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch gofal diwedd bywyd mor gynnar â phosib ac rydym yn eirioli i bobl allu cael y sgysiau hyn pan fyddant yn teimlo bod yr amser yn iawn. Ac felly, rydym yn cefnogi ein staff i gael y wybodaeth a'r sgiliau sydd ei angen arnynt." Sean Page, Nyrs Ymgynghorol Dementia yn BIPBC

➡ Roedd y digwyddiad yn cynnwys siaradwyr gwadd a chyflwynwyr yn arddangos eu sefydliad nam ar y synhwyrâu penodol neu elfennau ategol, roedd diweddariadau ar ddatblygu ymwybyddiaeth o grwpiau nam ar y synhwyrâu, mecanweithiau ategol a rolau sydd gan sefydliadau penodol i'w chwarae wrth ddarparu pethau fel gofal iechyd hygyrch, cymorth i gleifion, gofalwyr a chefnogaeth a hyfforddiant perthnasol. Darparodd y digwyddiad weithdai hefyd i gynorthwyo'r ddealltwriaeth o nam ar y synhwyrâu ar draws y sbectrwm o golli golwg, bod yn ddall, nam ar y golwg, byddar, colli clyw ac iechyd meddwl y rheiny sydd wedi colli synhwyrâu

➡ Denodd y digwyddiad dros 140 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr a oedd â diddordeb mewn nam ar y synhwyrâu yn amrywio o ddefnyddwyr gwasanaeth i feddyg ymgynghorol Offthalmig a myfyrwyr Prifysgol, sefydliadau cefnogol, Elusennau Cenedlaethol a grwpiau trydydd sector rhanbarthol a lleol sy'n darparu ar gyfer cymunedau nam ar y synhwyrâu penodol o fewn eu hardaloedd.

Cynhadledd Gwneud Synnwyr

Ydych chi'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn faes Colled Synhwyradd?

Oes gennych chi Golled Synnwyradd ac eisiau gwrybod mwy am yr hyn sy'n cael ei wneud?

Siaradwyr a gweithdai o

- British Society for Mental Health and Deafness
- Centre of Sign Sight Sound
- DeafBlind Cymru
- Blind Veterans a llawer mwy

Ymunwch â ni yng Nghynhadledd Mae'n Gwneud Synnwyr Dydd Iau yr 28ain o Dachwedd 9.30yb i 3.45yh yn Ganolfan Fusnes Conwy

Cofrestrwch yma <https://tmakeessense2019.eventbrite.co.uk/>



Gofal Ymataliaeth

Mae Hyfforddiant ac Addysg wedi cael ei gynnal drwy ein cronfa ddata Cofnod Electronig Staff (ESR), gyda phob gweithiwr proffesiynol gofal iechyd BIPBC, a staff yn y sector breifat - (Mewn cartrefi Preswyl a Nyrsio) yn cael mynediad at yr hyfforddiant canlynol; diweddariad Ymataliaeth, Rheoli Cathetr, Camweithrediad y Coluddyn, Ymataliaeth trwy gydol Oes. Mae gofal cathetr a chathetreiddio wrinol mewn oedolion ar gael fel pecyn e-ddysgu. Mae llawer yn mynychu rhai sesiynau megis diweddariad cathetr. Mae sesiynau eraill wedi cael eu canslo oherwydd diffyg presenoldeb. Ychwanegwyd sesiynau hyfforddiant ychwanegol megis gofal y coluddyn fel sydd angen. Mae gan arweinwyr tîm a rheolwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod gan staff y wybodaeth a'r sgiliau i reoli cleifion gydag anghenion gofal ymataliaeth yn eu maes clinigol. Gall staff asiantaeth gofal dderbyn hyfforddiant penodol yn ddibynnol ar anghenion gofal ymataliaeth cleifion.

Cynigir lleoliadau clinigol gyda'r ymgynghorwyr ymataliaeth yn eu clinigau o dan arweiniad nyrsys i weithwyr proffesiynol iechyd, myfyrwyr cyn-cofrestru a meddygon iau. Cyfrifoldeb holl staff clinigol a nyrsio BIPBC yw asesu cleifion â chamweithrediad y coluddyn a/neu'r bledren, mae'r tîm gwasanaeth ymataliaeth ar gael i gynnig cyngor, cefnogaeth ac ymweliadau ar y cyd yn ôl yr angen.

Mae swydd y nyrs fformiwlari yn cynnig cyngor a chymorth i staff a chleifion gyda dyfeisiadau wroleg e.e. cathetr/gwain atal cenhedlu. Mae yn ei chylch gwaith i edrych ar eitemau ar bresgripsiwn, sicrhau bod eitemau ar fformiwlari PBC yn cael eu defnyddio a'u rhagnodi'n gywir ac felly'n gostwng y gwastraff a'r pris.

Cynhelir cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol misol ar draws BIPBC gyda Chynghorwyr Gynaecoleg, Wrogynaecoleg, Wroleg, Ymataliaeth a ffisiotherapi iechyd merched i drafod achosion cymhleth a rheolaeth bellach.


Mae Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan (AWCF) wedi datblygu offeryn Ymataliaeth/Asesu Risg Toiled i'w gyflwyno ar draws holl wardiau llym BIPBC yn y dyfodol agos fel rhan o'r llyfryn asesu risg newydd. Yn ogystal, mae'r AWCF wedi cynhyrchu arweiniad ar gyfer darpariaeth cynnyrch ymataliaeth ar gyfer oedolion yng Nghymru. Dogfen gonsensws ar gyfer darparu cynhyrchion cyfyngiant ar gyfer oedolion ag anymataliaeth wrinol ac/neu ysgarthol, yn cael asesiad cynhwysfawr ac yn gallu cael mynediad at wasanaeth teg.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn arolygiaeth annibynnol ac yn rheoleiddiwr i holl wasanaethau gofal iechyd Cymru. Eu pwrpas yw gwirio fod pobl yng Nghymru yn cael ansawdd da o ofal iechyd.

Mae'r Safonau Gofal ac Iechyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel yn y GIG yng Nghymru. Datblygwyd y safonau gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Fframwaith Darpariaeth a Chanlyniadau'r GIG drwy ystod eang o ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn asesu darpariaeth gofal iechyd yn erbyn y safonau hyn. Mae pob arolygiad yn ystyried sut mae'r gwasanaeth yn bodloni Safonau Gofal ac Iechyd mewn tri pharth; ansawdd profiad y claf; darpariaeth o ofal effeithiol a diogel; ansawdd y rheolaeth a'r arweiniad.

Mae gan BIPBC broses ar waith ar gyfer rheoli arolygiadau, pryderon ac ymholiadau HIW gyda methodoleg sicrwydd wedi ei phrofi, sy'n rhoi cyfle i gynllunio ac olrhain gweithredu trwyadl ac ystyrlon. Yn ogystal, mae'n darparu sicrwydd drwy ein strwythur cofnodi llywodraethu i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad BIPBC i'w graffu a'i arolygu.



Fel y dengys (chwith), yn flynyddol mae BIPBC wedi gwella'r cynnydd yr ydym yn ei wneud drwy sicrhau bod unrhyw weithred y cytunwyd arni'n dilyn arolygiadau ac argymhellion AGIC yn cael eu gweithredu yn unol â'r Safonau Gofal ac Iechyd.

Yn ogystal, mae gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod sicrwydd digonol ar gyfer pob gweithred, cyn ei gau drwy gofnodi misol i Grŵp Ansawdd a Diogelwch BIPBC, a gaiff ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwerthfawrogi gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru oherwydd mae'n ein galluogi fel sefydliad i gryfhau a gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu cyfleoedd pellach i weithio'n agos gyda'n gilydd i ddarparu sicrwydd a gwneud gwahaniaeth i'n defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr.

Gofal Amserol

Prosiect Uwch Ymarferydd Parafeddygol: Trawsnewid Gofal

Yn 2019, mae'r Academi Gofal Cychwynnol a Chymuned wedi'i sefydlu i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau gofal cychwynnol a chymuned, sy'n canolbwyntio i ddechrau ar Feddygfeydd. Mae'r Academi'n cynnal nifer o wahanol gynlluniau i gefnogi hyfforddiant ac addysg Ymarferwyr o fewn gwasanaethau Gofal Cychwynnol a Chymuned. Mae ein cynlluniau'n cynnwys datblygu rôl y Ffisigwr Cyswllt ym maes Gofal Cychwynnol. Mae'r cynllun Interniaeth Ffisigwr Cyswllt wedi'i gynllunio drwy dynnu profiad ar draws y DU a drwy gynnwys Ffisigwyr Cyswllt sydd newydd gymhwyso, ac sydd ar eu blwyddyn gyntaf. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn gan y Ffisigwyr Cyswllt a'r Meddygfeydd sy'n cymryd rhan. Mae'r Academi'n arwain y gwaith gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ran profi Model Cylchdro o weithio gydag Uwch Ymarferwyr Parafeddygon ym maes Gofal Cychwynnol a Chlystyrau, ac eto mae adborth gan Ymarferwyr, Meddygfeydd a Chlystyrau yn gadarnhaol iawn. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y prosiect hwn ar Twitter drwy chwilio am yr hashnod #APPinPrimaryCare.



Gellir cael mwy o wybodaeth ar-lein

Twitter: acedemy1

Facebook: nwacademy01

www.paccacademy.co.uk

academy1

Facebook: nwacademy01

www.paccacademy.co.uk

Mae'r Academi'n cefnogi Recriwtio ym maes Gofal Cychwynnol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys tudalennau dynodedig ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer swyddi gwag ym maes Gofal Cychwynnol, sy'n cael ei ddiweddarau'n wythnosol. Mae'n cynnwys swyddi ar NHS Jobs, a swyddi gwag sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr Academi.

Twitter: @nwprimcare

Facebook: .primarycarenorthwales

Mae'r Academi'n bresennol yng nghynhadledd Coleg Brenhinol Meddygon Teulu bob blwyddyn, mewn partneriaeth â'r ymgyrch cenedlaethol Hyfforddi.Gweithio.Byw. Yn y gynhadledd ddiwethaf yn 2019, bu i ni gyfarfod â nifer o Feddygon Teulu sy'n chwilio am swyddi yng Ngogledd Cymru. Cyn Covid-19, roedd un Meddyg Teulu i fod i ddechrau gweithio yn ardal y Dwyrain, ac mae dau Feddyg Teulu arall yn edrych i ymuno â ni yn 2021, mewn swyddi cyflogedig ar ôl iddynt ymddeol o bartneriaeth.

Gofal Heb ei Drefnu: Dull system gyfan

Yn ystod 2019/20, dechreuom ddull system gyfan ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu, gan sicrhau darpariaeth o gynllun gaeaf, gyda ffocws ar bresenoldeb cyn-ysbyty ac osgoi derbyniadau. Mewn cydweithrediad ag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru y GIG, fe wnaethom ddatblygu system SiCat, sy'n gysylltiedig â'r ganolfan rheoli ambiwlans, i ddarparu cyngor clinigol a dewisiadau amgen i bresenoldeb neu dderbyniad i'r ysbyty. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu timau adnoddau cymuned gyda'r bwriad o gadw cleifion yn eu cartrefi eu hunain a helpu cleifion i ddychwelyd gartref cyn gynted â phosib ar ôl cael eu derbyn. Yn ogystal â'r mentrau hyn, gweithiodd ein tîm ar wella llif yn yr ysbyty, gan gynnwys datblygu gwasanaethau gofal dydd ac asesu ar safleoedd llym a gwella cynlluniau rhyddhau.

Yn ystod rhan gynnar datganiad y pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, gostyngodd nifer y rhai a fynychodd yr Adrannau Achosion Brys yn sylweddol, gan ddychwelyd i lefelau bron yn normal erbyn diwedd Chwarter 1 2020/21.

Gofal heb ei Drefnu

Llif ein gwasanaethau: Dechreuodd Gofal Brys ar yr un Diwrnod yn Ysbyty Glan Clwyd ar 3 Gorffennaf 2019. Mae hyn wedi datblygu fel uned frys ar gyfer triniaethau dydd a fydd yn gweld, yn trin ac yn rhyddhau cleifion ar yr un diwrnod, y byddai llawer o'r rhain wedi aros yn yr ysbyty gynt am nifer o ddiwrnodau ac yn lleihau tordyletswydd lle na dderbynnir cleifion i'r ysbyty a derbyniadau ac yn helpu i osgoi tagfeydd yn yr Adran Achosion Brys.

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam wedi ailffurfweddu ardal y Llawr Achosion Brys er mwyn rhoi man asesu, gan gynnwys gofal brys ac uned eiddilwch. Cafodd y man newydd ei agor ar 4 Tachwedd 2019 gyda'r nod o leihau nifer y cleifion sy'n aros am fwy am 12 awr yn yr Adran Achosion Brys, gan leihau derbyniadau ac yn lleihau hyd arhosiad ym mhob rhan o'r Ysbyty.

Mae egwyddorion SAFER (Uwch adolygu; Pob claf; Llif; Rhyddhau'n Gynnar; Adolygu) yn parhau i gael eu hymgorffori ar draws y safleoedd ac mae nifer y cleifion lle bo oedi o ran trosglwyddo gofal yn parhau i wella gyda ffocws ar adolygiadau o gleifion sy'n aros gan ddatblygu ffocws penodol ar gleifion dros 21 diwrnod mewn Ysbytai Llym ac Ysbytai Cymunedol. Mae hyn yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, Cydweithwyr Ardal a staff Ysbyty i gydweithio'n ehangach i gynnig gofal gwell i gleifion a hynny yn y lleoliad cywir. Mae dull gweithredu safonol ar gyfer SAFER wedi'i ddatblygu er mwyn diffinio'n glir sut y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo llif cleifion, profiad cleifion a sicrhau bod ein cleifion yn aros yn ddiogel.

Rhyddhau o'n gwasanaethau ysbyty: Cafodd lleoliadau eu treialu mewn wardiau ar safleoedd cymunedol a llym ar draws BIPBC gan annog cleifion i ofyn cwestiynau am y rheswm dros eu derbyn i'r ysbyty, beth sy'n digwydd iddynt heddiw a chynllunio i'w rhyddhau, ac mae'r cysyniad hwn wedi'i fabwysiadu gan yr Uned Gyflenwi ledled Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnwys ein cleifion a gofawyr ym mhob agwedd ar eu gofal (Yr Hyn sy'n Bwysig) a'n bod yn deall eu hanghenion o adeg eu derbyn, er mwyn cynorthwyo rhyddhau'n gynnar ac yn ddiogel.


Rydym yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ddatblygu ein model gwasanaeth yn y tymor hwy i ddelio â galwadau a brysbennu. Mae gwasanaeth SICAT (Asesu a Brysbennu Clinigol Integredig Unigol) yn parhau i ddatblygu. Ein huchelgais yw gweithio gyda phob un o'n partneriaid a'r cyhoedd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer gwasanaethau newydd i'w hatgyfnerthu fel bod modd i gleifion dderbyn y gofal gorau mor agos i'w cartref â phosibl. Mae gwaith cynllunio ar y gweill i ymgorffori hyn i'r gwasanaeth 111. Rydym wedi cael cyllid i roi cynllun peilot ar waith yn ymwneud ag ehangu'r gwasanaeth hwn i gynorthwyo cleifion mewn cartrefi nyrsio a phreswyl yn ardal y Dwyrain er mwyn atal derbyniadau i'r ysbyty.

Gofal wedi'i Gynllunio: Cyfeirio i Driniaeth (RTT)

Mae Cyfeirio i Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd cleifion yn aros ar ôl iddynt gael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu neu nes byddant yn dechrau cael triniaeth weithredol yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig, sganiau, gwasanaethau therapi a derbyniadau cleifion mewnol neu achosion dydd. Y ddau darged i Gymru yw bod 95% o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos ac na fydd unrhyw gleifion yn aros yn hwy na 36 wythnos.

Er bod cyfeiriadau gofal wedi'i gynllunio wedi lleihau ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae hyd yr arosiadau wedi cynyddu gan fod llawdriniaeth, clinigau a gwasanaethau diagnostig nad ydynt yn hanfodol wedi'u gohirio yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig. Mae ffyrdd amgen o adolygu cleifion wedi'u cyflwyno; ond, mae cyflymder cyflwyno'r newidiadau hynny, yn agos iawn at ddiwedd y flwyddyn, yn golygu nad yw pob un o'n systemau adrodd wedi'u haddasu er mwyn darlunio'r ffyrdd newydd hyn o weithio mewn pryd i gael eu hadlewyrchu yn nata perfformiad yr adroddiad hwn.

Ar ddiwedd Rhagfyr 2019, roedd 76.74% o gleifion wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos. Erbyn diwedd Mawrth 2020, roedd 76.41% wedi bod yn aros am lai na 26 wythnos i gael triniaeth.



Gofal wedi'i Gynllunio

Mae meddygon dan hyfforddiant wedi graddio Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd fel un o'r lleoedd gorau i hyfforddi yn y DU. Mae canlyniadau'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn ddiweddar yn dangos bod dros 85% o feddygon sy'n cael hyfforddiant yn falch gydag ansawdd goruchwyliaeth glinigol, profiad, a'r addysgu maent yn eu cael yn yr Adran Achosion Brys.

Mae system newydd sydd â'r bwriad o gyflymu diagnosis ar gyfer pobl sydd â chanser tybiedig wedi'i chyflwyno yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi rhoi arweiniad i feddygon teulu er mwyn eu helpu i ganfod p'un a oes modd cyfeirio cleifion â symptomau canser colorectol yn uniongyrchol am archwiliad, gan osgoi'r angen am apwyntiad i gleifion allanol ac yn arbed amser. Mae mwy na 500 o bobl yn cael diagnosis canser colorectol, fel canser y coluddyn, y colon a'r rhefr yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn. <https://bipbc.gig.cymru/newyddion/newyddion-or-bwrdd-iechyd/cyflwyno-system-newydd-i-gyflymu-diagnosis-canser-yng-ngogledd-cymru/>

Mae pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalmwr wedi ymuno ag arbenigwyr iechyd i ganmol y cymorth cof 'o'r radd flaenaf' a gynnigir ar draws Gogledd-orllewin Cymru. Mae Gwasanaeth Cof Gwynedd a Môn wedi cael nod ansawdd nodedig gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion am y drydedd gwaith yn olynol am gynnig y safonau uchaf o ofal i bobl sy'n byw â dementia a phroblemau eraill yn ymwneud â'r cof. Mae'r 'Dystysgrif Genedlaethol Achredu Gwasanaethau Cof' yn cydnabod arfer enghreifftiol ar draws meysydd allweddol a nodir gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol, defnyddwyr gwasanaeth, gofalmwr a meddygon teulu. <https://bipbc.gig.cymru/newyddion/newyddion-or-bwrdd-iechyd/gwobr-newydd-i-wasanaeth-cof-gwynedd-a-mon-am-ei-bod-or-radd-flaenaf/>

Mae staff yn yr uned Gofal Brys ar yr un Diwrnod (SDEC) (Ardal y Canol), a agorodd ar 3 Gorffennaf, wedi helpu cannoedd o bobl a oedd wedi ymweld â'u meddyg teulu neu Adran Achosion Brys yr ysbyty i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty. Gwnaeth gwaith tîm rhwng nyrsys, meddygon a staff radiograffi helpu 70% o ymwelwyr i ddychwelyd adref ar ôl ar yr un diwrnod yn dilyn triniaeth, gan ganiatáu iddynt adfer gartref gan wella capasiti hefyd yn yr Adran Achosion Brys. Mae'r uned yn anelu at asesu, gwneud diagnosis a rhoi triniaeth i gleifion cymwys cyn eu rhyddhau'n ddiogel gartref i gael adferiad neu i aros am brawf neu driniaeth bellach. Yn flaenorol, byddai'n rhaid i'r un cleifion gael eu derbyn i'r ysbyty wrth aros am ofal pellach. <https://bipbc.gig.cymru/newyddion/newyddion-or-bwrdd-iechyd/dros-500-o-bobl-yn-cael-eu-gweld-yn-ystod-mis-cyntaf-yr-uned-gofal-brys-dynodedig-newydd-i-helpu-pobl-i-osgoi-derbyniadau-ir-ysbyty/>




Diagnosis a Thriniaeth Cancer

Ar gyfer mis Rhagfyr 2019, gwnaeth 98.0% o gleifion na chawsant eu cyfeirio yn y lle cyntaf fel cancer tybiedig brys, ond a gafodd ddiagnosis cancer yn ddiweddarach, ddechrau ar eu triniaeth weithredol o fewn 31 diwrnod o gael diagnosis. Mae hyn yn unol â'r targed cenedlaethol yn ymwneud â chynnig triniaeth i'r grŵp cleifion hwn.


Y grŵp cleifion hwn sydd yn dod i fod â'r lefel uchaf o gleifion sy'n cael diagnosis a thriniaeth ar gyfer cancer yng Ngogledd Cymru. Erbyn Rhagfyr 2019, roeddem wedi trin 1,747 o gleifion, a gafodd eu cyfeirio fel hyn, oherwydd cancer a oedd 365 yn llai o gymharu â 2018/19. Cyflawnodd y Bwrdd lechyd y gyfradd darged o 98% neu ragori arni ar gyfer 7 o'r 9 mis hyd at Ragfyr 2019

Cafodd y targed 31 diwrnod ei gyflawni hefyd trwy gydol Chwarter 4, ac roedd ar 98.3% ar gyfer Mawrth 2020 erbyn diwedd y flwyddyn.



Yn y 9 mis o Ebrill hyd at Ragfyr 2019, roedd nifer y cleifion a gafodd eu cyfeirio a'u trin yn ddiweddarach ar y llwybr brys ar gyfer cancer tybiedig yn uwch nag yn 2018/19, ar 1,366 o gymharu â 1,290. Mae'r cynnydd yn y galw yn un o'r rhesymau na wnaethom gyflawni'r gyfradd darged o 85% ar gyfer dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod o gael eu cyfeirio. Fodd bynnag, ar 83.3%, ni yw'r trydydd Bwrdd lechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru yn erbyn y mesur hwn.

Mae cyfarfodydd dwysáu'n dal i gael eu cynnal bob wythnos a phob pythefnos ym mhob Ysbyty gyda phob tîm arbenigol i leihau oedi. Mae rheolwyr yn derbyn nodyn briffio wythnosol ar ganser yn amlinellu'r perfformiad presennol a disgwylidig er mwyn achub ar gyfleoedd i wella perfformiad gymaint â phosibl.



Mae effaith Covid-19 ar argaeledd diagnosteg, fel y'i disgrifir mewn adran gynharach, wedi cyfrannu at ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn targed y llwybr 62 diwrnod tuag at ddiwedd Chwarter 4, gan gyflawni 79.40% ym mis Mawrth 2020.

Ers dechrau'r pandemig, rydym hefyd wedi nodi lleihad yn nifer y cyfeiriadau brys yn achos cleifion sydd â chanser tybiedig. Mae pryder bod cleifion wedi bod yn oedi cyn ceisio sylw am gyflyrau a allai fod yn ddifrifol, ac mae deunyddiau cyfathrebu a chyhoedduswydd ychwanegol wedi'u cylchredeg er mwyn annog cleifion sydd â symptomau i barhau i fynd i weld eu meddyg teulu.

Trin Pobl fel Unigolion

Gwella gwasanaethau i grwpiau sy'n agored i niwed

Yn 2019, cafodd ymwelydd ieuchyd o Wrecsam ei enwi fel enillydd y Wobr Gwella Cydraddoldeb mewn noson gala fawreddog yn Venue Cymru i nodi Gwobr Gyrrhaeddiad BIPBC 2019. Mae'r gwobrau a noddir gan Centerprise International, yn dathlu cyflawniadau rhagorol staff y GIG o bob rhan o Ogledd Cymru.

Mae Jackie wedi cael ei chydabod am yr hyn y mae ei chydweithwyr yn ei ddisgrifio fel ymrwymiad 'ysbrydoledig' i roi cymorth ieuchyd a lles i geiswyr lloches a ffoaduriaid o Syria a gwledydd eraill sydd wedi'u difrodi gan ryfel. Ers 2001, mae Jackie wedi rhoi cymorth o ran ailgartrefu cannoedd o geiswyr lloches, merched yr effeithir arnynt gan fasnachu mewn pobl a ffoaduriaid yn ardal Wrecsam. Mae Wrecsam yn un o bedair ardal wasgaru yng Nghymru a'r unig ardal yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn ceiswyr lloches o'r Uned Asesu Cychwynnol yng Nghaerdydd. Ar ôl cyrraedd Wrecsam, bydd Jackie yn cydlynu eu hasesiadau ieuchyd a lles ac yn rhoi cymorth parhaus er mwyn sicrhau bod ceiswyr lloches yn gallu manteisio ar ystod o wasanaethau ieuchyd. Mae hefyd yn cynnal sesiynau galw heibio sy'n dod ag ystod o wasanaethau cymorth at ei gilydd o dan un to.



Cymorth i unigolion sydd ag Anableddau Dysgu

Mae Nyrsys Cyswllt Llym (ALN) arbenigol mewn Anableddau Dysgu sy'n gyfrifol am y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, o fewn oriau swyddfa, yn BIPBC. Maent yn rhoi cymorth i unigolion sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a gofawyr pan fyddant yn manteisio ar wasanaethau ysbyty prif ffrwd. Cyflwynwyd y gwasanaeth hwn o ganlyniad i doreth o dystiolaeth a ddangosodd fod bod ag Anabledd Dysgu yn golygu nad yw gwasanaethau ysbyty bob amser yn ymwybodol o sut i ddiwallu'r anghenion gofal. Gall hyn arwain at oedi o ran triniaeth, ac yn y sefyllfa waethaf bosibl, arwain at farwolaethau cynamserol, marwolaethau y gellid eu hosgoi (Ymchwiliad Cyfrinachol i farwolaethau cynamserol yn achos pobl sydd ag Anableddau Dysgu 2013, Death by Indifference MENCAP 2010). Mae'r ALNs hefyd yn darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer staff ysbyty ar bob lefel, ac maent hefyd wedi hyfforddi rhyw 120 o Eiriolwyr Anableddau Dysgu a bwriedir parhau i recriwtio mwy.

Mae gan BIPBC system Hysbysiadau Cyswllt â Chleifion. Mae hon yn anfon e-bost at yr ALNs pan dderbynnir unigolyn y mae'n hysbys bod ganddo Anabledd Dysgu i'r ysbyty. Mae'n sicrhau bod modd nodi'n gynnar bod gan unigolyn anabledd dysgu wrth ei dderbyn i'r ysbyty. Mae Nyrsys Cyswllt Anableddau Dysgu a Gweithwyr Cefnogi Gofal Ieuchyd medrus yn y gymuned hefyd. Eu rôl yw gwella mynediad ar gyfer unigolion sydd ag Anabledd

Dysgu i brif ffrydio gwasanaethau gofal cychwynnol ac i wella'r nifer sy'n manteisio ar archwiliadau iechyd blynyddol trwy weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd, yn ogystal â gwasanaethau.

Gwranddo a Dysgu o Adborth

Mae'r tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr wedi casglu 22,247 o ymatebion mewn amser real gan gleifion, gofalwyr a pherthnasau ar draws Gogledd Cymru, yn ymwneud â'u profiadau o ddefnyddio ein gwasanaethau yn 2019. Yn ogystal â rhoi adborth mewn perthynas â Mesurau Profiad Cleifion GIG Cymru gyfan, mae'r arolwg yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth rannu eu barn am y canlynol:

- ⇒ 'Beth oedd yn dda am eich profiad?'
- ⇒ 'A oedd unrhyw beth y gellid fod wedi ei wella' a
- ⇒ 'Hyrwyddo Cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn'

Mae adborth a roddir gan gleifion a gofalwyr yn rhoi gwybodaeth hollbwysig i ni am sut hwyl rydym yn ei gael arni sy'n ein galluogi i rannu'r hyn sy'n gweithio ac i wneud gwelliannau lle bo angen. Ar y cyfan, dangosodd yr adborth i ni fod ein gwasanaethau'n cyfrannu at brofiad positif, gyda chyfradd foddhad gyffredinol o 8.97/10. Yn ogystal ag adborth mewn amser real, derbyniodd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr 2,201 o gardiau sylwadau, negeseuon e-bost, llythyrau, ymatebion ac adborth a dderbyniwyd gan ein swyddogion Cyngor, Cyswllt a Chymorth Cleifion (PALS).

Mae'ch adborth yn hynod bwysig i ni a chaiff ei ddefnyddio i roi ffocws i ymdrechion gwella gwasanaethau. Rydym yn parhau i anelu at ddatblygu adborth cleifion a gofalwyr er mwyn gwranddo ar lais pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, o'r rhai sy'n ifanc iawn i bobl hŷn. Bydd adborth gan gleifion a gofalwyr yn parhau i fod y ffynhonnell fwyaf gwerthfawr o wybodaeth sy'n helpu i lywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau.



Yn 2019, cafodd gwasanaethau PALS eu lansio yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn dilyn cynnal cynllun peilot llwyddiannus o wasanaeth PALS yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae gan bob un o'r tair ardal leol dri swyddog PALS sy'n gweithio mewn hybiau hygrych sydd wedi'u lleoli wrth bob prif fynedfa i'r ysbytai a dau Gydlynnydd Profiad Cleifion.

Yn dilyn lansio hybiau PALS, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o ran cyswllt â chleifion oherwydd y lleoliadau amlwg ac rydym wedi meithrin cydberthynas waith dda a'i hatgyfnerthu gyda'n cydweithwyr.

Gweithio i Wella (PTR)

Mae BIPBC yn cydnabod bod diogelwch a phrofiad cleifion, ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys yn agwedd hollbwysig ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Daeth Rheoliadau (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Iawndal) GIG Cymru 2011 (y Rheoliadau) i rym ar 1 Ebrill 2011, er mwyn galluogi Cyrff Cyfrifol i ddelio â phryderon yn effeithiol.

Nod y rheoliad yw symleiddio proses delio â phryderon ac o dan y trefniadau '*Gweithio i Wella*' (PTR), dylai holl sefydliadau GIG Cymru anelu at "ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda" gan sicrhau bod pryderon yn cael sylw yn gywir y tro cyntaf. Mae'r term "Pryder" yn ymwneud ag unrhyw gŵyn, honiad neu ddigwyddiad a adroddir gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth ynghylch triniaeth neu wasanaeth ar y GIG.

Mae hyn yn golygu, lle bynnag y caiff pryderon eu codi ynghylch triniaeth a gofal, boed trwy gŵyn, honiad neu ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion, gall y rheiny sydd ynghlwm wrthynt ddisgwyl cael cydnabyddiaeth ac ymateb prydlon, yn ymwneud â sut caiff camau eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater, sylw mewn ffordd agored a gonest a gwybod bod ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal i'r pryderon a godir.

Mae diogelwch cleifion yn hollbwysig ac mae'n canolbwyntio ar atal niwed i gleifion trwy wella'r ffordd y caiff gofal ei gynnig fel bod modd osgoi gwallau, fel bod dysgu'n deillio o'r gwallau sy'n codi ochr yn ochr â meithrin diwylliant o ddiogelwch cleifion, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, sefydliadau partner, cleifion, gofawyr, teuluoedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Adroddiad PTR blynyddol BIPBC wedi'i baratoi'n unol â'r Rheoliadau PTR i baratoi trosolwg o sefyllfa 2019/2020 o ran sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi delio â phryderon yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n rhoi trosolwg o themâu a thueddiadau sy'n deillio o Bryderon gan gynnwys rhai o'r gwersi a ddysgwyd.

Ym mis Hydref 2019, roeddem yn falch iawn o groesawu rôl newydd ein Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch a Phrofiad Cleifion sydd wedi dod â chyfoeth o brofiad i gefnogi ein hymrwymiad i ddiogelwch a phrofiad cleifion.

Byddem yn eich annog i ddarllen yr adroddiad gan ei fod yn cynnig gwybodaeth werthfawr o ddysgu a gwaith gwella, ein blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf a strategaethau a fframweithiau allweddol. Mae manylion am sut i gael gafael ar yr adroddiad ar gael yn adran 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' yr adroddiad hwn ar dudalen 53.

Cefnogi Siaradwyr y Gymraeg

Mae Cynllun Dewis Iaith BIPBC wedi'i ehangu'n fawr dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae ar waith erbyn hyn ar wardiau ym mhob un o dri ysbyty llym BIPBC ac mewn nifer o ysbytai cymunedol. Caiff magnetau oren - wedi'u haddurno gyda logo oren cyfarwydd 'Cymraeg Gwaith' - eu rhoi ar fyrddau gwyn ar ochr y gwely (a hefyd ar fyrddau'r staff), er mwyn nodi siaradwyr Cymraeg ac i hwyluso'r broses o baru cleifion â staff sy'n medru'r Gymraeg.

Mae hyfforddiant y Gymraeg wedi cael ei ddatblygu i fod yn rhan annatod o ddatblygu sgiliau Cymraeg staff BIPBC. Mae ein rhaglen gynhwysfawr wedi denu cyllid gwerth dros £200,000 y flwyddyn gan Gymraeg Gwaith, sef cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys cyllid i gyflogi Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg ar gyfer BIPBC ers Ebrill 2018. Ers bod yn rhan o gynllun Cymraeg Gwaith ym mis Ebrill 2018, mae 9.4% o'r gweithlu wedi cofrestru, cwblhau a derbyn hyfforddiant y Gymraeg.

Yn ogystal â menter Cymraeg Gwaith, mae Tiwtor y Gymraeg BIPBC yn cynnig cyrsiau sy'n cael eu teilwra i anghenion aelodau staff BIPBC - ar lefel iaith, ac i'r math o waith maent yn ei wneud o ddydd i ddydd, gan ganiatáu i staff ennill y sgiliau Cymraeg perthnasol er mwyn cynnig gwasanaeth dwyieithog ac felly anghenion eu cleifion



Ein staff

Heriau o ran recriwtio a chadw ein staff

Mae BIPBC yn cyflogi 18178 o staff (Mawrth 2020), gan gynnwys gweithwyr rhan-amser, mae hyn yn hafal i 15594 o staff sy'n gyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae recriwtio a chadw staff allweddol i ddelio â galw cynyddol yn parhau i fod yn heriol ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ein cyfraddau swyddi gwag.

O fis Mawrth 2020, roedd gan BIPBC gyfradd swyddi gwag yn gyffredinol o 8.9% sydd wedi gwella'n raddol o lefel uwch o 9.5% ym mis Ionawr 2020.

Nyrsio a Bydwreigiaeth

- Mae prinder o nyrsys medrus yn dal i fod, cyfradd swyddi gwag Nyrsio a Bydwreigiaeth BIPBC yw 12.3% (Mawrth 2020). Fodd bynnag, bu recriwtio 50 o staff FTE mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth yn chwarter olaf 2019 o gymorth yn hyn o beth.
- Ar draws blwyddyn 2019/20, mae staff sy'n gadael nyrsio wedi'u paru â staff newydd eu recriwtio gan arwain at ddwy'n llai o nyrsys cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn eu swyddi ar ddiwedd y flwyddyn, ond mae cyllideb y gweithlu Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cynyddu gyda 85 o aelodau o staff FTE. Mae hyn yn dangos yr anhawster i recriwtio er mwyn delio â'r galw cynyddol.

Meddygol a Deintyddol

- Mae gan BIPBC gyfradd swyddi gwag yn gyffredinol o 9.6% (Mawrth 2020) o ran staff Meddygol a Deintyddol, ond mae rhai arbenigeddau'n wynebu heriau penodol. Mae cyfraddau swyddi gwag ar gyfer uwch aelodau staff Meddygol a Deintyddol ychydig yn well ar 7.8% (Meddygon Ymgynghorol, Mawrth 2020).
- Mae recriwtio / cadw staff Meddygol a Deintyddol yn cyfateb i'r cynnydd yn y galw gan fod y gweithlu Meddygol a Deintyddol wedi tyfu gyda 37.5 aelod o staff FTE dros 2019/20 a gwnaeth cyllidebau gynyddu o 37.4 aelod o staff FTE.

Mae recriwtio i grwpiau staff Nyrsio, Bydwreigiaeth, a Meddygol a Deintyddol yn parhau i fod yn her i BIPBC, fel sy'n wir i'r holl Fyrddau Iechyd eraill, gan fod prinder cyffredinol o staff medrus. Mae'r mater hwn yn hynod anodd yn yr arbenigeddau anodd eu llenwi a ganlyn; Meddygon Teulu, Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Rhiwmatoleg, Gofal yr Henoed, Radioleg (yn benodol yr arbenigeddau sy'n ymwneud â'r Fron), Gastroenteroleg ac Obstetreg a Gynaecoleg.

Felly, beth ydym yn ei wneud am hyn?

Yng ngoleuni'r heriau uchod, mae cadw staff medrus yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae nifer o gamau gwella wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i adborth gan Arolwg diwethaf Staff GIG Cymru. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r holl Uwch Adrannau wedi datblygu eu cynlluniau gwella lleol. Yn ogystal, mae cynllun wedi'i roi ar waith ar draws y sefydliad cyfan. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys lansio proses ddiwygiedig ar gyfer cyfweiliadau ymadael, adolygu deunyddiau cyfathrebu mewnol a arweiniodd at lansio ap newydd i staff a mynd ati'n rhagweithiol i reoli arwyddion cynnar straen yn y gwaith trwy wella sgiliau rheolwyr.

Er mwyn sicrhau bod y Tîm Gweithredol yn fwy gweledol, caiff yr holl Gyfarwyddwr Gweithredol eu cynnwys erbyn hyn wrth gyflwyno gwobrau Seren Betsi i staff. Er mwyn sicrhau bod adborth staff yn broses barhaus, gwnaeth y sefydliad fuddsoddi mewn offeryn, sydd wedi'i frandio fel 'ByddwchynFalch/BeProud'. Mae'r offeryn yn cynnwys ffordd syml o ddeall y wyddor sydd y tu ôl i ymgysylltu â staff o ran achos ac effaith; mae'n darparu argymhellion ymarferol clir i wella ymgysylltu â staff; mae'n darparu dadansoddiadau rheolaidd o dueddiadau a chanfod diwylliant ar lefel sefydliad a thîm. Caiff arolygon sefydliadol eu cynnal bob tri mis, mae 29 o dimau eisoes wedi cwblhau taith wella benodol ar lefel tîm.

Mae BIPBC yn parhau i fod yn ymrwymedig mewn buddsoddi i ddatblygu ein staff. Mae'r holl raglenni Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth drugarog yn cael ei gwreiddio ym mhob rhaglen trwyddi draw. Mae'r prosesau wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod sgysiau trugarog ac sy'n seiliedig ar werthoedd yn cael eu cynnal ar adeg arfarnu. Mae arfarniadau wedi cynyddu 6.1% ers Ebrill 2019 i 73% ym mis Mawrth 2020.



Hyrwyddo Hyfforddi/Gweithio/Byw

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau recriwtio staff medrus, bydd BIPBC yn parhau i farchnata ei hunan mewn digwyddiadau recriwtio yng Nghymru a'r DU, gan hyrwyddo'r brand Hyfforddi/Gweithio/Byw Gogledd Cymru. Ar lefel leol, mae BIPBC yn cynllunio digwyddiadau recriwtio lle bydd ymgeiswyr yn gallu cael cyfweiliad a chynnig swydd ar yr un diwrnod. Rydym wedi symleiddio'r broses recriwtio N&M a M&D ymhellach, i sicrhau bydd staff sydd wedi'u recriwtio yn gallu dechrau yn ddiogel a chyn gynted â phosibl.

- ➔ Rhoddir pwyslais penodol ar wardiau gyda niferoedd uchel o swyddi gwag a bydd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn cael eu rhedeg drwy Facebook, Twitter ac Instagram.
- ➔ Er ein bod yn gobeithio gallu mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n hanghenion recriwtio'n lleol, rydym yn derbyn bod yr angen yn parhau i ffynonellu ymgeiswyr o bellach, felly yn Ch1 2020/21, bydd PBC yn parhau i adeiladu ar ei Raglen Recriwtio Rhyngwladol llwyddiannus, gydag ymroddiad i ffynonellu 50 nyrs gofrestredig arall y ffordd hyn.
- ➔ Ar gyfer staff meddygol a deintyddol, bydd Panel Recriwtio Meddygol un pwrpas wythnosol yn cynllunio, monitro a chyflymu'r gweithgaredd recriwtio. Rydym hefyd yn gweithio gydag arbenigwyr recriwtio allanol i'n helpu i ffynonellu pobl newydd i'w recriwtio i arbenigeddau anodd i'w llenwi

Nyrsys Newydd Gymhwyso

O fis Medi, disgwylir i fyfyrwyr nyrsio sy'n derbyn Bwrsariaeth Cymru aros yng Nghymru am 2 flynedd ar ôl cymhwyso. Nid oes rheidrwydd arnynt i barhau mewn swyddogaeth GIG, ond bydd hyn yn gwella'r ffordd rydym yn cadw myfyrwyr, yn enwedig ym maes Pediatreg, sef y maes byddwn yn colli ein staff yn bennaf i leoliadau trydyddol yn Lloegr

Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd

Darparwyd hyfforddiant dros y 18 mis diwethaf drwy Hwb QI PBI. Hyd yn hyn, mae 123 o staff wedi arwyddo ar gyfer Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd Arian (IQT), a 73% ohonynt wedi cwblhau'r holl ddyddiau astudio. Mae'r hyfforddiant IQT Arian bellach yn ffurfio rhan o hyfforddiant rheolwyr wardiau, gyda dwy garfan o reolwyr yn mynychu hyfforddiant hyd yn hyn. Safonwyd yr hyfforddiant gwella drwy ddatblygu gweithdrefn weithredu safonol. Mae Hwb QI PBC wedi dewis mynd yn fyw yn gynt na'r dyddiad lansio (Ebrill 2020) hyfforddiant gwella arferion, sy'n disodli'r IQT Arian gyda'r garfan gyntaf (17 staff) bellach hanner ffordd drwy eu hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Fel rhan o'r hyfforddiant gwella, mae QI PBC wedi datblygu cronfa ddata QI ar gyfer llwytho a rhannu prosiectau gwella ar draws BIPBC, fel bod eraill yn gallu mabwysiadu a dysgu, mae'r gronfa ddata hefyd ar agor i eraill gael llwytho eu gwaith gwella hefyd. Mae'r gronfa ddata yn hygyrch drwy <https://www.bcuqi.cymru/database-1>.

Rhaglenni Cymru o Blaid Affrica: Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

Mae BIPBC yn parhau i fod yn rhan o Bartneriaethau Siarter dros Iechyd Rhyngwladol (IHP), sy'n cydnabod cyfreithlondeb ymgysylltiad iechyd rhyngwladol, gyda'r nod o ddod â gwybodaeth a sgiliau yn ôl i Gymru i wella iechyd dinasyddion Cymru ynghyd â rhannu arferion gorau a gweithio gydag ystod o wledydd. Drwy ymgysylltu mewn blaengaredd rhyngwladol, gallwn ddysgu gan eraill i weithio i leihau anghydraddoldebau, tra'n rhannu ein profiadau ein hunain. Mae BIPBC yn cydnabod pwysigrwydd bod yn rhan o'r agenda iechyd rhyngwladol ac adlewyrchir hyn gan y Grŵp Iechyd Rhyngwladol (IHG) a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth/Dirprwy Brif Weithredwr.

Yn ogystal â bod o fudd i bobl mewn gwledydd tlotach sydd â llai o adnoddau a systemau gofal iechyd heb fod mor ddatblygedig, mae bod yn rhan o waith dyngarol dramor hefyd o fudd i'n staff ni mewn sawl ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys gwella eu sgiliau addysgu, adeiladu hyder arweinyddol, cynhyrchu syniadau ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd o fewn adnoddau cyfyngedig, dysgu am ddarparu gofal iechyd i bobl o wahanol ddiwylliannau a hefyd ennill profiad uniongyrchol o glefydau byd eang a all fod o risg i boblogaeth Cymru. Gellir defnyddio'r sgiliau a gwybodaeth estynedig rhain gan ein cydweithwyr ar ôl dychwelyd o dramor, er budd cleifion Gogledd Cymru. Mae timau o nyrsys lleol, meddygon, bydwragedd, arbenigwyr iechyd cyhoeddus, arbenigwyr TG, ymchwilwyr ac eraill yn gysylltiedig â'n gwaith cysylltiadau rhyngwladol, yn bennaf fel rhan o Raglen Cymru o Blaid Affrica.

Yng Ngogledd Cymru, mae cysylltiadau gweithredol â gofal iechyd yn ardal Quthing yn Lesotho, gofal ysbyty yn Ysbyty Hossana, Ethiopia a gofal cychwynnol a gofal llygaid yn Hawassa, Ethiopia, ac yn fwy diweddar, gofal iechyd yn Ysbyty Cyfeirio Sir Busia, Cenia. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae BIPBC wedi cefnogi gwaith y cysylltiadau drwy westeio'r Grŵp Iechyd Rhyngwladol (IHG), gan ddatblygu canllawiau cenedlaethol, codi ymwybyddiaeth, a thrwy alluogi staff i gymryd rhan mewn ymweliadau dwyochrog yn cynnwys partneriaid Cymru o Blaid Affrica.

Mae aelodau'r IHG wedi gwneud sawl ymweliad tramor - gan gynnwys y rhai i Lesotho, Tansania, Libia, Ghana ac Uganda fel rhan o'r cynllun Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (ILO); i Ethiopia i ddarparu cefnogaeth gwybodeg yn ogystal ag offthalmoleg, cardioleg a hyfforddiant adran achosion brys sylfaenol; i Lesotho i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl a gwrth-stigma HIV; a Cenia ar ymweliad darganfod gwybodaeth fel rhan o gynlluniau i sefydlu cysylltiad newydd. Yn dilyn ymweliad llwyddiannus i Ysbyty Cyfeirio Sir Busia yng Nghenia, mae'r cyswllt bellach yn paratoi i ymgymryd ag asesiad anghenion iechyd cynhwysfawr (HNA) o fewn Sir Busia a chynllunnir ail ymweliad ym Mai 2020. Cyllidwyd Cyswllt HNA Cenia gan Gynllun Grant Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae gan BIPBC restr o 150 o unigolion sydd un ai'n ymgymryd â gwaith rhyngwladol yn weithredol, yn gysylltiedig â chefnogi'r gwaith hwn neu sydd wedi mynegi diddordeb mewn gwirfoddoli. Ar hyn o bryd mae gwaith yn ei le ar gyfer adolygu'r gwirfoddoli, i gryfhau gallu'r unigolion i gymryd rhan mewn cyfleoedd megis IHP. Mae'r Bwrdd yn annog pob cysylltiad i weithio mewn partneriaeth gyda phrifysgolion lleol (Prifysgolion Bangor a Glyndŵr).

Gwirfoddolwyr

Cydnabyddir bod gan wirfoddolwyr ran bwysig wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG, drwy ychwanegu gwerth arwyddocaol at weithgareddau staff gofal iechyd cyflogedig. Mae'r cynllun Robiniaid yn un esiampl o hyn, gyda'u gwaith cyfeillio a dangos y ffordd. Ar hyn o bryd mae gennym dros 100 o Robiniaid ar draws y Bwrdd Iechyd ac ar gael i gefnogi mewn sawl swyddogaeth ar draws ein hysbytai llym a chymuned.

Ymatebodd BIPBC i'r angen i recriwtio cronfa bellach o wirfoddolwyr cyhoeddus generig i gwrdd â'r galw a ragwelwyd ar gyfer y pandemig Covid-19, ac o ganlyniad, cliriwyd 700+ o wirfoddolwyr ac yn barod i gefnogi yn ystod yr argyfwng. Mae 221 o wirfoddolwyr cyhoeddus wedi'n cefnogi yn ystod y pandemig ac yn parhau i wneud hyn mewn sawl swyddogaeth gefnogi - o ddanfôn meddyginiaethau i gefnogi danfon Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), i gynorthwyo cleifion a gwasanaethu ar dderbynfeydd.

Rydym wedi derbyn ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan sefydliadau trydydd sector ac elusennau, gan gynnwys y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, y Groes Goch Brydeinig a'n partner elusennol ein hunain, Awyr Las, sydd wedi cyfrannu'n eang i ddarparu gwirfoddolwyr a chefnogaeth pan fo ei angen.



Caplaniaid a Gofal Ysbrydol

Mae'r Gwasanaeth Caplaniaeth yn darparu gofal bugeiliol i staff yn ogystal â'n cleifion a'u teuluoedd. Yn ogystal â hyn, er mwyn cyflawni gofal bugeiliol dyddiol ein staff, mae'r Caplaniaeth wedi cyflwyno mentrau newydd dros y flwyddyn ddiwethaf sy'n cynnwys sbectwm ehangach ein byd o ysbrydolerwydd. Mae cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar dan arweiniad a chyngherddau ysbrydol wedi gwneud y mwyaf o'n gwasanaeth. Un o'r mentrau hyn yw bath y gong misol i staff yn Ysbyty Gwynedd - sydd wedi bod yn boblogaidd dros ben. Mae'r sesiynau amser te hyn wedi bod yn orlawn, ac mae cyflwyno sesiynau ioga yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd. Mae ein



Dathlu llwyddiant: Gwobrau Staff

Ein gweithlu yw ein hased pwysicaf i gyflawni ein pwrpas sef 'Gwella Iechyd a Darparu Gofal Rhagorol'. Rydym yn cydnabod eu gwaith caled ac ymroddiad drwy ein rhaglen gydnabod staff, sy'n cynnwys y wobr fisol "Seren Betsi". Mae llwyddiannau a gyflawnwyd yn allanol yn cynnwys gwobrau gan gyrff proffesiynol neu sefydliadau cymunedol, ac fe'u cydnabyddir drwy Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd. Bydd noson wobrwyo staff blynyddol hefyd yn dathlu cyflawniadau ac ymdrechion rhagorol staff a gwirfoddolwyr y Bwrdd Iechyd. Yn 2019, mynychodd dros 300 o bobl ginio gala i gydnabod rhagoriaeth mewn gofal iechyd yng ngogledd Cymru.



22/11/19

Gwobr Seren Betsi annisgwyl i Nyrs y Newydd-anedig sy'n helpu teuluoedd i gymryd rôl weithredol yng ngofal eu babi

Mae Nyrs ymroddedig o Ysbyty Glan Clwyd gyda di-gynnwys teuluoedd yng ngofal eu babanod sâl neu anedig wedi ennill gwobr gofal iechyd.



21/11/19

Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru yn cymryd rhan mewn astudiaeth unigryw

Cafodd grŵp o bobl yng Ngogledd Cymru gyfle unigryw i gymryd rhan mewn astudiaeth i ganfod p'un a all wella ansawdd eu bywyd yn dilyn triniaeth cancer.



12/11/19

Arweinydd nyrsio 'gwyh' yn ennill prif wobr er cof am ei diweddar chydweithiwr.

Mae arweinydd nyrsio gwyh wedi ennill prif wobr er cof am ei diweddar chydweithiwr.

Cafodd Jill Timmins ei henwi fel enillydd gwobr Jilly Wilcox-Jones mewn digwyddiad gala grand yn Venue Cymru i ddathlu Gwobrau Cyhaeddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2019.

Digwyddiad Rhaglen Arloesol Byddwch yn Falch Pasiwch Ymlaen/Dathliad

Fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu staff ar gyfer timau, Byddwch yn Falch, cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu ar ddiwedd carfan 1, i gydnabod, rhannu, a dathlu gwaith gwyd y timau ar eu taith 26 wythnos. Roedd hyn yn cynnwys rhannu pa offer ac ymagweddau a ddefnyddiwyd ganddynt i ddylanwadu ar ymgysylltiad staff o fewn eu timau, gweler rhai o'r lluniau isod.



Cydraddoldeb: Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau

Ein gweledigaeth yn BIPBC yw creu gogledd Cymru iachach, sy'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i bawb wireddu eu potensial llawn a helpu tuag at leihau anghydraddoldeb iechyd.

Er mwyn llywio cyfeiriad strategol BIPBC, mae'n hanfodol ein bod yn cael trosolwg clir a dealltwriaeth o'r problemau mwyaf sy'n wyneb pobl gyda gwahanol nodweddion gwarchodedig. Eleni rydym wedi ymgymryd ag adolygiad o'n amcanion cydraddoldeb. Rydym wedi tynnu tystiolaeth o ystod o adnoddau gan gynnwys ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?', casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol a chynnal ymgysylltiad gyda chymunedau, unigolion ac arbenigwyr i lywio ein blaenoriaethau a gosod amcanion ymhellach. Gellir cael mynediad at y Cynllun Strategol Cydraddoldeb drwy'r dolenni canlynol:

Cymraeg: <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/cynlluniau-strategol-cydraddoldeb/>

Saesneg: <https://bcuhb.nhs.wales/use-of-site/publication-scheme/class-five-our-policies-and-procedures/equality-and-human-rights/strategic-equality-plans/>

Mae hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhopeth a wnawn yn danategol i'n hegwyddorion allweddol o fewn holl gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ac yn gyfrifoldeb i'r holl sefydliad. Cyhoeddir cynnydd a gwybodaeth bellach am y gwaith a wnaed gennym i fwyafu cydraddoldeb yn ein Hadroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2019-2020;

Cymraeg: <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/annual-equality-report-2019-20/>

Saesneg: <https://bcuhb.nhs.wales/use-of-site/publication-scheme/class-five-our-policies-and-procedures/equality-and-human-rights/equality-and-human-rights/annual-report-2019-20/>

Y Diweddaraf ar y Mesurau Arbennig

Mae BIPBC wedi bod dan fesurau arbennig ers mis Mehefin 2015. Mae gwaith yn parhau i wella yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig (SMIF) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod hanner cyntaf y cyfnod adrodd hwn, roedd y Fframwaith yn cynnwys pedair thema: arweinyddiaeth a llywodraethu, cynllunio strategol a gwasanaeth, iechyd meddwl a gofal cychwynnol. Yn Nhachwedd 2019, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol SMIF diwygiedig, yn cynnwys y pedair thema arweinyddiaeth a gallu gwella, gweledigaeth strategol a newid, perfformiad gweithredol a chyllid a defnyddio adnoddau. Rhennir y fersiwn ddiweddaraf hon o'r SMIF yn Rhan A: disgwyliadau i'w bodloni fel lleiafswm er mwyn dad-ddwysau o fesurau arbennig a Rhan B: nodweddion mae'n rhaid i BIPBC eu harddangos i brofi ei fod yn cynnal ac adeiladu er mwyn camu lawr i statws trefniadau arferol.

Ymgwymerodd y sefydliad â hunan-adolygiad yn Rhagfyr 2019 yn erbyn disgwyliadau Rhan A. Nododd yr hunan-adolygiad y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau ansawdd megis y deunydd cynyddol o ddangosfyrddau integredig ar gyfer ystod o ddata/gwybodaeth; gofyniad dan y Rhaglen Achrediaeth Wardiau i wardiau i ymgymryd â phrosiectau gwella yn sgil pryderon ac adborth cleifion ac ystod o sioeau lôn gwella ansawdd 'Anelu am Aur'.

Mae'r mentrau i wella diogelwch cleifion yn ystod y mesurau arbennig yn cynnwys lansio Dangosfwrdd 'Niwed' wedi'i ddiweddarau; sefydlu'r Cydweithrediad Codymau Cleifion Mewnol i gefnogi meysydd gyda lefelau uwch o niwed, a darparu cynllun o fentrau'r gaeaf, megis cynyddu capasiti timau amlddisgyblaethol a phrosiectau i gefnogi adferiad cleifion yn eu cartrefi eu hunain. Mae gwaith rheoli heintiau wedi arwain at leihad mewn niferoedd o achosion MRSA.

Mae'r gwaith a ymgwymerwyd wedi arwain at amryw o welliannau i daith y claf, megis lansiad y Gwasanaeth Cymorth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) a sefydlwyd hybiau ym mhob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth; ad-drefnu gwelyau a phrosesau yn safle Wrecsam i greu capasiti meddygol symudol ac arhosiadau byr wedi'i leoli'n agos at yr Adran Achosion Brys; a'r model asesu a brys-bennu SiCAT sydd wedi arddangos cyfraniad arwyddocaol at gyfeirio cleifion at lwybrau gofal amgen.

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn erbyn disgwyliadau'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig a ddiwygiwyd a bod sawl carreg filltir, yn bennaf yn y meysydd allweddol cyllid, cynllunio a pherfformiad (gofal a gynlluniwyd a heb ei gynllunio) heb gael eu cyflawni'n llawn, cydnabyddir bod gwaith pellach arwyddocaol i'w wneud i fynd i'r afael â'r heriau parhaus. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn hollol ymroddedig a phenderfynol i gyflawni'r gwelliannau gofynnol er mwyn sicrhau dad-ddwysâd o'r mesurau arbennig

Edrych Ymlaen at 2020/2021

Ein gweledigaeth a phwrpas yw creu Gogledd Cymru iachach, sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial llawn a lleihau anghydraddoldebau iechyd ymysg ein poblogaeth. Felly, mae rhoi ansawdd yn gyntaf ym mhopeth a wnawn i ddarparu gofal iechyd rhagorol i'n poblogaeth leol yn hanfodol, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Rydym wedi gweld cymaint o'n staff yn croesawu gwella ansawdd a chodi safonau a gwella canlyniadau i'n cleifion. Ein Rhagolwg Tair Blynedd a Chynllun Blyneddol 2020/21 yw'r cynnyrch terfynol o broses integredig llawn, sydd wedi cynnwys gwasanaeth, ansawdd a diogelwch, cyllid ac ystyriaethau gweithlu i sicrhau ein bod â set o weithrediadau a'r hyn i'w darparu sy'n gydlynol, cyson ac uchelgeisiol.

Arweinir y gwaith hwn gan egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

Ein **huchelgeisiau** ar gyfer 2020/23:

Dod Allan o'r Mesurau Arbennig

Gwneud mwy o'n gwaith partneriaeth i gyflawni gwelliannau agenda anghydraddoldeb iechyd a gwella iechyd

Gweithredu ein model Gofal Cychwynnol i sicrhau bod pobl yn cael mynediad rhwydd ac amserol at wasanaethau a darparu cefnogaeth iechyd a gofal mor agos i gartrefi pobl â phosibl

Gweithredu llwybrau clinigol digidol, gan gefnogi mynediad amserol at ofal a gynlluniwyd a heb ei gynllunio diogel ac effeithiol, yn unol ag anghenion clinigol ynghyd â'r canlyniad gorau posibl

Ymgysylltu'n fwy eang a mireinio ein cynigion strategaeth clinigol digidol. Bydd angen adnoddau i ddarparu'r strategaeth uchelgeisiol hon, a fydd yn cynnwys buddsoddiad mewn systemau digidol a'r angen am staff cefnogi, sgiliau gweithlu newydd a galluoedd, cefnogaeth ddatblygu sefydliadol a grŵp llywio i arolygu datblygiad y strategaeth.

Ein blaenoriaeth o ran gweithredu yn **2020/21** yw gwneud cynnydd arwyddocaol tuag at gyflawni'r amcanion canlynol.

Gwella Ansawdd

Gweledigaeth a Newid Strategol

Datblygu strategaeth glinigol ddigidol gyda'n staff a phartneriaid

Gwell Perfformiad a Llywodraethu Gweithredol

Gan ganolbwyntio ein gwelliannau yn y metrigau allweddol canlynol:

- Gofal a drefnwyd/Cyfeirio am driniaeth
- Gofal heb ei drefnu

Arweinyddiaeth a Galluoedd Gwella Cryfach

Cefnogi ein rhaglenni trawsnewid gwasanaeth allweddol:

- Anghydraddoldeb iechyd a gwelliannau iechyd
- Gofal yn agosach i'r cartref

Ariannol Gynaliadwy

- Defnyddio'n adnoddau'n effeithiol
- Symud tuag at sefyllfa ariannol fwy cynaliadwy

Covid-19

Wrth i ddigwyddiadau ddatblygu, ar y dechrau yn Tsieina, ac yna mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, fe wnaethom ddechrau paratoi fel ein bod yn barod i wynebu ymchwydd mewn derbyniadau brys a'r galw am gyfleusterau gofal dwys. Ar yr un amser, bu raid i ni gynllunio sut i barhau i ddarparu gofal brys a hanfodol i gleifion gyda chyflyrau iechyd difrifol eraill mewn modd diogel.

Bu'r ymateb a ddilynodd wir yn arddangosiad o frwdfrydedd, ymroddiad ac arloesedd ein staff a chydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd a greodd argraff enfawr, gan ddarparu newidiadau radical i sut mae ein gwasanaethau'n gweithredu. Aildrefnwyd yr ysbytai i greu wardiau ychwanegol a chapasiti gofal dwys, i'n galluogi i greu cyfleusterau ar wahân i gleifion gyda a heb Covid-19 ac i ddarganfod ffyrdd i ddarparu gwasanaethau gan gadw at ymbellhau cymdeithasol.



Fe wnaethom ddechrau ar waith gyda sefydliadau partner allweddol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu tri ysbyty maes 'enfys', a fyddai'n darparu capasiti gwelyau ychwanegol, pe byddai'r niferoedd cleifion yn bygwth llethu ein gwasanaethau ysbyty arferol. Bu symudiad enfawr at ymgynghoriadau ffôn a rhithwir yn digwydd ar lein a bu cynnydd arwyddocaol mewn gwaith o bell ac o gartref.

Ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn, gwyddom nawr bod Gogledd Cymru wedi profi cynnydd arafach mewn niferoedd achosion o gymharu â rhannau eraill y DU, ond er ein bod yn parhau i weld ymchwydd achlysurol mewn achosion lleol, roedd y paratodau a wnaethom yn golygu bod staff wedi gallu rheoli'r niferoedd o gleifion oedd angen ein gwasanaethau.

Fe wnaethom golli dau aelod o'n staff rheng flaen yn drasig iawn i Covid-19, ac mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i Andy Treble, aelod o'r tîm theatrau llawdrinaethau yn Ysbyty Maelor Wrecsam a Rizal "Zaldy" Manalo, Nyrs Staff yn Ysbyty Glan Clwyd.

Rwyf am gloi fy natganiad drwy gynnig fy nioch i staff ar draws y Bwrdd Iechyd am eu hymdrechion drwy'r flwyddyn, ond yn enwedig dros y misoedd diwethaf. Mae'r rhain wedi bod yn amserau ethriadol i'r GIG oedd yn galw am ymateb eithriadol.

Simon Dean, Prif Weithredwr Dros Dro

Ymgysylltu – rhannu ein newyddion gyda'n cymunedau



🎉 Longyfarchiadau mawr i staff Ward Hydref, Uned Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, sydd wedi derbyn ein Achrediad Ward Aur cyntaf. Mwy yma: bcuhb.nhs.wales/news/health-bo...

Translate Tweet



5:57 pm · 19 Feb 2020 · Twitter for Android



Betsi Cadwaladr

Published by [Betsi Cadwaladr Uhb](#) (7) · 8 August 2019 ·

Ymunwch â thîm buddugol ar #ddiwrnodolaf trosglwyddo- mae Harry Redknapp, brenin diwrnod olaf trosglwyddo yn eich annog i gofrestru â'n gwirfoddolwyr Robiniaid. Darllenwch sut y gallwch wirfoddoli gyda'r GIG yng Ngogledd Cymru yma: bit.ly/bipbc-robiniaid



Rydym yn defnyddio ystod o gyfryngau i rannu newyddion, diweddariadau a gwybodaeth gyda'n cymunedau, gan ddefnyddio cyfryngau traddodiadol a digidol.

Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu ymgysylltu â'n cymunedau mewn amrywiol ffyrdd sy'n eu galluogi i gael mynediad at wybodaeth gyfredol unrhyw bryd.

Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mae cyhoeddiad yr AQS yn cyd-fynd â'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, sy'n rhan o adrodd blynyddol cyhoeddus y Bwrdd Iechyd, sy'n nodi ein darpariaeth gwasanaeth, amgylchedd a pherfformiad ariannol am y flwyddyn a disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu.

Mae ein Strategaeth Gwella Ansawdd 2017-2020 yn nodi sut byddwn yn darparu gofal diogel ac o ansawdd uchel i bawb byddwn yn eu trin. Mae'n disgrifio ein sefyllfa bresennol - yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, a'r pethau rydym angen eu gwella - ac yn nodi'r ystod o weithrediadau rydym yn ymgymryd â nhw i gyflawni'r gwelliannau. Mae ein Strategaeth Ansawdd ar gyfer 2020-2023 wedi dechrau a bydd yn cynnwys ymgysylltiad da.

Paratowyd Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella 2019-2020 yn unol â Rheoliadau PTR i ddarparu trosolwg o sefyllfa 2019/2020 o ran sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli pryderon yn ystod yr amser hwn. Mae'n darparu trosolwg o themâu a thueddiadau sy'n codi o Bryderon, gan gynnwys rhai o'r gwersi a ddysgwyd.

Gellir lawrlwytho'r holl ddogfennau hyn ac adroddiadau cyhoeddus eraill o wefan y Bwrdd Iechyd yn <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/trefniadau-llywodraethu-a-sicrwydd/>

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen yr adroddiad hwn. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu'n dymuno gwneud cais am wybodaeth bellach o ran yr adroddiad hwn, neu os hoffech gadw i fyny gyda newyddion o ran ein gwasanaethau, ewch i'n gwefan. Gellir dod o hyd i sut i gysylltu â'n gwasanaethau ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni': <https://bipbc.gig.cymru/>

Datganiad Ansawdd Blynyddol 2019 – 2020

Debra Hickman
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros
Dro

Annual Quality Statement 2019 – 2020

Debra Hickman
Acting Executive Director of Nursing &
Midwifery

Datganiad Ansawdd Blynyddol *Annual Quality Statement*

Ysgrifennir y Datganiad Ansawdd Blynyddol (AQS) yn bennaf ar gyfer y **Cyhoedd** ac mae'n rhan o'n proses adrodd blynyddol ac mae'n hysbysu:

- Pa mor dda rydym yn gweithredu;
- Arfer da i'w rannu a'i ledaenu'n eang;
- Meysydd i'w gwella;
- Adrodd ar gynnydd o un flwyddyn i'r llall.

The Annual Quality Statement (AQS) is written first and foremost for **members of the public** and is part of our annual reporting process and informs:

- How well we are doing;
- Good practice to share and spread widely;
- Areas for improvement;
- Reporting of progress, year on year.

Diogelwch Cleifion *Patient Safety*

- Codymau, HAPU a Phrosiectau Cydweithredol Sepsis
- Gwnaeth adran PICU Ysbyty Maelor ennill gwobr Tîm y Flwyddyn gan Nursing Times (gan haneru nifer yr ataliadau)
- 95 o wardiau bellach yn cael eu hasesu trwy Achrediadau Ward
- Falls, HAPU and Sepsis Collaboratives
- Wrexham MH PICU won Nursing Times Team of the Year (halving number of restraints)
- 95 wards now assessed through Ward Accreditation



Effeithiolrwydd Clinigol *Clinical Effectiveness*

- Y gyfradd uchaf o ran manteisio ar frechiad y fflw yng Nghymru
- Lansio dull Rheoli Risg Trawma (TRiM) sy'n cefnogi staff sy'n cael digwyddiad trawmatig
- Prosiect Adref yn Gyntaf
- 123 o staff wedi'u cofrestru ar Hyfforddiant Gwellu Ansawdd Arian
- 35 o lwybrau C-19 wedi'u cefnogi trwy CAG, a gyfarfu 59 gwaith
- Cafodd 119 o ymholiadau HECC eu hateb gan CAG yn ystod C-19
- Cymeradwyo ailddechrau 65 o lwybrau fel rhan o ailddechrau gwasanaethau clinigol 'arferol'
- Highest flu vaccination take-up rate in Wales
- Launch of Trauma Risk Management (TRiM) which is supporting staff who suffer a traumatic event
- Home First project
- 123 staff enrolled on Silver Quality Improvement Training
- 35 C-19 pathways endorsed through CAG, which met 59 times
- 119 HECC queries were answered by CAG during C-19
- 65 pathway re-starts approved as part of recommencing 'usual' clinical services



Profiad Cleifion Patient Experience

- Wedi lansio gwasanaethau PALS ar draws pob ardal leol
- Wedi cynnal cynhadledd flynyddol Cymru Gyfan mewn namau ar y synhwyrâu
- Yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd wedi'i graddio fel un o'r rhai gorau i hyfforddi ynddi yn y DU
- 1000 o staff wedi'u hyfforddi mewn gofal dementia
- Launched PALS services across all localities
- Hosted all-Wales annual sensory loss conference
- ED at Ysbyty Gwynedd ranked one of the best placed to train in the UK
- 1000 staff trained in dementia care



Meysydd i'w Gwella Improvement Areas

- Ailddechrau gwasanaethau a gafodd eu gohirio yn ystod COVID
- Amllder Digwyddiadau Byth Bythoedd llawfeddygol o'r niwed lleiaf
- Dysgu o ddigwyddiadau a chwynion
- Datblygu galluedd gwella ansawdd
- Atgyfnerthu strwythurau llywodraethu
- Re-commencement of services suspended during COVID
- Recurrence of low-harm surgical Never Events
- Learning from incidents and complaints
- Enhancing quality improvement capability
- Strengthening governance structures

COVID-19 COVID-19



- Newidiadau cyflym wedi'u gwneud mewn ymateb i'r pandemig
- Rhaglen hyfforddi “Yn ôl i'r Llawr” ar waith – 2,299 o staff wedi'u hyfforddi
- Hybiau gweithlu ar waith i gefnogi adleoli gwasanaethau clinigol hanfodol
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r brifysgol
- Llwyddiant ymateb wedi'i arwain yn glinigol, wedi'i hysbysu gan dystiolaeth glinigol
- Effaith glir grymuso staff clinigol
- Rapid changes made in response to the pandemic
- “Back to the Floor” training programme in place – 2,299 staff trained
- Workforce hubs in place to support redeployment to essential clinical services
- Partnership working with the university
- Success of a clinically led response, informed by clinical evidence
- Clear impact of empowering clinical staff

Blaenoriaethau 2020-21

2020-21 Priorities

- Datblygu strategaethau newydd ar gyfer Ansawdd, Diogelwch Cleifion, Profiad Cleifion a Gofalwyr
- Lansio Dangosfwrdd Ansawdd newydd – triongli data'n well
- Diwygio'r broses PTR – yn benodol, cwynion a digwyddiadau
- Lansio Cyfadran Ffactorau Dynol newydd
- Lanio methodoleg gwella Gofal Iechyd sydd wedi'i seilio ar Werthoedd
- Develop new strategies for Quality, Patient Safety, Patient and Carer Experience
- Launch new Quality Dashboard – better triangulation of data
- Revise PTR process – in particular complaints and incidents
- Launch new Human Factors Faculty
- Launch Value Based Healthcare improvement methodology

Diolch

Thank you

Unrhyw gwestiynau?

Any questions?

Trosolwg Ariannol 2019-20

Financial Overview 2019-20

Sue Hill

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid

Acting Executive Director of Finance

24 Medi 2020 / 24 September 2020

Targedau Ariannol Statudol *Statutory Financial Targets*

1. Y **dyletswydd ariannol cyntaf** yw sicrhau nad yw gwariant yn fwy na chyfanswm cyllid dros gyfnod o dair mlynedd.
2. Yr **ail ddyletswydd ariannol** yw i baratoi Cynllun Integredig Tymor Canolig dros y 3 blynedd sydd i ddod.

1. The **first financial duty** is ensure that expenditure does not exceed the aggregate funding over a three year period.
2. The **second financial duty** is to prepare a Integrated Medium Term Plan for the following 3 years period.

Targedau Ariannol Eraill *Other Financial Targets*

1. Talu 95% o'r holl anfonebau heb fod yn anfonaebau'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu anfoneb

2. Balans arian parod terfynol o fewn terfyn goddefiant

1. Pay 95% of all non-NHS invoices within 30 days of receipt of goods or invoice

2. Closing cash balance to be within tolerance limit

Perfformiad Ariannol 2019-20

2019-20 Financial Performance

Perfformiad yn erbyn targedau ariannol Performance against financial targets

	Terfyn/targed Limit/target	Union/ Actual 2019-20	Cyflawnwyd/ Achieved 2019-20	Cyflawnwyd/ Achieved 2018-19
Gwariant Adnoddau / Resource Expenditure	£1,622m	£1,661m	X	X
Gwariant Cyfalaf / Capital Expenditure	£24.1m	£24.1m	✓	✓
Nifer o anfonebau heb fod yn GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod / Number of non-NHS invoices paid within 30 days	95.0%	95.3%	✓	✓
Paratoi Cynllun Integredig Tymor Canolig / Preparation of an Integrated Medium Term Plan	Mae'r Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig ac felly yn gweithredu ar gynllun gweithredol blynyddol. The Health Board is in Special Measures and is therefore operating under an annual operational plan.			
Balans arian parod terfynol o fewn terfyn goddefiant / Closing cash balance within tolerance limit	£0 – 8.5m	£3.2m	✓	✓


Gwariant Refeniw Revenue Expenditure

		£'m
Costau gweithredu net (ar ôl incwm)/ Net operating costs (after income)	2019-20	£1,660.9m
Terfyn Adnoddau Refeniw / Revenue Resource Limit	2019-20	£1,622.2m
Gorwariant yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw / Overspend against Revenue Resource Limit	2019-20	£38.7m
Gorwariant 2018-19 Overspend in 2018-19	2018-19	£41.3m
Gorwariant 2017-18 Overspend in 2017-18	2017-18	£38.8m
Cyfanswm gorwariant Cumulative overspend	2017-18 to 2019-20	£118.8m

** Cafodd y Bwrdd lechyd wariant ychwanegol o c£1.2m yn ymwneud â Covid-19 yn ystod 2019-20
The Health Board incurred c£1.2m expenditure relating to Covid-19 during 2019-20*


Gwariant fesul Uwch Adran

Expenditure by Division




- Timau Ardal / Area Teams
- Timau Gofal Eilaidd / Secondary Care Teams
- Gwariant Arall / Other Expenditure
- Contractau Comisiynwyr / Commissioner Contracts
- Iechydd Meddwl ac Anableddau Dysgu / Mental Health & Learning Disabilities

Gwariant fesul Categori Expenditure by Category



Defnydd Staff Asiantaeth

Agency Staff Use 2018-19 – 2019-20



Buddsodiadau Cyfalaf Capital Investments

Gwariant Cyfalaf / Capital Expenditure £24.1m	£'m
Ystadau / Estates	6.6
Dyfeisiau Meddygol / Medical Devices	4.0
IM&T	2.8
Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd Emergency Department	2.4
Cynlluniau Trawsnewid Digidol / Digital Transformation Schemes	2.0
Sganiwr CT Scanner Ysbyty Glan Clwyd	1.9
Covid-19	0.9
System Gweinyddu Cleifion Cymru (SGCC) / Welsh Patient Administration System (WPAS)	0.6
Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych / North Denbighshire Community Hospital	0.6
Arall / Other	2.3
	24.1

- Cyflwynwyd y Cyfrifon ar amser yn unol â therfyn amser Llywodraeth Cymru.
- Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol o ran adrodd yn ystod yr archwiliad.
- The Accounts were submitted in line with agreed Welsh Government deadline.
- No material misstatements or reporting inconsistencies were identified during the audit.

- Mae'n cydnabod y llwyddiant sylweddol o baratoi'r adroddiadau ariannol erbyn y dyddiad gofynnol
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn archwilio diamod ar y cyfrifon a barn amodol ar Reoleidd-dra
- Recognises the significant achievement of preparing the consolidated financial statements by the submission date
- The Auditor General issued an unqualified audit opinion on the financial statements and a qualified opinion on Regularity

Edrych ymlaen at 2020-21

Looking Forward 2020-21

Y cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

- Fframwaith Mesurau Arbennig
- Her ariannol a'r angen a gofynion arbedion
- Pwysau gweithredol
- Er mwyn darparu'r cynllun, bydd angen newid trawsnewidiol sylweddol i wella perfformiad ariannol
- ***Ymateb i Covid-19***

The National and Local Context

- Special Measures framework
- Financial challenge and savings requirement
- Operational pressures
- Delivery of the plan requires significant transformational change to improve financial performance
- ***Response to Covid -19***

Edrych ymlaen at 2020-21 Looking Forward 2020-21

	Cynllun / Plan 2019-20	Gwirioneddol / Actual 2019-20	Cynllun / Plan * Ebrill / April 2020-21
Dyraniad adnoddau refeniw gwirioneddol/wedi'u cynllunio Actual / planned revenue resource allocations	£1,622m	£1,622m	£1,517m
Perfformiad adnoddau refeniw (gorwariant) Revenue resource performance (overspend)	£35.0m	£38.7m	£40.0m
Targedau arbedion rhyddhau arian parod gwirioneddol/wedi'u cynllunio Actual / planned cash releasing savings targets	£25.0m	£22.1m	£45.0m

*** Datblygwyd y cynllun cyn y pandemig Covid-19**
The plan was developed prior to the Covid-19 pandemic

Cwestiynau?
Questions?

Diolch
Thank you